Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg

Cyflwyniad 3

RHAN 1:
Statws y Gymraeg 17

RHAN 2:
Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 45

RHAN 3:
Cynyddu defnydd 117

RHAN 4
Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun 220

Crynodeb gweithredol 301

Cyflwyniad



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cyflwyniad 3

Rhagair y Comisiynydd 5

Cefndir a chyd-destun 7

Adroddiadau 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg 7

Cysgod cyfrifiad 8

Cysgod COVID-19 12

Un o filiwn 13

Nod a strwythur yr adroddiad 14

Gair am yr awdur 16

Rhagair y Comisiynydd



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Mae'n bleser mawr gen i gyflwyno ail adroddiad statudol y Comisiynydd ar sefyllfa'r Gymraeg, sy'n craffu'n benodol ar y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2020.

Efallai bod cymryd stoc o sefyllfa'r Gymraeg bob pum mlynedd yn ymddangos yn eithafol i rai – i ba raddau gall sefyllfa iaith newid yn arwyddocaol mewn cyfnod mor fyr? Ond gwn o brofiad fod wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth! A gwn bellach fod modd dweud rhywbeth tebyg yng nghyd-destun polisi iaith: mae potensial i'r datblygiadau a'r newidiadau a gyflwynir mewn cyfnod o bum mlynedd gael effaith drawsnewidiol ar statws a sefyllfa iaith leiafrifol.

Yn sicr fe welwyd newidiadau gwleidyddol a deddfwriaethol sylweddol mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Daeth cyfnod strategaeth *Iaith fyw: iaith byw* i ben a chyflwynwyd strategaeth uchelgeisiol *Cymraeg 2050* i gymryd ei lle. Cafwyd ymgais aflwyddiannus i gyflwyno deddf iaith newydd a sefydlu asiantaeth hyrwyddo hyd-braich, a sefydlwyd yn lle hynny uned Prosiect 2050 o fewn i'r Llywodraeth a memorandwm cydweithio newydd rhwng y Comisiynydd a'r Llywodraeth. Gwelwyd trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y Gymraeg i weinidog newydd wrth i Alun Davies AC ildio'r awenau i Eluned Morgan AC, a phenodwyd fi yn Gomisiynydd yn dilyn ymddeoliad Meri Huws. Ond y datblygiad mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, yn fy nhyb i, yw'r hawliau newydd a ddaeth i ran siaradwyr Cymraeg wrth i'r safonau iaith cyntaf ddod yn weithredol.

Gwelwyd newidiadau cyfansoddiadol sylfaenol yn ystod y cyfnod adrodd hefyd: rhai a fyddai wedi ymddangos yn annhebygol neu'n amhosibl gwta bum mlynedd yn ôl. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cyfnod adrodd cynhaliwyd refferendwm ynghylch a ddylai'r Deyrnas Unedig barhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ai peidio: dadl a ddominyddodd y pum mlynedd diwethaf. Ac er i ni adael yn swyddogol ar ddiwedd cyfnod adrodd yr adroddiad hwn, bydd effaith y newid yn destun craffu a sylwebaeth am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt. *Cadarnhau* a *diogelu'r* Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig a wnaeth Deddf Cymru 2017, ar y llaw arall. Symudwyd at fodel datganoli grymusach a datganolwyd rhagor o bwerau i'r Cynulliad, gan gynnwys penderfynu ar ei enw ei hun. Mae'r enw swyddogol newydd a roddwyd i'r Cynulliad yn 2020 – Senedd Cymru – yn ddatganiad o hyder y Senedd yn ei statws cyfansoddiadol newydd.[1]

Noder bod yr holl ddolenni at wefannau neu dudalennau gwe yn y troednodiadau yn gywir adeg cyhoeddi'r adroddiad.

1 Defnyddir hen enw'r Senedd, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu 'y Cynulliad', a chyfeirir at Aelodau'r Senedd fel Aelodau'r Cynulliad yn yr adroddiad hwn os trafodir hwy yng nghyd-destun y cyfnod cyn ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru.

A phwy ohonom fyddai wedi dychmygu'r newidiadau seismig a ddaeth i'n profiad ni oll yn sgil COVID-19? Mae pandemig COVID-19 wedi'n gorfodi ni i gyd i ailfeddwl y ffordd rydym ni'n gweithio, yn cymdeithasu, ac yn byw. Er ei bod hi'n rhy gynnar i fesur ei effaith yn llawn, does dim dwywaith na fydd effaith COVID-19 ar y Gymraeg – fel pob rhan arall o fywyd – yn sylweddol. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu adroddiad ar effaith COVID-19 ar y Gymraeg ac mae'n bwysig i'r adroddiad hwnnw gael ei ystyried yn llawn wrth i'r Llywodraeth newydd fynd ati i gynllunio sut orau i wireddu gweledigaeth *Cymraeg 2050*. Yn sicr, bydd gofyn am ymroddiad ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru wrth ailgodi ac ail-greu dros y blynyddoedd nesaf, ac mae'n hanfodol bod y Gymraeg yn cael lle canolog yn y cynlluniau adfer.

Dyna awgrym felly o gyd-destun cyfnod yr adroddiad hwn. Mae'n gofnod hanesyddol ar un olwg a fydd o ddiddordeb i ymchwilwyr a haneswyr y dyfodol. Ond nid fy mwriad i wrth lunio adroddiad 5-mlynedd yw creu cyfrol hanesyddol i gronni llwch ar silff. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg manwl o ddatblygiadau mewn gwahanol feysydd er budd y rheini sy'n llunio polisïau, yn gwneud penderfyniadau, ac yn eu rhoi nhw ar waith. Fy nod wrth eu cofnodi yw sicrhau bod y rheini sy'n llunio polisïau'r dyfodol yn gallu benthyg syniadau a gweld pa rai sydd wedi bod yn effeithiol – yn ogystal â deall pa rai sydd angen eu gwella.

Dylwn bwysleisio yn y fan hon nad dim ond y rheini sy'n llunio polisïau ym 'maes y Gymraeg' yw cynulleidfa darged yr adroddiad hwn. Nid yw'r iaith yn bodoli mewn gwagle. Os ydym ni o ddifri am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 mae angen chwyldro yn y modd yr ydym yn synio am y Gymraeg. Nid 'pwnc' neu 'faes polisi' digyswllt neu ar wahân ydyw, ond cyfrwng byw sy'n berthnasol i bob un maes pwnc arall. Er bod angen arbenigwyr pwnc ar y Gymraeg, a Gweinidog i gymryd cyfrifoldeb drosti, rhaid cydnabod ei natur drawsbynciol hefyd. Mae yna chwaraewyr allweddol eraill – gan gynnwys pob un o Weinidogion Cymru – y mae angen eu dwyn i gyfrif mewn perthynas â hi, fel y sylwodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ei adroddiad gwaddol am y Bumed Senedd.[2]

Nodais ar ddechrau'r rhagair ei bod yn bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad 5-mlynedd hwn. Ac ar un llaw mae hynny'n wir, mae'n bleser gen i gyflwyno ymdrechion cydweithwyr a phartneriaid sydd wedi ymlafnio yn ystod y cyfnod hwn o blaid y Gymraeg. Mae llawer gennym i'w ddathlu ac nid oes modd i adroddiad swmpus fel hwn, hyd yn oed, wneud cyfiawnder â phob un ymdrech glodwiw. Ond nid yw pob adran o'r adroddiad yn cynnig deunydd darllen pleserus, ysywaeth. Mae yna nifer o feysydd lle na welwyd cynnydd digonol yn ystod y cyfnod adrodd, lle collwyd cyfleon, neu lle na roddwyd ystyriaeth deg a theilwng i'r Gymraeg. Nid wyf yn swil i amlygu'r rhain na chynnig barn ynghylch sut y mae'n rhaid gwella yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn nhymor ymgynnull Senedd newydd a mawr obeithiaf y bydd unrhyw anesmwythyd wrth ddarllen yn arwain at *weithredu*, gan osod her amserol i lunio polisïau beiddgar o blaid y Gymraeg. Polisïau a fydd yn arwain at gyflawni gweledigaeth *Cymraeg 2050* yn llawn, lle caiff statws swyddogol yr iaith ei barchu a siaradwyr newydd dirifedi eu creu; lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio a'i mwynhau ym mhob agwedd ar fywyd, a'i thrysori gan genedlaethau'r dyfodol.



2 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru, ***Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd*** (Mawrth 2021), t. 5.

Cefndir a chyd-destun

Adroddiadau 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg

1.1

Dyma ail adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg ar sefyllfa'r Gymraeg a gyhoeddir yn unol ag adran 5, rhan 2 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ei ragflaenydd oedd yr adroddiad cyntaf o'i fath felly: roedd yn unigryw yn ei hanfod. Un o'r ffactorau a wnaeth yr adroddiad hwnnw'n unigryw oedd nad oedd yn mynd i'r afael â chyfnod o bum mlynedd mewn gwirionedd. Yn hytrach, roedd yn adrodd ar y cyfnod rhwng agor drysau swyddfa'r Comisiynydd ar 1 Ebrill 2012 a diwedd Rhagfyr 2015, yn unol â gofynion y Mesur. Dyma'r adroddiad 5-mlynedd cyntaf felly i adrodd ar gyfnod o bum mlynedd llawn o 1 Ionawr 2016 hyd 31 Rhagfyr 2020: mae hwn hefyd felly'n adroddiad cyntaf o'i fath.

1.2

Bydd cadw ffocws caeth ar y cyfnod adrodd yn nodwedd ar yr adroddiad hwn. Bydd yn ymwrthod â'r demtasiwn i gyfeirio'n ôl at ddigwyddiadau neu ddatblygiadau hanesyddol, a bydd gofyn i'r darllenydd groesgyfeirio â'r adroddiad 5-mlynedd cyntaf ar brydiau pe bai angen rhagor o gymorth i ddeall rhai o'r datblygiadau yn eu cyd-destun cronolegol. Bydd hefyd yn ymwrthod â'r demtasiwn i grybwyll datblygiadau a welwyd yn y cyfnod rhwng diwedd y cyfnod adrodd a chyhoeddi'r adroddiad hwn – waeth pa mor arwyddocaol ydynt.

1.3

Nid ystyriaethau ynghylch y cyfnod adrodd yw'r unig ffactor sy'n gwneud yr adroddiad hwn yn wahanol i'w ragflaenydd. Neilltuwyd cyfran helaeth o'r adroddiad cyntaf i ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2011, fel y mae'r Mesur yn ei ofyn. Er i Gymru lenwi ffurflenni cyfrifiad ar 21 Mawrth 2021 nid yw'r canlyniadau eto ar gael ac nid yw eu trafod yn rhan o orchwyl yr adroddiad hwn. Wrth i ni aros yn ddisgwylgar am y data awdurdodol am nifer a chanran siaradwyr Cymraeg Cymru, ein gorchwyl ni yma fydd craffu ar ddatblygiadau polisi yn ystod y cyfnod adrodd ac ystyried eu potensial i gyfrannu'n bositif – neu fel arall – at y niferoedd hyn.

Cysgod cyfrifiad

1.4

Er nad ymdrinnir yn fanwl â chanlyniadau cyfrifiad yn yr adroddiad yma, mae'n anorfod bod cysgod Cyfrifiad 2011 i'w weld drosto, fel y mae dros bob datblygiad polisi yn ymwneud â'r Gymraeg ers cyhoeddi'r canlyniadau am ostyngiad yn nifer y siaradwyr. Bu'r gostyngiad o dros 20,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011, ynghyd â'r gostyngiad yn nifer y cymunedau lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (o 53 cymuned yn 2001 i 39 yn 2011), yn gatalydd ar gyfer gweithgarwch y cyfnod adrodd.[3]





1.5

Diau mai'r gweithgarwch a ddangosodd ddylanwad canlyniadau Cyfrifiad 2011 amlycaf yn ystod y cyfnod adrodd oedd cyhoeddi strategaeth iaith y Llywodraeth lle rhoddwyd targed ynghylch niferoedd yn deitl arni. Lansiodd Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*[4] ym mis Gorffennaf 2017. Dyma ei 'dull hirdymor [...] o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'[5] a phenllanw proses ymgynghori a lansiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2016, yr un wythnos ag y lansiwyd yr adroddiad 5-mlynedd cyntaf. Mae'r Rhagair i'r strategaeth yn dwyn llofnod Alun Davies AC, y Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, yn ogystal â'r Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru ar y pryd: datganiad symbolaidd o uchelgais a statws y strategaeth.

1.6

Gyda chyhoeddi'r strategaeth hon cyhoeddwyd hefyd fwriad i ailedrych ar holl gwestiwn pwy oedd yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg yng Nghymru. Roedd hyn yn ymrwymiad a wnaethpwyd eisoes gan y Llywodraeth yn ei rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* ac mae'n gwestiwn sy'n nodweddu'r cyfnod adrodd. Wrth gyflwyno'r weledigaeth yn ei strategaeth eglurodd y Llywodraeth ei bwriad i '[d]deddfu i osod seilwaith cadarn i'r iaith' ac i ymdrechu i '[g]adw cydbwysedd addas rhwng ymdrechion i hybu a hwyluso defnydd o'r iaith mewn modd cadarnhaol a chynhwysol, hybu'r gwaith o gynllunio darpariaeth yn y Gymraeg yn fwy systematig, a fframwaith rheoleiddiol cadarn.'[6]

3 Am drafodaeth lawn ar ganlyniadau'r cyfrifiad mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, gweler Rhan 2 yn Comisiynydd y Gymraeg, ***Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015*** (2016), tt. 33–85.

4 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*** (2017).

5 Dyfynnir o'r trosolwg ar ddechrau ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***.

6 **Ibid**., t. 13.

1.7

Fis yn ddiweddarach, yn Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017, cyhoeddodd Alun Davies AC, oedd yn dal i fod yn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ymgynghoriad ar y papur gwyn *Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg.*[7] Ymgais oedd y papur hwn i edrych eto ar y trefniadau a'r dyraniad cyfrifoldebau a roddwyd mewn lle adeg diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012, pryd sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg â'r prif nod statudol o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Prif ysgogiad y Llywodraeth wrth gyflwyno'r papur gwyn oedd ceisio gwell cydbwysedd rhwng yr hyn a welai fel 'gormod o bwyslais ar reoleiddio, a diffyg pwyslais ar hybu'.[8]

1.8

Croesawyd yr awgrym ynghylch sefydlu asiantaeth hyd-braich newydd i hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol gan fudiadau pwyso'r Gymraeg. Yn wir, roedd sefydlu 'Asiantaeth Iaith Genedlaethol hyd braich' yn rhywbeth y galwodd Dyfodol amdano yn ei ddogfen maniffesto yn 2015.[9] Croesawyd yr awgrym gan Blaid Cymru hefyd, roedd sefydlu 'Asiantaeth Iaith Genedlaethol yn sefydliad annibynnol yn gyfrifol am hyrwyddo'[10] yn addewid maniffesto ganddi hithau a'r weledigaeth hon yn gyrru'r gyllideb ychwanegol a sicrhawyd i'r Gymraeg yn ei chytundeb cyllidebol â'r Blaid Lafur.[11] Croesawodd y Comisiynydd ar y pryd, Meri Huws, awydd y Llywodraeth i gael trafodaeth o'r newydd am gyfrifoldebau hybu ond gan nodi ar yr un pryd ei gofidiau am 'golli momentwm' cyfundrefn reoleiddio gymharol ifanc.[12]

1.9

Nid y Comisiynydd oedd yr unig un oedd yn poeni am golli momentwm y gyfundrefn reoleiddio newydd, lai na dwy flynedd wedi iddi ddod i rym. Roedd Cymdeithas yr Iaith, er enghraifft, yn bendant eu barn mai'r 'bin' oedd priod le'r papur gwyn gan y byddai'n 'troi'r cloc yn ôl' drwy wanhau hawliau dinasyddion.[13] Daethant i'r casgliad:

> Bod cynigion y papur gwyn mor bell o ddeddfwriaeth gall a fyddai'n amddiffyn ac ymestyn hawliau i'r Gymraeg y byddai'n well peidio â deddfu o gwbl na phasio cynigion o'r fath, a bwrw ati i wneud y gwaith y gellir ei wneud, ond sydd heb ei wneud, o dan y Mesur presennol.[14]

Sylwodd mynychwyr seminar i drafod cynigion y bil a drefnwyd gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ar y 'risg' y byddai awydd y Llywodraeth i ddeddfu yn arwain at gyfnod o 'drafod strwythurau, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithredu'. Pwysleisiwyd yno hefyd fod angen 'sicrhau na fydd unrhyw ddiwygiadau a gaiff eu cyflwyno gan y Bil arfaethedig yn arwain at oedi neu golli momentwm mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ers 2011'.[15]

7 Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori ar y Papur Gwyn Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg*** (9 Awst 2017).
8 **Ibid.**, t. 2.
9 Dyfodol, ***Creu Dyfodol i'r Gymraeg: Rhaglen Weithredu*** (2015), t. 5.
10 Plaid Cymru, ***Y Newid sydd ei Angen/The Change Wales Needs: Maniffesto 2016 Manifesto*** (2016), t. 171.
11 **Cytundeb y Gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru | LLYW.CYMRU** (1 Hydref 2017).
12 Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'r ddogfen ymgynghori ar y Papur Gwyn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg (2017).
13 **Bil y Gymraeg i'r Bin - Ymateb i'r Ymgynghoriad | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**.
14 **Ymateb Cymdeithas yr Iaith i'r ddogfen ymgynghori ar y Papur Gwyn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg** (2017), t. 2.
15 Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, ***Taro'r cydbwysedd yn iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg: Cloriannu cynnwys Papur Gwyn Llywodraeth Cymru*** (Adroddiad ar seminar a gynhaliwyd yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd 29 Medi 2017), t. 7.

1.10

Nid oes lle yn yr adroddiad hwn i ymdrin â phob agwedd ar y drafodaeth am fanteision ac anfanteision yr amryw strwythurau a drafodwyd mewn perthynas â chynigion y papur gwyn. Cydnabyddir hefyd fod gan y Comisiynydd fuddiant amlwg yn y drafodaeth ag yntau'n gyfrifol am weithredu sawl agwedd ar y gyfundrefn gyfredol.

1.11

Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ymchwiliad i gefnogi a hybu'r Gymraeg yn 2018–19 er mwyn rhoi cynigion y papur gwyn yn eu cyd-destun ehangach ac mae modd astudio adroddiad y pwyllgor hwnnw er mwyn cael blas ar drafodaethau'r cyfnod a barn arbenigwyr annibynnol.[16] Digon yn y fan hon felly yw cyfeirio'r darllenydd at gasgliad y Pwyllgor ynghylch y cynnig i ddeddfu:

> Nid oeddem wedi ein hargyhoeddi, ar y cyfan, bod angen deddfwriaeth newydd ar hyn o bryd, na bod y dystiolaeth ar gyfer hynny yn arbennig o gadarn. Fodd bynnag, ni ddylai deddfwriaeth fyth fod yn statig, ond dylai adlewyrchu anghenion cymdeithas ar y pryd.[17]

1.12

Ar 1 Chwefror 2019 gwnaeth Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y pryd, ddatganiad ysgrifenedig yn cadarnhau ei bod hithau wedi dod i'r un casgliad – wedi ei chynorthwyo gan y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor – ac na fyddai'n bwrw ymlaen â'r syniad o Fil y Gymraeg. Nodwyd hefyd ei bwriad i gydweithio â'r Comisiynydd i weithredu newidiadau perthnasol i'r drefn reoleiddio ac i edrych eto ar y modd y mae cyfrifoldebau hybu'r Gymraeg wedi eu dyrannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd.[18]

1.13

Ar 1 Ebrill 2019 dechreuodd Aled Roberts yn swyddogol yn ei rôl fel Comisiynydd y Gymraeg ac erbyn mis Awst 2019 cyhoeddwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng y Llywodraeth a'r Comisiynydd yn amlinellu sut y byddai'r cyfrifoldebau am hybu yn cael eu dyrannu.[19] Ym mis Awst 2019 hefyd, ar faes Eisteddfod Llanrwst, y datgelodd y Gweinidog gynlluniau i sefydlu 'uned amlddisgyblaethol newydd' Prosiect 2050 â'r dasg o '[g]ydlynu'r gwaith o gynllunio ein llwybr tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr'.[20]

1.14

Serch y drafodaeth gyhoeddus hon am ba sefydliad(au) oedd i ddwyn cyfrifoldeb dros hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, mae'n amlwg fod gan y Llywodraeth nod o weld pawb yn 'r[h]annu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg'.[21] Does dim amheuaeth nad yw'r Llywodraeth wedi llwyddo yn hynny o beth a'r weledigaeth a'r slogan am filiwn o siaradwyr wedi cydio yn nychymyg sefydliadau ac unigolion ledled y wlad. Yr hyn y mae amheuaeth yn ei gylch, fodd bynnag, yw a yw'r ymdrechion a gyflwynwyd hyd yma'n ddigonol i wireddu'r uchelgais fawr, genedlaethol hon.

16 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cefnogi a hybu'r Gymraeg*** (Gorffennaf 2019).
17 **Ibid**., t. 15.
18 **Datganiad Ysgrifenedig: Bil y Gymraeg (1 Chwefror 2019) | LLYW.CYMRU**.
19 **Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU**.
20 **Gweinidog yn datgelu mesurau newydd i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | LLYW.CYMRU**.
21 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 7.

1.15

Mae'n naturiol felly fod pobl yn chwilio am arwyddion cynnar o dwf tuag at y miliwn. Hyn sydd i gyfrif am y diddordeb sylweddol yng nghanlyniadau addawol yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg. Ar gyfer y flwyddyn galendr yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, er enghraifft, adroddodd yr Arolwg Blynyddol fod 29.1% o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 883,600 o bobl ac mae wedi cynyddu'n raddol bob blwyddyn ers mis Mawrth 2010 pan adroddwyd bod 25.2% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (neu 731,000 o bobl tair oed a throsodd).[22] Hawdd gweld sut y byddai'r niferoedd hyn yn codi gobeithion gwlad sy'n cyrchu at y miliwn.

1.16

Fodd bynnag, rhybuddia Llywodraeth Cymru'n eglur mai'r cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol er mwyn mesur cynnydd at y miliwn. Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn gyson is na'r Arolwg Blynyddol a chyhoeddwyd blog gan y Prif Ystadegydd yn egluro sut y dylid dehongli'r data o'r Arolwg Blynyddol[23] ynghyd â bwletin ystadegol penodol sy'n cynnig rhagor o wybodaeth am y berthynas rhwng yr Arolwg Blynyddol a'r cyfrifiad.[24]

1.17

O dderbyn cyngor y Prif Ystadegydd am sut i ddehongli'r arolygon hyn, bydd yn rhaid chwilio am ddulliau eraill o fesur cynnydd ac effeithlonrwydd ynghyd â dichonolrwydd y fethodoleg a fabwysiadwyd hyd yma. Ymgais i fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn ynghylch digonolrwydd yr ymdrechion a'r ymyraethau a welwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf yw prif nod yr adroddiad hwn mewn gwirionedd.

1.18

Er derbyn y bydd angen aros nes y gwelwn ganlyniadau Cyfrifiad 2021 i dderbyn diweddariad dibynadwy ac awdurdodol am wir sefyllfa'r niferoedd, y gobaith wrth gynllunio'r adroddiad hwn yn wreiddiol oedd y byddai Arolwg Defnydd Iaith wedi ei gynnal mewn pryd i adrodd am ail amcan (anghofiedig ar brydiau) *Cymraeg 2050*, sef cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Ein bwriad cychwynnol oedd y byddai'r adroddiad 5-mlynedd hwn yn rhoi pwyslais neilltuol ar ddefnydd, gan dderbyn mai niferoedd fydd prif bwyslais naturiol pob adroddiad a gyhoeddir yn dilyn cyfrifiad.

1.19

Er i Lywodraeth Cymru lansio Arolwg Defnydd Iaith yng ngwanwyn 2019, bu'n rhaid dirwyn yr arolwg i ben yn annhymig o ganlyniad i gyfyngiadau argyfwng pandemig COVID-19. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi'r canlyniadau a gasglwyd ond ni fydd y data hwnnw'n ddigonol i fodloni'r angen am Arolwg Defnydd Iaith cenedlaethol cyflawn: ni fydd maint y sampl yn caniatáu dadansoddi fesul awdurdod lleol, er enghraifft. Bydd yn rhaid aros felly cyn cael Arolwg Defnydd Iaith cyflawn y gellid ei gymharu'n ystyrlon â'r arolwg a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg rhwng 2013 a 2015.[25]

22 Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2020 | LLYW.CYMRU.
23 Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth | Blog Digidol a Data (llyw.cymru).
24 Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2001 i 2018 | LLYW.CYMRU.
25 Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013–15* (26 Tachwedd 2015).

Cysgod COVID-19

1.20

Nid yr Arolwg Defnydd Iaith yw'r unig weithgaredd perthnasol i'r adroddiad hwn a oedwyd o ganlyniad i argyfwng pandemig byd-eang COVID-19. Oedwyd pob agwedd ar ein bywydau beunyddiol wrth i lywodraethau gyflwyno cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020 er mwyn atal lledaeniad y feirws. Pwy fyddai wedi gallu rhagweld y tro ar fyd a ddaeth yn ei sgil? Y cau ar ddrysau ysgolion, busnesau a swyddfeydd; y gohirio ar wyliau, digwyddiadau a dathliadau; a'r gwahardd ar gwrdd â theulu a cheraint. A phob un o'r cyfyngiadau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ymdrechion i greu siaradwyr newydd a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith.

1.21

Mae'n anorfod y bydd cysgod COVID-19 dros yr adroddiad hwn gan ei fod yn cael ei ddrafftio mewn cyfnod lle mae'r feirws yn parhau i gael effaith pellgyrhaeddol a thrawsnewidiol ar y modd rydym yn byw.

1.22

Ond cysgod yn unig fydd yma. Byddai'n hawdd iawn neilltuo cyfran helaeth o'r adroddiad i drafod COVID-19 ac athronyddu am y dinistr economaidd, addysgiadol, cymunedol a diwylliannol – yn ogystal â'r arloesi a'r cyfleoedd annisgwyl – sy'n rhwym o ddod yn ei sgil. Fodd bynnag, adrodd ar gyfnod o bum mlynedd yw cylch gorchwyl yr adroddiad hwn a cheir ymgais ynddo i roi sylw cytbwys i ddatblygiadau ym mhob blwyddyn o'r cyfnod adrodd, er bod dechrau'r cyfnod yn teimlo'n bell yn ôl erbyn ei gyhoeddi.

1.23

At hynny, mae'n rhy gynnar i ddeall yn llawn beth fydd gwir draweffaith argyfwng COVID-19 ar sefyllfa'r Gymraeg a ninnau'n dal i fod yn ei ganol. Nid oes sicrwydd gennym eto ynghylch pa mor bellgyrhaeddol neu barhaol yw rhai o'r newidiadau cymdeithasol rydym wedi eu profi ers gwanwyn 2020. Yn hydref 2020 dechreuodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu archwilio effaith y pandemig ar y Gymraeg. Mae adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2020 yn cynnig crynodeb hwylus o brofiadau sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod misoedd cyntaf y pandemig a'r effaith a gafodd ar eu gwaith.[26]

1.24

Ond mewn pandemig sy'n newid yn gyflym mae'r profiadau a'r sefyllfaoedd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw hefyd yn dyddio'n gyflym. Bydd argymhellion y Pwyllgor yn para, fodd bynnag, a bydd craffu ar eu gweithrediad a'u heffaith yn rhan o orchwyl y pum mlynedd nesaf.[27]

1.25

Mae'r adroddiad presennol yn naturiol yn cynnig cyfleoedd i adnabod pryderon neu batrymau cynnar mewn perthynas â'r pandemig gan ddechrau darogan heriau a chyfleoedd y dyfodol. Rhoddir sylw yma hefyd i astudiaethau ymchwil cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd, ond bydd yn rhaid aros tan yr adroddiad 5-mlynedd nesaf am drafodaeth ystyrlon am wir effaith COVID-19 ar sefyllfa'r Gymraeg.

26 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru, ***Effaith yr achosion o COVID-19 ar y Gymraeg*** (Rhagfyr 2020).
27 **Effaith yr achosion o COVD-19 ar y Gymraeg - Ymateb Llywodraeth Cymru.pdf (senedd.cymru)**.

Un o filiwn

1.26

Nodwedd wreiddiol arall ar yr adroddiad hwn yw'r straeon sydd wrth ei chalon. Ceir ymgais gydol yr adroddiad i adrodd am brofiadau sefydliadau ac unigolion o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau a meysydd polisi. Dyma ymgais i geisio dod â datblygiadau polisi yn fyw a dangos eu heffaith ar bobl a sefyllfaoedd go iawn.

1.27

Yn ogystal â'r astudiaethau achos byrion hyn, cyflwynir hefyd gyfres o hanesion deuddeg o unigolion a'u profiadau go iawn nhw o beth yw sefyllfa'r Gymraeg yn eu hardaloedd yn 2016–20. Mae'r deuddeg hyn wedi eu dethol o'r 500 a mwy o bobl y daeth Aled Roberts i gyswllt â nhw yn ystod ei daith gymunedol ar ddechrau ei gyfnod fel Comisiynydd y Gymraeg yng ngwanwyn 2019. Dewiswyd y deuddeg yn syml am fod rhywbeth yn eu hanes wedi ein taro'n ddifyr, ond ceisiwyd hefyd sicrhau bod croestoriad o unigolion a chymunedau ar draws y wlad yn cael eu cynrychioli.

1.28

Nod Aled Roberts wrth fynd ar ei daith oedd dod i ddeall sefyllfa wirioneddol y Gymraeg ym mhob cwr o Gymru er mwyn ceisio sicrhau, ar ddechrau ei gyfnod yn Gomisiynydd y Gymraeg, nad oedd ei agenda'n cael ei lywio gan ei brofiadau a'i ragfarnau ei hun yn unig.

1.29

Dyna ein nod yn cyflwyno'r unigolion hyn i chi yma hefyd: eich annog chi (a ninnau gyda chi) i weld y Gymraeg drwy lens daearyddiaeth, hunaniaeth a sefyllfa pobl y tu hwnt i ni ein hunain. Fe'u cyflwynir hefyd mewn ymgais i'n gwthio y tu hwnt i'r ystadegau. Wedi'r cwbl pobl sy'n siarad iaith: unigolion fydd pob un o'r miliwn a gyfrir ac mae diddordeb gennym yn eu profiadau unigol, yn ogystal â'r profiad torfol.

1.30

Heb benawdau cyfrifiad rhaid troi at ystod o ffynonellau eraill er mwyn dirnad sefyllfa'r Gymraeg yn 2016–20. Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail detholiad o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, gan gynnwys tystiolaeth sy'n deillio'n uniongyrchol o waith rheoleiddio'r Comisiynydd ac o drafodaethau'r Comisiynydd â rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd yn ystod y cyfnod adrodd. Mantais hyn o bosibl yw bod modd treiddio'n ddyfnach, y tu hwnt i ystadegau moel fel petai, gan geisio codi cwr y llen ar sut brofiad oedd defnyddio'r Gymraeg yn y cyfnod adrodd a beth oedd ansawdd y profiad hwnnw.

1.31

Yn sicr, rhaid gochel rhag syrthio i'r fagl beryglus o ddyrchafu ymchwil meintiol goruwch ymchwil ansoddol wrth drafod sefyllfa'r Gymraeg. Sylwyd ar y duedd hon mewn perthynas â chynllunio ieithyddol yn y ddogfen gyngor a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd yn 2018 i gynnig arweiniad ynghylch strategaethau 5-mlynedd i hybu'r Gymraeg.[28] Wrth drafod sut i fesur perfformiad yn y ddogfen honno cydnabyddir bod mesur drwy ganfod maint neu swm yn ddull safonol a phwysig o osod gwaelodlin a mesur cynnydd. Ond pwysleisir yno hefyd mai rhan o'r darlun yn unig yw hynny, nid yw'n darparu gwybodaeth am arferion, defnydd, hyder, nac ymddygiad y bobl dan sylw. Rhaid troi at ddulliau ansoddol er mwyn treiddio i wir brofiad unigolion. Sylwodd Steve Eaves hefyd ar y duedd hon i roi gormod o fri yn y blynyddoedd diwethaf ar gasglu a dehongli gwybodaeth feintiol:

> Ceir cryn gonsensws erbyn hyn na all gorddibynnu ar wybodaeth feintiol roi mewnwelediad cyflawn i'r realiti cymdeithasol a brofir gan atebwyr arolygon a chyfweleion.[29]

1.32

Ceir ymgais yma felly i gadw'r ddysgl yn wastad a rhoi llwyfan amlwg i brofiadau unigolion ochr yn ochr â dadansoddi data. Wedi'r cwbl, pobl, nid ystadegau, sy'n defnyddio'r Gymraeg. Dyna pam fod straeon y bobl hyn yn berlau sy'n britho'r adroddiad.

Nod a strwythur yr adroddiad

1.33

Mae cyhoeddi adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yn un o ddyletswyddau statudol y Comisiynydd. Ein gobaith, fodd bynnag, yw bod yr adroddiad hwn yn mynd ymhellach na bodloni gofynion y Mesur yn unig. Nid creu cofnod hanesyddol difyr am sefyllfa'r Gymraeg yw'r nod. Yn hytrach, ein nod yw amlinellu sefyllfa'r Gymraeg yn y cyfnod adrodd er mwyn ceisio gwella'i sefyllfa yn y cyfnod sydd i ddod: edrych yn ôl er mwyn edrych ymlaen.

1.34

Yn yr ystyr hwnnw, mae nod yr adroddiad yn debyg i nod cyfrifiad. Nid cyfrif er mwyn cyfrif a wneir mewn cyfrifiad bob degawd, ond cyfrif er mwyn deall sefyllfa a llunio polisïau yn ei sgil. Yr un yw nod yr adroddiad hwn. Darlunnir ynddo sefyllfa'r Gymraeg ac ymyraethau polisi'r blynyddoedd diwethaf er mwyn deall y sefyllfa a chynorthwyo llunwyr polisi i lunio polisïau uchelgeisiol a beiddgar yn ei sgil.

28 Comisiynydd y Gymraeg, *Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg* (2018), tt. 51–2.

29 Steve Eaves, ***Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru*** (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2015), t. 3.

1.35

Mae dechrau'r cyfnod adrodd yn teimlo fel amser hir yn ôl bellach ac mae perygl i bum mlynedd yn ôl deimlo fel hen hanes drwy lygaid prysurdeb heddiw. Ymdrechir yma i roi sylw cytbwys i ddatblygiadau gydol y cyfnod adrodd, fodd bynnag, yn hytrach na chanoli sylw ar y rhai mwyaf diweddar. Gwneir hyn er mwyn ceisio cefnogi llunwyr polisi ac eraill i ddod i farn ynghylch a yw'r ymdrechion a'r datblygiadau a gyflwynwyd hyd yma wedi bod yn effeithiol ac yn ddigonol.

1.36

Rhaid cydnabod hefyd fod pum mlynedd yn gyfnod hir yn hanes Cymru a'r Gymraeg ac nad oes modd rhoi sylw dyledus i bob menter, prosiect na pholisi a gynlluniwyd mewn perthynas â'r Gymraeg yn yr adroddiad hwn. Byddai angen cyfrolau i groniclo pob ymdrech werthfawr a wneir gan fudiadau, sefydliadau ac unigolion i wella sefyllfa'r Gymraeg. Nid yw eu hepgor o'r adroddiad presennol yn arwydd o'n diffyg gwerthfawrogiad. Ciplun ar sefyllfa'r Gymraeg yn unig a geir, hyd yn oed mewn adroddiad o'r hyd hwn.

1.37

Er nad yw canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hysbys i ni eto, byddant ar gael yn fuan yn ystod oes y Llywodraeth newydd. Yr her i'r Llywodraeth wedyn fydd defnyddio'r canlyniadau hynny i finiogi'r meddwl a chynllunio beth sydd angen ei wneud yn wahanol neu'n ychwanegol er mwyn cyrraedd y miliwn.

1.38

Ein gobaith ni yw y bydd yr adroddiad 5-mlynedd hwn – yn ogystal â chyfrannu cnawd ymchwil ansoddol at esgyrn ymchwil meintiol y cyfrifiad – yn gydymaith anhepgor wrth graffu ar ymdrechion a fu. I'r perwyl hwn rydym wedi saernïo'r adroddiad 5-mlynedd ar strwythur triphlyg strategaeth *Cymraeg 2050*. Defnyddir y tair thema strategol i lunio fframwaith yr adroddiad yn y gobaith y bydd hyn yn gymorth i Lywodraeth newydd, gweision sifil a llunwyr polisi i groesgyfeirio'n hwylus rhwng strategaeth *Cymraeg 2050* a chasgliadau'r Comisiynydd ar gyfer gwahanol feysydd. Bydd hefyd yn gymorth i graffu ar gyflawniad y Llywodraeth yn erbyn y rhaglenni gwaith perthnasol. Gobeithir y bydd trefnu'r adroddiad yn ôl themâu ac is-benawdau hwylus yn gymorth i'r darllenydd ddod o hyd i ddadansoddiadau o ddiddordeb iddo.

1.39

Bydd y darllenydd craff yn sylweddoli, fodd bynnag, nad strwythur triphlyg sydd i'r adroddiad hwn. Er selio'r strwythur ar gynllun tri phen *Cymraeg 2050* rydym o'r farn bod yna gonglfaen arall i gynllunio ieithyddol nad yw'n cael sylw dyledus yn strategaeth bresennol y Llywodraeth: statws. O'r herwydd bydd adran gyntaf yr adroddiad hwn yn mynd i'r afael â statws y Gymraeg.

Gair am yr awdur

1.40

Ein dymuniad a'n huchelgais fyddai cyflwyno adroddiad gwrthrychol a niwtral am sefyllfa'r Gymraeg rhwng 2016 a 2020. Mae hynny'n gwbl amhosibl. Dyw awduron yr adroddiad hwn ddim yn fodau niwtral. Gwell cyfaddef hynny o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na cheisio'i gelu. Comisiynydd y Gymraeg, drwy law ei swyddogion, sy'n llunio'r adroddiad. Mae ganddo ragfarn o blaid y Gymraeg, mae am weld y Gymraeg yn ffynnu, ac felly mae'n amhosibl iddo fod yn 'niwtral' mewn unrhyw drafodaeth am ei sefyllfa.

1.41

Yn fwy na hynny, mae'r Comisiynydd yn fwy nag awdur yr adroddiad yn arsylwi o'r ymylon, mae'n un o'r prif gymeriadau ynddo. Byddai'n amhosibl trafod sefyllfa'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd heb roi sylw i waith y Comisiynydd sydd â'r prif nod statudol o 'hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg'.[30] Mae diddordeb polisi gan swyddogion y Comisiynydd ym mhob un o'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn ac mae'r wybodaeth a gyflwynir yn deillio'n uniongyrchol o'u gwaith nhw a gwybodaeth a gyflwynwyd iddynt gan randdeiliaid.

1.42

Mae'n anorfod y bydd gan eraill dystiolaeth bellach a fyddai'n cyfoethogi eto ein dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg. Gwnaethpwyd sawl cais cyhoeddus am wybodaeth ac ymchwil gan sefydliadau ac unigolion wrth baratoi'r adroddiad hwn. Mae'r cais hwnnw'n sefyll: os oes gennych chi wybodaeth bwysig am sefyllfa'r Gymraeg na gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn, buasem wrth ein bodd yn trafod â chi. Wedi'r cyfan, ein huchelgais yw y bydd yr adroddiad yn esgor ar ddeialog fydd er lles sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

30 **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**, Rhan 2, Adran 3 (1).

Rhan 1: Statws y Gymraeg



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rhan 1: Statws y Gymraeg 17

Iaith llawr y Senedd a llawr gwlad 19

Datod cymalau'r Deddfau Uno fesul deddf 21

Mesur o lwyddiant? 23

Safonau i godi statws 25

Iaith y Senedd 27

Ystyriaeth i'r Gymraeg mewn deddfwriaeth 29

Deddfwriaeth ddwyieithog 31

Y Gymraeg a'r gyfraith 33

Newid ar droed 35

Casgliadau'r Comisiynydd 38

Y Gymraeg drwy lygaid Cadi, Nest a Richard 39

Iaith llawr y Senedd a llawr gwlad

Er nodi yn y cyflwyniad mai canolbwyntio'n gaeth ar y pum mlynedd diwethaf a wna'r adroddiad hwn, rhaid troi ein golygon yn ôl bron i bum can mlynedd er mwyn cael trafodaeth ystyrlon am statws y Gymraeg heddiw. Olrhain, cam wrth gam, y datblygiadau deddfwriaethol a fu yn hanes y Gymraeg o hynny hyd heddiw yw'r allwedd i ddeall statws cyfreithiol y Gymraeg – o fod yn iaith a gafodd ei gwahardd a'i hisraddio yn yr 16eg ganrif i fod yn iaith swyddogol yng Nghymru heddiw. Dyma'r allwedd hefyd i ddechrau deall ei statws ym mhob agwedd ar fywyd yn ogystal â seicoleg ei siaradwyr hi.



1535

Deddf Uno

sefydlodd mai Saesneg fyddai iaith swyddogol cyfraith a threfn yng Nghymru



1942

Deddf Llysoedd Cymru

caniatawyd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd os byddent dan anfantais fel arall



1967

Deddf yr Iaith Gymraeg

caniatâd cyfyngedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol, a chaniatâd i weinidogion San Steffan gyhoeddi fersiynau Cymraeg o ddogfennau swyddogol at ddefnydd cyhoeddus



1993

Deddf yr Iaith Gymraeg

sefydlodd yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD



2011

Sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



2011

Mesur y Gymraeg (Cymru)

y ddeddf iaith gyntaf i'w llunio i Gymru yng Nghymru a dyma'r ddeddfwriaeth a ddatganodd statws swyddogol diamwys i'r Gymraeg yng Nghymru



2015

Sefydlwyd Tribiwnlys y Gymraeg

Tribiwnlys y Gymraeg
Welsh Language Tribunal

Datod cymalau'r Deddfau Uno fesul deddf

1.1

Sefydlodd Deddf Uno 1535 mai'r Saesneg fyddai iaith swyddogol cyfraith a threfn yng Nghymru. Dim ond yn 1942 – dros bedwar can mlynedd yn ddiweddarach – y gwelwyd dechrau datod rhai o gymalau'r Deddfau Uno pan ganiatawyd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd os byddent dan anfantais fel arall. Disodlwyd y rhan helaeth o Ddeddf Llysoedd Cymru 1942 gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967, oedd eto'n rhoi caniatâd cyfyngedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol, ac yn caniatáu i weinidogion San Steffan gyhoeddi fersiynau Cymraeg o ddogfennau swyddogol at ddefnydd cyhoeddus. Dyma hefyd y ddeddf a ddileodd statws Cymru fel rhan o Loegr.

1.2

Gwelwyd camau breision pellach yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sefydlodd yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru (cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol). Eto, fe gadarnhawyd a chryfhawyd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd gan nodi bod modd i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wneud hynny. Gan nad ailadroddwyd y ddarpariaeth honno mewn deddfwriaeth ddiweddarach, mae'r rhan hon o ddeddf 1993 yn dal yn weithredol heddiw, fel y mae rhannau eraill ohoni.

1.3

Sefydlodd deddf iaith 1993 drefn lle byddai cyrff cyhoeddus yn paratoi cynlluniau iaith yn egluro sut y byddent yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Sefydlodd hefyd Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn goruchwylio'r cynlluniau iaith hyn, cynghori ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, a hybu a hwyluso'r defnydd ohoni. Lle cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol a chyfyngedig yn unig yn y deddfau blaenorol, roedd deddf 1993, ar y llaw arall, yn sefydlu trefn i annog defnyddio'r Gymraeg ac yn disodli'r deddfau blaenorol, fel yr eglura'r Athro Thomas Glyn Watkins:

> The 1993 Act swept away the last vestiges of the provisions of the sixteenth-century Acts of Union and repealed the earlier twentieth-century statutes which had sought to provide Welsh with some degree of official recognition – the *Welsh Courts Act 1942* and the *Welsh Language Act 1967*.[1]

1.4

Ond er hynny, deddf San Steffan oedd deddf 1993 o hyd a'r 15 aelod o Fwrdd yr Iaith yn cael eu penodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd oedd â'r gair olaf pan fyddai corff yn methu â chydymffurfio â'u cynllun iaith nes y trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru yn sgil datganoli. Roedd hyn yn gadael Bwrdd yr Iaith, y corff oedd yn gweithio â'r sefydliadau yn y lle cyntaf er mwyn cytuno ar eu dyletswyddau ieithyddol, heb bwerau i orfodi sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Felly er i'r ddeddf newid statws cyfreithiol y Gymraeg yn sylweddol, roedd gafael San Steffan yn dal yn dynn amdani adeg ei llunio.

1 Thomas Glyn Watkin, 'Competence and Complexity: The Role of the Welsh Language Commissioner', *Constitutional Pioneers: Language Commissioners and the Protection of Official, Minority and Indigenous Languages* (Éditions Yvons Blais, 2019), t. 128.

1.5

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar y llaw arall yn ddeddfwriaeth Gymreig a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru (dan glymblaid Llafur a Phlaid Cymru, Cymru'n Un). Mesur y Gymraeg oedd y ddeddf iaith gyntaf i'w llunio i Gymru yng Nghymru a dyma'r ddeddfwriaeth a ddatganodd statws swyddogol diamwys i'r Gymraeg yng Nghymru.

1.6

Yn ogystal â sicrhau statws swyddogol i'r Gymraeg, sefydlodd y Mesur swydd Comisiynydd y Gymraeg gan ddiddymu Bwrdd yr Iaith. Gwnaeth hefyd ddarpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cyflwynodd y system gosod a gorfodi safonau lle byddai'r Comisiynydd yn gyfrifol am ymchwilio i gydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'r safonau a osodir arnynt. Rhoddwyd hefyd bŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.

1.7

Drwy osod a gorfodi dyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â'r Gymraeg ar sefydliadau cyhoeddus, creodd Mesur y Gymraeg hawliau i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliadau hynny. Darparodd y Mesur hefyd ar gyfer Tribiwnlys y Gymraeg a sefydlwyd yn 2015 i sicrhau bod yr hawliau ieithyddol hynny'n cael eu gwarchod ac i '[dd]elio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg'.[2] Dyma'r tribiwnlys cyntaf i'r Cynulliad ei sefydlu.

1.8

Golyga hyn oll fod y Gymraeg bellach yn rhan greiddiol o'r system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Mae prosesau cyfreithiol mewn lle i sicrhau bod unigolion yn cael arfer eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg, a phrosesau cadarn i'w dilyn os caiff unigolyn ei amddifadu o'r hawl hwnnw. Mewn achosion o'r fath, mae mynediad at y system gyfiawnder yn rhwydd ac yn rhad wrth i unigolyn allu cyflwyno cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg neu Lywydd y Tribiwnlys.

2 Croeso i | Tribiwnlys y Gymraeg (llyw.cymru).

Mesur o lwyddiant?

1.9

Mesur y Gymraeg oedd y ddeddfwriaeth olaf i dderbyn cymeradwyaeth frenhinol cyn cynnal refferendwm 2011 ar ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru. Felly er mai aelodau cynulliad y Gymru ddatganoledig oedd yn gyfrifol am lunio Mesur y Gymraeg, roedd y broses ddeddfu yn cael ei llywio (a'i chyfyngu) i raddau gan gyfundrefn gyfreithiol y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (*Legislative Competence Order* – LCO).[3]

1.10

Rhyddid ffrwynedig oedd gan y ddeddfwrfa felly ac mae cyfyngiadau'r drefn hon i'w gweld yn y Mesur ei hun. Fel y sylwodd yr Athro Thomas Glyn Watkin, oedd yn Brif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru adeg llunio'r Mesur:

> The overall complexity of the system results from the restrictions imposed by the LCO, and renders the process as a whole somewhat cumbersome.[4]

1.11

Er mor chwyldroadol yw Mesur y Gymraeg o safbwynt sicrhau statws cyfreithiol y Gymraeg, nid yw heb ei ddiffygion, fel y casglodd adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, *Cefnogi a hybu'r Gymraeg*, yn 2019. Cyfeirir yno at 'gymhlethdod a manylder y Mesur' ac at y canfyddiad cyffredin 'bod fframwaith safonau'r Gymraeg yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd'.[5] Caiff arafwch y broses o gyflwyno a gweithredu safonau ei feirniadu ac argymhellir y dylid cyflymu'r broses gwynion hefyd.

1.12

Er bod y Mesur yn rhoi hawliau newydd i siaradwyr Cymraeg ar un olwg, nid oes cyfiawnder cyfreithiol i'w gael os yr ymyrrir â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg. Awgryma'r Athro Emyr Lewis fod y Mesur yn ceisio '[c]ysoni'r syniad o "hawliau" siaradwyr Cymraeg gyda phrosesau sydd yn y bôn yn rhai rheoleiddiol a biwrocrataidd nad ydynt yn arwain, o ran y gyfraith beth bynnag, at ddeilliannau arbennig o gadarn i unigolion sy'n dioddef cam.'[6]

3 Am gyflwyniad cynhwysfawr i hanes llunio'r Mesur ac effaith y drefn oedd ohoni ar y Mesur, gweler Thomas Glyn Watkin, 'Competence and Complexity: The Role of the Welsh Language Commissioner', tt. 125–46.
4 Ibid., t. 143.
5 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cefnogi a hybu'r Gymraeg*** (Gorffennaf 2019), t. 12, t. 7.
6 Emyr Lewis, 'Saesneg yn unig – helynt iaith Rhydaman', *Barn* (Rhagfyr/Ionawr 2019–20), tt. 6–7.

1.13

Mae rhai wedi dadlau mai deddf sy'n canolbwyntio ar y rheoleiddiwr a'r rhai a gânt eu rheoleiddio yw Mesur y Gymraeg a bod ei arwyddocâd yn aneglur i'r dinesydd cyffredin. Noda Dr Catrin Fflur Huws bod lle i gryfhau deddfwriaeth o'r fath drwy ystyried cynulleidfa'r ddeddfwriaeth wrth ei drafftio yn y lle cyntaf:

> If the Welsh Language (Wales) Measure 2011 had been drafted with a view to making it accessible to individuals, its content and structure could have emphasised the simple precept: a citizen has rights. If it had been drafted with a view to make it accessible to public bodies as service providers, its content and structure should have encapsulated the message: 'you have a duty'. Instead, the model of the 2011 Measure is to state: 'this is how the system of regulation works'.[7]

1.14

Ond er gwaetha'r rhwystredigaeth ag agweddau ar y modd y lluniwyd y ddeddfwriaeth, fel yr un cyntaf i weithredu'r ddeddf a'r system reoleiddio sy'n deillio ohoni, nododd Comisiynydd y Gymraeg ar y pryd, Meri Huws, yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn 2018 ei barn mai deddf sy'n caniatáu ac sy'n cynnig sgôp yw Mesur y Gymraeg yn ei hanfod. Er cydnabod '[nad] oes unrhyw ddeddfwriaeth yn berffaith', a chydnabod bod lle i ystwytho elfennau o'r Mesur, pwysleisiodd fod y Mesur yn gam ymlaen ers deddf 1993 ac nad oedd 'wedi defnyddio'r Mesur i'r eithaf, o bell ffordd' wedi dim ond chwe blynedd o'i weithredu.[8]

1.15

Nododd hefyd fod manylder y safonau, er y wedd fiwrocrataidd ar ddechrau'r broses, yn cael ei groesawu fwyfwy gan sefydliadau wrth i'r safonau amlinellu'n bendant y disgwyliadau arnynt. Dim ond dau sefydliad sydd wedi apelio i Dribiwnlys y Gymraeg yn erbyn rhai o'r safonau a osodwyd arnynt, ac yn y ddau achos, gwrthodwyd yr apêl. Awgryma hyn nad oes cyfiawnhad i sefydliad cyhoeddus beidio â chynnig gwasanaethau Cymraeg mewn gwlad lle mae'r iaith yn un swyddogol.

7 Catrin Fflur Huws, 'Administrative Justice and the Welsh Language (Wales) Measure 2011', yn Sarah Nason (gol.), *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2017), t. 104.

8 **Sesiwn dystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 20/09/2018 – Senedd Cymru (senedd.cymru)**.

1.16

Er i waith y Comisiynydd ategu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, ni all hynny na Mesur y Gymraeg sicrhau'r statws hwnnw ar ei ben ei hun, wrth gwrs. Mae gofyn hefyd am waith hybu a hwyluso a strategaethau iaith ac addysg uchelgeisiol gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth er mwyn i statws swyddogol yr iaith gael ei barchu yn ymarferol a bod yn amlwg weledol. Ond o ystyried Mesur y Gymraeg yn ei hawl ei hun a'r camau breision sydd wedi bod yn ei sgil, ni ellir llai na chytuno â dyfarniad yr Athro Thomas Glyn Watkin:

> At the end of the day, and despite the political tensions that shaped the 2011 Measure, the first Commissioner's own judgement of it, expressed in the title of the office's 2017–18 assurance report, cannot be improved or gain-said: *Mesur o Lwyddiant – A Measure of Success.*[9]

Safonau i godi statws

1.17

Un peth yw rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg mewn deddfwriaeth fodd bynnag, peth arall yw sicrhau bod y statws hwnnw'n cael effaith bellgyrhaeddol, yn cael ei barchu a'i adlewyrchu ym mhob agwedd ar fywyd. Fel y dywedwyd am ddatganoli yng Nghymru, proses yn hytrach na digwyddiad yw rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg hefyd; proses sy'n bell o fod wedi cyrraedd penllanw, ond sy'n sicr wedi gweld cynnydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

1.18

Dechreuodd y broses o osod safonau ar y grŵp cyntaf o sefydliadau yn 2015, a daeth y safonau hynny'n weithredol ar 30 Mawrth 2016 – ym mlwyddyn gyntaf cyfnod adrodd yr adroddiad hwn. Dyma gam pwysig yn y broses o sefydlu statws yr iaith gan mai ar y dyddiad hwnnw y rhoddwyd hawliau cyfreithiol i bobl Cymru allu defnyddio'r Gymraeg am y tro cyntaf, a hynny wrth ymwneud ag awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r parciau cenedlaethol.

1.19

Ers cyflwyno'r safonau cyntaf hyn i'r sefydliadau a enwir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1), cyflwynodd Gweinidogion Cymru bum set arall o reoliadau ar gyfer grwpiau penodol o sefydliadau. Daeth yr ail set o safonau ar gyfer cyrff cenedlaethol i rym ym mis Ionawr a mis Mawrth 2017 gan osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a'r BBC. Daeth y safonau ar gyfer tribiwnlysoedd Cymru, heddluoedd, ac awdurdodau tân ac achub hefyd i rym ddiwedd Mawrth 2017. Sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch oedd y rhai nesaf i orfod cydymffurfio â safonau ar 1 Ebrill 2018, ac yna daeth safonau i'r sefydliadau iechyd i rym ddiwedd Mai a diwedd Tachwedd 2019.

9 'Competence and Complexity: The Role of the Welsh Language Commissioner', t. 146.

1.20

Lle bu'r Comisiynydd yn paratoi ar gyfer dyfodiad y safonau yn ystod y blynyddoedd cynnar rhwng 2012 a 2015, mae'r gwaith hwnnw bellach yn dwyn ffrwyth, ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf rhoddwyd dyletswydd statudol ar 123 o sefydliadau cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg.

1.21

Fel y nodwyd eisoes ar ddechrau'r bennod hon, mae gan y Comisiynydd y pŵer i orfodi sefydliadau i gydymffurfio â'u dyletswyddau ieithyddol pan maent yn methu â gwneud hynny. Daw'r methiannau hyn i'r amlwg yn aml wrth i'r Comisiynydd dderbyn cwynion gan y cyhoedd, a gall y cwynion hyn esgor ar ymchwiliad. Os bernir bod sefydliad wedi esgeuluso ei ddyletswyddau iaith, yna fe'i gorfodir i gydymffurfio â'i ddyletswyddau, gan amlaf drwy ei orfodi i roi camau mewn lle i atal methiant pellach yn y dyfodol.

1.22

Mae'r camau gorfodi hyn ar brydiau wedi mynd ymhellach nag atal methiant yn unig, gan arwain at newidiadau sy'n rhagori ar y disgwyliadau. Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad yn 2018–19, er enghraifft, lle dyfarnodd fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyhoeddi memorandwm esboniadol yn Gymraeg ar gyfer is-ddeddfwriaeth oedd yn ymwneud â'r Gymraeg. Rhoddwyd camau gorfodi i'r Llywodraeth ac mae ganddi bellach drefniadau trylwyr mewn lle i asesu a oes angen i femoranda esboniadol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Mae'r Llywodraeth bellach yn cynnal awdit o'r holl offerynnau statudol a gyflwynwyd mewn blwyddyn galendr, yn dilyn proses ar gyfer blaenoriaethu memoranda, ac yn cynnal asesiad llawn o'r cyfrif geiriau â'r nod o gynyddu'r nifer o femoranda a gyhoeddir yn ddwyieithog. Mae trefniadau'r sefydliad ar gyfer cyhoeddi memoranda dwyieithog bellach yn mynd y tu hwnt i ofynion y safonau felly, â memoranda dwyieithog yn cael eu cyhoeddi ar gyfer deddfwriaeth lle nad yw hynny'n ofynnol dan y safonau.

1.23

Mewn rhai achosion fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi ymateb i fethiant sefydliad drwy roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod sefydliad wedi torri cyfraith y safonau ac wedi anwybyddu statws swyddogol y Gymraeg. Daw hynny ag anfri ar y sefydliad ac mae'n rhybudd i sefydliadau eraill ar yr un pryd fod canlyniadau os nad ydynt yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau. Mae gan y Comisiynydd hawl hefyd i osod cosb sifil ar sefydliad os nad yw'n cydymffurfio â'r safonau, ond nid yw wedi defnyddio'r hawl hwnnw hyd yma.

1.24

Ers i sefydliadau fod yn gweithredu'r safonau yn 2016, ddiwedd 2020 roedd y Comisiynydd wedi derbyn 668 o gwynion dilys ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau. Mae gallu gorfodi'r sefydliadau hynny i gywiro'u cam o amddifadu unigolyn o'i hawl i ddefnyddio'r Gymraeg nid yn unig yn rhoi'r Gymraeg yn rhan o'r system cyfiawnder gweinyddol ond hefyd yn sicrhau bod ei statws swyddogol yn cael ei barchu.

1.25

Mae'r Comisiynydd hefyd yn cynnal ymchwiliadau yn sgil derbyn cwynion am ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, os yw ymchwiliad yn dangos bod sefydliad neu gwmni yn euog o hynny, rhoddir cyngor iddynt i roi ystyriaeth lawn i statws swyddogol y Gymraeg, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff a rheolwyr o'r iaith. Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniwyd gwybodaeth am 17 achos o'r fath.

1.26

Yn wahanol i gomisiynwyr eraill ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n gyrff ymatebol yn hyrwyddo hawliau dynol neu'n eirioli, rhoddwyd statws ychydig yn wahanol i Gomisiynydd y Gymraeg drwy ei wneud yn rheoleiddiwr yn ogystal ag yn gorff ymatebol, hyrwyddol.[10]

1.27

Â chomisiynwyr iaith yn bodoli mewn sawl gwlad ar draws y byd erbyn hyn, amlinellir y gwahaniaeth rhwng ombwdsmon a chomisiynydd iaith yn rhagair y gyfrol *Constitutional Pioneers*. Yn ogystal â gweithredu'n ymarferol drwy gynnal ymchwiliadau i gwynion, cynnig argymhellion polisi a rheoleiddio cydymffurfiaeth â chyfraith, mae sefydlu swydd y comisiynydd iaith yn weithred symbolaidd ynddo'i hun sy'n dangos parch at gymunedau lleiafrifol ac yn dangos eu gwerth:

> Thus the establishment of a language commissioner in any given jurisdiction is never a politically neutral act. Nor is it merely a simple and convenient mechanism to improve the general quality of public services. Rather it is a deliberate but crucial statement regarding the value of minority languages and their speakers and their potential to enrich and unite people.[11]

Iaith y Senedd

1.28

Ategwyd statws swyddogol y Gymraeg ymhellach drwy wneud y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Senedd Cymru, a hynny drwy Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. Mae'n arwyddocaol mai dyma'r ddeddf gyntaf i gael ei phasio yng Nghymru ers 600 mlynedd, a'r Cynulliad wedi ennill pwerau deddfu sylfaenol wedi refferendwm 2011. Er i Fesur y Gymraeg ddarparu ar gyfer y ddeddf ieithoedd swyddogol,[12] roedd ymrwymiad y Cynulliad i fod yn sefydliad 'gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a staff ddewis gweithio neu gyfathrebu drwy ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall' yn ddatganiad o uchelgais a hyder yn yr iaith ac yn fodd o arwain y ffordd i sefydliadau eraill.[13]

10 Nodir y gwahaniaethau rhwng gwahanol Gomisiynwyr Cymru yn y rhan 'Sut mae rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn wahanol i rôl Comisiynwyr eraill?' ar **wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**.

11 **Rhagair *Constitutional Pioneers: Language Commissioners and the Protection of Official, Minority and Indigenous Languages***, t. X.

12 **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**, Rhan 1, Adran 1 (3a).

13 Comisiwn y Cynulliad, ***Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol*** (Gorffennaf 2013), t. 2.

1.29

Caiff y Senedd ei chydnabod fel sefydliad Cymraeg a Chymreig ac mae'n weithle atyniadol i unrhyw un sydd am weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mewn arolwg o sgiliau Cymraeg staff Comisiwn y Senedd yn 2019–20, dywedodd 88% o ymatebwyr fod ganddynt sgiliau yn y Gymraeg, yn amrywio o lefel cwrteisi Cymraeg i ruglder.[14]

1.30

Er mor bwysig yw'r ddeddf hefyd i sicrhau bod gan Aelodau'r Senedd heddiw ac yn y dyfodol hawl i gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg yn nhrafodaethau'r Senedd, mae'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn dibynnu ar y nifer o Aelodau dwyieithog wrth gwrs, ynghyd â materion digon dyrys yn ymwneud â pharodrwydd neu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Un peth sy'n sicr, mae clywed y Gymraeg ar lawr y Senedd yn cadarnhau ei statws fel iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hefyd yn fodd o godi statws a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Gymraeg a'i gallu i drin a thrafod materion cyfansoddiadol, gwleidyddol a deddfwriaethol.

1.31

Ysywaeth, gostwng wnaeth y nifer o gyfraniadau Cymraeg a wnaed yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn ac yn nhrafodion Pwyllgorau dros y tair blynedd diwethaf. Cofnodwyd yn 2017–18 fod 20% o'r cyfraniadau yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn yn Gymraeg; erbyn 2019–20 16% o'r cyfraniadau oedd yn Gymraeg. Yn yr un modd, gostyngodd y ganran o 8% yn nhrafodion Pwyllgorau'r Senedd yn 2017–18 i 6% yn 2019–20.[15] Wrth gyfeirio at y gostyngiad hwn, nododd Rhun ap Iorwerth AS yng nghyfarfod llawn y Senedd fod yn rhaid goresgyn unrhyw rwystrau sy'n atal unigolion rhag defnyddio'r iaith a bod adolygiad o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol ar y gweill.[16]

1.32

Am resymau cyfansoddiadol, nid yw'r Senedd na Chomisiwn y Senedd yn cael eu henwi ym Mesur y Gymraeg fel cyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg ac felly nid ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n arwyddocaol felly bod memorandwm o gyd-ddealltwriaeth wedi ei gytuno rhwng Comisiwn y Cynulliad a'r Comisiynydd yn 2019, bod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ymrwymo i gynnig gwasanaeth dwyieithog sy'n cymharu'n ffafriol â gofynion y safonau, a'i fod 'yn mynegi na fyddai Comisiwn y Senedd yn dymuno mynd islaw ysbryd y safonau o gwbl'.[17] Yn fuan wedi'r datganiad hwn, gwelwyd ymrwymiad y Senedd i statws swyddogol y Gymraeg ar waith, a hynny yn ystod argyfwng pandemig COVID-19 wrth iddi fod yn un o'r deddfwrfeydd cyntaf yn y byd i gynnal cyfarfod llawn rhithwir cwbl ddwyieithog.

14 Comisiwn y Senedd, ***Cynllun Ieithoedd Swyddogol: Adroddiad Blynyddol 2019–20*** (Mehefin 2020), t. 22.
15 **Ibid.**, t. 16.
16 **Cyfarfod Llawn 04/11/2020 - Senedd Cymru (cynulliad.cymru)**.
17 **Cynllun Ieithoedd Swyddogol: Adroddiad Blynyddol 2019-20**, t. 11.

Ystyriaeth i'r Gymraeg mewn deddfwriaeth

1.33

Yn 2014, cyflwynodd y Comisiynydd gyngor i Brif Weinidog Cymru ar sut y gall statws swyddogol y Gymraeg fod yn weithredol a chael effaith wirioneddol ar fywydau pobl yng Nghymru drwy fod yn weledol a chanolog mewn deddfwriaeth.

1.34

Mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu'r safonau ers 2016 wrth gwrs, ac ymhlith y safonau hynny mae safonau llunio polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried effaith a dylanwad unrhyw benderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg. Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio fframwaith asesiad effaith newydd sy'n sicrhau bod asesiad effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal yn rhan statudol o ddatblygu, adolygu neu ddiwygio polisïau. Mae rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg yn y modd hwn, a chynnwys cyfeiriadau ati mewn polisïau a deddfwriaethau, yn rhan o'r broses cynllunio ieithyddol mewn gwirionedd ac yn perthyn i gynllunio statws iaith. Nid yn unig y mae'n arwain at weithredu statudol ac ymarferol, ond mae hefyd yn ddatganiad symbolaidd sy'n cydnabod gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg.[18]

1.35

Bedair blynedd wedi pasio Mesur y Gymraeg, pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; deddf lle ceir ynddi gyfeiriad penodol at y Gymraeg. Mae'r ddeddf yn rhestru saith o nodau llesiant ac yn rhoi dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus a enwir yn y ddeddf i weithio tuag at y nodau hyn. Un o'r saith nod yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.[19] Drwy gynnwys y Gymraeg yn un o'r nodau llesiant caiff ei phrif ffrydio i Gynlluniau Llesiant Lleol a phenderfyniadau polisi sy'n deillio o'r ddeddf. Ond gellid dadlau yn ogystal fod lle i'r Gymraeg yn y chwe nod llesiant arall hefyd wrth ystyried y Gymraeg yn sgìl gwerthfawr ar gyfer cyflogaeth a gofal yn y gwasanaethau iechyd, er enghraifft.[20]

1.36

O'r 22 deddf a basiwyd gan Senedd Cymru rhwng 2016 a 2020, ceir cyfeiriadau at y Gymraeg mewn chwech ohonynt, rhai yn fwy ystyrlon nag eraill. Mae'r unig gyfeiriad at y Gymraeg yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, er enghraifft, yn ymwneud â chynnwys gwybodaeth am effaith y safonau mewn adroddiadau blynyddol. Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn gwneud yr Ombwdsmon yn ddarostyngedig i'r safonau, a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020 yn gwneud yn yr un modd yn achos Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru. Ceir cyfeiriadau amlycach at y Gymraeg, fodd bynnag, yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 lle ceir ystyriaethau ynghylch darpariaeth addysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg a thriniaethau a gwasanaethau yn Gymraeg i blant a phobl ifanc.

18 Ceir rhagor am gynllunio statws iaith yn Steve Eaves, ***Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru*** (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2015), t. 76.

19 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, Rhan 2, Adran 4.

20 Comisiynydd y Gymraeg, *Ystyried y Gymraeg mewn Cynlluniau Llesiant Lleol* (2018), t. 3.

1.37

Deddf arall gwerth ei chrybwyll yma yw Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 lle ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament. Er colli cyfle i fod ag un enw Cymraeg cyfreithiol, 'Senedd' yw'r enw cyffredin i'w ddefnyddio mewn cyd-destunau Cymraeg a Saesneg ag Aelodau o'r Senedd yn cael eu galw'n *'Members of the Senedd'* a deddfau yn *'Acts of the Senedd'* yn gyfreithiol yn Saesneg.[21] Mae Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru hefyd wedi mabwysiadu arfer o gyfeirio at enw Cymraeg y Senedd yn unig wrth ddrafftio deddfwriaeth, trefn a efelychir gan ddrafftwyr deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

1.38

Gellir dadlau mai deddf o San Steffan sy'n gyfrifol am un o'r datblygiadau mwyaf pellgyrhaeddol mewn perthynas â statws y Gymraeg yng Nghymru heddiw. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ofyniad statudol i Lywodraeth Cymru fabwysiadu strategaeth i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Cafodd yr adran hon yn y ddeddf (adran 78) ei diwygio gan Ran 10 Mesur y Gymraeg er mwyn rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol i gyd-fynd â'r strategaeth iaith.

1.39

Cyhoeddwyd strategaeth iaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn ei fod yn ofyniad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, fodd bynnag. Cyhoeddwyd strategaeth *Iaith Pawb* yn 2003 cyn ei disodli gan *Iaith fyw: iaith byw* yn 2012 a'r datganiad polisi cysylltiedig *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*. Yn 2017 cyhoeddwyd strategaeth iaith newydd y Llywodraeth, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Croesawyd y strategaeth uchelgeisiol hon yn gyffredinol gan ymgyrchwyr, swyddogion polisi a charedigion yr iaith. Disgrifiodd Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg ar y pryd, y strategaeth fel y mwyaf 'heriol a hyderus' iddi hi ei gweld o ran y Gymraeg.[22]

1.40

Mae'r targed uchelgeisiol hwn sydd wedi gafael yn nychymyg llunwyr polisi ar draws y wlad yn arwydd, yn ôl y Llywodraeth, 'bod yr iaith Gymraeg yn flaenoriaeth strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru'.[23] Mae'r ffaith bod y Llywodraeth yn dymuno datgan hynny o gwbl yn symbolaidd o ran statws y Gymraeg a'r consensws gwleidyddol cyffredinol sydd o'i phlaid. Er hynny, mae pryderon wedi eu codi yn ddiweddarach gan yr union rai a groesawodd *Cymraeg 2050* ynghylch y ffordd y caiff y strategaeth ei gweithredu, y buddsoddi ynddi a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr.

21 Ceir gwybodaeth am effeithiau Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac am newid enw'r ddeddfwrfa ar **wefan y Senedd**.
22 Daw'r dyfyniad o erthygl o hen wefan Comisiynydd y Gymraeg: 'Miliwn o siaradwyr – Comisiynydd yn croesawu targed hyderus'.
23 Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2019 i 2020*** (23 Mehefin 2020).

Deddfwriaeth ddwyieithog

1.41

Â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (a'r ddeddf a'i rhagflaenodd yn 1998) yn rhoi statws cyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg mesurau a deddfau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth Gweinidogion Cymru, ailadroddir y ddarpariaeth honno yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae'r Ddeddf Deddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adolygu'n gyson hygyrchedd cyfraith Cymru a sicrhau ei fod 'ar gael yn hwylus i aelodau'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg'. Rhaid hefyd cynnwys gweithgareddau i 'hwyluso defnydd o'r Gymraeg' yn rhaglenni Gweinidogion Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.[24]

1.42

Ystyriwyd statws cydradd testunau cyfreithiau Cymraeg a Saesneg ynghyd â geiriad Cymraeg a Saesneg Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn adolygiad barnwrol gan yr Uchel Lys yn 2020. Roedd yr achos yn ymwneud â phenderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i agor dwy ysgol ardal fawr a chau dwy ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd, dwy o'r ysgolion cynradd yn rhai cyfrwng Cymraeg.

1.43

Dyma'r achos lle defnyddiodd Comisiynydd y Gymraeg ei hawl, yn unol â Mesur y Gymraeg, i ymyrryd mewn achosion cyfreithiol am y tro cyntaf. Dyma'r tro cyntaf hefyd i Farnwr yr Uchel Lys wneud datganiad eglur am statws testun cyfreithiol Cymraeg, dyfarniad a ddisgrifiwyd fel carreg filltir mewn perthynas â dehongli deddfwriaeth ddwyieithog:[25]

> The Council's submissions wholly ignore the Welsh text, then conclude (after construing the English text) that the Welsh text must have the same meaning, or does not matter. I do not consider that to be the correct approach to legislation passed in Wales, both in Welsh and in English, the text of each language having an equal status to the other.[26]

1.44

Trafodwyd yr achos yn un o gyfarfodydd llawn y Senedd yn ddiweddarach lle croesawodd Rhun ap Iorwerth AS y dyfarniad:

> Dwi'n cytuno bod gweld yn fan hyn y Gymraeg yn cael ei chadarnhau mor bendant—bod hynny'n rhywbeth dylai ein sbarduno ni, dwi'n meddwl, i fod yn fwy penderfynol i wneud yn siŵr bod prosesau deddfu dwyieithog yn gadarn, yn fwy cadarn byth. Dylai fo roi hyder i ni fel Senedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddeddfwrfa yma.[27]

24 **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019**, Rhan 1, Adran 1 (2a), Adran 2 (3d).
25 **Rhodri Williams QC and Nia Gowman successful in landmark Welsh-language judicial review case | 30 Park Place Chambers**.
26 Gweler paragraff 79: **Driver, R (On the Application Of) v Rhondda Cynon Taf County Borough Council [2020] EWHC 2071 (Admin) (30 July 2020) (bailii.org)**.
27 **Cyfarfod Llawn 23/09/2020 - Senedd Cymru (cynulliad.cymru)**.

1.45

Aeth yr achos yn ei dro gerbron y Llys Apêl ac er i'r apêl gan yr awdurdod lleol ynghylch yr achos ei hun fod yn llwyddiannus, cadarnhawyd statws cydradd testun deddfwriaeth Gymraeg a Saesneg gan y Llys Apêl fel ag y gwnaed gan yr Uchel Lys.[28] Cafodd y Comisiynydd unwaith eto gyflwyno tystiolaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar yn yr achos hwn. Dyna'r tro cyntaf erioed i dystiolaeth gael ei gyflwyno yn Gymraeg yn y Llys Apêl ac argymhellodd y Comisiynydd fod angen barnwr sy'n medru'r Gymraeg mewn achosion lle mae cyfansoddiad testun Cymraeg yn cael ei drafod a'i ystyried.

1.46

Gwrthod cais yr hawlydd am farnwr a fedrai'r Gymraeg wnaeth y llys yn yr achos hwn fodd bynnag. Nid yn unig yw hynny'n anghyson â'r datganiad a wnaed ynghylch statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth, ond mae hefyd yn anghyson â chasgliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch yr angen i benodi barnwr sy'n medru'r Gymraeg os cyfyd mater o ddehongli deddfwriaeth Gymraeg.

1.47

Dywed Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 fod 'i'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg statws cyfartal at bob diben',[29] ac mae nodyn esboniadol i'r ddeddf yn ymhelaethu mai 'ystyr hyn yw mai cynnwys y ddau destun sy'n mynegi'r gyfraith yn llawn ac nid un testun yn unig'.[30] Mae i hyn oblygiadau ar gyfer dehongli deddfwriaeth ddwyieithog wrth gwrs ac aeth Comisiwn y Gyfraith ati i ystyried y goblygiadau hynny yn ei adroddiad, *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*.[31] Nodir yno fod dehongli'r fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yn angenrheidiol er mwyn dehongli deddfwriaeth ddwyieithog ac y 'byddai rhagdybio bod y ddau destun yn golygu'r un peth yn debygol o arwain at lysoedd yn dibynnu ar y testun Saesneg yn unig'. Aiff yn ei flaen gan nodi bod 'gan hyn oblygiadau i hygyrchedd y gyfraith yn yr ystyr ei fod yn gofyn am hyfedredd yn y ddwy iaith er mwyn darganfod ystyr y ddeddfwriaeth'.[32]

1.48

Mae goblygiadau pellgyrhaeddol yma felly i'r modd y mae barnwyr, cyfreithwyr, y llysoedd ac eraill yn ymdrin â chyfraith Cymru ac yn ymdrin â'r Gymraeg. Ond fel y prawf yr achos y sonnir amdano uchod, nid pawb sy'n ymwybodol o'r goblygiadau hyn ac mae angen yn sicr i roi rhagor o amlygrwydd iddynt.

28 Gweler paragraffau 11–5: **Driver -v- Rhondda Cynon Taf County Borough Council (judiciary.uk)**.
29 **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019**, Adran 5 (2).
30 ***Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019: Nodiadau Esboniadol***, t. 9.
31 Comisiwn y Gyfraith, ***Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*** (2016).
32 **Ibid**., t. 142.

Y Gymraeg a'r gyfraith

1.49

Wedi sefydlu'r egwyddor fod 'statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru' yn Rhan 1 Mesur y Gymraeg, ceir rhestr o ddeddfiadau sy'n ategu effaith gyfreithiol swyddogol y Gymraeg.[33] Bron y gellid defnyddio'r rhan hon o'r Mesur fel math o restr wirio neu restr o ddangosyddion er mwyn mesur statws y Gymraeg.

1.50

Un o'r deddfiadau posibl ar y rhestr yw deddf i roi'r hawl i siarad Cymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru. Mae hon yn hawl sydd eisoes yn bodoli yn sgil deddf iaith 1967 ac 1993 fel y nodwyd eisoes, ac nid yw wedi ei hailadrodd ers hynny. Mae cynnal achosion sifil ac achosion tribiwnlysoedd yn Gymraeg yn dod yn fwy cyffredin bellach a'r Gymraeg wedi ei defnyddio mewn oddeutu 1,000 o wrandawiadau llys a thribiwnlys yn 2018–19 o'i gymharu ag oddeutu 570 o achosion yn 2015–16.[34]

1.51

Wedi dweud hynny, ymddengys bod y nifer sy'n manteisio ar wasanaeth Cymraeg gan y tribiwnlysoedd yn isel o hyd. Yn ystod 2019–20, cafodd y Gymraeg ei defnyddio mewn dim ond 9 achos tribiwnlys ar draws yr holl dribiwnlysoedd ac eithrio Tribiwnlys y Gymraeg, lle cafwyd 16 achos wedi ei brosesu yn Gymraeg.[35] Cynhaliwyd yr achos Cymraeg cyntaf yn yr Uchel Lys yn 2014 rhwng y Comisiynydd a Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. Ers hynny mae 2 achos arall wedi eu cynnal yn Gymraeg yn yr Uchel Lys.

1.52

Digwyddiad arall o bwys yng nghylch y llysoedd oedd penodi'r barnwr cyntaf o Gymru i'r Goruchaf Lys yn 2017, a defnyddiwyd y Gymraeg am y tro cyntaf yn seremoni tyngu llw'r Arglwydd Ustus David Lloyd-Jones. Pan gynhaliwyd gwrandawiadau'r Goruchaf Lys yng Nghymru am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2019, darllenodd yr Arglwydd Ustus Lloyd-Jones ddyfarniad achos yn Gymraeg gan fod y cyntaf i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Goruchaf Lys.

33 **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**, Rhan 1, Adran 1 (3).
34 Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ***Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru*** (Hydref 2019), t. 437.
35 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ***Ail adroddiad blynyddol 2019–2020*** (30 Ebrill 2020), t. 4.

1.53

Mae'r llysoedd wedi bod yn gyson ar y blaen o ran y Gymraeg, â deddf llysoedd 1942 y ddeddf gyntaf i lacio mymryn ar waharddiadau'r Deddfau Uno cyn y daeth trobwynt yn statws cyfreithiol y Gymraeg gyda deddf iaith 1967 ac yna ddeddf iaith 1993. Golyga hyn fod cyfieithu ar y pryd wedi bod yn digwydd mewn achosion llys ymhell cyn dod yn drefn gyfarwydd i sefydliadau cyhoeddus. Ond er y blaengarwch hwn, mae rhagor eto i'w wneud er mwyn ymestyn darpariaeth Gymraeg yn y maes cyfiawnder yng Nghymru, fel y prawf adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru sy'n adolygiad o'r system gyfiawnder rhwng Rhagfyr 2017 a Hydref 2019:

> Nid yw'r system gyfiawnder bresennol yn trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg. Mae gormod o fylchau mewn darpariaeth a gormod o ddibyniaeth ar ewyllys da unigolion yn hytrach na sefydlu systemau dwyieithog. Ni all crwneriaid yng Nghymru gyhoeddi dogfennau yn Gymraeg. Mae prinder deunyddiau addysgu ar gyfraith Cymru a thrwy gyfrwng y Gymraeg.[36]

1.54

Dangosodd arolwg gan y Comisiynydd o hawliau a phrofiadau carcharorion sy'n siarad Cymraeg fod bylchau mawr yn y ddarpariaeth Gymraeg yno hefyd.[37] Â Gwasanaeth Carchardai a Phrofiant EM yn ymrwymedig i gynllun iaith, trafodir sefyllfa'r Gymraeg mewn carchardai mewn rhagor o fanylder yn Rhan 3 yr adroddiad hwn.

1.55

Gan fod byd cyfraith a chyfiawnder wedi bod ar y blaen o ran y Gymraeg ar y cyfan, efallai nad yw'n syndod lle mor ganolog mae'r Gymraeg yn ei gael yn adroddiad ac argymhellion uchelgeisiol y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Dangosir awydd ac angen gwirioneddol i weld y Gymraeg yn ffynnu yn y maes wrth i'r Comisiwn argymell y 'dylai pob corff cyfiawnder fod yn ddarostyngedig i Fesur y Gymraeg 2011'.[38]

1.56

Argymhellir bod gwell cydweithio rhwng ysgolion y gyfraith yng Nghymru ar addysg gyfreithiol cyfrwng Cymraeg a bod gwasanaethau digidol a chymorth am ddim ar gael yn y Gymraeg yr un pryd â'r Saesneg. Cyhoeddodd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn 2020 eu cynlluniau ar gyfer cyflwyno rhannau o gwrs newydd yr Arholiadau Cymhwysol Cyfreithwyr (SQE) yn Gymraeg. Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf fis Medi 2021 lle bydd modd cyflwyno asesiadau yn Gymraeg a bydd rhagor o ddarpariaethau Cymraeg yn cael eu cyflwyno fesul blwyddyn.[39]

36 ***Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru***, t. 13.
37 Comisiynydd y Gymraeg, *Cymraeg yn y carchar: Arolwg o hawliau a phrofiadau carcharorion sy'n siarad Cymraeg* (2018).
38 ***Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru***, t. 25.
39 Solicitors Regulation Authority, ***Solicitors Qualifying Examination (SQE) Briefing*** (Awst 2020), t. 22.

1.57

Awgryma'r Arglwydd Ustus Lloyd-Jones fod y newidiadau a ddaeth gyda deddfwriaeth yr ugeinfed ganrif wedi cydredeg â newidiadau yn agweddau pobl at ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru. A lle bu rhai yn anghydweld â'r newidiadau ar y dechrau, erbyn hyn mae cryn gefnogaeth i ddwyieithrwydd y llysoedd fel y tystia adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ac fel y dywed yr Arglwydd Ustus ei hun:

> Mae'n ymddangos i mi yn anghenraid sylfaenol o ran tegwch bod tystion, ymgyfreithwyr ac eraill sy'n defnyddio'r llysoedd yng Nghymru yn cael mynegi eu hunain mewn llys yn Gymraeg, yr iaith y maent yn ei ddefnyddio [sic] o ddydd i ddydd.[40]

Newid ar droed

1.58

Mae'r newid agwedd hwn, neu'r newid yng nghanfyddiad pobl o'r iaith, yn fesur arall, gwahanol, y gellid ei ystyried wrth feddwl am statws y Gymraeg. Anodd yw mesur newid o'r fath, wrth gwrs, ond mae lle i obeithio bod y diffyg hyder a'r israddoldeb sy'n perthyn i seici siaradwyr Cymraeg ers canrifoedd ar dro erbyn hyn. Mae rhaglen hyfforddi genedlaethol Llywodraeth Cymru, Deall Dwyieithrwydd, yn ymdrech ffurfiol i gyfrannu at y newid agwedd hwn ymhlith sefydliadau, a thrafodir y rhaglen yn fanylach yn Rhan 4. Yn rhan o'r rhaglen ceir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i arweinwyr strategol, sy'n gyfraniad pwysig er mwyn i benaethiaid ddeall goblygiadau statws swyddogol y Gymraeg a'r cyfrifoldebau a ddaw yn ei sgil.

1.59

Cofnodwyd yn yr adroddiad 5-mlynedd diwethaf fod 85% o'r bobl a holwyd mewn arolwg barn yn 2015 yn credu bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono a 77% yn credu bod y Gymraeg yn ased i Gymru.[41] Mae gweld y Gymraeg yn cael lle yng nghyfansoddiad cyfreithiol y wlad yn rhannol gyfrifol am y newid agwedd yma yn ddiamau. Ac o godi statws yr iaith yn y modd hwn, rhoddir mwy o fri arni a daw'n iaith fwy gweledol a berthyn i bawb.

1.60

Yn wir, cydnabyddir bod cynllunio statws a bri iaith yn un o gonglfeini cynllunio ieithyddol a 'deddfu a dyfarnu statws i iaith mewn cyfansoddiad gwlad hefyd yn ddatganiadau symbolaidd o'i phwysigrwydd a'i gwerth', fel y sylwodd Steve Eaves.[42] Noda Emyr Lewis yntau fod rhoi statws swyddogol i'r iaith drwy'r Mesur yn 'beth hanesyddol bwysig er mwyn setlo cwestiynau yn ymwneud â natur israddol y Gymraeg a'i siaradwyr yn hanesyddol yng Nghymru'.[43]

40 Araith Y Gwir Anrhydeddus Syr David Lloyd Jones, Arglwydd Ustus Apêl, '**Deddf yr Iaith Gymraeg 1967: Yr Hanner Canrif Cyntaf**' (traddodwyd yn agoriad cynhadledd flynyddol Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith yng Nghaerdydd ar 16 Mai 2017), t. 5.

41 Comisiynydd y Gymraeg, ***Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015*** (2016), t. 277.

42 ***Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru***, t. 76 [publication in Welsh only, author's translation].

43 Dyfynnir Emyr Lewis yn ***Cefnogi a hybu'r Gymraeg,*** t. 11.

1.61

Law yn llaw â'r newid ymddangosiadol yn agweddau a hyder siaradwyr Cymraeg y mae newid hefyd ym meddylfryd y sefydliadau sydd dan ddyletswyddau ieithyddol. Mae adroddiadau sicrwydd blynyddol y Comisiynydd yn dangos bod agweddau sefydliadau'n newid yn raddol wrth i'r safonau ymsefydlu ac wrth i hawliau ddechrau gwreiddio. Dywedodd Meri Huws ar ôl blwyddyn o weld y safonau cyntaf yn weithredol ei bod yn

> teimlo bod y drafodaeth gyhoeddus am y Gymraeg wedi newid. Bellach nid "pam" yw'r cwestiwn a ofynnir wrth drafod cynyddu defnydd o'r iaith, ond "sut".[44]

1.62

Caiff hyn ei adlewyrchu ym mhrofiadau aelodau'r cyhoedd wrth iddynt geisio gwasanaethau Cymraeg; yn ystod 2017–18 clywsom mewn grwpiau trafod fod

> defnyddwyr yn disgrifio gwelliant yn argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg – ac yn gweld hynny'n gyfystyr â gwelliant yn agwedd sefydliadau at ddefnyddio'r Gymraeg.[45]

1.63

Ond er y gwelliant sylweddol hwn ers cyflwyno'r safonau, mae rhagor eto i'w wneud er mwyn sicrhau bod statws swyddogol y Gymraeg yn cael ei barchu'n llawn a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn peuoedd cyhoeddus. Trafodir rhagor ar y cynnydd, y methiannau a'r gwelliant sydd ei angen wrth i sefydliadau ddarparu gwasanaethau, llunio polisïau, gweithredu, cadw cofnodion a hybu'r Gymraeg yn Rhan 3 yr adroddiad hwn.

1.64

Manyla Rhan 3 yr adroddiad hefyd ar ddefnydd busnesau, elusennau a sefydliadau trydydd sector o'r Gymraeg. Teg dweud mai graddol ac amrywiol yw'r cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau nad ydynt dan safonau. Y canfyddiad cyffredinol ymhlith siaradwyr Cymraeg yw bod gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau yn dangos parch ac yn cydnabod statws y Gymraeg.[46]

1.65

Ond er y gwelwyd agweddau cadarnhaol iawn ar y cyfan tuag at yr iaith gan fusnesau ac elusennau mewn seminarau sectorol a gynhaliwyd gan Dîm Hybu'r Comisiynydd, nid yw'r agwedd gadarnhaol a'r awydd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi arwain at weithredu bob tro. Wedi dweud hynny, mae rhai busnesau ac elusennau'n well na'i gilydd am ystyried y Gymraeg erbyn hyn, ac mae cynnydd cyffredinol wedi bod yn nefnydd archfarchnadoedd a siopau mawr fel Boots a Marks and Spencer yn eu defnydd o'r iaith.

44 Comisiynydd y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2016–17* (2017), t. 7.
45 Comisiynydd y Gymraeg, ***Mesur o Lwyddiant: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017–18*** (2018), t. 47.
46 Comisiynydd y Gymraeg, *Defnyddio'r Gymraeg – yr achos busnes* (2018).

1.66

Â'r Deyrnas Unedig bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae ystyriaethau eraill yn codi ynghylch statws y Gymraeg yn Ewrop. Er nad oedd i'r Gymraeg statws swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd, roedd ganddi statws 'cyd-swyddogol', yr un statws ag a roddir i'r Gatalaneg a'r Fasgeg. Roedd y statws hwn yn rhoi rhai hawliau cyfyngedig i ddinasyddion, fel yr hawl i ohebu yn y Gymraeg â Chomisiwn Ewrop, a derbyn ymateb yn Gymraeg. Golygodd hefyd fod rhywfaint o'r Gymraeg wedi ei defnyddio yng ngweithgareddau Senedd Ewrop. Ag ymlyniad yr Undeb Ewropeaidd at amrywiaeth ieithyddol ac at barchu hawliau pobl sy'n perthyn i leiafrifoedd, roedd gan y Gymraeg statws mwy ffurfiol yng nghyfansoddiad yr Undeb Ewropeaidd na sydd ganddi yng nghoridorau San Steffan.[47]

47 Papur gan Emyr Lewis, ***Dwi isio fy iaith nôl: Sofraniaeth, Xenophobia a'r Gymraeg yn dilyn refferendwm Ewrop*** (traddodwyd mewn symposiwn ar y Gymraeg a Brexit ym Mhrifysgol Bangor ar 8 Tachwedd 2016).

Casgliadau'r Comisiynydd

Gwelwyd datblygiadau sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf a gadarnhaodd statws swyddogol y Gymraeg. Mae'r broses o roi statws swyddogol i'r Gymraeg ar ddechrau yn sicr a hithau'n iaith sy'n perthyn cymaint i lawr y Senedd ac ydyw i lawr gwlad. Ond mae gwaith mawr eto i'w wneud.


Does dim gwadu bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn garreg filltir bwysig yn hanes statws yr iaith wrth iddo gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg am y tro cyntaf a sefydlu hawliau cyfreithiol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r safonau wedi darparu lefel o sicrwydd i sefydliadau a defnyddwyr fel ei gilydd, gan greu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg a chadarnhau ymhellach statws yr iaith. Dim ond drwy barhau â'r un momentwm gan ddefnyddio Mesur y Gymraeg i'w eithaf y gwelwn gynnydd tebyg dros y pum mlynedd nesaf. **Mae'n hollbwysig felly fod y Llywodraeth newydd yn ymrwymo i roi sefydlogrwydd i'r strwythurau a'r hawliau sydd eisoes mewn lle, gan ymroi i gysoni a gwella profiadau siaradwyr Cymraeg o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.**

Er mwyn cynnal y momentwm, mae'n hanfodol fod y Llywodraeth newydd yn ailafael ar fyrder yn y broses o osod safonau gan ddod â sefydliadau a sectorau newydd o dan y gyfundrefn honno. Gweithred fyddai nid yn unig yn sefydlu ymhellach statws yr iaith a hawliau defnyddwyr ond hefyd yn darparu cyfleoedd a chyd-destunau i ddefnyddio'r iaith bob dydd. Er bod 123 o sefydliadau yn gweithredu safonau, rydym yn dal i aros i Lywodraeth Cymru lunio rheoliadau ar gyfer nifer o sectorau allweddol er mwyn i'r Comisiynydd fedru gosod safonau arnynt. Maent yn cynnwys sectorau y mae'r cyhoedd yn cael dipyn o gyswllt beunyddiol â nhw, fel cymdeithasau tai, sefydliadau anweinidogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel Cyllid a Thollau, cyflenwyr nwy a thrydan, a gwasanaethau rheilffyrdd a chwmnïoedd bysiau.

Canlyniad peidio gosod safonau ar sefydliadau anweinidogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw bod dwy gyfundrefn statudol yn weithredol yng Nghymru heddiw. Mae hyn yn peri dryswch i'r cyhoedd gan fod hawl ganddynt i ddod atom yn syth i gwyno am sefydliadau sydd o dan safonau ond nid yw'r un hawl ganddynt i gwyno'n uniongyrchol am fethiannau yng nghyd-destun gwasanaethau allweddol a phroffil uchel y Wladwriaeth Les, er enghraifft.

Mae mawr angen felly i'r Llywodraeth archwilio atodlenni'r Mesur eto i adnabod sectorau pellach y gellid cyflwyno safonau arnynt, a bod yn rhagweithiol wrth adnabod endidau newydd y gellid dod â nhw o dan y gyfundrefn wrth iddynt gael eu creu.

Wrth i'r Gymraeg golli ei statws a'i gwarchodaeth o fewn yr Undeb Ewropeaidd, **mae'n bwysicach nag erioed fod San Steffan yn ystyried y Gymraeg mewn materion sydd heb eu datganoli ac mewn deddfwriaeth a gyflwynir yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.** Amlygwyd yr angen i ystyried y Gymraeg ar lefel y Deyrnas Unedig – a sicrhau ei statws – yn glir iawn yng nghyd-destun pandemig COVID-19 pan benderfynwyd caffael a threfnu nifer o ymatebion allweddol i'r pandemig yn ganolog gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan. Pendraw'r canoli ymdrechion hyn gan adran annatganoledig ac anghyfarwydd â gweithredu o dan ofynion y safonau oedd nad oedd pob un o'r gwasanaethau a ddarparwyd wedi'u cynllunio â'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog. **Rhaid dysgu gwersi o hyn a sicrhau fod gan y Gymraeg statws cyfansoddiadol a gwleidyddol digonol ar lefel y Deyrnas Unedig i sicrhau darparu gwasanaethau angenrheidiol i ddinasyddion Cymru, yn arbennig mewn cyfnod o argyfwng.**



Enw: **Cadi Emlyn**

Oed: **20**

Ardal: **Bethesda, Gwynedd**

77.5%
yn siarad Cymraeg ym Methesda



Mae Cadi yn fyfyrwraig yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor ac yn byw yn neuadd JMJ yn ystod y tymor, neuadd breswyl a neilltuwyd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn bennaf. Cymraeg yw iaith ei theulu gartref ym Methesda lle mae ei mam, ei thad, Nel, ei chwaer 14 oed, a Ned y ci yn byw. Daw ei mam o Dregarth, dafliad carreg o Fethesda, a'i thad o Aberystwyth. Cymraeg mae hi'n ei siarad â theulu ochr ei thad a Saesneg yw'r iaith yn bennaf â theulu ochr ei mam.

"Dwi'n teimlo angerdd, cariad a balchder at y Gymraeg. Fyswn i ddim yn fi heb y Gymraeg."

Y Gymraeg drwy lygaid Cadi

Cymraeg roedden ni'n siarad yn bennaf yn yr ysgol gynradd, er bod dwy o'n ffrindiau yn ddi-gymraeg. Ond dydw i ddim yn cofio fod hynny wedi newid iaith ein grŵp ni chwaith. Erbyn yr ysgol uwchradd, roedd gen i griw newydd o ffrindiau, a Chymraeg oedd iaith ein grŵp eto. Roedden ni'n siarad Saesneg efo un ffrind, ac er ei bod hi wedi gwneud Cymraeg fel pwnc Lefel A, Saesneg rydan ni'n dal i siarad efo'n gilydd. Dwi ddim yn siŵr pam, ella am mai dyna'r iaith y cawson ni ein cyflwyno i'n gilydd?

Dwi'n meddwl fod lot o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiog efo'u iaith a'u defnydd o'r Gymraeg ac felly'n dueddol o droi at y Saesneg yn rhy hawdd. Mae rhai grwpiau hefyd yn meddwl bod siarad Saesneg yn fwy 'cŵl', ac mae hyn yn digwydd weithiau mewn grwpiau lle mae'r holl unigolion yn dod o gefndiroedd Cymraeg.

Pan ydw i'n mynd i stryd fawr Bethesda, dwi'n gallu siarad Cymraeg fwy neu lai ym mhob man – Tesco, Londis, Siop Ogwen. Hyd yn oed yn y tafarndai mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio tu ôl i'r bar yn siarad Cymraeg neu o leiaf yn deall. Yn y siopau têcawe (e.e. Indian, sglodion, kebabs), dim ond yn y siop sglodion fyddwn i'n gallu siarad Cymraeg.

Ers mynd i'r brifysgol mae fy Saesneg i wedi mynd yn warthus gan nad ydw i prin yn ei defnyddio o gwbl. Dwi'n byw yn Neuadd JMJ, yn astudio'r Gymraeg, ac yn rhan o UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor) ac felly mae popeth dwi'n cymryd rhan ynddo a phawb dwi'n cymdeithasu efo nhw yn siarad Cymraeg. Prin dwi'n cael y cyfle i ddefnyddio'r Saesneg.



Enw: **Nest Davies**

Oed: **80**

Ardal: **Allt-wen, Castell-nedd Port Talbot**

27.0%
yn siarad Cymraeg yng nghymuned Cilybebyll



Mae Nest yn byw gyda'i gŵr ym mhentref Allt-wen yng Ngwm Tawe sy'n rhan o gymuned Cilybebyll. Mae ganddi ddau fab a sawl wyres, a Chymraeg mae hi'n siarad â nhw i gyd. Mae hi wedi byw yn yr ardal ar hyd ei hoes.

"Alla' i byth meddwl am beidio siarad Cymraeg. Rhan ohonoch chi yn dyw e?"

Y Gymraeg drwy lygaid Nest

Fe es i Ysgol y Rhos, a wedi 'ny i Ysgol Ramadeg Ystalyfera. Pryd 'ny roedd fy addysg i yn Saesneg, ond Cymraeg ro'n ni gyd yn siarad ar yr iard. Roedd hi'n ardal Gymraeg iawn bryd 'ny.

Ro'n i'n brifathrawes Ysgol Gynradd Rhiw-fawr am flynyddoedd, cyn ymddeol yn 1993. Cymraeg ro'n nhw'n siarad ar yr iard yn Ysgol Gynradd Rhiw-fawr, mae e 'mhen uchaf Cwm Tawe. Ond cofiwch, mae hynny bron i 30 mlynedd yn ôl bellach.


Ry'n ni'n byw mewn lle gwledig lan fan hyn yn yr Allt-wen. Pan fi'n cerdded o amgylch Pontardawe, fi'n gweld rhai pobl sy'n siarad Cymraeg. Yn blant, roedd pawb yn siarad Cymraeg, pob tŷ yn siarad Cymraeg. Mae llai yn siarad Cymraeg nawr. Mae'r bobl sy'n prynu tai yn ddi-Gymraeg, dy'n nhw ddim yn dod o'r ardal 'ma.

Wel fi wastad yn siarad Cymraeg gyda phobl sy'n gwisgo'r bathodynnau 'na, maen nhw fel ryw goma oren. Fi wedi dod i nabod pwy sy'n siarad Cymraeg yn Tesco, a fi'n gwneud pwynt o siarad Cymraeg 'da nhw.

Dwi'n aelod o Ferched y Wawr. Ni yw merched y wawr. Ni wnaeth sefydlu'r mudiad. Fi'n aelod o grŵp darllen Tŷ'r Gwrhyd, dwi'n treial cefnogi y pethach sy'n mynd ymlaen yna. Fi hefyd yn mwynhau cefnogi dramâu yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe. Yn anffodus dyw pobl ddim yn cefnogi fel arfer, mae'n hala fi'n grac iawn.

Fi'n mynd i Tŷ'r Gwrhyd i wrando ar blant o gartrefi di-Gymraeg yn darllen bob dydd Gwener. Mae rhieni di-Gymraeg yn ddiolchgar iawn am sylw unigol. Fi'n gweld hyder ynddyn nhw wrth ddarllen gyda nhw un-wrth-un.

Fi'n defnyddio Cymraeg yn y capel, a gyda'r chwiorydd. Cymraeg yw popeth yno. Mae cwpwl o blant yn dod i'r ysgol Sul. Mae e'n rhoi gobaith i fi gweld pobl yn dod yn ôl i'r capel, gweld ton newydd yn troi at y capel.



Enw: **Richard Vale**

Oed: **62**

Ardal: **Castellnewydd Emlyn, Sir Gâr**

53.7%

yn siarad Cymraeg yng Nghastellnewydd Emlyn



Daw Richard o Swydd Buckingham yn wreiddiol, ond mae'n byw yng Nghastellnewydd Emlyn ers pymtheng mlynedd bellach. Cafodd rywfaint o Gymraeg gan ei fam yn blentyn, a Chymraeg mae'n ei siarad â theulu ochr ei fam, tra bo teulu ochr ei dad yn siarad Saesneg. Mae gan Richard wraig a phump o blant y mae'n siarad Almaeneg â nhw, ond Cymraeg mae'n ei siarad gyda'i fab ieuengaf. Mae'r pedwar plentyn arall wedi symud i fyw i amryw wledydd yn Ewrop lle mae pum iaith yn cael eu siarad rhwng yr holl aelwydydd.

"Mae'r Gymraeg yn rhywbeth amhrisiadwy ac unigryw y gall pawb yng Nghymru ymfalchïo ynddi."

Y Gymraeg drwy lygaid Richard

Mi oedd fy mam yn siarad Cymraeg gyda mi yn blentyn bach ond mi wnes i golli'r iaith pan nes i gychwyn mynd i'r ysgol gan ein bod yn byw yn Lloegr.

Mi oeddwn i'n gyfarwydd â'r iaith gan fod sawl un yn nheulu mam yn siarad Cymraeg ac rwy'n cofio mynd ar fy ngwyliau i Bwllheli yn 10 oed, a chael 10 swllt i wario. Fe wnes i brynu geiriadur Cymraeg a threulio oriau yn pori trwyddo.

Fe wnes i dreulio rhan fwyaf o fy ngyrfa yn byw mewn gwahanol lefydd ledled Ewrop – gan gynnwys Stockholm, Llundain a Zurich cyn penderfynu yn 2005 ein bod am ddod i Gymru i fyw.

Mi es i ati i ddysgu'r iaith yn syth, a gan 'mod i wedi ei siarad yn fachgen bach, mi ddaeth yr iaith yn ôl i mi'n eithaf sydyn. Erbyn 2008 roeddwn yn gweithio fel tiwtor Cymraeg i Oedolion yn Aberteifi a gogledd Sir Benfro, ac felly Cymraeg yw iaith y gweithle.

Mi wnes i addewid mewn protest Cymdeithas yr Iaith yn 2013 fy mod am fyw fy mywyd trwy gyfrwng y Gymraeg, felly mi ydw i yn dewis mynd i siopau, caffis ac ati ble dwi'n gwybod bod rhywun yn siarad Cymraeg. Mae'n werth cychwyn sgwrs yn y Gymraeg bob tro gan fy mod yn cael fy synnu weithiau fod rhywun yn gallu siarad yr iaith.

Dwi'n ffodus iawn o'r ardal rydw i'n byw ynddi a bod cymaint yn gallu siarad yr iaith. Mae wedi bod yn eithaf rhwydd cadw at fy addewid.

Rhan 2: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rhan 2: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 45

A chawsom iaith... 48

1 Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu 49

Y sail dystiolaeth 49

Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref 54

Casgliadau'r Comisiynydd 56

2 Y blynyddoedd cynnar 57

Cynnig gofal plant newydd i Gymru 58

Y sail dystiolaeth 61

Casgliadau'r Comisiynydd 65

3 Addysg statudol 67

Cymraeg 2050 a chyfraniad y sector addysg 68

Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 70

Y cwricwlwm newydd, diddymu Cymraeg ail iaith, a chyflwyno un continwwm ieithyddol 72

Datblygiadau arwyddocaol eraill 75

Anghenion dysgu ychwanegol 75

Cymwysterau 75

Adnoddau 76

Cludiant 77

Darlun ystadegol o'r Gymraeg mewn addysg statudol 77

Casgliadau'r Comisiynydd 82

4 Addysg ôl-orfodol 84

Ymestyn swyddogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 85

Addysg uwch 89

Cymraeg i Oedolion 94

Sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru 96

Casgliadau'r Comisiynydd 98

5 Y gweithlu addysg **99**
Gweithlu'r sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar 99
Gweithlu'r sector addysg statudol 101
Darlun ystadegol o'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru 101
Recriwtio siaradwyr Cymraeg i hyfforddi fel athrawon 105
Y broses hyfforddi athrawon yng Nghymru 106
Cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu 107
Gweithlu'r sector ôl-16 ac addysg uwch 107
Casgliadau'r Comisiynydd **110**
Y Gymraeg drwy lygaid Debbie, Kelly a Xiaoling **111**

A chawsom iaith...

Dyma droi felly at strwythur driphlyg strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Gan fod rhifolyn yn cael lle mor amlwg yn nheitl a gweledigaeth y strategaeth honno, does dim rhyfedd mai'r cwestiwn o greu a chyfrif y niferoedd yw pwyslais y thema strategol gyntaf. Dau brif ddull sydd yna o greu siaradwyr Cymraeg: gall pobl gaffael yr iaith gartref ar yr aelwyd neu'n nes ymlaen drwy'r system addysg. Dyma gonglfeini strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r taflwybr i'r miliwn o siaradwyr wedi'i gyfrifo ar sail y cyfraniad y bydd addysg a throsglwyddo iaith ill dau yn ei wneud ar adegau gwahanol yn ystod oes y strategaeth. Yma, byddwn yn ystyried y cynnydd a wnaethpwyd mewn perthynas â'r thema hon yn ystod y cyfnod adrodd ac yn dod i gasgliadau ynghylch y prif heriau i'r pum mlynedd nesaf.

1 Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

Y sail dystiolaeth


1.1

Cyfrifiad 2011 ac Arolwg Defnydd Iaith 2013–15[1] sy'n darparu'r data dibynadwy diweddaraf am allu a rhuglder yn y Gymraeg a'u perthynas â throsglwyddo'r iaith yn y cartref. Bydd yn rhaid disgwyl am ganlyniadau nesaf yr arolygon hyn er mwyn dadansoddi i ba raddau y mae'r sefyllfa yng Nghymru wedi newid yn ystod y deng mlynedd diwethaf.[2]

1.2

Er bod yr ystadegau sydd ar gael wedi dyddio rywfaint erbyn llunio'r adroddiad hwn, mae'r casgliadau sy'n deillio o'r data yn parhau'n sail gadarn ar gyfer cynllunio polisïau ieithyddol. Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod canran y plant 3–4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar allu oedolion yr aelwyd i siarad yr iaith:

Siart 1: Canran y plant 3–4 oed â'r gallu i siarad Cymraeg, aelwydydd un teulu yn unig (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011).



1 Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, ***Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013–15*** (26 Tachwedd 2015).

2 Ceir trafodaeth am y berthynas rhwng y cyfrifiad ac arolygon eraill yn yr adran Cefndir a chyd-destun.

1.3

Fel y gwelir o'r siart uchod, mae cyfran y plant 3–4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch mewn aelwydydd lle mae dau oedolyn yn siarad Cymraeg nag ydyw mewn unrhyw fath arall o aelwyd. Er hynny, hyd yn oed ar aelwydydd lle mae'r ddau riant yn gallu siarad Cymraeg, nid yw oddeutu 18% o blant 3–4 oed yn medru'r iaith. Mae cyfran y plant 3–4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn sylweddol is ar aelwydydd lle mai dim ond un oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg, ac yn is fyth pan nad oes yr un oedolyn yn medru'r iaith.

1.4

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 yn darparu gwybodaeth fanwl ynglŷn â lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar ble y bu iddynt ddysgu Cymraeg yn bennaf. Mae'r canlyniadau'n ategu awgrym canlyniadau'r cyfrifiad ynglŷn â phwysigrwydd creiddiol trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd i greu a chynnal siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r arolwg yn dangos bod cydberthynas rhwng pryd a ble mae unigolyn yn caffael neu ddysgu Cymraeg a pha mor rhugl a pharod y bydd i ddefnyddio'r iaith maes o law.

1.5

Fel y mae strategaethau iaith diweddar y Llywodraeth wedi cydnabod, wrth i'r sector addysg greu mwy o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol, rhagwelir y bydd rôl gynyddol arwyddocaol i drosglwyddo iaith yn y cartref fel un o'r prif ffyrdd o gynnal iaith yn y gymuned. Nodwyd hynny yn strategaeth *Iaith fyw: iaith byw* yn y lle cyntaf:

> Ynghyd ag addysg, mae trosglwyddo'r iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall yn un o'r ddau faes pwysicaf ym maes cynllunio ieithyddol. Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl, ac yn ddiamau, mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl.[3]

Ategwyd hyn ymhellach yn *Cymraeg 2050*:

> Mae pwysigrwydd trosglwyddo'r iaith yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n strategaeth, ac wrth i ni weld cynnydd yn y nifer sy'n dysgu'r Gymraeg drwy'r system addysg, ac felly gyfran uwch sydd wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol yn hytrach na'i chaffael yn y cartref, bydd yr her o ran trosglwyddo'r iaith yn newid dros amser. Bydd angen i ni deilwra ein polisi yn unol â hynny.[4]


3 Llywodraeth Cymru, ***Iaith fyw: iaith byw, Strategaeth y Gymraeg 2012–17*** (Mawrth 2012), t. 25.
4 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*** (2017), t. 34.

1.6

Crynhodd Joshua Fishman bwysigrwydd trosglwyddo iaith yn fachog drwy ddatgan bod adfywio iaith drwy

> stylish efforts to control the language of education, the workplace, the mass media and governmental services, without having sufficiently safeguarded [intergenerational language transfer] is equivalent to constantly blowing air into a tire that still has a puncture.[5]

Siart 2: Rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg (Ffynhonnell: *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013–15*).



1.7

Mae'r data uchod yn dangos yn glir y berthynas gref sy'n bodoli rhwng trosglwyddo iaith ar yr aelwyd a rhuglder yn y Gymraeg. Yn anffodus, mae'r data isod yn dangos bod cyfran y plant sy'n caffael y Gymraeg yn y cartref wedi lleihau'n sylweddol dros yr hanner canrif diwethaf.



80%

Roedd oddeutu 80% o siaradwyr Cymraeg 65+ oed wedi caffael y Gymraeg yn y cartref fel plant...


20%

...tra bo'r ffigur hwn yn oddeutu 20% ar gyfer siaradwyr Cymraeg 3–15 oed.

5 Joshua A. Fishman, *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages* (Clevedon, 1991), t. xii.

Yn yr ysgol yn hytrach na'r cartref y mae'r mwyafrif o blant yn debygol o ddysgu Cymraeg heddiw:

Siart 3: Ble bu i siaradwyr Cymraeg ddysgu siarad Cymraeg yn bennaf, yn ôl oedran (Ffynhonnell: *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013–15*).



1.8

Ym mis Ebrill 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fwletin ystadegol *Ble a phryd y mae pobl yn dysgu'r Gymraeg* ar sail canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018–19. Er nad oes modd cymharu canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol â chanlyniadau'r cyfrifiad yn uniongyrchol, mae patrymau cyffredin i'w gweld o ran trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd.[6]

1.9

Yn rhan o'r gwaith paratoadol o lunio strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil ar sut mae rhieni yn defnyddio'r Gymraeg â'u plant a sut mae gwahanol ffactorau yn dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Yn 2017 cyhoeddwyd yr adroddiad *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*,[7] sy'n ychwanegu at yr ymchwil oedd eisoes yn bodoli ym maes trosglwyddo iaith.[8]

6 Llywodraeth Cymru, ***Ble a phryd y mae pobl yn dysgu'r Gymraeg: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018–19*** (28 Ebrill 2020).

7 Prifysgol Caerdydd ac Ymchwil Arad, ***Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd: Ymchwil i'r amodau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 12 Mehefin 2017).

8 Ceir trosolwg cryno o'r gwaith a wnaed yn y gorffennol ar drosglwyddo iaith yn Comisiynydd y Gymraeg, ***Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015*** (2016), tt. 90–6, neu os am drafodaeth fanylach gweler ***Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd***, tt. 12–49.

1.10

Mae'r ymchwil yn ategu llawer o'r hyn sydd eisoes yn wybyddus ynglŷn â'r ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar drosglwyddo iaith: pwysigrwydd cyfansoddiad ieithyddol y teulu, ble mae'r teulu'n byw, ac agweddau at y Gymraeg a hunaniaeth, er enghraifft. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos mai ymddygiad anymwybodol oedd y defnydd o iaith yn y cartref ymhlith y teuluoedd a astudiwyd, un oedd gan amlaf yn seiliedig ar arferion ieithyddol y rhieni, a'u profiadau blaenorol o ddefnydd iaith pan oeddent hwythau'n blant.

1.11

Un o negeseuon allweddol yr ymchwil yw'r gwahaniaeth cysyniadol rhwng *trosglwyddo* iaith (defnyddio'r iaith yn y cartref) a *rhoddi* iaith (dewis addysg cyfrwng Cymraeg i blant).

1.12

Tra bo rhieni oedd wedi caffael yr iaith ar yr aelwyd fel plant yn tueddu i ddefnyddio'r iaith â'u plant hwythau, canfuwyd bod rhieni oedd wedi dysgu'r iaith drwy'r system addysg yn aml â'r bwriad o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, heb o reidrwydd ystyried defnyddio'r iaith ar yr aelwyd. Hynny yw, er eu bod yn dewis addysg cyfrwng Gymraeg i'w plant, roedd defnyddio'r Saesneg yn y cartref yn rhywbeth oedd yn digwydd yn awtomatig. Dyma enghraifft o feddylfryd un tad o ardal Rhondda Cynon Taf:

> If you don't speak Welsh at home, which we didn't, when you have a child, it tends to be that you don't even think about the language… When they start school, then you make a decision. If you're not used to speaking [Welsh], English is the default setting.[9]

1.13

Yn aml, roedd y rhieni hynny o gefndiroedd lle nad oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ar yr aelwyd yn adrodd eu bod â diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg, ac nad oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg ryw lawer ers gorffen yn yr ysgol. Mae'r ymchwil yn amlygu ymyraethau posibl i'r maes trosglwyddo iaith yn y dyfodol. Bydd angen canolbwyntio'n benodol ar gefnogi rhieni sydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol i fynd gam ymhellach na rhoddi'r iaith i'w plant yn unig, a'u hannog i drosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd.

9 ***Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd***, t. 113.

Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref

1.14

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r Arolwg Cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref wedi cefnogi datblygu polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu yn ystod y cyfnod adrodd. Yn haf 2020 ymgynghorodd y Llywodraeth ar ddrafft o'r polisi hwn, a bydd y polisi terfynol, a gyhoeddwyd ddechrau 2021, yn sail i waith y Llywodraeth yn y maes am y degawd nesaf.

1.15

Mae'r polisi yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu sydd, i raddau helaeth, yn adlewyrchu rhai o brif argymhellion yr astudiaeth ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref. Mae'r camau gweithredu'n canolbwyntio ar bedwar nod cyffredinol:

- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg â'u plant nhw yn y dyfodol.
- Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg â'u plant eu hunain.
- Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant.[10]

1.16

Wrth gwrs, mae ymdrechion i gefnogi rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant wedi bodoli ers rhai blynyddoedd bellach. Nod prosiect Twf, a oedd ar waith rhwng 2001 a 2016, oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd o fanteision magu plant yn ddwyieithog. Gwnaed hynny'n bennaf drwy gydweithio â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, a thrwy gynnig cefnogaeth a chyngor i rieni.

1.17

Yn 2016 cafodd Twf ei ddisodli gan y rhaglen Cymraeg i Blant, sy'n cael ei gweithredu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Mudiad Meithrin ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen Cymraeg i Blant yn cynnig gwahanol weithgareddau fel tylino a ioga babis, grwpiau cefnogi, a sesiynau grŵp stori a chân, gan ganolbwyntio ar y cyfnod cyn geni hyd at pan fo'r plentyn yn 18 mis oed. Drwy'r gweithgareddau hyn cynigir cymorth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i rieni ynghylch defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a dewis addysg neu ofal cyfrwng Cymraeg.

10 Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Ymgynghori: Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*** (11 Chwefror 2020), t. 24.

1.18

Cyhoeddwyd gwerthusiad proses o'r rhaglen yn 2019, a oedd yn gyffredinol yn adrodd ar ei llwyddiant yng nghyd-destun amcanion polisi strategaeth *Cymraeg 2050*. Yn ôl y gwerthusiad, mae'r nifer o deuluoedd sy'n mynychu gweithgareddau rhaglen Cymraeg i Blant wedi cynyddu'n sylweddol ers ei chyflwyno yn 2016, ac yn 2017–18 mynychodd bron i 21,000 o oedolion a 22,000 o blant bron i dair mil o sesiynau grŵp gwahanol.[11] Mae'r gwerthusiad yn cynnwys amryw o argymhellion ynglŷn â sut y gellir datblygu'r rhaglen ymhellach, a bydd gweithredu'r rhain ac ystyried ffyrdd o ymestyn y rhaglen yn allweddol er mwyn gwireddu amcanion *Cymraeg 2050*.

1.19

Er mwyn gweithredu'r rhaglen Cymraeg i Blant, mae Llywodraeth Cymru a'r Mudiad Meithrin yn cydweithio â sefydliadau a rhaglenni perthnasol eraill, gan gynnwys y mentrau iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae gwaith y Mudiad Meithrin drwy wasanaethau a rhaglenni fel Cylchoedd Ti a Fi, Clwb Cwtsh, a'r Cylchoedd Meithrin yn dilyn yn naturiol o'r rhaglen Cymraeg i Blant ac yn ffyrdd effeithiol o rannu negeseuon â rhieni newydd ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.

1.20

Law yn llaw â hyn mae'r rhaglen Cymraeg i Blant yn parhau i weithio â Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru i sicrhau bod bydwragedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid eraill yn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith gan amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael i rieni newydd.

1.21

Un datblygiad pwysig arall yng nghyd-destun polisi trosglwyddo iaith y Llywodraeth yw cynllun Cymraeg yn y Cartref y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Sefydlwyd y cynllun yn 2020 a'r nod yw cynnig darpariaeth dysgu Cymraeg yn benodol i deuluoedd gan ganolbwyntio ar adennill hyder rhieni yn eu sgiliau Cymraeg a'u hannog i siarad Cymraeg â'u plant. Bydd cydweithio â phartneriaid allweddol a darpariaethau cysylltiedig sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft Clwb Cwtsh y Mudiad Meithrin, yn rhan allweddol o'r cynllun. Y bwriad yw gwerthuso'r cynllun arloesol hwn ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, cyn penderfynu ar gynnwys a natur y cynllun i'r dyfodol.

11 Llywodraeth Cymru, ***Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant: Crynodeb Gweithredol*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 12 Chwefror 2019), t. 2.

Casgliadau'r Comisiynydd

Nid tasg hawdd mo gwerthuso llwyddiant gwahanol ymyraethau ym maes trosglwyddo iaith, yn rhannol gan nad oes data cynhwysfawr ar gael eto a fyddai'n sail ar gyfer pwyso a mesur cynnydd ers 2011. Ond hyd yn oed pan fydd y data hwnnw ar gael, mae'n debygol mai newidiadau gweddol fychan a welwn, ac na fydd modd llunio casgliadau pendant ynglŷn â rôl a dylanwad gwahanol ymyraethau os gwelwn unrhyw newidiadau. Mae trosglwyddo iaith yn faes polisi cymhleth a hynod anodd ei dreiddio. Er hyn, nid oes amheuaeth am bwysigrwydd strategol trosglwyddo iaith yng nghyd-destun amcanion *Cymraeg 2050*, yn enwedig er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol yn y tymor hir.

Fel y mae'r ymchwil ar drosglwyddo iaith yn y cartref yn ei bwysleisio dro ar ôl tro, nid yw newid arferion iaith unigolion na theuluoedd yn fater syml. Gan amlaf mae pa iaith sy'n cael ei defnyddio ar yr aelwyd yn benderfyniad neu'n arferiad isymwybodol, ac yn un sy'n deillio o brofiad a sefyllfa bersonol a chymdeithasol yr unigolion. Golyga hyn nad yw'n hawdd dylanwadu'n llwyddiannus ar ddewisiadau ac arferion iaith yn y cartref drwy ymyrraeth unigol. **Mae gofyn felly am ystod o ymyraethau a fydd yn effeithio ar brofiad holistaidd unigolyn dros gyfnod hirach o amser.**

Gellid dadlau fod potensial i bolisïau llwyddiannus mewn meysydd fel gofal plant, addysg, a'r gweithle – heb sôn am yr economi – fod yn fwy arwyddocaol a dylanwadol yn y pen draw o ran cynyddu cyfraddau trosglwyddo'r iaith yn y cartref na'r polisïau hynny sy'n canolbwyntio'n benodol ac yn unswydd ar arferion ieithyddol rhieni. O dderbyn y ddadl hon, rhaid derbyn y gall penderfyniadau polisi ehangach danseilio'n llwyr amcanion y Llywodraeth o ran trosglwyddo iaith. Petai torri ar gyllid neu gefnogaeth mewn meysydd fel gofal plant, addysg bellach ac uwch, neu'r cynllun Cymraeg Gwaith, er enghraifft, byddai hynny'n rhwym o gael dylanwad ar ganfyddiad pobl o bwysigrwydd yr iaith yn ogystal â'r cyfleoedd iddynt fagu hyder ieithyddol. Gallai hefyd effeithio ar ewyllys a gallu unigolion i'w throsglwyddo – neu ei rhoddi drwy'r system addysg hyd yn oed. **Mae angen sicrhau bod yr amodau a'r gefnogaeth yno i unigolion allu defnyddio'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol fel bod modd eu darbwyllo o werth y Gymraeg a'u hannog i ddefnyddio'r iaith pan fyddant yn magu eu plant eu hunain.**

Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu nad oes angen polisi cenedlaethol ac ymyraethau penodol sy'n canolbwyntio ar drosglwyddo iaith yn y cartref. Mae'r polisi cenedlaethol ar drosglwyddo iaith yn y cartref yn cynnwys amryw o gynigion diddorol ar gyfer y dyfodol. Cyflwynir y syniad o raglen adduned defnydd iaith, er enghraifft, a'r bwriad i dargedu rhwydweithiau rhieni/gofalwyr mewn ysgolion gan gynnig cymorth i deuluoedd ddefnyddio rhagor o Gymraeg. **Mae angen rhoi sylw penodol i'r sefydliadau a'r gweithgareddau hynny sy'n cynnig cyfleoedd llai ffurfiol, ac yn aml ar raddfa leol iawn, i rieni newydd fagu hyder i ddefnyddio a throsglwyddo'r Gymraeg.** Mae'r ymyraethau hyn hefyd yn amlygu'r berthynas rhwng trosglwyddo iaith o fewn y teulu a'r mater ehangach o gymdeithasoli plentyn yn yr iaith Gymraeg.

Nid oes manylder eto ynglŷn â hyd a lled gweithredu prosiectau'r Llywodraeth na'r amserlen ar eu cyfer. **Bydd sicrhau bod ymrwymiadau lefel uchel y polisi drafft yn arwain at brosiectau uchelgeisiol ym maes defnydd iaith ymysg teuluoedd yn hollbwysig dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hefyd angen sicrhau cefnogaeth a chyllid digonol ar gyfer y sefydliadau a'r rhaglenni sy'n cyfrannu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at amcanion y polisi cenedlaethol hwn.**

2 Y blynyddoedd cynnar

Credwn fod y Gymraeg yn perthyn i bawb a'i bod yn gyfrwng i uno'n cenedl amrywiol. Ers 1971, gwaith Mudiad Meithrin yw i ddylanwadu, ymlafnio a gweithredu'n ymarferol er mwyn sicrhau fod plant bach Cymru yn gallu dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Er pwysiced dathlu cynnydd dros y cyfnod dan sylw (gyda mwy o blant yn derbyn gofal plant o safon drwy gyfrwng y Gymraeg a mwy'n mynd ymlaen i dderbyn addysg Gymraeg) rhaid i ni (ac eraill) weithio'n galetach er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn gallu cael profiad Cylch Meithrin ac addysg Gymraeg gan fod rhwystrau anfwriadol ac ymarferol yn parhau i wynebu pobl mewn rhai cymunedau.

Gwenllian Lansdown Davies
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

2.1

Os na throsglwyddir yr iaith ar yr aelwyd, trochi plant yn yr iaith Gymraeg mor gynnar â phosibl yn y gyfundrefn addysg a gofal sydd fwyaf tebygol o arwain at greu siaradwyr Cymraeg rhugl.[12] Dyna pam fod y sector gofal ac addysg blynyddoedd cynnar mor allweddol i gynllunio ieithyddol.

2.2

Ar wahân i'r ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar i blant 3–5 oed, nid yw'r gofal yn ystod y cyfnod cyn-statudol dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, a chaiff ei ddarparu gan ystod eang o unigolion, cwmnïau a mudiadau gwirfoddol a phreifat. Er hyn, mae gan Arolygaeth Gofal Cymru gyfrifoldebau rheoleiddio yn y sector gofal plant, sy'n cynnwys cofrestru, arolygu a gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal plant. Mae Estyn hefyd yn gyfrifol am arolygu ansawdd a safonau mewn ysgolion a lleoliadau meithrin a ariennir neu a gynhelir gan awdurdodau lleol.

2.3

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn cydnabod dyletswyddau awdurdodau lleol fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol.[13] Mae dyletswydd ddeddfwriaethol ar awdurdodau lleol i asesu a chynllunio darpariaeth gofal plant er mwyn sicrhau argaeledd ac ansawdd. Yn rhan o'u dyletswydd ehangach i fonitro ac asesu'r ddarpariaeth, mae gofyn i awdurdodau lleol ystyried a chynllunio gofal plant cyfrwng Cymraeg drwy lenwi bylchau, sicrhau cynaliadwyedd, cynyddu niferoedd a gwella ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal.

2.4

Mae'r tirlun gofal plant cyn-statudol wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i'r amryw o bolisïau a newidiadau deddfwriaethol ym maes gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynnig gofal plant newydd i Gymru

2.5

Un o ymrwymiadau rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen*, oedd darparu 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio â'u plant yn dair neu bedair oed.[14] Mae'r cynnig 30 awr yn gyfuniad o amser addysg blynyddoedd cynnar (10 awr yr wythnos fel arfer) a gofal plant (20 awr yr wythnos fel arfer).

2.6

Dechreuodd Llywodraeth Cymru ar y broses o weithredu'r cynnig ym mis Medi 2018, ac erbyn hyn mae ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhy gynnar eto i werthuso'n llawn effaith y datblygiad hwn ar y sector cyn-statudol yng Nghymru. Yr hyn sy'n amlwg, fodd bynnag, yw bod Cynnig Gofal Plant Cymru yn ddatblygiad sylweddol i'r sector sy'n debygol o siapio'r ddarpariaeth am flynyddoedd i ddod.

12 ***Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013–15***.
13 Gweler **Deddf Gofal Plant (2006)**, Rhan 1, Adran 22 (deddf ar gael yn Saesneg yn unig), a **Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016**.
14 Llywodraeth Cymru, ***Symud Cymru Ymlaen 2016–2021*** (20 Medi 2016), t. 5.

2.7

Mae'n amlwg hefyd fod darparwyr wedi gorfod addasu i'r newidiadau hyn drwy gynnig darpariaeth sy'n cyd-fynd â fframwaith Cynnig Gofal Plant Cymru. I gefnogi'r sector i addasu, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun grant ar gyfer prosiectau cyfalaf gofal plant yn 2018. O'r £81 miliwn oedd ar gael, dyrannwyd bron i £36 miliwn i brosiectau cyfrwng Cymraeg, a thros £4.5 miliwn i brosiectau dwyieithog.

2.8

Mae datblygu strategaeth genedlaethol fel y Cynnig Gofal Plant yn gyfle amlwg i osod y Gymraeg yng nghanol y broses datblygu polisi. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried fod datblygu Cynnig Gofal Plant Cymru wedi digwydd yn yr un cyfnod â chyhoeddi strategaeth *Cymraeg 2050*.

2.9

Mae *Cymraeg 2050* yn pwysleisio pwysigrwydd y cyfnod cyn-statudol fel dechrau'r daith i wireddu targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Y nod hirdymor yw cyrraedd sefyllfa lle mae plant dan bump oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i ddechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr rhugl. Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i ehangu darpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar gan sefydlu 150 yn rhagor o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf, a 40 o'r rheini'n cael eu sefydlu erbyn 2021.

2.10

Mae'r Llywodraeth yn cydweithio â'r Mudiad Meithrin i gyflawni'r targedau hyn. Mae gwaith cyffredinol y Mudiad Meithrin yn greiddiol i'r nod o ehangu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg, ac mae ei ddogfen bolisi *Meithrin Miliwn*[15] yn gosod ei waith yng nghyd-destun strategaeth *Cymraeg 2050*.[16] Yn sgil derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, cyflwynodd y Mudiad Meithrin y rhaglen Sefydlu a Symud lle mae tîm penodol yn cydweithio ag awdurdodau lleol ar draws Cymru i sefydlu'r 40 cylch meithrin newydd erbyn 2021. Un o egwyddorion craidd y rhaglen hon yw'r angen i sefydlu cylchoedd newydd mewn ardaloedd lle mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Ers mis Ionawr 2018, mae'r Mudiad Meithrin wedi agor 31 cylch meithrin newydd a bydd 13 arall yn agor cyn mis Medi 2021.

2.11

Mae'n amlwg fod potensial i integreiddio'r strategaethau a'r polisïau uchod i ysgogi twf sylweddol yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â'r dyletswyddau sydd wedi'u gosod ar awdurdodau lleol yn sgil Deddf Gofal Plant 2006, mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol hefyd yn gosod fframwaith i gydlynu prosesau cynllunio gofal plant cyfrwng Cymraeg yn lleol.

15 Mudiad Meithrin, ***Meithrin Miliwn: Ymateb Mudiad Meithrin i Strategaeth Iaith a Rhaglen Waith (2017–2021) Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru*** (Awst 2017).

16 Gweler hefyd ddogfen strategaeth y Mudiad Meithrin, ***Dewiniaith: Gweledigaeth Mudiad Meithrin 2015–2025*** (2015).

2.12

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd y Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, Alun Davies AC, ei fwriad i gynnal adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg er mwyn cynnig argymhellion ar sut i ddatblygu'r fframwaith i'r dyfodol. Un o argymhellion mwyaf arwyddocaol yr adolygiad[17] oedd yr angen i gynnwys deilliant cyn-ysgol yn rhan o'r cynlluniau yn y dyfodol. Gweledigaeth yr adolygiad oedd y byddai ehangu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn dod yn rhan ganolog o'r fframwaith newydd, â phwyslais ar ddilyniant a throsglwyddo llwyddiannus o un cyfnod addysg i'r llall.

2.13

Yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad brys sefydlwyd Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gynnig cyngor i'r Llywodraeth ynglŷn â'r newidiadau deddfwriaethol y byddai eu hangen er mwyn gwella sail gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn sgil cyngor y bwrdd cynghori daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 i rym ar 1 Ionawr 2020.

2.14

Mae'r rheoliadau newydd yn gosod sail gryfach o lawer i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio i ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, a bod hynny'n cael ei ystyried yn rhan allweddol o greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Rhaid i'r cynlluniau strategol newydd fod yn gynlluniau deng mlynedd a rhaid i awdurdodau lleol hefyd osod targedau ynglŷn â'r cynnydd disgwyliedig yn y plant blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun. Mae'r gofyniad hwn i osod targedau hirdymor yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â'r angen i gynllunio gofal plant yn lleol.

2.15

Mae cyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru hefyd yn drobwynt arwyddocaol i'r sector addysg yng Nghymru. Bydd y cwricwlwm newydd yn berthnasol i leoliadau gofal plant sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar. Er y bydd egwyddorion addysgeg ac arferion y Cyfnod Sylfaen presennol yn ganolog i'r cwricwlwm newydd, mae'r cysyniad o gyfnodau dysgu allweddol yn cael eu disodli gan gontinwwm dysgu 3–16 oed. Bydd y cwricwlwm yn gosod camau cynnydd ar gyfer gwahanol feysydd dysgu a phrofiad i ddisgyblion 3–16 oed. Yn rhan o'r maes dysgu Ieithoedd, Llythrennedd, a Chyfathrebu, bydd dyletswydd ar bob lleoliad i gyflwyno'r Gymraeg er mwyn cynnig cyfleoedd i bob dysgwr ddatblygu'n ddwyieithog.

17 Aled Roberts ar ran Llywodraeth Cymru, ***Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2017–20*** (Awst 2017).

Y sail dystiolaeth

2.16

Yn 2017 cyhoeddodd y Comisiynydd y nodyn briffio *Darpariaeth Gofal Plant ac Addysg Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg*.[18] Un o'r prif ganfyddiadau oedd bod y data ar ofal plant yn dameidiog, yn anghyson ac yn gymhleth i'w ddehongli. Rhan o'r broblem oedd diffyg cysondeb rhwng gwahanol setiau data, oedd yn ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau pendant ynghylch lefel y ddarpariaeth oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a nifer y plant oedd yn derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

2.17

Ymddengys bod mwy o gysondeb yn y data erbyn hyn ac mae Arolygaeth Gofal Cymru yn cyhoeddi ystadegau blynyddol am brif iaith weithredol y gwasanaethau sy'n cael eu cymeradwyo, gan gynnwys nifer y lleoedd sy'n cael eu cynnig gan y darparwyr hynny. Mae'r data sy'n deillio o waith monitro Cynnig Gofal Plant Cymru hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y niferoedd sy'n manteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae'r data hwn, ynghyd â data a gyhoeddir gan y Mudiad Meithrin, yn rhoi darlun mwy cyflawn erbyn hyn o sefyllfa ieithyddol gofal plant yng Nghymru.

18 Comisiynydd y Gymraeg, *Nodyn briffio: Darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg* (Tachwedd 2017).

Siart 4: Nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae yng Nghymru sydd wedi'u cymeradwyo yn ôl awdurdod lleol a phrif iaith weithredol y gwasanaeth (Ffynhonnell: System Rheoli Data Arolygaeth Gofal Cymru ar 31 Mawrth 2020).

Awdurdod Lleol	Saesneg	Saesneg ag elfennau dwyieithog	Dwyieithog	Cymraeg	Cyfanswm
Abertawe	100	73	11	9	193
Blaenau Gwent	30	23	2	2	57
Bro Morgannwg	96	93	6	8	203
Caerdydd	202	173	23	30	428
Caerffili	98	84	14	20	216
Casnewydd	79	68	4	1	152
Castell-nedd Port Talbot	63	55	7	6	131
Ceredigion	7	17	31	46	101
Conwy	55	47	20	26	148
Gwynedd	9	11	38	118	176
Merthyr Tudful	24	13	4	3	44
Pen-y-bont ar Ogwr	82	48	2	6	138
Powys	99	61	9	21	190
Rhondda Cynon Taf	108	87	16	19	230
Sir Benfro	59	57	7	18	141
Sir Ddinbych	43	45	15	27	130
Sir Fynwy	65	49	1	3	118
Sir Gaerfyrddin	41	23	78	75	217
Sir y Fflint	128	75	14	7	224
Torfaen	38	44	3	4	89
Wrecsam	83	63	10	11	167
Ynys Môn	15	15	44	31	105
Cymru	1524	1224	359	491	3598
	42.4%	**34%**	**10%**	**13.6%**	

2.18

Mae'r data uchod gan Arolygaeth Gofal Cymru yn dangos bod mwyafrif helaeth (76%) o'r darparwyr yng Nghymru yn gweithredu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Mae oddeutu 10% o'r ddarpariaeth yn ddwyieithog ac oddeutu 14% o'r ddarpariaeth yn cael ei weithredu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid nodi bod yr wybodaeth hon yn deillio o hunanasesiad darparwyr ynghylch y categori sy'n diffinio orau natur ieithyddol y ddarpariaeth.

2.19

Mae hefyd gwerth nodi mai dim ond 14% o leoliadau gofal plant sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r 23% o ddisgyblion oedran cynradd oedd yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019.

2.20

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn casglu rhywfaint o wybodaeth am sgiliau ieithyddol y gweithlu gofal plant yng Nghymru. Mae'r data a gasglwyd ym mis Ionawr a Chwefror 2020 yn dangos:[19]

- bod oddeutu 10% o warchodwyr plant a 23% o staff lleoliadau gofal dydd i blant yn siaradwyr Cymraeg rhugl;
- bod oddeutu 10% o warchodwyr plant a 20% o staff lleoliadau gofal dydd i blant yn siarad rhywfaint o Gymraeg; a
- bod oddeutu 80% o warchodwyr plant a 57% o staff lleoliadau gofal dydd i blant yn siarad ychydig bach neu ddim Cymraeg.

2.21

Yn rhan o gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru, mae'r Llywodraeth wedi bod yn casglu ystadegau am y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig ac am iaith y ddarpariaeth. Roedd data monitro'r cynllun ar gyfer Hydref 2020 yn dangos:[20]

- Bod 2,300 o blant yn derbyn y Cynnig Gofal Plant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, sef oddeutu 25% o'r holl blant oedd yn manteisio ar y cynnig gofal yn yr un cyfnod.
- Yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr y mae'r cyfraddau uchaf o blant sy'n derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, sef oddeutu 75%.
- Mae'r cyfraddau sy'n derbyn gofal yn rhan o'r cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog gyn ised â 5% ym Mro Morganwg, Abertawe, Casnewydd, Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr a Blaenau Gwent.

2.22

Y Mudiad Meithrin yw prif ddarparwr addysg a gofal blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae'r Mudiad Meithrin yn casglu ystod eang o ddata ynghylch y gwahanol ddarpariaethau sy'n cael eu cynnig a'r nifer o blant sy'n mynychu eu cylchoedd meithrin.

19 Mae'r data hwn wedi ei gasglu gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn rhan o'r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, ac wedi'i rannu â'r Comisiynydd yn uniongyrchol. Mae'r data hwn yn seiliedig ar yr 88% o leoliadau a gwblhaodd y broses casglu data. Mae'n seiliedig ar ganfyddiad y lleoliad ynghylch sgiliau Cymraeg eu gweithlu, ac felly mae'n bosibl fod rhywfaint o anghysondeb yn nealltwriaeth gwahanol leoliadau o sut i fesur sgiliau Cymraeg eu staff.

20 Derbyniwyd y data hwn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r data yn cynnig ciplun o'r sefyllfa ym mis Hydref 2020, ac mae'n seiliedig ar ddata monitro misol y Llywodraeth sy'n cael ei gasglu yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol fesul mis.

Siart 5: Niferoedd a fu'n mynychu'r cylchoedd meithrin, nifer y cylchoedd a lleoliadau cylchoedd meithrin, a chanran y plant sy'n trosglwyddo o'r cylch meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (Ffynhonnell: Data monitro'r Mudiad Meithrin).[21]

Blwyddyn	Niferoedd a fu'n mynychu'r cylchoedd meithrin	Nifer y cylchoedd meithrin	Nifer y lleoliadau cylchoedd meithrin	Canran y plant sy'n trosglwyddo o'r cylch meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
2015/16	10,724	467	358	86.35%
2016/17	11,215	491	373	87.19%
2017/18	11,432	462	360	88.06%
2018/19	11,544	454	361	89.81%
2019/20	9,453	436	358	88.06%

2.23

Wrth weld agor rhagor o gylchoedd meithrin yn rhan o'r rhaglen Sefydlu a Symud, y gobaith yw gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n mynychu.

21 Mae'r gostyngiad hwn yn 2019/20 yn adlewyrchu effaith y pandemig ar y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar. Roedd mwyafrif helaeth y cylchoedd meithrin ar gau am gyfnodau sylweddol yn 2020 ac felly nid oeddent yn derbyn plant newydd.

Casgliadau'r Comisiynydd

Er bod prosesau casglu data mwy cyson a chadarn yn eu lle ar gyfer y sector gofal plant erbyn hyn, mae'n parhau i fod yn anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch y graddau mae sefyllfa darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffygion casglu data yn y gorffennol, ond hefyd oherwydd bod ansicrwydd o hyd ynghylch dilysrwydd a dibynadwyedd peth o'r data a gesglir heddiw. Mae'n parhau i fod yn anodd gwybod i ba raddau y mae newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn ganlyniad i newidiadau yn y ffordd mae'r data'n cael ei gasglu a'i ddehongli, yn hytrach nag yn adlewyrchiad gwirioneddol o gynnydd neu ostyngiad yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lawr gwlad. Mae dal peth ffordd i fynd i sicrhau cysondeb a dibynadwyedd y data sy'n hanfodol i fesur llwyddiant polisïau a strategaethau mewn maes cwbl allweddol i strategaeth iaith y Llywodraeth.

Er nad oes tystiolaeth ystadegol ddiamod sy'n dangos cynnydd yn y maes hwn, gwelwyd amryw o ddatblygiadau cadarnhaol sy'n debygol o gryfhau sefyllfa gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Yn sgil cyflwyno'r cynnig 30 awr a'r newidiadau deddfwriaethol i reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, mae sail strategol gryfach bellach ar gyfer ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru. Mae'r strategaethau hyn hefyd wedi arwain at fuddsoddiad cyfalaf sylweddol at bwrpas ehangu darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd dystiolaeth gychwynnol o'r potensial sy'n bodoli i integreiddio gwahanol strategaethau a fframweithiau cynllunio er mwyn cyrchu amcanion *Cymraeg 2050*. Gellid cysylltu'r cynnig 30 awr, y cyllid cyfalaf, a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, er enghraifft.

Mae gwaith y Mudiad Meithrin yn parhau'n allweddol wrthi iddo sefydlu cylchoedd meithrin newydd yn rhan o raglen gweithredu *Cymraeg 2050*. Mae hefyd yn gadarnhaol fod Cwlwm, sy'n gonsortiwm ymbarél o bum sefydliad gofal plant, yn cydweithio i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn fwy cyffredinol. O ystyried hyn oll, rhaid dod i'r casgliad fod yr isadeiledd sy'n cefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg heddiw yn gryfach na'r hyn oedd yn bodoli wrth gyhoeddi adroddiad 5-mlynedd diwethaf y Comisiynydd.

Er hyn, rhaid gosod y datblygiadau cadarnhaol hyn yng nghyd-destun y ffaith fod y sector gofal plant yn cychwyn o waelodlin isel o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r ganran o leoliadau gofal plant sy'n cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn sylweddol is na'r ganran o ddisgyblion oedran cynradd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n debyg mai'r prif reswm dros hyn yw'r ffaith nad yw darpariaeth gofal cyfrwng Cymraeg wastad ar gael neu'n hwylus. Mae'n rhesymol tybio y byddai mwyafrif y rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant hefyd wedi dymuno gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg pe bai'n ymarferol bosibl. Mae'r data'n awgrymu felly nad yw'r sector gofal plant yng Nghymru yn diwallu'r galw sy'n bodoli am ofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw chwaith yn creu galw ychwanegol am addysg cyfrwng Cymraeg nac yn ysgogi'r twf mewn addysg Gymraeg a ragwelir yn *Cymraeg 2050*.

Er i'r Llywodraeth roi ystyriaeth i'r Gymraeg yn y broses o lunio'r cynnig 30 awr, nid yw'n ymddangos fod uchelgais *Cymraeg 2050* wedi bod wrth galon y gwaith o gynllunio'r polisi yn y lle cyntaf. O ystyried y pwyslais strategol a roddir i'r cyfnod cyn-statudol yn *Cymraeg 2050*, mae'n siomedig na chafodd y weledigaeth hon ei hadlewyrchu'n llawn wrth i'r Llywodraeth gyflwyno polisi allweddol a thrawsnewidiol ym maes gofal plant. **Dylai agenda *Cymraeg 2050* gael ei chynnwys yn rhan ganolog a chreiddiol o gychwyn cyntaf llunio polisïau mewn meysydd strategol fel gofal plant.**

Wrth edrych tua'r dyfodol bydd angen i'r Llywodraeth ddatblygu polisïau mwy uchelgeisiol i'r sector gofal plant. Er bod y targed i agor cylchoedd meithrin newydd yn hollbwysig, ar ei ben ei hun nid yw'n debygol o arwain at y cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg fydd ei angen i wireddu gweledigaeth *Cymraeg 2050*. Fel sy'n cael ei dderbyn yn gynyddol mewn perthynas â'r sector addysg statudol, mae angen prif ffrydio'r Gymraeg i ddarpariaeth gofal plant yn fwy cyffredinol. Hynny yw, **mae'n rhaid ystyried ffyrdd o gefnogi ac annog darparwyr cyfrwng Saesneg i ddatblygu a thrawsnewid er mwyn cynnig darpariaeth gynyddol ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg**. Wrth gwrs, bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar sicrhau gweithlu cynyddol ddwyieithog yn y lle cyntaf, ac mae'n amlwg mai dyna'r her gychwynnol ar gyfer symud i'r cyfeiriad hwn.

Yn 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cychwyn ar daith gyffrous i adolygu ac ailgynllunio darpariaeth a strwythur gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn cyfeirio at ddull ansawdd uchel o gynllunio a darparu addysg a gofal i blant cyn-ysgol. Un o'i egwyddorion craidd yw'r angen am un dull cydlynol o addysgu a gofalu am blant 0–5 oed sy'n canolbwyntio ar hawl pob plentyn i gael y dechrau gorau posibl i fywyd. Mae'r ymrwymiad i sefydlu'r dull Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn weledigaeth hirdymor, a bydd y broses o symud at ddull o'r fath yn broses raddol dros gyfnod o ddeng mlynedd neu fwy. Dyma gyfle euraid i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r weledigaeth hirdymor ar gyfer gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Dylai'r Gymraeg a dwyieithrwydd fod wrth wraidd y trafodaethau ynglŷn â sut i roi'r dechrau gorau i fywyd pob plentyn yng Nghymru. **Mae angen mynd ymhellach na datgan bod angen addysg a gofal plentyndod cynnar ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sy'n dymuno hynny i'w plant. Yn hytrach, mae angen cydnabyddiaeth bod gan bob plentyn yr hawl i ddysgu Cymraeg, a gweithredu o blaid manteision cymdeithasol, personol a diwylliannol dwyieithrwydd.** Byddai Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru o reidrwydd felly yn rhoi cychwyn i bob plentyn ar y daith tuag at ddwyieithrwydd. Wrth gwrs, bydd cyflawni hyn yn cymryd cryn amser ac ymrwymiad, **ac mae angen gosod y seilwaith yn ei le ar fyrder.**

3 Addysg statudol

3.1

Mae mwyafrif siaradwyr Cymraeg ifanc heddiw'n debygol o fod wedi dysgu Cymraeg yn y gyfundrefn addysg. Mae'n dilyn felly y bydd cyflawni amcanion *Cymraeg 2050* yn dibynnu i raddau helaeth ar lwyddiant y gyfundrefn honno yn creu mwy o siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n debygol o ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Wrth reswm, mae'r sector addysg statudol yn gwbl ganolog yn y cyd-destun hwn.

3.2

Adeg cyhoeddi'r adroddiad 5-mlynedd diwethaf, casgliad y Comisiynydd oedd bod angen gweithredu llawer mwy dwys ac uchelgeisiol er mwyn gwireddu gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg. Er bod llawer o ddatblygiadau clodwiw wedi digwydd yn sgil cyhoeddi'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* yn 2010,[22] ychydig iawn o gynnydd gwirioneddol a welwyd yn sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg statudol ar y cyfan.

3.3

Roedd y canfyddiadau hyn yn ategu casgliadau ymchwil cwmni Arad, *Gwerthusiad o Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth*, a gyhoeddwyd yn 2016.[23] Un o gasgliadau'r gwerthusiad hwnnw oedd nad oedd y strategaeth wedi arwain at y newidiadau disgwyliedig, ac na lwyddwyd i wneud cynnydd arwyddocaol yn erbyn mwyafrif targedau a deilliannau'r strategaeth. Tebyg iawn fu casgliadau amryw o adroddiadau ac adolygiadau eraill oedd yn pwyso a mesur llwyddiant gwahanol agweddau ar strategaeth addysg Gymraeg y Llywodraeth.[24]

22 Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*** (Ebrill 2010).

23 Llywodraeth Cymru, ***Gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg: Adroddiad terfynol*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 10 Mawrth 2016).

24 Gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, ***Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*** (Medi 2013); Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg*** (Rhagfyr 2015); Estyn, ***Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol*** (Medi 2016); ***Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2017–20***.

3.4

Bu cyhoeddi *Cymraeg 2050* yn ddatblygiad pwysig yn hanes strategaeth addysg Gymraeg y Llywodraeth, ac roedd yn ymateb cadarnhaol i'r diffygion cynyddol a amlygwyd yn y gyfundrefn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Drwy gyhoeddi'r strategaeth, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weledigaeth a strategaeth hynod uchelgeisiol a hir dymor i'r Gymraeg ym myd addysg.

Cymraeg 2050 a chyfraniad y sector addysg

3.5

Er mai'r ddogfen *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (2017–21)* yw cynllun gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer addysg, *Cymraeg 2050* yw'r strategaeth sy'n darparu gweledigaeth a chyfeiriad – ynghyd â nifer o dargedau penodol – i'r sector o ran y Gymraeg mewn gwirionedd. Mae'r camau gweithredu a'r targedau hyn yn cael eu hategu a'u datblygu ymhellach yn *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21*[25] a hefyd yng nghynlluniau gweithredu blynyddol *Cymraeg 2050*.

3.6

Mae *Cymraeg 2050* a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn amlinellu nifer helaeth ac eang o bwyntiau gweithredu perthnasol. Er hyn, ymddengys bod tair ffrwd gwaith yn greiddiol o ran y sector addysg statudol yn benodol:

i. **Cynyddu niferoedd** sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

ii. **Gweddnewid y ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg** er mwyn cynyddu'n sylweddol nifer y disgyblion fydd yn gadael y sector addysg yn siaradwyr Cymraeg.

iii. **Cynyddu nifer yr athrawon** sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc.

25 Llywodraeth Cymru, ***Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21*** (Rhagfyr 2017).

3.7

Mae'r taflwybr i'r miliwn wedi ei gyfrifo ar sail cyflawni'r targedau twf yn y meysydd uchod, a hefyd ar sail rhagdybiaethau ynghylch trosglwyddo iaith yn y cartref. Mae'r siart isod yn amlinellu'r prif dargedau hyn mewn perthynas â'r taflwybr. Y rhain sydd wedi gosod cyd-destun ar gyfer gwaith y Llywodraeth yn y maes dros y blynyddoedd diwethaf:

Siart 6: Cyfraniad y sector addysg i'r taflwybr tuag at filiwn o siaradwyr, yn seiliedig ar dargedau *Cymraeg 2050*.

		Targedau/amcanestyniadau						
Blwyddyn	**2017**	**2021**	**2026**	**2031**	**2036**	**2041**	**2046**	**2050**
Y taflwybr i'r miliwn	570,000	600,000	630,000	680,000	750,000	830,000	920,000	1,000,000
Addysg cyfrwng Cymraeg	22% 7,700	24% 8,400		30% 10,500				40% 14,000
Cynyddu nifer/ canran disgyblion y sector cyfrwng Saesneg fydd yn gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg				35% 8,500				50% 10,500
Athrawon cyfrwng Cymraeg cynradd	2,900	3,100		3,900				5,200
Athrawon cyfrwng Cymraeg uwchradd	1,800	2,200		3,200				4,200
Athrawon cyfrwng Cymraeg Cymraeg fel pwnc	500	600		900				1,200

Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

3.8

Mae *Cymraeg 2050* yn datgan yn eglur mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r 'prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd'.[26] Nid yw'n syndod felly bod cryfhau sail gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn destun cryn bwyslais yng ngwaith y Llywodraeth dros y pum mlynedd diwethaf.

3.9

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad terfynol y *Gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg* yn 2016, dechreuodd y Llywodraeth ymgynghori ag awdurdodau lleol ynghylch y newidiadau angenrheidiol i'r system cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Er iddi gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer paratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017–20, ym mis Mawrth 2017 comisiynodd y Llywodraeth adolygiad annibynnol o'r cynlluniau hyn.

3.10

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, a ddaeth i rym wedi'r adolygiad, yn ddatblygiad arwyddocaol yng nghyd-destun y gyfundrefn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r fframwaith newydd yn mynd i'r afael â rhai o ddiffygion amlycaf y gyfundrefn flaenorol gan osod disgwyliadau ar awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau hirdymor i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol, yn unol â thargedau cenedlaethol *Cymraeg 2050*. Y bwriad cyffredinol yw symud o fframwaith cynllunio ymatebol at un mwy rhagweithiol. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol wneud mwy na diwallu dymuniadau rhieni am ddarpariaeth addysgol yn unig, gan fynd ati'n rhagweithiol i gynllunio yng ngoleuni *Cymraeg 2050*.

3.11

Y tu hwnt i faterion yn ymwneud â sail ddeddfwriaethol cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, casgliad yr adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg oedd bod hefyd angen adolygu diffiniadau a chategorïau ieithyddol ysgolion. Nid oes sail ddeddfwriaethol i gategorïau ieithyddol ysgolion, ac nid ydynt bob tro yn egluro gwir natur darpariaeth ieithyddol gwahanol ysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â chategorïau ieithyddol ysgolion uwchradd. Mae achos cryf dros symleiddio'r categorïau hyn, gan sicrhau eglurder i rieni a disgyblion ynglŷn â'r ddarpariaeth yn ogystal â'r canlyniadau ieithyddol tebygol i'r dysgwyr.

3.12

Yn bwysicach fyth, bydd yr adolygiad yn gyfle i sicrhau bod y diffiniadau a'r categorïau ieithyddol yn hwyluso cynllunio ieithyddol effeithiol. Mae'n bur amlwg y bydd cyflawni targedau addysg *Cymraeg 2050* yn dibynnu llai ar agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, a mwy ar ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Bydd symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol yn dod yn gynyddol bwysig wrth weithio tuag at dargedau *Cymraeg 2050*, a bydd y gwaith o ddiwygio categorïau ieithyddol ysgolion yn hollbwysig er mwyn gosod llwybr i gyflawni hyn.

26 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 21.

3.13

Mae'r gwaith o ddiwygio diffiniadau a chategorïau ieithyddol ysgolion yn cyffwrdd ar fater pwysig i'r gyfundrefn gofal ac addysg yn ei chyfanrwydd, sef yr angen am eglurder a diffiniadau cyson ar gyfer y termau 'addysg ddwyieithog' ac 'addysg cyfrwng Cymraeg', a pherthynas y rhain â'r deilliannau ieithyddol tebygol i ddysgwyr.

3.14

Rhan o'r broblem bresennol yw bod y term 'addysg ddwyieithog' yn gallu cynnwys amrediad hynod eang o ddarpariaeth addysgol. Gall gyfeirio at ddarpariaeth sydd ddim ond yn cynnwys elfennau sylfaenol a chyfyngedig iawn yn y Gymraeg. Gall gyfeirio at ddarpariaeth lle mae dewis i fyfyrwyr astudio yn y Gymraeg, ond lle nad yw'r mwyafrif yn manteisio ar yr dewis hwnnw, o bosibl. Gall hefyd gyfeirio at ddarpariaeth sy'n cynnwys elfennau sylweddol yn y Gymraeg i bob disgybl. Rhaid datblygu diffiniadau a therminoleg sy'n gwahaniaethu rhwng y mathau hyn o ddarpariaeth gan ganolbwyntio ar y deilliannau ieithyddol tebygol i'r dysgwyr.

3.15

Fel yn achos y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar, gall grantiau cyfalaf sbarduno cynlluniau ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd Eluned Morgan AC, y Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, fuddsoddiad o £46 miliwn i gefnogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Daeth £32 miliwn o'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg ac £14 miliwn o'r Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant. Defnyddiwyd y cyllid hwn i gefnogi 41 prosiect ar draws 16 awdurdod lleol gan greu 2,818 o lefydd ychwanegol mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg.

3.16

Mae'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, sy'n fuddsoddiad mwy hirdymor ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg yng Nghymru, hefyd wedi cyfrannu at ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yng nghyswllt rhaglenni cyllid cyffredinol, ac yn enwedig yng nghyswllt rhaglenni cyllid sydd wedi'u neilltuo ar gyfer prosiectau cyfrwng Cymraeg yn benodol, mae tystiolaeth amlwg o'r potensial i'w cydlynu â fframweithiau cynllunio fel Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a chyflwyno polisïau fel Cynnig Gofal Plant Cymru.

Y cwricwlwm newydd, diddymu Cymraeg ail iaith, a chyflwyno un continwwm ieithyddol

3.17

Er bod ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o strategaeth *Cymraeg 2050*, does dim amheuaeth nad oes gan y sector cyfrwng Saesneg gyfraniad pwysig i'w wneud wrth anelu at y miliwn o siaradwyr. Fel y mae amryw o adroddiadau blaenorol wedi ei ddatgan, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru sy'n datblygu sgiliau digonol yn y Gymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn ffordd ystyrlon y tu allan i'r dosbarth. Mae'r Llywodraeth yn glir iawn ei bod am weld y sefyllfa hon yn cael ei gweddnewid:

> Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr, mae angen i ni weddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i ddysgwyr yn yr ysgolion hynny, er mwyn i o leiaf hanner y dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.[27]

3.18

Gan gynnwys y 40% o ddysgwyr y rhagwelir y byddant yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn 2050, nod y Llywodraeth erbyn 2050 yw y bydd 'o leiaf 70 y cant o'r holl ddysgwyr yn datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u bod yn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus ym mhob agwedd o'u bywydau erbyn iddynt adael yr ysgol'.[28] Yn ôl cynlluniau a strategaethau'r Llywodraeth, cyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru fydd yn ysgogi'r newidiadau hyn i'r ffordd y bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

3.19

Yn dilyn cyhoeddi adolygiad annibynnol Donaldson o'r cwricwlwm yn 2015,[29] dechreuodd y Llywodraeth ar daith uchelgeisiol i ailgynllunio'n llwyr y cwricwlwm a'r trefniadau asesu i ddisgyblion 3–16 oed. Bu'r pum mlynedd diwethaf yn gyfnod o gynllunio a datblygu dwys, gan ddwyn ynghyd arbenigwyr addysg, athrawon, ysgolion, disgyblion, a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn natblygiad addysgol plant a phobl ifanc Cymru.

3.20

Nid oes lle yn y fan hon i gynnig crynodeb llawn o'r holl waith sydd wedi mynd rhagddo yn y cyd-destun hwn, nac ychwaith i amlinellu cynnwys y cwricwlwm newydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Un o'i nodweddion craidd yw y bydd gan athrawon ac ysgolion fwy o ryddid i gynllunio'u cwricwlwm eu hunain. Bydd gofyn i benaethiaid ac athrawon lunio cwricwlwm addas ar gyfer eu disgyblion, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion athronyddol ynghylch dibenion addysg a datganiadau am yr hyn sy'n bwysig mewn perthynas â chwe Maes Dysgu a Phrofiad penodol.

27 **Ibid**., t. 38.
28 **Ibid**.
29 Yr Athro Graham Donaldson, ***Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*** (Chwefror 2015).

3.21

O ran y Gymraeg yn benodol, mae ymrwymiad clir wedi bod o'r cychwyn i'w chadw'n rhan orfodol o'r cwricwlwm i ddisgyblion hyd at 16 oed. Daeth adroddiad Donaldson i'r casgliad fod y 'manteision diwylliannol, gwybyddol ac ymarferol o ddysgu Cymraeg fel iaith fyw yn cynnig dadl gryf o blaid ei chynnwys fel elfen orfodol yn y cwricwlwm ysgol'.[30] Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell y dylid canolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu. Nododd y dylid hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith drwy gyfeirio at ei gwerth yn y farchnad swyddi, y manteision gwybyddol sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd, a'i phwysigrwydd i fywyd diwylliannol Cymru.

3.22

Y tu hwnt i hyn, y datblygiad pwysicaf o safbwynt y Gymraeg yw'r ymrwymiad i ddiddymu'r cymhwyster a'r rhaglen addysgu Cymraeg ail iaith, ac i ddatblygu un continwwm ieithyddol ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar draws ysgolion Cymru – egwyddor a gafodd amlygrwydd cynyddol yn dilyn adroddiad yr Athro Sioned Davies yn 2013.[31] Yn ôl y Llywodraeth, 'byddai datblygu continwwm o'r fath yn golygu y byddai pob dysgwr yng Nghymru yn dilyn yr un cwricwlwm ac yn cael ei asesu yn erbyn un fframwaith, gan ddileu'r term "Cymraeg ail iaith" a'r rhaglen astudio gysylltiedig'.[32] Dywed y Llywodraeth fod y Maes Dysgu a Phrofiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn adlewyrchu'r ymrwymiad i greu un continwwm ar gyfer addysgu'r Gymraeg.

3.23

Y bwriad yw y bydd deddfwriaeth y cwricwlwm yn 'dileu'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith' ac yn 'caniatáu un continwwm o ddysgu ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, ym mhob ysgol a lleoliad'.[33] Serch yr ymrwymiad i ddatblygu un fframwaith, mae'r disgrifiadau dysgu a'r camau cynnydd ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn pennu disgwyliadau gwahanol ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.[34]

3.24

Y bwriad yn y tymor hir, yn ôl y Llywodraeth, yw y bydd y disgwyliadau hyn ar leoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd â'r bwriad o 'gael gwared ar y "sgaffaldio" hwn a chael pob ysgol yn defnyddio'r un disgrifiadau dysgu ar gyfer y Gymraeg er mwyn gwireddu uchelgais 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.[35] Mae *Cymraeg 2050* a'r cwricwlwm newydd yn gwbl eglur felly mai'r nod hirdymor yw y bydd gan bob disgybl yng Nghymru gyfle i ddatblygu'n siaradwr Cymraeg hyderus – ni waeth beth yw cyfrwng iaith yr ysgol.

30 **Ibid**., t. 58.
31 ***Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4***.
32 Llywodraeth Cymru, ***Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021: Memorandwm Esboniadol*** (Ebrill 2021), tt. 169–70.
33 **Ibid**., t. 170.
34 Gweler y **canllawiau i ysgolion a lleoliadau ar wefan Hwb ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**.
35 Llywodraeth Cymru, ***Asesiad effaith integredig Cwricwlwm i Gymru: Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)*** (Gorffennaf 2020), t. 14.

3.25

Ers dechrau'r broses o graffu ar y ddeddfwriaeth, mae'r Comisiynydd, ynghyd â nifer o randdeiliaid eraill, wedi tynnu sylw at ddiffygion Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) o safbwynt y Gymraeg.[36] Cwestiynwyd, yn benodol, y graddau mae'r cwricwlwm wir yn adlewyrchu'r ymrwymiad i ddiddymu Cymraeg ail iaith ac yn sicrhau bod cynnydd radical yn nifer disgyblion y sector cyfrwng Saesneg fydd yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eu Hadroddiad Cyfnod 1 ar y bil,[37] ac mae nifer o'r argymhellion yno hefyd yn amlygu ei wendidau o safbwynt y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr angen i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r bil i leddfu'r pryderon am yr effaith ar addysg drochi yn y Gymraeg;
- yr angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg i fynd i'r afael â phryderon o ran cyflwyno un continwwm wrth addysgu'r Gymraeg. Dylai hyn gynnwys ystyried diwygio'r bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod statudol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg o dan y cwricwlwm; a
- bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflym i adolygu categorïau iaith ysgolion ac yn ystyried eu gosod ar sylfaen statudol.

3.26

Ym mis Rhagfyr 2020 cytunodd y Senedd ar egwyddorion cyffredinol Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), ac fe'i pasiwyd yn ddeddf ym mis Ebrill 2021.[38]

36 Gweler tystiolaeth ysgrifenedig Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), er enghraifft: **CAW70 Comisiynydd y Gymraeg.pdf (senedd.cymru)**. Mae ymatebion nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys UCAC, RhAG, Cymdeithas yr Iaith a'r Mudiad Meithrin yn tynnu sylw at yr un diffygion yn y bil.

37 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru, ***Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor*** (Rhagfyr 2020).

38 Gwelwyd rhai newidiadau arwyddocaol i Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ystod trafodaethau cyfnodau 2 a 3. Yn sgil pryderon a godwyd ynghylch effaith statws gorfodol addysgu'r Saesneg ar addysg drochi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyflwynodd y Llywodraeth newidiadau i elfennau gorfodol o'r cwricwlwm. Yn hytrach na bod y Gymraeg a'r Saesneg yn elfennau gorfodol o 3 oed ymlaen, gwnaed darpariaeth yn y ddeddf sy'n gwneud Saesneg yn elfen fandadol o 7 oed ymlaen, tra bod y Gymraeg yn parhau yn elfen fandadol o 3 oed ymlaen. Canlyniad hyn yw y bydd modd i ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg barhau i drochi plant ifanc yn yr iaith Gymraeg yn unig hyd at 7 oed. Gwrthodwyd y cynnig i gyhoeddi cod statudol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg, ond ymrwymodd y Llywodraeth i gyhoeddi Fframwaith Iaith Gymraeg a fyddai'n darparu cefnogaeth ac arweiniad pellach i ysgolion cyfrwng Saesneg ynghylch addysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y cwricwlwm.

Datblygiadau arwyddocaol eraill

Anghenion dysgu ychwanegol

3.27

Cyfeiriwyd yn adroddiad 5-mlynedd diwethaf y Comisiynydd at bwysigrwydd darparu cymorth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2015 ymatebodd y Comisiynydd i Fil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gan ddatgan yn glir ddiffygion y bil drafft o ran sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Wrth i'r bil fynd drwy broses graffu'r Senedd, bu cyfleoedd i drafod y diffygion hyn a chynnig gwelliannau. Roedd ymateb y Llywodraeth i'r adborth a gafwyd yn gadarnhaol, ac mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn gosod sail ddeddfwriaethol lawer cadarnach i sicrhau hawl disgyblion i gymorth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymwysterau

3.28

Mae'r ffaith nad yw cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg wedi parhau'n broblem dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n golygu nad oes gan ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yr un ystod o ddewis o gymwysterau â'u cyfoedion yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae Cymwysterau Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r cymwysterau hynny sy'n cael eu cymeradwyo ganddynt fod ar gael i'w hasesu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn golygu bod holl gymwysterau CBAC ar gyfer TGAU a Safon Uwch mewn pynciau a ddyluniwyd yn benodol i Gymru ar gael yn ddwyieithog.

3.29

Caiff cymwysterau eraill a enillir gan nifer gymharol isel o ddysgwyr yng Nghymru eu cynnig gan amryw o gyrff dyfarnu gwahanol. Mae Cymwysterau Cymru yn 'dynodi' rhai o'r cymwysterau hyn, hynny yw yn eu cymeradwyo ac yna'n rheoleiddio'r corff dyfarnu, fel eu bod ar gael i ddysgwyr yma yng Nghymru. Er bod Cymwysterau Cymru yn *annog* cyrff dyfarnu i ddarparu'r cymwysterau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw'n orfodol.

3.30

Dadl Cymwysterau Cymru yw y byddai creu gofynion o'r fath, o bosibl, yn golygu y byddai amryw o'r cyrff dyfarnu yn dewis peidio â darparu i ddysgwyr yng Nghymru am resymau ymarferol ac ariannol. Canlyniad hyn yw mai drwy gyfrwng y Saesneg yn unig y mae 62.1% o'r cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gael i ddysgwyr cyn-16 oed yng Nghymru.[39]

39 Gweler dogfen ymgynghori Cymwysterau Cymru, ***Cymwys ar gyfer y dyfodol*** (2019), t. 21.

3.31

Yn rhan o'r broses o lunio cymwysterau newydd ar gyfer y cwricwlwm newydd, mae Cymwysterau Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i bob cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus, ac a astudir ar ei gyfer yn 16 oed, fod ar gael yn ddwyieithog. Dylai hyn sicrhau cydbwysedd tecach o ddarpariaeth Gymraeg a Saesneg ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru. Er hyn, bydd angen rhoi sylw i weddill y gyfundrefn cymwysterau, yn enwedig y sector ôl-16 a dysgu seiliedig ar waith.

3.32

I'r perwyl hwnnw, ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddodd Cymwysterau Cymru strategaeth cyfrwng Cymraeg newydd, *Dewis i bawb*.[40] Nodir ymrwymiad eglur y sefydliad i'r Gymraeg ynddi, ac amlinellir sut y bydd yn cyfrannu at flaenoriaethau *Cymraeg 2050* drwy gydweithio â chyrff dyfarnu, sefydliadau addysg a dysgwyr i sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

Adnoddau

3.33

Yn debyg i sefyllfa cymwysterau yng Nghymru, mae diffygion hefyd yn yr adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Rhan o'r broblem yw mai cyhoeddwyr masnachol sy'n gyfrifol gan amlaf am gyhoeddi adnoddau addysgol, ac yn aml nid yw'r cyhoeddwyr yn creu fersiynau cyfrwng Cymraeg fel mater o drefn. Er bod y Llywodraeth yn ariannu'r gwaith o gyfieithu rhai gwerslyfrau a gyhoeddir yn Saesneg i'r Gymraeg, mae problemau wedi codi mewn perthynas â'r amserlen. Ar y cyfan, mae manylebau ar gyfer cymwysterau wedi'u cyhoeddi ychydig fisoedd yn unig cyn dechrau'r tymor. Er bod cyhoeddwyr yn llwyddo i gynhyrchu gwerslyfrau Saesneg o fewn y cyfnodau tynn rhwng cyhoeddi manyleb a dechrau'r tymor, yn aml ni lwyddir i'w cyfieithu i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Ceir yn aml felly nad yw'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr cyfrwng Saesneg ar gael bob tro i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg.

3.34

Ym mis Gorffennaf 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad ar ddarparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu i ddisgyblion, oedd yn cynnwys amryw o argymhellion yn ymwneud ag adnoddau cyfrwng Cymraeg. Ymatebodd y Gweinidog Addysg ar y pryd, Kirsty Williams AC, i'r adroddiad drwy amlinellu'r gwaith oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys:

- sefydlu grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Ddwyieithog i ystyried opsiynau ar gyfer dull strategol newydd i sicrhau adnoddau addysg dwyieithog;
- ymrwymiad i sicrhau y bydd adnoddau addysgol angenrheidiol ar gyfer y cwricwlwm newydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd;
- treialu dull 'deuol' o gyfieithu llyfrau i'r Gymraeg wrth iddynt gael eu hysgrifennu neu'n fuan iawn wedi iddynt gael eu hysgrifennu;

40 Cymwysterau Cymru, ***Dewis i bawb: Ein strategaeth ar gyfer cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg 2020–25*** (Gorffennaf 2020).

- parhau i ddarparu cyllid i CBAC ar gyfer cyfieithu adnoddau Saesneg sy'n cael eu creu gan gyhoeddwyr masnachol, ynghyd â chanolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o greu adnoddau dwyieithog yn fwy cyffredinol, gan roi pwyslais ar adnoddau digidol; ac

- yn gysylltiedig â'r ddau bwynt uchod, fod Cymwysterau Cymru am sicrhau bod digon o amser yn cael ei ganiatáu i ddatblygu adnoddau yn ddwyieithog pan fo unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i fanylebau cymwysterau yn y dyfodol.

Cludiant

3.35

Mae natur darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn golygu, ar y cyfan, fod dysgwyr yn gorfod teithio ymhellach i fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg na'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dyna pam fod polisïau sy'n ymwneud â chludiant i ddysgwyr yn bwysig yng nghyd-destun ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

3.36

Ym mis Tachwedd 2019 cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ar gasgliadau arolwg o ddarpariaeth cludiant awdurdodau lleol i ddisgyblion ôl-16.[41] Yn dilyn hyn, datganodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu cynnal adolygiad o deithio gan ddysgwyr ôl-16. Croesawodd y Comisiynydd y bwriad hwnnw, gan nodi'r angen i adolygu polisïau a sail ddeddfwriaethol teithio gan ddysgwyr yn fwy cyffredinol, a hynny er mwyn sicrhau bod y polisïau yn cefnogi strategaeth y Llywodraeth i ehangu'r niferoedd sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Ar 10 Awst 2020 datganodd y Llywodraeth y byddai cwmpas yr adolygiad yn cynnwys y grŵp oedran 4–16 oed yn ogystal â'r grŵp oedran ôl-16.[42]

Darlun ystadegol o'r Gymraeg mewn addysg statudol

3.37

Cyhoeddir ystod o ddata ystadegol gan Lywodraeth Cymru sy'n ein galluogi i ddadansoddi newidiadau yn sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg statudol. Er hyn, dylid pwysleisio nad yw data'r pum mlynedd diwethaf o reidrwydd yn adlewyrchiad o lwyddiant polisïau'r cyfnod. Mae'n rhesymol tybio y gall fod cryn amser tan y bydd y datblygiadau polisi a ddisgrifir uchod yn effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg ar lawr gwlad.

41 Comisiynydd y Gymraeg, *Darparu cludiant i ddisgyblion ôl-16 i'r ysgol neu fannau dysgu eraill: arolwg o ddarpariaeth awdurdodau lleol* (Tachwedd 2019).

42 **Datganiad Ysgrifenedig: Estyniad i'r Adolygiad o Deithio gan Ddysgwyr ÔI-16 (10 Awst 2020) | LLYW.CYMRU**.

3.38

Yn hanesyddol, y ddau brif ddeilliant sy'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd y Gymraeg ym maes addysg statudol yw asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (blwyddyn 2) a Chyfnod Allweddol 3 (blwyddyn 9).

Siart 7: Canran y disgyblion ym mlwyddyn 2 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf).

						Targedau		
	2015	**2016**	**2017**	**2018**	**2019**	**2021**	**2031**	**2050**
Nifer	7,937	7,693	7,939	8,066	8,149	8,400	10,500	14,000
Carfan	35,757	34,957	35,489	36,261	35,814	Targedau yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd carfan gyson o oddeutu 35,000		
%	22.2%	22%	22.4%	22.2%	22.8%	24%	30%	40%

3.39

Mae'r data uchod yn dangos bod nifer a chanran y disgyblion sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi aros yn weddol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, fod y targed ar gyfer 2021 yn golygu cynnydd gweddol fychan o'r gwaelodlin o 22.4% yn 2017 mewn gwirionedd. Hawdd deall pam fod y Llywodraeth wedi pennu'r targedau gofalus hyn yn sgil ei methiant i gyflawni targedau'r strategaeth iaith flaenorol, sef cyrraedd 25% erbyn 2015 a 30% erbyn 2021.

3.40

Fel yn achos disgyblion blwyddyn 2, mae'r data'n dangos bod canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 hefyd wedi aros yn weddol gyson dros y pum mlynedd diwethaf, ac wedi cynyddu rywfaint ers 2017. Bydd angen i'r ganran hon gynyddu'n gynt o lawer, fodd bynnag, os yw'r Llywodraeth am gyflawni ei tharged o 21% erbyn 2021.

Siart 8: Canran y disgyblion ym mlwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf).[43]

	2015	2016	2017	2018	2019	Targed 2021
Nifer	5,638	5,517	5,662	5,836	6,068	21%
Carfan	31,755	30,787	31,635	32,037	32,777	
%	17.8%	17.9%	17.9%	18.2%	18.5%	

3.41

Wrth gymharu canran y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r sefyllfa wedi aros yn weddol gyson yn achos ysgolion cynradd ac uwchradd.[44]

Siart 9: Nifer ysgolion a disgyblion cynradd yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol, cymhariaeth 5-mlynedd yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru.

		Cyfrwng Cymraeg	Dwy ffrwd	Traws-newidiol	Cyfrwng Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfanswm
2014/15	**Ysgolion**	391	39	5	33	862	1,330
	Disgyblion	56,064 **20.0%**	8,614 **3.2%**	782 **0.3%**	5,201 **1.9%**	202,739 **74.2%**	273,400
2019/20	**Ysgolion**	355	30	4	33	803	1,225
	Disgyblion	56,625 **20.9%**	7,949 **2.9%**	568 **0.2%**	5,896 **2.2%**	200,285 **73.8%**	271,323

43 Mae'r targed hwn wedi'i gynnwys yn ***Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017–21***, t. 42. Nid oes targedau mwy hirdymor ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 wedi'u gosod hyd yma.

44 Dylid nodi nad yw nifer ysgolion bob amser yn newidyn dibynadwy ar gyfer mesur newidiadau yn sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg, yn rhannol am fod ysgolion yn cau ac eraill yn agor neu'n uno. Mae'r gwahaniaeth yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg uwchradd rhwng 2015 a 2020 (ac o bosibl cyfanswm disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn), er enghraifft, yn bennaf oherwydd bod amryw o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg erbyn hyn yn ysgolion canol (pob oed) ac felly ddim yn cael eu cynnwys yn y rhestr ysgolion uwchradd.

Siart 10: Nifer ysgolion a disgyblion uwchradd yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol, cymhariaeth 5-mlynedd yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru.

		Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog AB	Dwyieithog BB, CB a CH	Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfanswm
2014/15	**Ysgolion**	23	9	18	9	148	207
	Disgyblion	16,728 **9.2%**	6,139 **3.4%**	13,618 **7.5%**	8,459 **4.6%**	137,464 **75.4%**	182,408
2019/20	**Ysgolion**	18	14	13	7	131	183
	Disgyblion	15,305 **8.9%**	8,692 **5.1%**	10,518 **6.1%**	5,511 **3.2%**	131,245 **76.6%**	171,271

Siart 11: Nifer ysgolion a disgyblion ysgolion canol yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol, cymhariaeth 5-mlynedd yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru.

		Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog AB	Dwyieithog BB, CB a CH	Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfanswm
2014/15	**Ysgolion**	1	1	2	0	2	6
	Disgyblion	471 **10.8%**	544 **12.4%**	1,433 **32.7%**	0 **0.0%**	1,928 **44.1%**	4,376
2019/20	**Ysgolion**	5	4	2	0	11	22
	Disgyblion	5,137 **24.8%**	2,494 **12.0%**	1,350 **6.5%**	0 **0.0%**	11,755 **56.7%**	20,746

3.42

O gyfuno data'r tablau uchod, yn 2019/20 roedd 16.6% o ddisgyblion Cymru yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, a 23.4% o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (hynny yw, unrhyw ysgol nad yw'n gyfrwng Saesneg). Yn 2014/15 roedd 15.9% yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a 22.7% yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Yn 2009/10 roedd 16.3% yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, a 22.5% yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

3.43

Mae canran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf fel pwnc TGAU wedi codi 0.8% rhwng 2015/16 a 2018/19 ac mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y niferoedd sy'n astudio'r cwrs Cymraeg ail iaith llawn. Er hyn, mae'r cynnydd hwn yn rhannol o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddileu'r cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith o haf 2018 ymlaen. Nid oedd oddeutu 20% o ddisgyblion 16 oed yng Nghymru yn 2018/19 yn sefyll unrhyw arholiad Cymraeg.

Siart 12: Ymgeisiadau TGAU fesul grŵp pwnc yn seiliedig ar Gronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru.[45]

	Nifer y disgyblion	Cymraeg	Cymraeg ail iaith (llawn)
2010/11	36,088	5,240 **14.5%**	11,564 **32%**
2015/16	32,248	5,285 **16.4%**	10,816 **33.5%**
2016/17	31,379	5,365 **17.1%**	12,009 **38.3%**
2017/18	30,371	5,266 **17.3%**	13,342 **44%**
2018/19	31,348	5,385 **17.2%**	20,270 **64.7%**

45 Dylid nodi nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys ymgeisiadau ar gyfer Cymraeg ail iaith cwrs byr. Gweler dadansoddiad manylach o ymgeisiadau TGAU Cymraeg ail iaith yn adolygiad yr Athro Sioned Davies: ***Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4***.

Casgliadau'r Comisiynydd

Nid oes modd gorbwysleisio arwyddocâd *Cymraeg 2050* o ran gosod set o dargedau a chynllun gweithredu hirdymor ar gyfer cryfhau sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg statudol. Does dim amheuaeth nad yw'r strategaeth, ynghyd â'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig, yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol i'r Gymraeg yn y sector hwn, a bod disgwyl i bartneriaid allweddol ymateb a symud i'r un cyfeiriad.

Wrth ddadansoddi ystadegau'r pum mlynedd diwethaf, nid oes tystiolaeth amlwg o gynnydd sylweddol yn erbyn deilliannau pwysicaf strategaeth y Gymraeg mewn addysg Llywodraeth Cymru. Er bod cynnydd bychan i'w weld mewn rhai meysydd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n anodd llunio casgliadau pendant am ei arwyddocâd. Fel yng nghyd-destun targedau 2021, mae'n anodd defnyddio newidiadau canrannol bychan yn sail i lunio unrhyw gasgliadau ystyrlon ynglŷn â chynnydd gwirioneddol. Bydd yn rhaid disgwyl tan yr adroddiad 5-mlynedd nesaf cyn gallu dechrau gwerthuso o ddifri a ydym ar y trywydd cywir i gyflawni targedau hirdymor *Cymraeg 2050*.

Mae'n gwbl amlwg y bydd cyflawni'r targedau ar gyfer 2031 yn golygu gwyrdroi tueddiadau'r ugain mlynedd diwethaf yn llwyr. O safbwynt y targedau sy'n ymwneud ag ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, mae rheswm i fod yn obeithiol. Mae'r gwaith o ddiwygio rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn rhoi sail lawer cryfach i sicrhau bod cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol yn adlewyrchu amcanion cenedlaethol y Llywodraeth. Mae'r symud tuag at gynlluniau deng mlynedd, a'r gofyniad ar awdurdodau lleol i osod targedau lleol yn seiliedig ar y targedau cenedlaethol, yn ddatblygiadau allweddol. **Yn ei hanfod mae'n golygu symud o gyfundrefn gynllunio sy'n ceisio *diwallu* ac sy'n *rheoli'r* galw am addysg cyfrwng Cymraeg, at gyfundrefn lle mae'r awdurdodau lleol yn *mynd ati yn rhagweithiol* i ehangu'r ddarpariaeth.**

I raddau helaeth, bydd llwyddiant fframwaith newydd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn ymateb yn gadarnhaol drwy lunio cynlluniau uchelgeisiol a beiddgar. Wrth gwrs, bydd hefyd yn **dibynnu ar ymateb cadarn gan y Llywodraeth pe bai'r cynlluniau hyn yn annigonol a phe bai meddylfryd y gyfundrefn gynllunio newydd yn methu â chydio.** Er bod dyletswydd ddiamwys ar awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn y cyd-destun hwn, bydd gwaith y Llywodraeth mewn meysydd polisi cysylltiedig yn gwbl allweddol i alluogi a chefnogi cynlluniau lleol.

Rhaid i'r Gymraeg gael ei hintegreiddio'n llwyr i agendâu polisi a deddfwriaeth addysg Cymru yn gyffredinol. Ni fu'r angen i integreiddio agenda *Cymraeg 2050* i ddatblygiad polisi a deddfwriaeth addysg erioed yn amlycach nag wrth i'r Llywodraeth ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Yn anffodus, ni fachwyd ar y cyfle hwnnw. Ag ystyried mor ganolog yw addysg i strategaeth *Cymraeg 2050*, mae'n siomedig a dweud y lleiaf na chafodd y weledigaeth ynghylch y Gymraeg ei hintegreiddio'n llwyr i broses datblygu'r polisi mwyaf arwyddocaol ym maes addysg statudol ers datganoli. Ar lefel gyffredinol, mae bwlch amlwg iawn wedi ymddangos rhwng yr ymrwymiadau polisi a'r gwaith o'u gweithredu. Er bod targedau uchelgeisiol ynghlwm â'r ymrwymiad i ddiddymu Cymraeg ail iaith wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd, nid yw'n ymddangos bod strategaeth eglur wedi bod ar waith i gyflawni hyn.

Mae *Cymraeg 2050* yn gosod her hynod uchelgeisiol y bydd 50% o'r disgyblion sy'n gadael ysgolion cyfrwng Saesneg Cymru yn 2050 yn siaradwyr Cymraeg. Er bod rhai gwelliannau arwyddocaol wedi'u cyflwyno i fil y cwricwlwm wrth iddo fynd drwy'r Senedd, nid ydynt wir yn mynd i'r afael â diffygion mwy sylfaenol y cwricwlwm o safbwynt y Gymraeg. Nid yw fframwaith cyffredinol y cwricwlwm yn adlewyrchu gweledigaeth *Cymraeg 2050*, yn enwedig o safbwynt cyfraniad ysgolion cyfrwng Saesneg i'r nod o greu mwy o siaradwyr Cymraeg hyderus. Yn wahanol i'r hyn mae'r Llywodraeth wedi ei honni ac i'r hyn sydd ymhlyg yn nhargedau addysg *Cymraeg 2050*, nid yw'n ymddangos bod y cwricwlwm newydd am fod yn drobwynt i ddeilliannau ieithyddol y mwyafrif hynny o ddisgyblion Cymru sy'n mynychu addysg cyfrwng Saesneg. Y pryder yw bod y cwricwlwm newydd i bob pwrpas yn ailadrodd methiannau'r gorffennol ac yn parhau â'r drefn bresennol o gael dau lwybr addysgu'r Gymraeg i ddisgyblion Cymru, a hynny o dan len y cysyniad o gontinwwm ieithyddol. Canlyniad hyn yw y bydd Llywodraeth Cymru yn methu ar gyfle euraid i sicrhau na fydd cenedlaethau yn rhagor o ddisgyblion Cymru yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac yn methu â chyflawni ei strategaeth ei hun ar gyfer y Gymraeg.

Bydd cyflawni targedau addysg *Cymraeg 2050* yn gofyn am ystod o ymyraethau ar draws pob maes polisi addysg. Er mai un rhan o'r darlun yw'r cwricwlwm, does dim amheuaeth nad yw'n gwbl greiddiol i weddill y datblygiadau polisi sydd ar droed. **Y cwricwlwm cenedlaethol ddylai osod disgwyliadau clir a phendant i weddill y gyfundrefn addysg ddilyn ac ymaddasu yn ei sgil.** Oni fydd y cwricwlwm yn arwain, y tebyg yw y bydd diffygion o ran sgiliau athrawon, capasiti ysgolion, a chymwysterau ac adnoddau, yn arwain at gylch diddiwedd fydd yn parhau i lesteirio gwelliant yn sgiliau Cymraeg disgyblion Cymru. Mae'n destun pryder, ac efallai yn ddadlennol, bod y sylwadau hyn ynghylch cwricwlwm cenedlaethol Cymru yn cael eu gwneud ychydig flynyddoedd yn unig wedi cyhoeddi strategaeth *Cymraeg 2050* a'i ffocws amlwg ar y gyfundrefn addysg.

Does dim amheuaeth nad yw'r pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o ddiwygio sylweddol yn y maes addysg yng Nghymru. Mae'r newidiadau i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac i'r cwricwlwm yn ddatblygiadau hynod arwyddocaol a all ddylanwadu'n sylweddol ar sefyllfa'r Gymraeg ym maes addysg yn y dyfodol. Mae *Cymraeg 2050* yn rhagweld y bydd y newidiadau hyn yn arwain at gynnydd radical yn nifer y disgyblion fydd yn gadael y sector addysg statudol yn siarad Cymraeg.

Er bod rheswm dros fod yn obeithiol wrth feddwl am ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, nid dyma'r tro cyntaf i ddatganiadau ynglŷn â 'throbwynt' yn natblygiad addysg Gymraeg gael eu proffwydo. **Os yw'r Llywodraeth am gyflawni amcanion strategaeth *Cymraeg 2050*, mae'n anorfod y bydd angen i'r gwaith o gyflwyno a gweithredu polisïau ym maes addysg adlewyrchu maint yr uchelgais.** Ni ellir disgwyl y bydd parhau i fuddsoddi a gweithredu yn yr un modd ag a wnaed yn yr ugain mlynedd diwethaf rywsut yn arwain at ganlyniadau cwbl wahanol. Amser a ddengys a fydd y Llywodraeth yn gweithredu'n unol â'r weledigaeth, ac yn darparu'i holl adnoddau a'i dylanwad er mwyn cymryd camau breision at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

4 Addysg ôl-orfodol

4.1

Mae gan addysg a hyfforddiant ôl-orfodol rôl allweddol yn sicrhau dilyniant ieithyddol. I nifer dyma'r cyfnod sy'n pontio addysg statudol a'r byd gwaith. Mae'n cynnig cyfleoedd hollbwysig i unigolion ddatblygu a defnyddio'u sgiliau Cymraeg ac i atgyfnerthu arferion ieithyddol unigolion wrth iddynt fynd ymlaen i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol ac yn gymdeithasol.

4.2

Nid oes amheuaeth bod cryn weithgaredd wedi digwydd yn y sector ôl-orfodol yn ystod y cyfnod adrodd, a gwelwyd gweithgareddau hybu'r Gymraeg yn y meysydd hyn yn cael eu halinio ymhellach â blaenoriaethau *Cymraeg 2050*. Ymhlith y prif ddatblygiadau yn y maes roedd:

- ymestyn swyddogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith;
- sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; a
- datblygu'r rhaglen Cymraeg Gwaith.

Bydd yr adran hon felly yn canolbwyntio ar bob un o'r datblygiadau hynny yn eu tro.

Ymestyn swyddogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ni fu'r un buddsoddiad a phwyslais strategol ar wneud cynnydd yn y sectorau ôl-orfodol o gymharu, er enghraifft, â'r sector Addysg Uwch. Gyda chymorth y Llywodraeth, gwnaed cynnydd nodedig mewn rhai lleoliadau, ac eto bu hyn yn ddibynnol yn aml ar awydd strategol darparwyr unigol a/neu ewyllys da staff unigol. Mae gwaith sylweddol i'w wneud er mwyn datblygu darpariaeth ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth honno.[46]

4.3

Daeth adroddiad 5-mlynedd diwethaf y Comisiynydd i'r casgliad fod yr ystadegau'n dangos 'darlun amrywiol o gyflwr addysg cyfrwng Cymraeg mewn Colegau addysg bellach'.[47] Er bod yr adroddiad yn cydnabod datblygiadau cadarnhaol, er enghraifft Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd Colegau Cymru a'r Prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd, y casgliad cyffredinol oedd bod canran y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn isel iawn. Amlygwyd y problemau ym maes dysgu seiliedig ar waith ymhellach yng nghyhoeddiad y Comisiynydd ar sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru yn 2017.[48]

46 Grŵp Cynllunio Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ***Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg*** (Ionawr 2019), t. 2.

47 ***Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015***, t. 124.

48 Comisiynydd y Gymraeg, *Sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru* (Tachwedd 2017).

4.4

Fel y gwelir isod, mae ystadegau'r pum mlynedd diwethaf yn dangos rhywfaint o gynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith:

Siart 13: Nifer a chanran gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth mewn addysg bellach, ac eithrio dysgu seiliedig ar waith (Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru).

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cyfrwng Cymraeg	**0.1%** 690	**0.3%** 1265	**0.3%** 985	**0.2%** 755	**0.3%** 885	**0.3%** 915
Dwyieithog	**3%** 13,730	**2.3%** 8,755	**1.1%** 3,875	**2.9%** 10,010	**1.9%** 6,520	**2.6%** 7,550
Swm sylweddol o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	**0.6%** 2,810	**0.8%** 3,020	**0.4%** 1,570	**0.7%** 2,325	**1.2%** 4,260	**1.0%** 2,810
Ychydig o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	**3.5%** 16,040	**3.9%** 15,145	**2.8%** 9,880	**3.5%** 12,160	**5.3%** 18,495	**5.0%** 14,650
Cyfrwng Saesneg	**92.8%** 431,620	**92.7%** 355,530	**95.4%** 337,680	**92.7%** 322,910	**91.3%** 317,425	**91.2%** 268,015
Cyfanswm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	**7.2%**	**7.3%**	**4.6%**	**7.3%**	**8.7%**	**8.9%**

Siart 14: Nifer a chanran gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth mewn dysgu seiliedig ar waith (Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru).

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cyfrwng Cymraeg	**0.3%** 620	**0.4%** 685	**0.3%** 515	**0.3%** 520	**0.4%** 565	**0.5%** 675
Dwyieithog	**3.4%** 6,475	**3.1%** 5,045	**3.2%** 5,135	**2.9%** 4,850	**2.9%** 4,305	**2.9%** 3,620
Swm sylweddol o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	**0.2%** 325	**0.3%** 415	**0.3%** 465	**0.3%** 530	**0.3%** 435	**0.3%** 380
Ychydig o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	**3.2%** 6,110	**4.7%** 7,675	**6.9%** 10,945	**6.7%** 11,010	**8.3%** 12,355	**9.3%** 11,495
Cyfrwng Saesneg	**92.8** 174,875	**91.5%** 148,665	**89.3%** 142,285	**89.3%** 147,775	**88.1%** 130,455	**87.0%** 107,850
Cyfanswm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	**7.2%**	**8.5%**	**10.7%**	**10.3%**	**11.9%**	**13.0%**

4.5

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi bod dros y pum mlynedd diwethaf, ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn bennaf yn seiliedig ar gynnydd yn y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg'. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae defnydd o'r Gymraeg wedi'i gyfyngu i gyfathrebu llafar neu ran fechan o'r gweithgaredd dysgu, a lle mae'r asesiad yn uniaith Saesneg.

4.6

Roedd yr angen i sicrhau eglurder o ran diffiniadau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach yn un o argymhellion adroddiad 5-mlynedd diwethaf y Comisiynydd. Er ei bod yn ymddangos fod mwy o eglurder a chysondeb yn y defnydd o'r diffiniadau erbyn hyn, nid yw'n glir pa mor addas yw'r categorïau a geir yn y siart uchod wrth gyrchu at amcanion craidd strategaeth *Cymraeg 2050*, na chwaith pa mor briodol ydynt at bwrpas cynllunio ieithyddol yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

4.7

Hynny yw, nid yw'n glir i ba raddau y mae cynnydd mewn gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg' yn ddigonol er mwyn arwain at newidiadau ystyrlon yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a'r defnydd o'r iaith yn gymdeithasol ac yn y gweithle.

4.8

Er nad yw'r data'n dangos cynnydd sylweddol nac ystyrlon yn sefyllfa'r Gymraeg yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r diffyg cynnydd hwn wedi ysgogi datblygiadau polisi llawer mwy arwyddocaol a beiddgar dros y cyfnod adrodd nag a welwyd gynt.

4.9


Cyhoeddwyd *Adolygiad o Weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*[49] yn haf 2017 a oedd yn cynnwys 25 argymhelliad, yn bennaf ar gyfer y Coleg a Llywodraeth Cymru. Efallai mai un o'r prif argymhellion, neu'n sicr yr un sydd wedi esgor ar y newidiadau mwyaf arwyddocaol, oedd hwnnw i ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

4.10

Cyfarwyddwyd y Coleg i sefydlu bwrdd cynghori yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau ynghyd â chynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru. Bu'r bwrdd yn gyfrifol am roi cyngor ar yr ymyraethau a fyddai'n angenrheidiol er mwyn datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y meysydd hyn. Bu gofyn iddo hefyd gyflwyno argymhellion beiddgar ac uchelgeisiol i'w bwydo i gynllun gweithredu ffurfiol a ddatblygwyd ar y cyd â swyddogion y Llywodraeth.

4.11

Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu ar gyfer y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith ym mis Ionawr 2019.[50] Seilir y cynllun ar y weledigaeth y dylid galluogi pob dysgwr i gynnal neu ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg gan ragdybio bod gan bob dysgwr rhyw afael ar y Gymraeg, yn amrywio o ymwybyddiaeth o'r iaith, yr holl ffordd ar hyd y continwwm i fod yn rhugl ynddi. Mae'r 'model datblygu sgiliau' yn cynnig 4 lefel fel sail ar gyfer y gwaith o gynllunio ymyraethau:



Bwriad y model yw targedu pob dysgwr ag ymyraethau ar un neu ragor o'r lefelau hyn i gynyddu eu hymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth, eu hyder, neu eu rhuglder.

49 Llywodraeth Cymru, ***Adolygiad o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*** (25 Gorffennaf 2017).
50 ***Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***.

4.12

Mae'r cynllun yn gosod cyfrifoldebau clir ar nifer o bartneriaid dros y tymor byr, canol a hir mewn perthynas â 6 maes strategol allweddol:

- profiad y dysgwr
- cynyddu capasiti staffio
- gwella darpariaeth
- ehangu adnoddau
- asesu a datblygu cymwysterau yn y Gymraeg
- gweithio â chyflogwyr i roi profiadau ac i ddangos gwerth.

4.13

Er mwyn sicrhau bod profiad y sector ôl-16 yn cael ei adlewyrchu yn ei waith cynllunio, a sicrhau perchnogaeth y sector ar y gwaith, sefydlodd y Coleg Fwrdd Strategol Ôl-16. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau, a chyflogwyr, a sicrheir bod lleisiau'r dysgwyr eu hunain hefyd yn cael eu clywed.

Addysg uwch

4.14


Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi parhau i weithio yn y sector addysg uwch a chynigiodd yr *Adolygiad o Weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol* nifer o argymhellion yn ymwneud â gweithgareddau'r Coleg yn y maes hwnnw. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion ynglŷn â'r cynllun ysgoloriaethau, y cynllun grantiau pynciol, ysgoloriaethau ymchwil, a dulliau marchnata, gan gynnwys anogaeth i'r Coleg ganolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg fel sgìl yn y gweithle. Ymddengys mai prif neges yr adolygiad, fodd bynnag, oedd bod angen parhau i gefnogi gwaith y Coleg ym maes addysg uwch, ac adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud ers sefydlu'r Coleg yn 2011.

4.15

Nid oes amheuaeth nad yw gwaith y Coleg yn y sector addysg uwch ar y cyd â phrifysgolion wedi cyfrannu at wella sefyllfa'r Gymraeg yn y sector dros y cyfnod diwethaf. Ceir y data diweddaraf am y Gymraeg mewn addysg uwch ym mwletin ystadegol yr iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2018/19.[51]

51 Llywodraeth Cymru, ***Bwletin Ystadegol: Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2018/19*** (30 Gorffennaf 2020).

Siart 15: Canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg (Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA).



4.16

Mae patrwm cyffredinol y data yn dangos cynnydd cyson rhwng 2011 pan sefydlwyd y Coleg a 2015/16, ac yna mae'r ffigyrau'n gostwng yn raddol ers hynny. Er y gostyngiad diweddar, mae Cynllun Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2020/21–2024/25 yn nodi bod 5,275 o fyfyrwyr llawn amser yn astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18, o'i gymharu â 3,005 yn 2010/11. Yn 2017/18, roedd 2,370 yn astudio o leiaf draean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â 1,982 yn 2009/10.[52]

52 Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ***Gosod Llwybrau Llwyddiant: Cynllun Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2020/21–2024/15*** (2020), t. 9.

4.17

Dengys y data hefyd fod 29% (19,870) o'r myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru mewn prifysgolion yn 2018/19 yn siaradwyr Cymraeg: o'r rhain roedd 9,945 ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.[53] Mae'n ddadlennol, fodd bynnag, mai dim ond 3,005 o siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd rywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod 6,945 o siaradwyr Cymraeg rhugl na astudiodd unrhyw ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. O'r 9,925 o siaradwyr Cymraeg oedd ddim yn rhugl, dim ond 885 a astudiodd rywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly nid oedd 9,040 yn derbyn unrhyw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.[54] Mae'r data hwn yn dangos yn glir mai un o'r prif heriau o hyd yw perswadio myfyrwyr i fanteisio ar y ddarpariaeth sy'n bodoli.



3,005

yw cyfanswm y siaradwyr Cymraeg rhugl a astudiodd rywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

6,945

yw nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl na astudiodd unrhyw ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.18

Yn 2018/19 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer fwyaf o fyfyrwyr (2,680) a'r gyfran fwyaf o'i myfyrwyr (24%) yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am bron i ddau draean (64%) o'r holl addysg a dderbyniwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18.

4.19

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y darlithwyr a fyddai'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Er hynny, nid yw'r cynnydd yn nifer y darlithwyr sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyd-fynd â'r cynnydd hwn. Awgryma hyn unwaith eto mai'r brif her yw annog rhagor o fyfyrwyr i fanteisio ar y capasiti cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ym mhrifysgolion Cymru.

4.20

Nid yw'r ystadegau uchod o reidrwydd yn adlewyrchu'n llawn y cynnydd sylweddol sydd wedi bod yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws prifysgolion Cymru, yn gyrsiau, modiwlau, ac adnoddau addysgol. Er mai anodd yw mesur cynnydd yn y ddarpariaeth sydd ar gael, mae adroddiad blynyddol *Cymraeg 2050* ar gyfer 2019–20 yn nodi bod 26 o'r prif grwpiau pwnc ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn hyn, sy'n gynnydd o 14 maes mewn cyfnod o wyth mlynedd.[55]

4.21

Ni ellir peidio â sôn yma chwaith am ambell ddatblygiadau penodol o bwys o safbwynt y Gymraeg yn y sector dros y cyfnod adrodd. Gwelwyd cynnydd mewn darpariaethau meddygol a phynciau'r gwyddorau fel Mathemateg a Ffiseg, er enghraifft, a datblygwyd cwrs ôl-radd cyfrwng Cymraeg mewn gofal cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor.

53 Gweler ***Bwletin Ystadegol: Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2018/19*** am ddadansoddiad manylach.
54 Dylid nodi bod 1,705 o fyfyrwyr oedd wedi cofnodi nad oeddent yn siarad Cymraeg wedi astudio rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y data.
55 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2019–20*** (Tachwedd 2020), t. 23.

Astudiaeth achos: Cynllun Doctoriaid Yfory

Mae'r cynllun i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n ymgeisio'n llwyddiannus am le i astudio meddygaeth bellach ar ei thrydedd flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth.

Wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a bellach yn cael ei gefnogi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, mae'r cynllun yn ymdrech ar y cyd rhwng staff a myfyrwyr Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bob blwyddyn mae darpar fyfyrwyr blwyddyn 12 ac 13 mewn ysgolion uwchradd ar draws Cymru yn manteisio ar raglen gefnogaeth, sy'n cynnwys dosbarthiadau meistr ac ysgolion haf wedi eu cynllunio i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i'w ceisiadau a'u hastudiaethau yn y dyfodol. Wrth gael eu mentora gan ddoctoriaid a myfyrwyr meddygaeth Cymraeg, mae'r rheini a gymerodd ran yn y cynllun wedi datblygu dealltwriaeth amhrisiadwy o'r heriau a'r cyfleoedd i hyfforddi a gweithio fel doctor yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru.

Dechreuodd y criw llwyddiannus cyntaf o fyfyrwyr Doctoriaid Yfory eu hastudiaethau yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd ym mis Medi 2019 pan welwyd y nifer uchaf erioed o fyfyrwyr Cymraeg yn cofrestru ar y cwrs. Ac ym mis Medi 2020 croesawodd Prifysgol Caerdydd a phrifysgolion eraill ar draws y Deyrnas Unedig yr ail griw o fyfyrwyr meddygaeth oedd wedi elwa o'r cynllun.

4.22

Ddechrau 2020 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg ei gynllun strategol ar gyfer 2020/21–2024/25 sydd â chwe blaenoriaeth ar gyfer datblygu gwaith y Coleg yn y sector ôl-orfodol dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arwain datblygiad a gweithrediad polisi ieithyddol yng Nghymru yng nghyd-destun addysg ôl-orfodol
- Cyfoethogi profiad myfyrwyr a dysgwyr
- Arloesi a chyfrannu at les cenedlaethau'r dyfodol
- Cydweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid
- Cyfrannu at ddyfodol disglair a chynaladwy i addysg a hyfforddiant ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gweithio'n broffesiynol ac effeithiol.[56]

4.23

Mae pryder y bydd argyfwng COVID-19 yn effeithio'n fawr ar y sector addysg uwch. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd mor fuan yn yr argyfwng â Mai 2020, nododd Canolfan Llywodraethiant Cymru fod prifysgolion Cymru'n wynebu bygythiad difrifol i'w cyllidebau. Amcangyfrifwyd y gallai'r sector golli rhwng £100m a £140m o incwm ffioedd yn unig yn 2020–21 o ganlyniad i gwymp disgwyliedig yn y niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol a gaiff eu recriwtio a'r myfyrwyr cartref na fyddent yn cofrestru oherwydd y pandemig.[57]

56 ***Gosod Llwybrau Llwyddiant: Cynllun Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2020/21–2024/15***, t. 15.
57 Dadansoddi Cyllid Cymru, ***Covid-19 and the Higher Education Sector in Wales*** (Mai 2020), t. 4.

Cymraeg i Oedolion

4.24

Sector arall a effeithiwyd gan argyfwng COVID-19 yw'r sector Cymraeg i Oedolion. Ond yn groes i brofiad nifer o sectorau, gwelwyd arwyddion cadarnhaol yn y maes hwn fod y cyfyngiadau symud wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd oedd yn cofrestru i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn galonogol iawn o safbwynt *Cymraeg 2050* gan fod cynyddu'r niferoedd sy'n dysgu Cymraeg yn rhan allweddol o'i thaflwybr, â rhagdybiaeth y bydd 2,000 o oedolion yn dod yn siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn o 2021 ymlaen.

4.25

Y prif ddatblygiad yn y maes hwn yn ystod y cyfnod adrodd oedd sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i arwain ar weithredu argymhellion adroddiad *Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion* a gyhoeddwyd yn 2013.[58] Ym mis Mai 2015, dyfarnwyd i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant y gwaith o sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gorff hyd braich wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg gymunedol Cymraeg i Oedolion am gyfnod grant o saith mlynedd hyd 31 Gorffennaf 2022.[59] Mae gwerth nodi'r amcanion craidd a osodwyd i'r Ganolfan gan y Llywodraeth, sef y dylai:

- fod yn sefydliad gweledol sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r maes
- cynnig arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion
- codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion
- datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon
- cynhyrchu adnoddau sy'n addas i bob mathau o ddysgwyr.[60]

58 Llywodraeth Cymru, ***Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*** (Gorffennaf 2013).
59 Cyhoeddwyd y comisiynwyd adolygiad cyflym o'r Ganolfan i ystyried ei darpariaeth o 1 Awst 2022 ymlaen ar 24 Chwefror 2021: **Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad Cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion (24 Chwefror 2021) | LLYW.CYMRU**.
60 Efa Gruffudd Jones ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ***Tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig*** (Mai 2020), t. 1.

4.26

Ar 1 Awst 2016 trosglwyddwyd y cyfrifoldebau am y maes yn llwyr i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a dechreuodd y Ganolfan ariannu 11 o ddarparwyr yn dilyn proses ad-drefnu. Mae'r darparwyr yn cynnig gwersi ar draws Cymru ac yn cefnogi dysgwyr Cymraeg. Cyn pandemig COVID-19, cynhaliwyd y gwersi yn lleol ac anelwyd at sicrhau bod modd i bawb ddod o hyd i gwrs ar y lefel gywir o fewn pellter rhesymol o'u cartref neu le gwaith.

4.27

Cyhoeddodd y Ganolfan gynllun strategol ar gyfer 2016-20 gan osod pum amcan strategol. Un o'r rheini oedd datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf. Yn hynny o beth buddsoddodd y Ganolfan yn helaeth yn ei phlatfform digidol sy'n cynnwys ardal dysgu bersonol, toreth o adnoddau digidol yn amrywio o gyrsiau blasu i ddarpariaeth lefel uwch, ynghyd â gwiriwr lefel i alluogi darpar ddysgwyr i bennu lefel eu sgiliau er mwyn canfod y cwrs fwyaf addas. Mae'r Ganolfan hefyd wedi datblygu nifer o gynlluniau eraill i gefnogi dysgwyr mewn modd anffurfiol fel yr ŵyl Ar Lafar a'r cynllun Siarad sy'n paru dysgwyr â siaradwyr Cymraeg gan roi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer.

4.28

Adnabu adroddiad *Codi Golygon* yr angen am well dulliau o gasglu a dadansoddi data Cymraeg i Oedolion fel bo modd mesur a thracio dilyniant dysgwyr o un lefel/blwyddyn i'r llall. Â sicrhau dilyniant o'r fath yn anodd yn y gorffennol, aeth y Ganolfan ati i ddatblygu dulliau newydd o gasglu data, ac ers 2019 mae'n gyhoeddwr ystadegau swyddogol.

4.29

Yn dilyn rhoi Cynllun Rheoli Data'r Ganolfan ar waith, blwyddyn academaidd 2017/18 yw'r flwyddyn lawn gyntaf o ddata sydd gan y Ganolfan ac nid oes modd gwneud cymariaethau cywir â data cyn hynny. Mae'r data am y tair blynedd diwethaf yn dangos cynnydd amlwg a sylweddol yn nifer y dysgwyr ac yn nifer y gweithgareddau dysgu:

	2017/18	2018/19	2019/20
Nifer y dysgwyr unigryw	12,680	13,260	17,505
Nifer y gweithgareddau dysgu	19,490	20,330	30,115

4.30

Mae'r data ar gyfer nifer y dysgwyr unigryw yn 2019/20 yn dangos cynnydd o 38% ers 2017/18 ac mae nifer y gweithgareddau dysgu wedi cynyddu 54% yn ystod yr un cyfnod.

4.31

Yn 2019/20 roedd 68% o ddysgwyr ar lefel Mynediad, 11% ar lefel Sylfaen, a 19% ar lefelau Canolradd neu Uwch. Yn 2017/18 roedd 51% o ddysgwyr ar lefel Mynediad, 18% ar lefel Sylfaen a 31% ar lefelau Canolradd neu Uwch. Mae'n drawiadol hefyd bod 15,015 o ddysgwyr 2019/20 o fewn yr ystod oedran gweithio (16–64 oed), sef 86% o'r holl ddysgwyr.[61]

4.32

Un o brif gynlluniau'r Ganolfan yw Cymraeg Gwaith sy'n datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac ar gael i gyrff ym mhob sector. Nodwedd arbennig y cynllun yw bod darpariaeth wedi'i theilwra ar gael sy'n cwrdd â gofynion sectorau penodol, a hynny ar sawl lefel, o gyrsiau blasu ar-lein i gyrsiau preswyl dwys yn Nant Gwrtheyrn. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u datblygu mewn meysydd fel y sector iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, twristiaeth a lletygarwch, a gofal plant, ac maent wedi cefnogi sectorau newydd wrth iddynt orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

4.33

Yn sgil argyfwng COVID-19 torrwyd cyllideb y cynllun o 40%. Arweiniodd hynny at ddirwyn rhai cynlluniau sectorol i ben a rhoi'r gorau i gynlluniau mentora a darpariaeth ddwys wyneb yn wyneb – roedd hynny'n anorfod, wrth gwrs, o ganlyniad i gyfyngiadau'r cyfnod clo a rheolau ymbellhau cymdeithasol. Ysgogodd y toriadau ariannol a'r newid yn amgylchiadau gweithio pobl addasiadau i'r cynllun a chynyddwyd y ddarpariaeth ddigidol yn sylweddol gan gynnig cyrsiau hunan-astudio llawn am y tro cyntaf.

Sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru

4.34

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddwyd adolygiad ar oruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Mae argymhellion yr adolygiad wedi arwain at gynlluniau gan Lywodraeth Cymru i greu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru drwy statud. Roedd bwriad i gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn gerbron y Senedd yn ystod 2019–20 ond oherwydd pandemig COVID-19 cyhoeddwyd y bil drafft er ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2020.[62]

4.35

Mae'r bil drafft yn nodi y byddai'n ofynnol i'r Comisiwn fabwysiadu dull strategol o gynllunio a chyllido addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg drydyddol. Cynigir y byddai dyletswydd ar y Comisiwn i:

- annog unigolion i gymryd rhan mewn addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- sicrhau bod digon o addysg drydyddol ar gael drwy gyfrwng Cymraeg i fodloni galw rhesymol; ac
- annog darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.

61 Ystadegau Dysgu Cymraeg 2019–2020 | Dysgu Cymraeg.
62 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft | LLYW.CYMRU.

4.36

Nodir, fodd bynnag, y byddai Gweinidogion Cymru'n parhau i allu dyrannu cyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi darpariaeth addysg drydyddol Gymraeg. Rhagwelir y byddai Gweinidogion Cymru yn parhau i ddarparu cyllid yn uniongyrchol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er enghraifft, a hynny am gyfnod yn dilyn sefydlu'r Comisiwn.

4.37

Amser a ddengys beth fydd tynged y bil yn ystod cyfnod Senedd a Llywodraeth nesaf Cymru, a beth fydd ei oblygiadau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol. Ar lefel gyffredinol iawn, mae'r dyhead i ddatblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol fwy effeithiol a chydlynol yn un sy'n cynnig cyfleoedd amlwg i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

4.38

Byddai sefydlu'r Comisiwn yn cynnig cyfle i bwyso a mesur y sefyllfa bresennol, a gosod fframweithiau a threfniadau mwy cadarn i sicrhau bod y sector ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd yn cymryd camau breision i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Byddai cyfle hefyd i osod strategaeth iaith y Llywodraeth yn rhan greiddiol o unrhyw drefn newydd.

Casgliadau'r Comisiynydd

Mae gwaith sylweddol i'w wneud i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Mae ystadegau'r pum mlynedd diwethaf yn dangos mai ychydig iawn o gynnydd gwirioneddol sydd wedi bod mewn perthynas ag amcanion creiddiol *Cymraeg 2050*.

Mae rhan helaeth y cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i'w weld yn y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys 'ychydig o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg'. **Mae hyn yn amlygu unwaith eto'r angen i ystyried yn ofalus sut mae diffinio addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a sut mae sicrhau ein bod yn mesur cynnydd yn yr elfennau hynny sydd fwyaf perthnasol i amcanion *Cymraeg 2050*.** Holl bwrpas casglu data ieithyddol yw er mwyn gallu ei ddefnyddio at ddiben cynllunio ieithyddol. Ymddengys ar brydiau fod y data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd yn llesteirio ac yn cymylu'r broses yn hytrach na'i hwyluso. Er bod angen annog, cefnogi a chofnodi pob math o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ni ddylai hynny fod ar draul canolbwyntio ar y math o ddarpariaeth sy'n debygol o arwain at greu mwy o unigolion sy'n hyderus yn defnyddio'r iaith yn y gweithle ac yn gymdeithasol.

Â hithau wedi bod yn dalcen caled i ehangu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector hwn, mae ehangu swyddogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyhoeddi'r cynllun gweithredu addysg bellach a phrentisiaethau yn garreg filltir bwysig. Mae'r datblygiadau hyn wedi gosod fframwaith er mwyn gallu cymryd camau breision dros y degawd nesaf i gynyddu'n sylweddol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. **I wireddu'r weledigaeth, ac os am osgoi ail-adrodd yr un negeseuon ymhen pum mlynedd am sefyllfa'r Gymraeg yn y sector, mae'n hanfodol fod y Llywodraeth yn darparu'r cyllid a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r cynllun yn llawn.**

Mae'n amlwg bod gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y dwyn ffrwyth ym maes addysg uwch ac mae angen parhau i gynnal y buddsoddiad presennol yn y sector hwn. Mae'n destun pryder, fodd bynnag, fod nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg rhugl yn dewis peidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nad yw pob aelod o staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud hynny ar hyn o bryd. **Her amlwg i'r Coleg felly yw parhau i gydweithio â phrifysgolion i wyrdroi'r sefyllfa hon a sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli.**

Ar yr un pryd, mae angen i brifysgolion fuddsoddi'n strategol mewn darpariaeth Gymraeg a mynd ati'n rhagweithiol i hybu a marchnata'r ddarpariaeth honno. Mae hefyd angen iddynt barhau i gydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i adeiladu ar y cynnydd a welwyd dros y degawd diwethaf. Ni fydd hynny'n dasg hawdd yn y cyd-destun cymdeithasol a chyllidebol sy'n debygol o wynebu'r sector yn sgil COVID-19.

Mae sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi arwain at gyfundrefn dysgu Cymraeg llawer mwy cynhwysfawr, cydlynol a chryf. Ond yn bwysicach na dim, mae wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n dysgu Cymraeg ledled Cymru. Bydd cyfnod grant cyntaf y ganolfan yn dod i ben yn 2022 a bydd gofyn i werthuso llwyddiant y Ganolfan yn erbyn argymhellion gwreiddiol *Codi Golygon*. Hyderwn fod y dystiolaeth sy'n bodoli yn sail i gefnogi ac atgyfnerthu gwaith y Ganolfan i'r dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu mewn sectorau allweddol fel y sector iechyd a'r sector addysg. **Bydd hefyd angen sicrhau bod gwaith y Ganolfan yn canolbwyntio ar yr ymyraethau a'r cynlluniau hynny sy'n cyfrannu i'r eithaf at greu siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n defnyddio'r iaith yn eu bywydau beunyddiol.** Y cam cyntaf yn hyn o beth fydd datblygu dulliau mwy cadarn o fesur traweffaith cyrsiau dysgu Cymraeg ar *ddefnydd* unigolion o'r Gymraeg, boed hynny'n gymdeithasol neu yn y gweithle.

5 Y gweithlu addysg

5.1

O'r holl ymrwymiadau a thargedau yn strategaeth *Cymraeg 2050*, mae'n debyg mai'r un i greu gweithlu addysg gynyddol ddwyieithog yw'r un mwyaf allweddol i lwyddiant gweddill y strategaeth. Mae'n gwbl ganolog i bob gweithgaredd arall yn y sector addysg: ni ellir cyflawni'r twf angenrheidiol mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog oni fydd nifer cynyddol o'r gweithlu addysg yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn wir ar gyfer y sector addysg yn ei gyfanrwydd, o'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar i'r sector addysg uwch a Chymraeg i oedolion.

Gweithlu'r sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar

Gan fod cynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol i'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr, mae angen sicrhau cynllun cydlynus ar gyfer datblygu'r gweithlu hollbwysig hwn.[63]

5.2

Fel mae'r dyfyniad uchod yn ei awgrymu, roedd sicrhau bod mwy o unigolion yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn un o amcanion y Llywodraeth yn ystod y cyfnod adrodd. Er mwyn ceisio ymateb i'r her, gweithiodd y Llywodraeth yn agos â'r Mudiad Meithrin i gynnig amryw o lwybrau hyfforddiant ar gyfer y gweithlu gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar.

5.3

Yn 2004 enillodd y Mudiad Meithrin dendr gan Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun hyfforddi cenedlaethol Cam wrth Gam â'r nod o sicrhau bod 200 o unigolion yn ennill cymhwyster cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn. Daeth y cynllun i ben yn 2019 yn sgil galwadau i brif ffrydio darpariaethau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg.

63 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 43.

5.4

Er mwyn parhau i ddiwallu'r anghenion ar gyfer gweithlu cymwys cyfrwng Cymraeg, lansiwyd cynllun prentisiaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar y cyd rhwng yr Urdd, y Mudiad Meithrin a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Chwefror 2020, â'r criw cyntaf yn dechrau ar eu prentisiaeth ym mis Medi 2020. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff a gyflogir (neu a fydd yn cael eu cyflogi wrth ddechrau'r brentisiaeth) gan ddarpariaethau gofal sy'n aelodau o'r Mudiad Meithrin, meithrinfeydd preifat cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.5

Yn ogystal â'r prosiectau dysgu seiliedig ar waith uchod, mae'r Mudiad Meithrin wedi bod yn gyfrifol am weithredu Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam ers 2006, a hynny i lenwi'r bwlch yn y cyfleon i ddisgyblion ysgolion uwchradd astudio am gymhwyster gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun wedi cyflwyno cyrsiau Tystysgrif Lefel 2 i fyfyrwyr ôl-14 a Diploma Lefel 2/3 a Diploma Estynedig Lefel 3 i fyfyrwyr ôl-16 mewn 30 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ers 2006, gyda 1068 o fyfyrwyr wedi cymhwyso erbyn Gorffennaf 2019.[64] Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd y cynllun yn dal i gael ei weithredu mewn 18 ysgol. Mae newidiadau sylweddol wedi bod yn sgil datblygu fframwaith o gymwysterau newydd ym maes gofal plant, ac mae'r Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam yn cynnig ystod lawn o gymwysterau newydd i ddisgyblion ers mis Medi 2020.

5.6

Wrth sefydlu'r cynllun prentisiaethau a'r Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam ar ei newydd wedd, datblygwyd ystod eang o adnoddau dysgu cydnabyddedig Cymraeg a dilysir y rhain gan gyrff dyfarnu safonol. Denir siaradwyr Cymraeg hyderus a dysgwyr fel ei gilydd at y cynllun, a darperir cefnogaeth ieithyddol hefyd i'r sawl sy'n awyddus i loywi eu sgiliau iaith.

5.7

Yn ychwanegol at y strategaethau ar gyfer hyfforddi gweithwyr newydd, mae amryw o gynlluniau ar waith i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol. Yn 2016 lansiodd y Mudiad Meithrin gynllun Academi. Prif nod Academi yw cynnig cyfleon i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu a gwirfoddolwyr, ond mae yno elfen o 'normaleiddio' iaith hefyd. Mae'r cynllun yn darparu ystod eang o gyfleon hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar bynciau amrywiol sy'n ymwneud â gwaith y Mudiad, gan gynnwys hyfforddiant ar faterion ieithyddol a'r dull trochi iaith.

5.8

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf yng nghyd-destun datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yw cynllun Camau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn rhan o arlwy Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae Camau yn cynnig cyrsiau dysgu Cymraeg penodol ar gyfer y gweithlu addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar. Mae'r cynllun hwn, a ddatblygwyd drwy gydweithio agos â Chwlwm,[65] yn cynnwys ystod o gyrsiau ar wahanol lefelau rhuglder ac wedi'i ariannu'n llawn i gyflogwyr.

64 **Cyrsiau Ysgolion Uwchradd - Mudiad Meithrin**.

65 Mae Cwlwm yn gasgliad o bum mudiad – â'r Mudiad Meithrin yn sefydliad canolog – sydd â'r nod o gynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod teuluoedd ar draws Cymru yn gallu cael mynediad at ofal fforddiadwy o safon.

Gweithlu'r sector addysg statudol

5.9

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir fod cynyddu niferoedd y gweithlu addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn gwbl allweddol i gyflawni gweledigaeth *Cymraeg 2050*.

5.10

Fel mae siart 16 yn ei ddangos, mae'r Llywodraeth wedi pennu targedau ar gyfer nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg y bydd eu hangen ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd yn unol â'r taflwybr i'r miliwn o siaradwyr. Gellir amgyffred maint yr her hon o ystyried y tueddiadau sydd i'w gweld yn yr ystadegau isod am sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg statudol dros y blynyddoedd diwethaf.

Darlun ystadegol o'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru

Siart 16: Niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, a thargedau *Cymraeg 2050*.

	2010/ 2011	2015/ 2016	2016/ 2017	2017/ 2018	2018/ 2019	2019/ 2020	2021	2031	2050
Cynradd	2,812	2,867	2,853	2,827	2,789	2,731	3,100	3,900	5,200
Uwchradd	1,848	1,659	1,664	1,772	1,683	1,666	2,200	3,200	4,200

5.11

Er bod cynyddu capasiti a sgiliau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn un o amcanion craidd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010–17) y Llywodraeth, ni welwyd cynnydd ystyrlon dros oes y strategaeth honno. Mae'n amlwg o edrych ar y data y bydd cyflawni targedau *Cymraeg 2050* yn golygu gwyrdroi tueddiadau'r deng mlynedd diwethaf yn llwyr. Mae hyn yn cael ei ategu gan y data ynglŷn â nifer yr athrawon newydd gymhwyso, a'r data am y niferoedd sy'n hyfforddi i fod yn athrawon.

Siart 17: Nifer yr athrawon ysgol newydd gymhwyso sydd wedi'u cofrestru gyda CGA â sgiliau yn y Gymraeg (Ffynhonnell: Data'r Cyngor Gweithlu Addysg).

	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Siarad Cymraeg	453	326	380	373	383	350
Gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg	388	245	315	273	283	285
Cyfanswm yr athrawon newydd gymhwyso	1,268	1,228	1,149	1,207	1,165	1,168

5.12

Fel y gwelir yn y siart uchod, bu cwymp trawiadol yn y pum mlynedd diwethaf yn nifer yr athrawon newydd gymhwyso sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gostyngiad o 23% yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg, a 27% yn y nifer sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn llawer mwy na'r gostyngiad o 8% yng nghyfanswm yr athrawon newydd gymhwyso.[66]

66 Dylid nodi bod y gostyngiad cyffredinol hwn i raddau o ganlyniad i benderfyniadau polisi bwriadol yn dilyn adolygiad o hyfforddiant cychwynnol athrawon yn 2006.

Siart 18: Nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf (israddedig ac ôl-raddedig) ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar ddata Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch.

	2010/11	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cynradd	145	150	145	110	95	145
Uwchradd	125	95	90	100	75	90
Cyfanswm sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg	270	245	235	210	170	235
Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	1,510	1,065	1,010	990	890	840
Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond yn rhugl yn y Gymraeg	165	100	130	115	105	110

5.13

Roedd nifer y myfyrwyr ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru yn 2018/19 ar ei isaf ers dechrau cadw cofnodion yn 2010/11, ac roedd cyfanswm y myfyrwyr blwyddyn gyntaf oedd yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018/19 (170 o fyfyrwyr) gant yn llai na'r nifer oedd yn hyfforddi yn 2010/11 (270 o fyfyrwyr). Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu cwymp cyffredinol yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru. Er hyn mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20, a diddorol fydd gweld a fydd y cynnydd hwn yn cael ei gynnal dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n broblemus hefyd nad yw nifer sylweddol o'r hyfforddeion sy'n dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gychwyn eu cwrs yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Siart 19: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yn y DU yn ôl gwlad astudio a blwyddyn, yn seiliedig ar ddata Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch.

	2010/11	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru	1,430	1,150	1,105	1,025	935	925
Addysg Gychwynnol Athrawon yn Lloegr	420	460	560	530	555	610
Cyfanswm hyfforddeion Addysg Gychwynnol Athrawon blwyddyn 1af o Gymru	1,850	1,610	1,670	1,555	1,490	1,535

Siart 20: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru yn ôl gwlad gartref a blwyddyn, yn seiliedig ar ddata Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch.

	2010/11	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cymru	1,430	1,150	1,105	1,025	935	925
Lloegr	245	110	105	105	85	65
Yr Alban	-	-	-	-	-	
Gogledd Iwerddon	20	15	5	5	5	5
Arall Undeb Ewropeaidd (UE)	70	15	10	15	-	25
Tu allan i'r UE	15	20	15	45	35	70

5.14

Er bod nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru sydd ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon wedi lleihau'n sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r nifer o Gymru sy'n astudio yn Lloegr wedi cynyddu yn yr un cyfnod.



2019/20

Yn 2019/20 roedd mwy nag un o bob tri myfyriwr blwyddyn gyntaf o Gymru yn astudio cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon yn Lloegr.

Mae nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru sy'n astudio yng Nghymru wedi lleihau'n sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf; lleihau hefyd wnaeth y nifer o fyfyrwyr o Loegr, Gogledd Iwerddon, a gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru.

5.15

Er nad oes tystiolaeth felly fod sefyllfa'r gweithlu addysg statudol wedi gwella o safbwynt y Gymraeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae datblygiadau cadarnhaol wedi bod o safbwynt polisi a strategaeth.

Recriwtio siaradwyr Cymraeg i hyfforddi fel athrawon

5.16

Mae diffyg recriwtio digon o athrawon wedi dod yn destun pryder cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Casgliad adroddiad cyntaf Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn 2019 oedd ei fod yn pryderu am y 'bwlch sylweddol a chynyddol rhwng targedau ar gyfer recriwtio i [Addysg Gychwynnol Athrawon] a niferoedd y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio',[67] a bod hyn yn wir am y sector cynradd ac uwchradd fel ei gilydd erbyn hyn. Mae'r adroddiad yn pwysleisio pryder penodol am 'ddiffygion ym maes y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn arbennig yng nghyd-destun uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'.[68]

5.17

Yn rhan o'i strategaeth recriwtio athrawon, cynhaliodd y Llywodraeth Gyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2019. Bydd y data o'r cyfrifiad hwn yn cyfoethogi'r darlun o sgiliau ieithyddol y gweithlu presennol ac yn sail i gynllunio strategaeth recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn addysgu.

67 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, ***Adroddiad Cyntaf – 2019*** (12 Mehefin 2019), t. 52.
68 **Ibid**.

5.18

Rhan bwysig o'r strategaeth ar gyfer recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn yw'r cymelldaliadau ariannol a gynigir. Mae Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn cynnwys grantiau sy'n cymell unigolion cymwys i gwblhau rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon ôl-radd uwchradd yng Nghymru sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Mae unigolion cymwys yn derbyn grant o £2,500 ar ôl cwblhau'r rhaglen ôl-radd uwchradd, a £2,500 ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu addysgu Cymraeg fel pwnc mewn unrhyw leoliad uwchradd yng Nghymru. Mae'r grantiau hyn yn bodoli ochr yn ochr â'r grantiau cyffredinol sydd ar gael i hyfforddeion yng Nghymru.

5.19

Penderfynodd y Llywodraeth gael gwared ar y capiau niferoedd ar gyfer pob pwnc (ac eithrio Addysg gorfforol) ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Maent hefyd wedi gosod gofyniad ar ddarparwyr i weithio tuag at y targed bod 30% o hyfforddeion Addysg Gychwynnol Athrawon yn gallu siarad Cymraeg. Yn ogystal â'r cynlluniau i gynyddu'r nifer o unigolion sy'n astudio'r cyrsiau hyn, yn 2019 cyflwynodd y Llywodraeth gynllun Llwybrau Amgen at Addysgu, sy'n cynnwys llwybrau hyfforddi rhan amser, llwybrau mewn swydd, a hefyd llwybr sy'n galluogi athrawon cynradd i weithio yn y sector uwchradd.

Y broses hyfforddi athrawon yng Nghymru

5.20

Cafodd Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru ei ddiwygio'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2017 cyhoeddwyd adroddiad *Addysgu Athrawon Yfory* oedd yn cyflwyno cyfres o argymhellion i ddiwygio Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghrymu. Roedd yr argymhellion mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag adolygu safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a diwygio proses achredu'r rhaglenni yng Nghymru. Mae'r safonau newydd ar gyfer athrawon yn nodi disgwyliadau i athrawon feddu ar sgiliau yn y Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg, a datblygu eu sgiliau Cymraeg gam wrth gam.

5.21

O ran achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon, ceir meini prawf gan y Llywodraeth sy'n gosod disgwyliadau penodol ynghylch yr hyn y dylai'r rhaglen ei gynnwys er mwyn sicrhau bod athrawon newydd yn bodloni'r safonau proffesiynol, ac yn cwrdd â blaenoriaethau addysg y Llywodraeth. Mae'r meini prawf hefyd yn gosod disgwyliadau clir o safbwynt y Gymraeg. Rhaid cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth y brifysgol neu goleg i'r rheini sydd am ddilyn gyrfa mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog, a hefyd y ddarpariaeth ganddynt a fydd yn anelu at wella sgiliau Cymraeg holl fyfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon.

5.22

Mae'r safonau proffesiynol newydd ynghyd â'r trefniadau ar gyfer achredu rhaglenni yn symud tuag at integreiddio darpariaeth Gymraeg Addysg Gychwynnol Athrawon i'r ddarpariaeth graidd. Hynny yn hytrach na'i fod yn rhywbeth atodol fel ag yr oedd y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, cynllun Colegau Cymru, a hefyd y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith yn y gorffennol.

5.23

Datblygiad cadarnhaol diweddar yw'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon a ddatblygwyd gan y Llywodraeth ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon. Dyma fframwaith i fesur a disgrifio sgiliau Cymraeg pob athro dan hyfforddiant, a'r bwriad yw y bydd yn cyfuno amryw o'r cynlluniau atodol a oedd yn bodoli yn y gorffennol.

Cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu

5.24

Yn ogystal â chanolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi athrawon, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno ymyraethau i gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol. Yn rhan o'r broses cyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru, yn 2018 lansiodd y Llywodraeth y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Bydd y Llywodraeth yn gweithio â chonsortia rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu rhaglen dysgu proffesiynol a fydd yn cynnwys datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i ehangu a buddsoddi yn y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg sy'n darparu hyfforddiant Cymraeg dwys i ymarferwyr. Mae'n debyg y bydd rhywfaint o ddiwygio ar y cynllun yn sgil gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2019–20.[69]

Gweithlu'r sector ôl-16 ac addysg uwch

5.25

Fel sy'n wir am y sector gofal plant ac addysg statudol, mae cynyddu capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn hollbwysig o ran datblygiad y sectorau ôl-16 ac addysg uwch hefyd. Mae gwaith cyffredinol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym maes addysg uwch, ac yn benodol Cynllun Swyddi Academaidd y Coleg, wedi bod yn allweddol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y sector. Mae'r data sydd ar gael yn dangos y cynnydd cyffredinol sydd wedi bod ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011.

69 Cyhoeddwyd ***Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg: crynodeb | LLYW.CYMRU*** ym mis Mawrth 2021.

5.26

Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg wedi cynyddu 49% rhwng 2011/12 a 2018/19, ac mae'r nifer wedi aros yn weddol gyson ers 2015/16. Mae'n drawiadol, fodd bynnag, nad yw nifer a allasai ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud hynny; ar draws pob sefydliad addysg uwch yn 2018/19 roedd 1,170 o ddarlithwyr a allasai ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond ychydig dros eu hanner oedd yn gwneud hynny yn ymarferol (605). Mae'r nifer sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn weddol gyson ers degawd.

Siart 21: Staff (cyfwerth â pherson llawn) sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu sy'n gallu gwneud hynny mewn prifysgolion yng Nghymru (Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA).

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	785	895	960	960	1,135	1,200	1,090	1,170
Nid yw'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	7,705	6,520	7,710	8,795	7,870	8,300	8,290	7,965
Yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	500	635	590	625	590	635	635	605

5.27

Er bod cyfanswm staff prifysgolion Cymru wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod, nid oes amheuaeth bod cynnydd arwyddocaol yng nghapasiti'r sector addysg uwch i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r dystiolaeth ystadegol unwaith eto'n awgrymu mai'r brif her yw annog mwy o fyfyrwyr i fanteisio ar y capasiti cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ym mhrifysgolion Cymru.

5.28

Nid yw'r sector addysg ôl-16 wedi gweld yr un buddsoddiad a phwyslais strategol o ran ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'i gymharu â'r sector addysg uwch hyd yma. Fel y nodwyd uchod, ymddengys bod cyhoeddi Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn drobwynt arwyddocaol yn y cyd-destun hwnnw.

5.29

Er bod rhywfaint o ddata'n cael ei gasglu gan y Cyngor Gweithlu Addysg a chan sefydliadau unigol, nid oes ar hyn o bryd ddarlun cyflawn o gapasiti'r gweithlu addysg ôl-16 o ran eu gallu yn y Gymraeg. Yn wir, un o'r heriau cyntaf sy'n cael ei amlygu yng nghynllun y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw'r angen i fapio'n fanwl sgiliau ieithyddol staff yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae'n amlwg y bydd cynyddu capasiti staff cyfrwng Cymraeg mewn meysydd strategol pwysig yn gwbl greiddiol i lwyddiant gweddill gweledigaeth y cynllun hwn.

5.30

Mae cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi arwain at brosiectau Cymraeg Gwaith Addysg Bellach a Chymraeg Gwaith mewn Addysg Uwch. Bwriad y prosiectau hyn yw datblygu sgiliau Cymraeg darlithwyr er mwyn annog staff i'w defnyddio wrth eu gwaith. Mae'r ddau gynllun wedi bod yn hynod boblogaidd, â thros 450 o staff yn ymuno â'r cynllun addysg uwch yn 2018–19. Mae rhaglen Sgiliaith hefyd yn darparu cefnogaeth ymarferol i ddarlithwyr colegau addysg bellach ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith ar ddefnyddio'r Gymraeg a dysgu'n ddwyieithog.

Casgliadau'r Comisiynydd

Nid oes amheuaeth bod ehangu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn un o'r meysydd mwyaf allweddol i lwyddiant gweledigaeth *Cymraeg 2050*. Nid oes yr un maes arall sy'n debygol o gyfrannu mor uniongyrchol at gyflawni targedau heriol y strategaeth. Mae angen ymyrraeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, a fydd yn sicrhau twf radical yn nifer yr unigolion sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. **Oni roddir strategaeth genedlaethol ar waith i ehangu'r gweithlu addysg o'r bôn i'r brig, mae'n anochel na fydd modd i weddill strategaeth *Cymraeg 2050* ddwyn ffrwyth.**

Mae maint uchelgais strategaeth *Cymraeg 2050* yn golygu bod yn rhaid cael cynlluniau beiddgar a radical er mwyn sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Nid yw nifer y siaradwyr Cymraeg presennol, a'r nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n deillio o'r gyfundrefn addysg gyfredol, yn debygol o arwain at ddigon o ofalwyr, athrawon a darlithwyr i gyflawni amcanion addysg strategaeth *Cymraeg 2050*. **Mae angen i'r gweithlu addysg fod un cam o flaen y boblogaeth gyffredinol yn nhermau sgiliau Cymraeg os ydym am sicrhau'r cynnydd radical yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael y gyfundrefn addysg yn y dyfodol.** Hynny yw, dylai'r gweithlu addysg adlewyrchu'r math o Gymru ddwyieithog rydym yn gobeithio ei gweld yn y dyfodol. Heb ymyrraeth sylweddol, mae perygl y gwelwn ni gylch diddiwedd lle bydd prinder gofalwyr, athrawon a darlithwyr cyfrwng Cymraeg yn rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad a defnyddio'r Gymraeg.

Fel mae'r drafodaeth uchod yn ei ddangos, rhaid cydnabod bod gan y Llywodraeth eisoes gynlluniau sylweddol ar gyfer cynyddu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn wir i raddau amrywiol ar gyfer pob sector addysg. Ac eithrio'r sector addysg uwch, nid yw effaith yr ymyraethau hyn wir i'w gweld eto yn y dystiolaeth ystadegol sy'n bodoli am y gweithlu addysg yng Nghymru.

Ym mis Awst 2020, cyhoeddom nodyn briffio am y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru.[70] Daeth y nodyn briffio i'r casgliad fod maint yr her sydd wedi'i osod i'r gweithlu addysg statudol yn sgil gweledigaeth *Cymraeg 2050* yn golygu bod angen ymyrraeth llawer mwy beiddgar a chynhwysfawr i wireddu'r weledigaeth. **Heb weithredu mwy uchelgeisiol, mae'n debyg na welwn y cynnydd sydd ei angen i wireddu targedau addysg *Cymraeg 2050*, ac yn sgil hynny ni fydd modd cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.** Gellid cymhwyso casgliadau'r nodyn briffio hwn i'r sector addysg yn ei gyfanrwydd mewn gwirionedd: **rhaid codi lefel yr uchelgais a'r gweithredu mewn perthynas â'r gweithlu addysg yn fwy cyffredinol. Nid yw'n ormodiaith dweud bod yn rhaid i strategaethau ym maes cynllunio gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog ddechrau dwyn ffrwyth yn ystod y pum mlynedd nesaf i alluogi cyflawni amcanion addysg *Cymraeg 2050*.**

70 Comisiynydd y Gymraeg, *Nodyn briffio: Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru* (Awst 2020).



Enw: **Debbie Williams**

Oed: **53**

Ardal: **Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro**

10.3%

yn siarad Cymraeg yn Ninbych-y-pysgod



Cafodd Debbie ei geni yn Lloegr ond symudodd y teulu i Sir Benfro pan oedd hi'n blentyn. Mae teulu ochr ei thad yn dod o Gymru ac yn ddi-Gymraeg, a daw teulu ei mam o Newcastle upon Tyne. Saesneg felly oedd iaith ei phlentyndod a Saesneg mae hithau'n ei siarad â'i dau o blant sydd bellach yn eu hugeiniau.

"Dwi'n cofleidio'r Gymraeg ac yn sicr yn ei gweld fel rhywbeth cadarnhaol wrth chwilio am swydd yn y dyfodol. Os oes gennych chi ail iaith, yn arbennig os ydych chi'n byw yn y wlad honno, all hynny ond bod yn rhywbeth cadarnhaol."

Y Gymraeg drwy lygaid Debbie

Fe wnaethon ni symud i Gymru pan oeddwn i'n naw oed o ogledd Swydd Efrog. Mi fues i yn yr ysgol gynradd leol ym Maenorbŷr yn ne Sir Benfro. Doedd 'na ddim opsiwn o ddysgu Cymraeg i mi yn yr ysgol ond mae fy mhlant, gafodd eu geni yn y 90au, wedi dysgu Cymraeg sylfaenol o oed ifanc iawn.

Mae fy merch bellach yn ddietegydd mewn ysbyty ac mi fyddai hi'n hoffi gwella ei Chymraeg er mwyn gwneud i gleifion deimlo'n gyfforddus, yn arbennig pan maen nhw'n sâl iawn. Y brif broblem rydw i'n ei wynebu ydy hyder, a phoeni 'mod i am gael geiriau yn anghywir. Os ydw i'n rhoi cynnig arni, dwi'n poeni y gwnawn nhw ateb yn ôl yn sydyn fel mellten, fyddai'n gwneud i mi banicio a throi'n ôl i'r Saesneg.

Rydw i'n deall llawer, ac os oes rhywun yn gofyn cwestiwn i mi, yn amlach na pheidio, mi wna i ddeall. Dwi'n gweithio fel ysgrifenyddes yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Ninbych-y-pysgod a dwi'n cael fy amgylchynu gan y Gymraeg drwy'r dydd, bob dydd. Mae tua 85% o'r rhieni yn ddi-Gymraeg, er bod y mwyafrif llethol yn mynd i wersi Cymraeg yn yr ysgol yn ystod y dydd. Ac os nad ydyn nhw'n dysgu, maen nhw'n sicr yn gefnogol iawn i'r iaith.

Ond doedd sefydlu'r ysgol ddim yn hawdd. Yn 2016, pan agorodd yr ysgol, roedd 'na lawer o wrthwynebiad yn lleol gyda phobl yn dweud 'wnaiff o fyth ddigwydd' neu 'dwi ddim yn deall pam eu bod nhw'n taflu'r holl arian yma ar addysg Gymraeg'. Ond, bum mlynedd yn ddiweddarach, a ninnau wedi cychwyn gyda 70 o blant, mae gennym ni bellach 203 o blant ar y llyfrau a 51 yn y dosbarth Meithrin ar hyn o bryd.

Os byddech chi'n mynd lawr stryd fawr Dinbych-y-pysgod, dwi ddim yn meddwl y byddech chi'n gallu siarad Cymraeg yn unman. Ond dwi yn credu bod sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn mynd i gael effaith gynyddol ar y gymuned ac y byddwn ni'n gallu clywed mwy o Gymraeg yn cael ei siarad yn yr ardal yn y dyfodol.



Enw: **Kelly Hanney**

Oed: **40**

Ardal: **Pen-y-graig,
Rhondda Cynon Taf**

9.3%
*yn siarad Cymraeg
ym Mhen-y-graig*



Dysgodd Kelly y Gymraeg yn yr ysgol, ac er nad oes neb hŷn na'i chenhedlaeth hi yn siarad Cymraeg yn ei theulu, Cymraeg mae hi'n tueddu i'w siarad â'i chwaer. Mae Kelly'n byw gyda'i gŵr a'u dau o blant a Saesneg yw iaith yr aelwyd gan amlaf.

"Fi 'di cael loads o gyfleoedd trwy'r iaith Gymraeg, pan yn ifanc yn actio mewn cyfres deledu ac yn y gwaith. Dwi'n cael gwneud loads o bethau nad ydy pobl eraill sy'n gwneud yr un swydd â fi'n cael gwneud am fy mod i'n siarad Cymraeg."

Y Gymraeg drwy lygaid Kelly

Nes i fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gynradd Bodringallt ac wedyn Ysgol Uwchradd y Cymer.

Nes i gyfarfod fy ngŵr yn yr ysgol gyfun, a Saesneg roedden ni'n siarad gyda'n gilydd nes cael plant ond yn trio siarad mwy o Gymraeg ers cael y plant.

O ran y plant, fydden i'n dweud 'mod i'n siarad 70% Saesneg, 30% Cymraeg gyda nhw. Mae gan yr ieuengaf anghenion arbennig, ac mae hi'n ffeindio Saesneg yn haws. Ond mae'r ddwy yn mynd i'r ysgol cyfrwng Cymraeg.

Fi a fy chwaer yn siarad Cymraeg lot. Ond mewn unrhyw *family gathering* neu beth bynnag, Saesneg fydden ni'n siarad gyda'n gilydd gan nad yw gweddill y teulu'n medru'r Gymraeg.

Dwi'n gweithio i HMRC. Yn y swyddfa, does neb arall yn siarad Cymraeg ond mae'r Uned Gymraeg yn gofyn am wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i fynd i ysgolion weithiau. Fi'n hybu'r Gymraeg lot yn y gwaith, ac yn dysgu pawb yn y swyddfa un gair Cymraeg bob dydd.

Yn Nhonypandy, bydden i'n dweud fod un person sy'n gallu siarad Cymraeg yn hanner y siopau (er, dim ond tua 10 siop sydd yna i gyd). Mae'n *rili* dda lan yr hewl yn Nhreorci. Lot o berchnogion busnes yr ardal yn arfer mynd i Ysgol y Cymer, ac wedi cadw mewn cysylltiad felly maen nhw'n gweithio fel rhyw gymuned fach sy'n siarad Cymraeg.

Mae Aelwyd Cwm Rhondda yn cyfarfod yn Nhreorci hefyd. Aelwyd gafodd ei sefydlu ar ôl i ferched ddychwelyd i'r cwm ar ôl bod mewn prifysgolion yng Nghymru a theimlo eu bod nhw eisiau cario 'mlaen gyda'r bywyd 'aelwyd/cystadlu'.

Heb yr Aelwyd, fydden i ond wedi siarad Cymraeg gyda fy chwaer a'r plant, a dyna fyddai cyfanswm faint o Gymraeg fyddwn i'n ei ddefnyddio. Mae'r aelwyd yn hynod o werthfawr i mi.



Enw: **Xiaoling Zhao**

Oed: **32**

Ardal: **Pilgwenlli, Casnewydd**

8.5%

yn siarad Cymraeg ym Mhilgwenlli



Daw Xiaoling yn wreiddiol o dde-orllewin Tsieina lle cafodd ei magu yn siarad Fuzhouese, tafodiaith sy'n cael ei siarad yng ngorllewin Tsieina. Mandarin mae hi'n ei siarad â'i gŵr a'i thri o blant gartref.

Yn ddiweddar mae Xiaoling wedi derbyn Caniatâd i Aros gan y Swyddfa Gartref ac wedi bod yn derbyn ei gwersi Cymraeg gan wasanaeth cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid y Groes Goch yng Nghasnewydd. Mae'r gwersi'n cael eu cynnig mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Gwent.

"Y peth gorau am ddysgu Cymraeg ydy 'mod i'n gallu canu yn Gymraeg gyda'r ferch ieuengaf. Dwi'n sicr am gario mlaen i ddysgu'r iaith. Fy hoff eiriau Cymraeg ydy 'croeso' a 'hufen iâ'."

Y Gymraeg drwy lygaid Xiaoling

Fe wnaethom gyrraedd Cymru yn mis Awst 2012. Mi wnes i glywed y Gymraeg am y tro cyntaf yn yr orsaf drenau flynyddoedd yn ôl, ac mi oeddwn i'n hoffi sut oedd yr iaith yn swnio.

Yn fwy diweddar, mae fy meibion, sydd yn mynd i Ysgol Gynradd Pilgwenlli, wedi dod adref o'r ysgol yn siarad ychydig o Gymraeg a nes i feddwl – os ydyn nhw'n gallu dysgu Cymraeg, pam na alla' i? Mi ydw i hefyd eisiau iddyn nhw edrych arna i, a chael eu hysgogi i ddilyn ôl fy nhraed a siarad mwy na dwy iaith.

Rwyf yn mynychu gwersi Cymraeg a grŵp Ti a Fi y Groes Goch yng Nghasnewydd gyda'm merch fach 3 oed, ac mae hi wrth ei bodd yn canu'r caneuon Cymraeg. Ein hoff gân ydy 'un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio'.

Mae'n iaith anodd i'w dysgu pan rydych chi fy oed i, wrth geisio cofio a dysgu geiriau newydd sydd mor anghyfarwydd i mi. Mae rhaid i'r bechgyn fy atgoffa weithiau o rai geiriau.

Dwi ddim yn cael llawer o gyfle i ymarfer tu allan i'r gwersi, ond mi rydw i'n mynd i fore coffi yn y *Community House*, sef canolfan gymunedol Gristnogol yng Nghasnewydd. Mi wnaeth rhai o'r criw hŷn yn y ganolfan glywed mod i'n dysgu Cymraeg ac mi oedden nhw'n synnu, ond yn hapus iawn, felly mi rydw i'n cael cyfle i ymarfer gyda nhw.

Rhan 3: Cynyddu defnydd



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rhan 3: Cynyddu defnydd 117

Gwnewch bopeth yn Gymraeg 120

1 Y gweithle a gwasanaethau cyhoeddus 122

Dyfodiad y safonau a'r gyfundrefn reoleiddio 122

Profiadau defnyddwyr: Argaeledd gwasanaethau Cymraeg 127

Argaeledd gwasanaethau Cymraeg: gwaith monitro'r Comisiynydd 127

Argaeledd gwasanaethau Cymraeg: barn defnyddwyr 133

Profiadau defnyddwyr: Ansawdd gwasanaethau Cymraeg 136

Ansawdd gwasanaethau Cymraeg: gwaith monitro'r Comisiynydd 136

Ansawdd gwasanaethau Cymraeg: barn defnyddwyr 137

Hawl i gwyno 138

Defnydd o wasanaethau Cymraeg 142

Data am ddefnydd o wasanaethau Cymraeg: arolwg barn 142

Data am ddefnydd gwirioneddol o wasanaethau Cymraeg 143

Cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg: ymchwil y Comisiynydd 144

Cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg: ymgyrchoedd y Comisiynydd 149

Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg 150

Gweithredu ar ddewis iaith 153

Sgiliau Cymraeg y gweithlu 155

Data am sgiliau Cymraeg staff 155

Cynyddu capasiti'r gweithlu: recriwtio siaradwyr Cymraeg 156

Cynyddu capasiti'r gweithlu: datblygu sgiliau Cymraeg staff presennol 157

Profiadau staff o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle 159

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle: cyd-destun deddfwriaethol 159

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle: gwaith monitro'r Comisiynydd 160

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle: polisïau ar ddatblygu defnydd mewnol o'r Gymraeg 162

Casgliadau'r Comisiynydd 166

Barn y Comisiynydd am effaith COVID-19 ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg 168

Defnydd o'r Gymraeg mewn dau sector **169**
1 Y Gymraeg yn y carchar 170
2 Gofal dementia siaradwyr Cymraeg 174
Hyfforddi a datblygu'r gweithlu 175
Asesiadau ac adnoddau addas 176
Arwain, comisiynu a chynllunio gwasanaethau 176
2 Busnesau a'r trydydd sector **179**
Y fantais i fusnesau ac elusennau 180
O ble y daw cymorth? 182
Y Cynnig Cymraeg 184
Arianwyr cyhoeddus 185
Archfarchnadoedd 185
Bancio 187
Elusennau 190
Bwytai, tafarndai a siopau'r stryd fawr 191
Y cyfleustodau a gwasanaethau bysiau a threnau 193
Casgliadau'r Comisiynydd **196**
3 Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg **197**
Iaith y gymuned 197
Strategaethau hybu'r Gymraeg yn lleol 199
Mewnfudo, allfudo, a hunaniaeth Gymreig 200
Canolfannau Cymraeg 202
Tu hwnt i'r ystafell ddosbarth 203
Grantiau Llywodraeth Cymru 204
Y mentrau iaith 205
Chwaraeon 208
Y Celfyddydau 210
COVID-19 a chymdeithasu 212
Casgliadau'r Comisiynydd **213**
Y Gymraeg drwy lygaid Cynan, Sarah a Shelly **214**

Gwnewch bopeth yn Gymraeg

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yw ail thema strategol *Cymraeg 2050*: canolbwynt y strwythur triphlyg. Dyma galon gwaith a gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg hefyd. Er i slogan 'miliwn o siaradwyr' gipio calonnau a meddyliau pobl, mae'r Comisiynydd wedi pwysleisio'n gyson mai cynyddu defnydd yw'r her wirioneddol a'r un mwyaf arwyddocaol yn y pen draw. Targed y miliwn sydd wedi cyrraedd y penawdau ac mae tuedd gyffredinol i esgeuluso ail darged y strategaeth sef bod:

Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.[1]

Wedi'r cyfan pa werth cyfrif siaradwyr os nad yw'r siaradwyr hynny'n dewis defnyddio'r iaith bob dydd a bod cyfleodd iddynt ei defnyddio? Er mwyn i iaith fyw, rhaid iddi gael ei defnyddio. Nododd y Comisiynydd presennol, Aled Roberts, yn glir wrth gyhoeddi ei weledigaeth gychwynnol nad oedd am weld Cymru a'r Gymraeg mewn sefyllfa debyg i lwerddon:

Gwlad lle mae'r Wyddeleg wedi bod yn iaith swyddogol ers 1926, lle mae ganddynt eu miliwn o siaradwyr – 1.76m a bod yn fanwl. Ond o'r 1.76m yna, mae llai na 74,000 ohonyn nhw yn ei defnyddio hi bob dydd – 4 y cant. Mi fyddai hynny'n drychineb os digwyddith o yng Nghymru; felly rhaid i ni weithio i sicrhau nad ydan ni'n canolbwyntio ar statws ac ati'n unig, ond ar hybu defnydd o'r iaith.[2]

1 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*** (2017), t. 11.
2 Daw'r dyfyniad o araith Comisiynydd y Gymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019.

Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod rôl ganolog Comisiynydd y Gymraeg a dylanwad Mesur y Gymraeg i yrru newid yng nghyd-destun y gweithle a gwasanaethau. Ar 1 Ionawr 2016, sef diwrnod cyntaf cyfnod adrodd yr adroddiad hwn, doedd safonau'r Gymraeg ddim yn weithredol ar gyfer unrhyw sefydliad. Daeth y safonau'n weithredol i'r grŵp cyntaf o sefydliadau ar 30 Mawrth 2016. Ceir cyfle euraid ac unigryw yma felly, bum mlynedd ers i'r safonau ddod i rym, i fwrw golwg gyfannol ar y peuoedd hyn gan ystyried effaith y safonau arnynt. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi data am berfformiad sefydliadau'n gyson dros y cyfnod hwnnw, ond yma down â'r canfyddiadau hyn ynghyd am y tro cyntaf gan gynnig trosolwg o'r datblygiad a welwyd dros y pum mlynedd.

Nid y sefydliadau hynny sy'n syrthio o dan gwmpas y Mesur yw'r unig rai sy'n darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, wrth gwrs, na'r unig rai sy'n syrthio o fewn cylch gorchwyl y Comisiynydd ychwaith. Ymdrinnir yn y rhan hon hefyd â'r gwasanaethau a'r cyfleoedd hanfodol hynny a ddarperir gan y sector preifat a'r trydydd sector. Ac nid bodau sy'n gweithio a chyrchu gwasanaethau yn unig ydym, diolch i'r drefn. 'Gwaith heb ŵyl a wna Huw'n ddi-hwyl' medden nhw, a bydd y rhan hon yn cloi â throsolwg o'r llu o wyliau, clybiau a digwyddiadau cymdeithasol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

1 Y gweithle a gwasanaethau cyhoeddus

Dyfodiad y safonau a'r gyfundrefn reoleiddio

1.1

Wrth osod y rheoliadau safonau cyntaf gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 24 Mawrth 2015, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones AC:

> Ein nod yn y pen draw yw i'r Gymraeg gael ei hystyried fel mwy na mater cyfieithu yn unig, gan ddod yn rhan awtomatig o wasanaethau yng Nghymru. Rydym ni am weld y Gymraeg yn cael ei normaleiddio ym mhob rhan o fywyd preifat a chyhoeddus, ac, wrth gwrs, yn y gwaith. Rydym yn hyderus, felly, y bydd y safonau yn gam allweddol tuag at hynny.[3]

1.2

Mae Mesur y Gymraeg yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i bennu safonau, sef cyfarwyddiadau neu reolau sy'n gofyn i sefydliadau ymddwyn mewn modd penodol, neu gyflawni gweithgareddau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae sawl dosbarth o safonau, sy'n ymwneud â gwahanol feysydd – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu mewnol, a hybu'r Gymraeg drwy strategaethau 5-mlynedd. Mae hefyd safonau sy'n ymwneud â chadw cofnodion a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac i'r Comisiynydd ynghylch sut mae sefydliad yn gweithredu'r safonau.

3 Cofnodion ar gyfer Y Cyfarfod Llawn - y Pedwerydd Cynulliad, 24/03/2015 13:30 (senedd.cymru).

1.3

Erbyn diwedd 2020, roedd y Senedd wedi cymeradwyo chwe set o reoliadau safonau'r Gymraeg, pob un ychydig yn wahanol ac yn berthnasol i grŵp penodol o sefydliadau, ac roedd 123 o sefydliadau'n gweithredu'r safonau. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am osod safonau ar y gwahanol grwpiau o sefydliadau a gwna hynny drwy ddilyn y broses a geir yn y Mesur. Cynhelir ymchwiliadau safonau yn y lle cyntaf ar y cyd â phob sefydliad yn unigol, cyn mynd ymlaen i osod safonau penodol ar y sefydliadau hynny gan nodi dyddiad pryd y bydd yn rhaid iddynt ddechrau cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd.



Erbyn diwedd 2020 roedd 123 o sefydliadau'n gweithredu'r safonau.

Siart 22: Sefydliadau sydd dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg (Rhagfyr 2020).

Grŵp o sefydliadau	Sefydliadau penodol	Dyddiad gweithredu'r safonau
Rheoliadau rhif 1	Cynghorau sir, parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru (26 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30 Mawrth 2016
Rheoliadau rhif 2	Sefydliadau cenedlaethol amrywiol (33 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 25 Ionawr 2017
Rheoliadau rhif 4	Tribiwnlysoedd Cymru a chyrff dyfarnu eraill (7 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30 Mawrth 2017
Rheoliadau rhif 5	Heddluoedd, comisiynwyr heddlu a throsedd, a gwasanaethau tân (14 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30 Mawrth 2017
Rheoliadau rhif 6 (cyflwynwyd fel rhif 3 yn wreiddiol)	Prifysgolion a sefydliadau addysg bellach (25 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 1 Ebrill 2018
Rheoliadau rhif 7	Byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, a chynghorau iechyd cymuned (18 sefydliad)	Gweithredu safonau ers 30 Mai 2019

1.4

Nid yw'r Llywodraeth wedi cyflwyno rheoliadau safonau ar gyfer yr holl sefydliadau posibl eto. Mae bwriad i gyflwyno rheoliadau safonau i'r rheoleiddwyr iechyd yn fuan mae'n debyg, a bwriad i alluogi'r Comisiynydd i osod safonau ar gwmnïau trenau a chwmnïau dŵr wedi hynny.

1.5

Nid oes sôn ar hyn o bryd fod y Llywodraeth yn bwriadu gosod dyletswyddau ieithyddol ar sefydliadau eraill, er bod sawl corff y gellid eu dwyn dan safonau yn ôl y Mesur (mewn rhai achosion â chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol). Mae'r rhain yn cynnwys cyrff y Goron ac adrannau Llywodraeth y DU, darparwyr gwasanaethau nwy, trydan, carthffosiaeth, post, telathrebu a hyfforddiant, a chynghorau cymuned.

1.6

Mae nifer o'r sefydliadau uchod felly'n parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am reoleiddio'r rheini hefyd.

1.7.

Mae nifer o wahaniaethau sylfaenol rhwng safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith, a rhwng y Comisiynydd a'r sefydliad a'i rhagflaenodd, sef Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Gyda'i gilydd, golyga'r gwahaniaethau hyn fod y safonau'n creu hawliau a dyletswyddau y mae modd eu gorfodi. Nid oedd hynny'n wir am y drefn flaenorol:

Pwy sy'n penderfynu ar y dyletswyddau ieithyddol ar gyfer sefydliad?

Cynlluniau iaith

Y sefydliadau eu hunain sy'n penderfynu ar eu hymrwymiadau mewn cynlluniau iaith, ac felly gallent fod mor uchelgeisiol neu mor wan ag y mae'r sefydliad yn ei ddymuno.

Safonau'r Gymraeg

Y Comisiynydd sy'n penderfynu pa safonau i'w gosod ar wahanol sefydliadau ac mae'r gofynion yn eu hanfod felly'n gyson o sefydliad i sefydliad.

Beth sy'n digwydd os nad yw sefydliad yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau ieithyddol?

Cynlluniau iaith

Nid oedd gan Fwrdd yr Iaith bwerau i orfodi sefydliadau i gydymffurfio â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith, ac ni all y Comisiynydd orfodi'r dyletswyddau hyn chwaith.

Safonau'r Gymraeg

Gall y Comisiynydd ddefnyddio ei bwerau i orfodi sefydliad i gymryd camau, neu gall osod cosb sifil os nad yw sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau.

Sut mae cwyno os nad yw sefydliad yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau ieithyddol?

Cynlluniau iaith

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gwyno wrth y sefydliad yn gyntaf os ydynt yn anfodlon â gwasanaeth Cymraeg, cyn cwyno wrth y Bwrdd neu'r Comisiynydd.

Safonau'r Gymraeg

Mae hawl gan bobl i gwyno wrth y Comisiynydd yn syth am fethiant sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau; rhaid i'r Comisiynydd ystyried cynnal ymchwiliad i bob cwyn; ac mae gan achwynwyr hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg os nad ydynt yn fodlon â phenderfyniadau'r Comisiynydd.

1.8

Fel y gwelir uchod, mae'r model rheoleiddio'n dra gwahanol o gymharu fframwaith Deddf yr Iaith a fframwaith Mesur y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn sefydliad sydd â'r prif nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac mewn perthynas â'r drefn safonau mae'n rheoleiddiwr â grymoedd gorfodi. Sefydliad hyrwyddo yn ei hanfod oedd Bwrdd yr Iaith, ac nid oedd ganddo bwerau gorfodi ar gyfer cynlluniau iaith Gymraeg.

1.9

Yn unol â'i Fframwaith Rheoleiddio, mae'r Comisiynydd yn casglu tystiolaeth am brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a chydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau.[4] Gwneir hyn drwy ddulliau fel arolygon gwirio gwasanaethau (siopwr cudd), grwpiau trafod, arolygon barn, a chyswllt rheolaidd â sefydliadau. Golyga'r gweithgareddau hyn fod gan y Comisiynydd fewnwelediad uniongyrchol i brofiadau defnyddwyr a thystiolaeth wreiddiol am gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau.

1.10

Mae'r data a gasglwyd dros y blynyddoedd yn dangos yn glir fod y modd mae sefydliadau'n ymateb i ofynion y safonau yn amrywio. Ar y cyfan mae sefydliadau'n cydymffurfio fel ag y dylent ac mae ganddynt drefniadau hunanreoleiddio addas mewn lle. Mae hynny'n wir am sefydliadau bach a mawr, ym mhob sector, ac ym mhob rhan o Gymru. Er hynny, mae nifer fechan o sefydliadau nad ydynt wedi cymryd y safonau o ddifri, lle nad ydynt wedi cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol o ran staffio na monitro eu cydymffurfiaeth eu hunain â'u dyletswyddau ieithyddol.

1.11

Mae profiadau defnyddwyr yn ystod y cyfnod adrodd yn gwbl ddibynnol ar yr hyn mae sefydliadau wedi ei wneud i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Comisiynydd wedi cynnig arweiniad clir a manwl i sefydliadau ynghylch sut i fynd ati i weithredu'r safonau. Ond yn nwylo sefydliadau yn y pen draw y mae'r cyfrifoldeb a'r gallu i wella profiadau pobl a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

4 Comisiynydd y Gymraeg, *Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg* (Ebrill 2016).

Profiadau defnyddwyr: Argaeledd gwasanaethau Cymraeg

Argaeledd gwasanaethau Cymraeg: gwaith monitro'r Comisiynydd

1.12

Mae'r Comisiynydd yn gwirio gwasanaethau Cymraeg sefydliadau'n flynyddol ac mae'r canlyniadau'n rhoi darlun o'r siawns sydd gan ddefnyddwyr o dderbyn gwasanaethau Cymraeg.

1.13

Yn adroddiad sicrwydd 2016–17 y Comisiynydd, *Hawliau'n gwreiddio*, daethpwyd i'r casgliad fod arwyddion cynnar bod profiadau pobl o dderbyn gwasanaethau Cymraeg yn gwella, a bod y gwasanaethau hynny'n cael eu cynnig yn gynyddol rhagweithiol. Pwysleisir hefyd, fodd bynnag, nad oedd pawb yn gallu defnyddio'r Gymraeg â sefydliadau yn ôl eu dymuniad ac nad oedd sefydliadau bob amser yn glynu wrth yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.[5]

1.14

Â sefydliadau rheoliadau rhif 1 wedi dechrau gweithredu'r safonau ar 30 Mawrth 2016, ymhen blwyddyn:



Roedd canran y cynghorau sir oedd yn gallu darparu ymateb i ymholiad yn Gymraeg wedi cynyddu o 40% i 61%.



Roedd canran yr ymholiadau ffôn lle derbyniwyd ymateb Cymraeg i ymholiad Cymraeg wedi cynyddu o 33% i 65% (ddim o reidrwydd yn golygu gwasanaeth Cymraeg llawn).



Ac roedd canran y cynghorau sir oedd yn darparu pob un o'r tudalennau gwefan yr ymwelwyd â hwy yn Gymraeg wedi cynyddu o 32% i 45%.

5 Comisiynydd y Gymraeg, ***Hawliau'n gwreiddio: Adroddiad sicrwydd 2016–17 Comisiynydd y Gymraeg*** (2017), t. 4.

1.15

Adroddodd *Mesur o Lwyddiant*, adroddiad sicrwydd 2017–18, fod sefydliadau'n cynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd da mewn nifer o feysydd a bod y gwelliant a welwyd y flwyddyn flaenorol yn cael ei gynnal neu'n cynyddu. Ond fel yn achos y flwyddyn flaenorol, nid oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael bob tro, ac roedd perfformiad sefydliadau'n amrywio rhwng sectorau a rhwng mathau o wasanaethau.[6] Tebyg oedd y canfyddiadau yn 2018–19 â chynnydd i'w weld yn achos rhai gwasanaethau, a cholli momentwm yn achos gwasanaethau eraill.[7]

"Mae polisïau, llythyrau ac ati bellach yn dod yn Gymraeg – a'r gwelliant hwn i'w weld ers blwyddyn, felly ers cyflwyno safonau'r Gymraeg."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

"Chi'n gallu mynd at y cyngor nawr a ma 'na bobl ar y ffrynt sy'n gallu siarad Cymraeg gyda chi a ma hwnna yn newid ers y safonau."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

"Swn i'n dweud bod y safonau wedi gwneud tipyn o wahaniaeth."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

"Dwi'n gweld y cyngor lleol yn gwneud tipyn yn fwy o gynllunio a pharatoi ar draws pob adran erbyn hyn."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

"Dwi wedi cael profiad da o ffonio llinell ddim mewn argyfwng yr heddlu – gwasanaeth cwbl Gymraeg."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

"Mae'r safonau wedi newid y ffordd o feddwl – dydi o ddim yn rhywbeth dan ni'n anelu ato bellach, ond yn hytrach yn rhywbeth mae'n rhaid i ni wneud."

Aelod o staff sefydliad mewn grŵp trafod, 2018–19

6 Comisiynydd y Gymraeg, ***Mesur o Lwyddiant: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017–18*** (2018), t. 68.
7 Comisiynydd y Gymraeg, ***Hawlio cyfleoedd: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018–19*** (2019), t. 11.

1.16

Cyhoeddwyd canlyniadau gwaith gwirio diweddaraf y Comisiynydd yn adroddiad sicrwydd 2019–20, *Cau'r Bwlch*.[8] Isod, mae modd cymharu canlyniadau ar gyfer rhai gwasanaethau rhwng 2019–20 a 2018–19, ac mewn rhai achosion â 2017–18 hefyd.[9]

Siart 23: Cymharu gwaith gwirio gwasanaethau'r Comisiynydd 2017–20.

Cyfraddau llwyddiant (Canran o'r troeon y cafwyd ymateb yn Gymraeg)	2017–18	2018–19	2019–20
GOHEBIAETH			
Gohebiaeth Gymraeg – Canran yr ymatebion a dderbyniwyd yn Gymraeg (lle derbyniwyd ymateb o gwbl)	93%	91%	92%
Gohebiaeth Gymraeg – amser ymateb		2.8 diwrnod	1.04 diwrnod
GALWADAU FFÔN			
Opsiynau awtomatig ar gael yn Gymraeg	-	73%	90%
Delio â'r alwad a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg	-	52%	55%
Delio â rhan gyntaf yr alwad yn Gymraeg, yna trosglwyddo i aelod staff di-Gymraeg i roi ateb ar bwnc penodol	-	11%	4%
Delio â rhan gyntaf yr alwad yn Saesneg, yna trosglwyddo i aelod staff sy'n siarad Cymraeg	-	–	6%
DERBYNFEYDD			
Delio â'r ymholiad yn Gymraeg	37%	46%	46%
FFURFLENNI			
Ffurflen ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	79%	73%	78%
DATGANIADAU I'R WASG			
Datganiad ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	-	77%	82%
LLYFRYN/PAMFFLED/TAFLEN/CERDYN			
Deunydd ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	-	78%	68%
HUNANIAETH GORFFORAETHOL			
Logo'n ymddangos yn Gymraeg	88%	78%	88%
GWEFANNAU			
Rhyngwyneb a dewislenni yn Gymraeg	-	72%	92%
Tudalennau ar gael yn Gymraeg (cyflawn)		73%	81%
FACEBOOK			
Negeseuon ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	-	63%	74%
TWITTER			
Negeseuon ar gael yn Gymraeg (cyflawn)	-	66%	70%
SWYDDI			
Hysbysebion swyddi'n cynnwys categori angen sgiliau Cymraeg	-	67%	82%
Hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg	-	24%	47%
ARWYDDION			
Arwyddion ar gael yn Gymraeg	82%	93%	89%

8 Comisiynydd y Gymraeg, ***Cau'r Bwlch: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2019–20*** (2020).

9 Roedd canlyniadau 2017–18 yn seiliedig ar brofi gwasanaethau'r holl sefydliadau perthnasol, a chanlyniadau 2018–19 a 2019–20 yn seiliedig ar brofi sampl ar hap o draean y sefydliadau.

1.17

Ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau, gwelwyd cynnydd bychan neu gysondeb ym mherfformiad sefydliadau o gymharu cyfraddau llwyddiant 2019–20 â rhai 2018–19, ond mewn ambell achos roedd y ffigyrau yn 2018–19 wedi gostwng ers 2017–18. Ond nid yw cynnydd na chysondeb ynddo'i hun yn ddigon da o reidrwydd, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle mae'r cyfraddau llwyddiant yn awgrymu nad yw pob sefydliad yn cydymffurfio â'r gofynion a osodwyd arnynt.

1.18

Patrwm cyffredinol yw bod argaeledd yn well ar gyfer gwasanaethau a deunyddiau lle mae modd eu darparu unwaith ac am byth drwy sicrhau bod testun neu systemau ar gael yn Gymraeg, fel systemau ffôn, arwyddion, logos, tudalennau gwe neu ffurflenni. Mae argaeledd hefyd yn well ar gyfer gwasanaethau a deunyddiau lle mae angen anfon testun at siaradwr Cymraeg (naill ai i ddelio â'r mater neu i'w gyfieithu), ond lle nad oes pwysau amser sylweddol, er enghraifft wrth ymateb i ymholiadau, llunio datganiadau i'r wasg neu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

1.19

Ond nid yw'r ffaith fod argaeledd y gwasanaethau ysgrifenedig hyn yn well na gwasanaethau llafar yn golygu bod pob sefydliad yn cydymffurfio, ac mae angen i nifer o sefydliadau wella eu perfformiad.

1.20

Ar y cyfan, mae perfformiad sefydliadau yn wannach ar gyfer gwasanaethau personol, lle mae angen i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg fod ar gael mewn lleoliad penodol ar yr adeg pan fo'r gwasanaeth yn cael ei gyrchu. Mae'r diffyg cynnydd o ran argaeledd gwasanaethau ffôn (55% yn 2019–20) a derbynfa (46% yn 2019–20) yn golygu nad oes cyfle bron i hanner yr amser i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyrchu'r gwasanaethau hyn.

1.21

Er nad oes modd cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol fesul blwyddyn, mae'r ffaith y gwelwyd naid ym mherfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 1 o ran eu gwasanaethau derbynfa a ffôn ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r safonau (2016–17), ond bod y cynnydd hwnnw heb barhau ar yr un raddfa mewn blynyddoedd dilynol, yn ychwanegu at y darlun cymysg.

1.22

Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod angen i nifer sylweddol o sefydliadau recriwtio siaradwyr Cymraeg ychwanegol er mwyn darparu gwasanaethau personol sy'n cydymffurfio â'r safonau.

"Dydi siaradwyr Cymraeg, yn aml, ddim ar gael ar llinellau ffôn ac mae'r esgusodion yn cael eu rhestru pan nad oes rhywun ar gael."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

"Mae papurau, gohebiaeth ac yn y blaen yn well ond wyneb yn wyneb, dwi'n gorfod gofyn bob tro am wasanaeth Cymraeg."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

"Ti'n gorfod cwffio i gael petha yn Gymraeg dwyt. Erstalwm o'n i'n cwyno mwy, ond pan ti'n feichiog, ne pan ma gen ti fabi bach, does gen ti jyst ddim yr egni na'r amser i wneud hynny."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

1.23

Gan fod y Comisiynydd wedi gwirio pob gwasanaeth fwy nag unwaith ar gyfer pob sefydliad, mae modd gweld, ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau, fod:

- rhwng hanner a thri chwarter y sefydliadau wedi darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg bob tro;
- rhwng 4% ac 19% o'r sefydliadau heb ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg o gwbl;
- a'r gweddill wedi darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg o leiaf unwaith ond nid bob tro.

1.24

Er bod mwyafrif y sefydliadau'n darparu gwasanaethau Cymraeg yn gyson fel ag y dylent, mae nifer o sefydliadau yn methu â darparu yn Gymraeg ar gyfer rhai gwasanaethau, neu mae eu darpariaeth yn anghyson. Wrth ddadansoddi perfformiad sefydliadau yn 2019–20, rhybuddiodd y Comisiynydd fod rhai sefydliadau'n methu â dal i fyny â'r gwelliant a'r perfformiad derbyniol sydd i'w weld yn y rhan fwyaf o achosion. Mae risg felly fod bwlch yn agor rhwng sefydliadau sy'n cydymffurfio'n dda ac yn gwella'n barhaus, a'r sefydliadau hynny sydd heb drefniadau digonol mewn lle.

1.25

Mewn rhai sefydliadau, mae trefniadau strwythuredig a gwaith caled yn golygu eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gan greu cyfleoedd dibynadwy i ddefnyddio'r Gymraeg. Ond mae rhai sefydliadau sydd heb ddefnyddio'r safonau fel sbardun i wella trefniadau a sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti Cymraeg i ddarparu'r gwasanaethau y mae gan bobl hawl i'w derbyn.

1.26

Ar ben hyn, gwelwyd gwahaniaethau rhwng sectorau (er bod rhai sefydliadau'n perfformio'n dda, a rhai'n wael, ym mhob sector). Sefydliadau rheoliadau rhif 1 a rhif 2 (sefydliadau cenedlaethol amrywiol) oedd yn perfformio orau. Roedd perfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 5 (heddluoedd a gwasanaethau tân) yn gymysg, gan berfformio'n well na'r cyfartaledd mewn rhai gwasanaethau a gwaeth mewn eraill. Roedd perfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 6 (sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch) yn agos at y cyfartaledd ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau. Salach na'r cyfartaledd oedd perfformiad sefydliadau rheoliadau rhif 7 (iechyd) ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau; wrth gwrs, dyma'r sector sy'n gweithredu'r safonau ers y cyfnod byrraf.

1.27

Mae canlyniadau arolygon dros nifer o flynyddoedd wedi dangos nad yw gwasanaethau sefydliadau annatganoledig, sy'n gweithredu cynlluniau iaith, ar gael yn Gymraeg i'r un graddau â gwasanaethau sefydliadau sy'n gweithredu safonau.

1.28

Dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn argaeledd gwasanaethau Cymraeg adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Digwyddodd hyn yn rhannol yn sgil cymeradwyo cynllun iaith Gymraeg Swyddfa'r Cabinet fis Ebrill 2019, gan ddiffinio'r cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar gov.uk. Mae nifer o brosesau allweddol bellach ar gael yn Gymraeg ar-lein a sonnir yn fanylach am rai ohonynt yn Rhan 4.

1.29

Wrth grwpio canlyniadau 2019–20 awdurdodau lleol fesul ardal, gwelwyd nad oedd perthynas uniongyrchol rhwng y ganran o siaradwyr Cymraeg mewn ardal a pherfformiad sefydliadau. Roedd perfformiad ar ei orau ymhlith sefydliadau'r gogledd-orllewin, ond roedd y perfformiad yn gyffelyb ar gyfer y gogledd-ddwyrain, y canolbarth a'r gorllewin, er bod canrannau gwahanol iawn o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y tri rhanbarth hyn. Yn 2018–19, roedd perfformiad sefydliadau yng nghanol de Cymru'n rhagori ar orllewin de Cymru a dwyrain de Cymru, er bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yno'n debyg, ond erbyn 2019–20 gwelwyd gwelliant oedd yn golygu bod perfformiad yn debyg yn nhri rhanbarth y de. Roedd y gwahaniaethau mwyaf i'w gweld ar gyfer gwasanaethau ffôn a derbynfa, â rhanbarthau'r de ar ei hôl hi â'r gwasanaethau hyn.

Argaeledd gwasanaethau Cymraeg: barn defnyddwyr

1.30

Ym mis Ebrill 2016, mis cyntaf gweithredu'r safonau, cynhaliwyd arolwg barn ar ran y Comisiynydd. Cynhaliwyd yr un arolwg pob blwyddyn rhwng 2017 a 2020,[10] gyda rhai mân addasiadau i'r cwestiynau. Mae'r arolwg barn, sef omnibws siaradwyr Cymraeg Beaufort Research, yn holi sampl o dros 500 o siaradwyr Cymraeg. Mae'r sampl yn gynrychioladol o broffil demograffig siaradwyr Cymraeg o ran oedran, ardal, rhyw, dosbarth cymdeithasol a rhuglder yn y Gymraeg.

1.31

Yn 2017, 2019 a 2020, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â sefydliadau cyhoeddus wedi cynyddu. Mae'r ffigurau isod yn awgrymu bod y cyhoedd wedi gweld cynnydd arwyddocaol yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn 2016–17 – y flwyddyn pan ddechreuodd y sefydliadau cyntaf weithredu safonau'r Gymraeg – ac mai eu hargraff oedd fod pethau wedi sefydlogi wedyn.

Siart 24: Barn siaradwyr Cymraeg ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â sefydliadau cyhoeddus (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Yn eich barn chi ydy cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu, lleihau, neu'n aros yr un peth gyda sefydliadau cyhoeddus?'

	Cynyddu	Aros yr un peth	Lleihau	Ddim yn gwybod/ Ddim yn berthnasol
2016	–	–	–	–
2017	57%	29%	9%	5%
2018	–	–	–	–
2019	37%	48%	11%	4%
2020	35%	45%	15%	5%

1.32

Yn 2018, gofynnwyd yr un cwestiwn ond ar gyfer gwahanol fathau penodol o wasanaethau cyhoeddus lle roedd:

40%

yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â chynghorau sir wedi cynyddu.

32%

yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â chyrff iechyd wedi cynyddu.

34%

yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â cholegau a phrifysgolion wedi cynyddu.

10 Dylid pwysleisio bod dull a maint sampl arolwg 2020 yn wahanol oherwydd argyfwng COVID-19 ac felly ni ddylid cymharu'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol â'r arolygon blaenorol. Caiff y data ei gynnwys yma er diddordeb i'r darllenydd yn unig.

1.33

Mae'r ffigurau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn gyson uwch nag ar gyfer mathau eraill o wasanaethau. Yn 2020, er enghraifft, roedd:

15%

yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag elusennau wedi cynyddu.

12%

yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn archfarch-nadoedd wedi cynyddu.

23%

yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda busnesau bach lleol wedi cynyddu.

35%

yn credu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus wedi cynyddu.

Mae'n glir o'r arolwg hwn felly fod siaradwyr Cymraeg o'r farn bod cynnydd amlycach i'w weld yn y sector cyhoeddus, lle mae dyletswyddau iaith statudol ar waith.

1.34

Fel y gwelir o'r canlyniadau isod, mae ymatebion i gwestiynau eraill yn yr arolwg hefyd yn awgrymu bod cyflwyno'r safonau wedi gwneud gwahaniaeth i argraffiadau a phrofiadau defnyddwyr.

1.35

Ym mhob arolwg ers 2017, mae mwyafrif clir wedi cytuno bod gwasanaethau Cymraeg yn gwella. Yn yr arolwg a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2017 y gwelwyd yr uchafbwynt o ran pobl yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella. Gallai hyn olygu bod sefydliadau, yn enwedig awdurdodau lleol, wedi gwneud newidiadau nodedig yn sgil cyflwyno'r safonau, ac mai yn y flwyddyn 2016–17 y gwelwyd y shifft mwyaf.

Siart 25: Barn siaradwyr Cymraeg ar a yw gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Mae gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2016	–	–	–	–	–
2017	36%	40%	7%	3%	13%
2018	17%	47%	16%	5%	15%
2019	24%	41%	11%	4%	21%
2020	20%	50%	18%	3%	9%

1.36

Mae mwyafrif clir o bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg â sefydliadau, naill ai weithiau neu bob amser, yn cytuno eu bod yn gallu gwneud hynny. Yn arolwg 2017 hefyd y gwelwyd y ganran uchaf o bobl yn cytuno eu bod yn gallu ymwneud â sefydliadau yn Gymraeg.

Siart 26: Barn siaradwyr Cymraeg ar a ydynt yn gallu delio â sefydliadau yn Gymraeg os dymunant (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Fel arfer, rydw i'n gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg os ydw i'n dymuno gwneud hynny.' [Gofynnwyd i rai oedd yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg, neu yr oedd eu ffafriaeth yn dibynnu ar y math o wasanaeth, yn unig]

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2016	50%	34%	9%	5%	2%
2017	55%	36%	7%	2%	0%
2018	37%	35%	20%	7%	1%
2019	48%	35%	10%	6%	1%
2020	36%	46%	15%	1%	2%

Profiadau defnyddwyr: Ansawdd gwasanaethau Cymraeg

Ansawdd gwasanaethau Cymraeg: gwaith monitro'r Comisiynydd

1.37

Un o'r egwyddorion sy'n sail i waith y Comisiynydd yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac mae gofyniad ynghylch hyn wedi ei gynnwys yn nifer o'r safonau. Wrth arolygu gwasanaethau yn 2019–20, gwelwyd:

- Bod ymatebion i ohebiaeth Gymraeg yn debyg o ran ansawdd i ymatebion i ohebiaeth Saesneg; yn benodol, roedd yr amser ymateb cyfartalog yn debyg (1.04 diwrnod yn Gymraeg, 1.12 diwrnod yn Saesneg), roedd 93% o ymatebion Cymraeg yn ateb yr ymholiad yn llawn, a chanrannau tebyg o ymatebion Cymraeg a Saesneg wedi cynnwys deunydd ychwanegol, llofnod a manylion cyswllt.
- Roedd oddeutu 10% o ddeunyddiau fel ffurflenni, datganiadau, dogfennau, tudalennau gwe, negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac arwyddion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; rhesymau cyffredin dros nodi bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol oedd bod testun ar goll, yn anghywir, neu'n llai amlwg yn y fersiwn Cymraeg, neu fod diwyg y fersiwn Saesneg yn well.

Ansawdd gwasanaethau Cymraeg: barn defnyddwyr

1.38

Gofynnwyd barn defnyddwyr am ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn yr arolwg barn yn 2018, 2019 a 2020. Tua hanner y defnyddwyr oedd yn cytuno bod y gwasanaethau o'r un ansawdd yn y ddwy iaith, ond gwelwyd cynnydd bychan yn y ganran rhwng 2018 a 2020.

Siart 27: Barn siaradwyr Cymraeg ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Rydw i'n teimlo bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg yr un mor dda â gwasanaethau Saesneg.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2016	–	–	–	–	–
2017	–	–	–	–	–
2018	19%	28%	25%	17%	11%
2019	25%	30%	16%	13%	16%
2020	25%	36%	22%	8%	9%

"Ar y wefan, dyw tudalennau Cymraeg ddim yn cael eu diweddaru mor gyflym, dyw rhai tudalennau ddim ar gael o gwbl yn Gymraeg. Dwi'n colli ffydd ac yn teimlo bod yr ochr Saesneg yn fwy dibynadwy."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

Hawl i gwyno

1.39

Cryfhawyd hawliau achwynwyr yn sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd gan fod hawliau pobl i gwyno am fethiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn gryfach o lawer na'r hawliau i gwyno am sefydliadau dan gynlluniau iaith.



Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Dan y ddeddf hon, ni all y Comisiynydd agor ymchwiliad i gŵyn am fethiant i gyflawni cynllun iaith Gymraeg heblaw fod yr achwynydd, yn gyntaf, wedi dod â'r mater at sylw'r sefydliad a rhoi cyfle rhesymol i'r sefydliad ystyried ac ymateb.

Yn dilyn hyn, rhaid i'r Comisiynydd naill ai ymchwilio i gŵyn neu anfon datganiad o'i resymau dros beidio â gwneud at yr achwynydd.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Dan y Mesur, gall achwynydd gyflwyno cwyn yn syth i'r Comisiynydd os nad yw sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau, yn hytrach na chwyno wrth y sefydliad yn y lle cyntaf.

Mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried cynnal ymchwiliad ai peidio yn dilyn derbyn unrhyw gŵyn ddilys, ac mae gan achwynwyr hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg os nad yw'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal ymchwiliad.

1.40

Wrth gyhoeddi adroddiad sicrwydd 2016–17, *Hawliau'n gwreiddio*, sylwodd y Comisiynydd bod gofyn am hyder a dyfalbarhad i gwyno yn uniongyrchol wrth sefydliad ar brydiau, a'i bod hi'n bwysig i'r broses fod yn un hwylus i'r unigolyn sy'n ceisio gwasanaeth Cymraeg. Dyna pam fod gallu'r Comisiynydd i weithredu ar ran y cyhoedd trwy ymchwilio i gwynion mor bwysig.[11]

11 ***Hawliau'n Gwreiddio: Adroddiad sicrwydd 2016–17 Comisiynydd y Gymraeg***, t. 52.

1.41

Amlygodd ymatebion i arolygon barn fod siaradwyr Cymraeg yn cefnogi'r hawl i gwyno.

Siart 28: Barn siaradwyr Cymraeg ynghylch y gallu i gwyno am wasanaethau Cymraeg (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Mae'n bwysig fod pobl yn gallu cwyno os ydyn nhw'n anfodlon â gwasanaeth Cymraeg.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2017	80%	17%	1%	0%	1%

Siart 29: Barn siaradwyr Cymraeg ynghylch y gallu i gwyno wrth sefydliad annibynnol am wasanaethau Cymraeg (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Mae'n bwysig fod pobl yn gallu cwyno wrth sefydliad annibynnol (er enghraifft, Comisiynydd y Gymraeg) am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2018	51%	30%	10%	2%	7%

1.42

Amlygodd ymatebion i arolygon barn hefyd fod y mwyafrif o bobl yn gwybod sut i wneud cwyn, ond mae'n ymddangos y gall sefydliadau wneud rhagor i hyrwyddo hyn.

Siart 30: Barn siaradwyr Cymraeg ynghylch gwybod sut i wneud cwyn am wasanaethau Cymraeg (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Rydw i'n gwybod sut i wneud cwyn os ydw i'n anfodlon â gwasanaethau Cymraeg.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2017	34%	22%	21%	13%	9%

Siart 31: Barn siaradwyr Cymraeg ynghylch sefydliadau'n ei gwneud yn glir sut i gwyno am wasanaethau Cymraeg (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Mae sefydliadau yn ei gwneud yn glir i mi sut mae cwyno os ydw i'n anfodlon â'u gwasanaeth Cymraeg.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2016	–	–	–	–	–
2017	–	–	–	–	–
2018	11%	21%	24%	35%	10%
2019	13%	23%	20%	17%	26%
2020	16%	27%	27%	17%	14%

1.43

Mae nifer y cwynion a dderbyniodd y Comisiynydd yn ystod y cyfnod adrodd yn ategu canlyniadau'r arolygon hyn hefyd. Yn 2016–17, er enghraifft, blwyddyn gyntaf y drefn safonau, gwnaed 151 cwyn i'r Comisiynydd am gydymffurfiaeth â'r safonau o'i gymharu â'r 97 cwyn a gyflwynwyd i'r Comisiynydd ynghylch yr un sefydliadau yn 2015–16 (o dan drefn y cynlluniau iaith). Yn wir, cafwyd cynnydd cyffredinol o 74% yn nifer y cwynion yn ystod y flwyddyn gyntaf hon a derbyniwyd cyfanswm o 263 cwyn; 151 cwyn am sefydliadau oedd o dan y drefn safonau a 121 cwyn am y rheini oedd yn parhau i weithredu cynlluniau iaith.



74%

Nifer y cwynion yn cynyddu 74% yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu safonau.

1.44

Er y gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer y cwynion ers hynny, maent wedi parhau'n gyson uwch nag oeddent cyn i'r safonau ddod i rym a derbyniodd y Comisiynydd 224 cwyn yn 2019–20. Teg nodi hefyd fod natur y cwynion hyn wedi newid yn yr un cyfnod a'r Comisiynydd bellach yn agor ymchwiliadau i achosion mwy difrifol a systemig.

1.45


Yn sgil dyfarnu mewn ymchwiliad fod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r safonau, gall y Comisiynydd gymryd camau i orfodi'r sefydliad i gydymffurfio â'i ddyletswyddau. Mae sawl enghraifft lle mae cymryd camau gorfodi wedi arwain at welliannau ym mhrofiadau defnyddwyr.

1.46

Yn 2018–19, er enghraifft, cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad i wasanaethau ffôn corff cyhoeddus. Daeth hi'n eglur drwy'r ymchwiliad nad yw'n dderbyniol cynnig gwasanaeth Cymraeg drwy ffonio ymholydd yn ôl, a gosodwyd camau gorfodi'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ddatblygu trefniadau i ddelio â galwadau Cymraeg yn Gymraeg o'r dechrau i'r diwedd, heb doriad yn y gwasanaeth – un ai drwy ddefnyddio staff sy'n medru darparu gwasanaeth Cymraeg, neu drwy ddefnyddio technoleg. O ganlyniad i'r ymchwiliad, mae'r sefydliad wedi cyflwyno system galwadau ffôn newydd sy'n gwahodd galwyr i bwyso 1 am wasanaeth Cymraeg a 2 am wasanaeth Saesneg. Wedi hynny, mae'r rhai sy'n dewis gwasanaeth Cymraeg yn cael eu cyfeirio'n syth at siaradwr Cymraeg.

1.47

Er i'r cynnydd blynyddol yn nifer y cwynion sefydlogi, mae nifer y camau gorfodi y mae'r Comisiynydd yn eu gosod wedi cynyddu'n sylweddol o 46 yn 2016–17 i 220 yn 2019–20. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r newid graddol dros y cyfnod yn nifrifoldeb yr achosion y mae'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliadau iddynt.



1.48

Yn ystod 2019–20 rhoddodd y Comisiynydd bwyslais ychwanegol ar wirio bod sefydliadau'n gweithredu'r camau gorfodi a osodwyd arnynt yn dilyn ymchwiliadau. Mae'n ofynnol i sefydliadau ddiweddaru'r Comisiynydd ar gyflawniad camau gorfodi. Os nad yw camau gorfodi'n cael eu cyflawni, mae gan y Comisiynydd nifer o bwerau y gall eu defnyddio, er enghraifft cynnal ymchwiliad neu wneud cais i Lys Sirol am orchymyn. O'r camau gorfodi a fonitrwyd rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mawrth 2020, roedd 103 wedi eu cyflawni. Rhoddwyd estyniad i'r sefydliadau gyflawni 13 cam gorfodi pellach, a chafodd y rhain eu cwblhau erbyn y dyddiad cau diwygiedig.

1.49

Yn adroddiad sicrwydd 2017–18, nododd y Comisiynydd newid sylweddol yn ymddygiad sefydliadau wrth ymdrin â chwynion. Roeddent yn barod iawn i gydweithredu ac roedd yr awydd i gywiro eu methiannau'n amlwg. Adroddwyd bod sefydliadau'n ymateb i geisiadau am wybodaeth, gan barchu'r broses a'r amserlen; yn cydnabod yn fuan fod methiannau wedi digwydd, gan esbonio'r rhesymau drostynt; ac yn cyflwyno newidiadau er mwyn atal methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. A hynny'n aml cyn i'r broses o ymchwilio a gosod camau gorfodi ddod i ben, hyd yn oed. Nid oedd hyn yn digwydd i'r un graddau yng nghyd-destun ymchwiliadau i weithrediad cynlluniau iaith Gymraeg.

1.50

Mae'r ffaith fod y safonau wedi eu cynnwys mewn deddfwriaeth, a bod gan y Comisiynydd bwerau ymchwilio a gorfodi ystyrlon ar gyfer gorfodi cydymffurfiaeth, yn sicr wedi arwain at newid agwedd ymysg rhai sefydliadau. Ar sawl achlysur mae sefydliadau wedi nodi wrth swyddogion y Comisiynydd fod statws statudol a gorfodadwy'r safonau wedi newid eu hagwedd at gydymffurfio o'i gymharu â'u hagwedd at y cynlluniau iaith.

Defnydd o wasanaethau Cymraeg

Data am ddefnydd o wasanaethau Cymraeg: arolwg barn

1.51

Holwyd siaradwyr Cymraeg yn flynyddol pa iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus. Arhosodd y ganran a nododd 'Cymraeg' yn hollol gyson ar ychydig dan draean rhwng 2016 a 2019 (dylid nodi bod tua chwarter yr ymatebwyr wedi nodi, o gael cyfle i wneud hynny yn 2018 a 2019, y gallent ddewis defnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ddibynnol ar y gwasanaeth).

1.52

Yn 2020, gwelwyd cwymp sylweddol yn y nifer a nododd 'Cymraeg'; hanerodd y ganran. Nid yw'r rhesymau dros y cwymp hwn yn hysbys eto a bydd hi'n bwysig gweld a yw'r duedd hon yn parhau i'r dyfodol, ac a yw'n cael ei adlewyrchu yn y defnydd gwirioneddol a wneir o'r Gymraeg â chyrff cyhoeddus.

Siart 32: Dewis iaith siaradwyr Cymraeg ar gyfer delio â chyrff cyhoeddus (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Pa iaith fyddai'n well gennych ei defnyddio wrth ddelio â chyrff cyhoeddus?'

	Cymraeg	Saesneg	Ddim yn gwybod	Ddim yn meindio	Dibynnu ar y gwasanaeth
2016	32%	63%	1%	4%	Opsiwn heb ei gynnig
2017	32%	61%	0%	6%	Opsiwn heb ei gynnig
2018	32%	42%	0%	Opsiwn heb ei gynnig	26%
2019	33%	47%	0%	Opsiwn heb ei gynnig	20%
2020	16%	57%	0%	Opsiwn heb ei gynnig	27%

1.53

O'r rhai y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer pob gwasanaeth, noda bron y cyfan eu bod yn ceisio gwneud hynny bob tro.

Siart 33: Ymddygiad iaith siaradwyr Cymraeg wrth ddelio â chyrff cyhoeddus (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Ydych chi'n ceisio defnyddio gwasanaethau Cymraeg bob tro wrth ddelio â chyrff cyhoeddus?' [Gofynnwyd i bobl oedd yn nodi eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg]

	Ydw	Nac ydw
2016	–	–
2017	–	–
2018	89%	11%
2019	94%	6%
2020	98%	2%

Data am ddefnydd gwirioneddol o wasanaethau Cymraeg

1.54

Nid oes data dibynadwy a chyson ar gael am y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Yn adroddiad sicrwydd 2018–19, nodwyd bod data gwirioneddol ar gyfer y defnydd o wasanaethau Cymraeg yn brin ac yn ddarniog.[12] Nid oes dyletswydd ar sefydliadau i gasglu'r data hwn nac adrodd arno ar hyn o bryd, ac felly ni ellir dweud i ba raddau mae unrhyw wybodaeth a gyhoeddir gan sefydliadau'n gynrychioladol o'r sefyllfa'n gyffredinol.

1.55

Ond o edrych ar y pytiau o ddata sydd ar gael, ceir argraff bendant nad yw'r nifer o bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn cyfateb i'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg.

12 *Hawlio cyfleoedd: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018–19*, t. 85.

1.56

Yn ystod 2019–20, nododd rhai sefydliadau eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg, ond nad oedd ganddynt ddata i brofi hynny. Roedd eraill wedi casglu data a oedd yn cadarnhau'r duedd:

- Yn dilyn cyhoeddi e-lyfrau newydd ar wefan Amgueddfa Cymru, gwelsant 31% o gynnydd yn nifer yr ymweliadau â thudalennau Cymraeg adran addysg y wefan.
- Mae Heddlu De Cymru wedi gweld cynnydd o dros 10% yn nifer y galwadau Cymraeg i'w canolfan alwadau 101 yn sgil gwarchod 25 o swyddi fel rhai â sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Mae'r sefydliad yn ystyried cynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg er mwyn ateb y galw cynyddol. Mae'r defnydd o nifer o wasanaethau ar-lein Cymraeg y DVLA wedi parhau i gynyddu; mae'r defnydd o'r gwasanaeth Trwyddedu Cerbyd yn Gymraeg wedi cynyddu 14%, Rhifau Cofrestru Personol wedi cynyddu 41%, a Rheolaeth Cerbyd wedi cynyddu 344%. Mae'r DVLA hefyd wedi gweld cynnydd o 35% mewn galwadau Cymraeg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er bod nifer y galwadau Saesneg wedi gostwng yn yr un cyfnod.

Cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg: ymchwil y Comisiynydd

1.57

Cyfrifoldeb sefydliadau yw darparu gwasanaethau Cymraeg a chymell pobl i'w defnyddio. Mae ymddygiad defnyddwyr yn fater cymhleth wedi ei seilio ar oes o ragdybiaethau a phrofiadau blaenorol, ac yn dilyn patrymau seicolegol sy'n anodd eu newid.

1.58

Gwnaeth y Comisiynydd waith ymchwil ac ymgysylltu yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn ceisio deall yr hyn sydd angen digwydd er mwyn cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Wrth drafod ag aelodau o'r cyhoedd pa newidiadau allai arwain at gynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg, roedd rhai themâu cyffredin yn cynnwys:

- sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn y lle cyntaf ac o ansawdd o leiaf cystal â'r Saesneg;
- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael a'u gwneud yn amlwg;
- cynnig y Gymraeg yn gyntaf neu'n ddiofyn gan sicrhau nad yw pobl yn gorfod teimlo embaras na theimlo eu bod yn creu trafferth drwy ofyn am wasanaeth;
- sicrhau dilyniant drwy wahanol agweddau ar gyswllt â sefydliadau;
- sicrhau nad yw pobl yn gorfod cwyno am ddiffyg gwasanaeth (er mwyn osgoi creu trafferth i bobl ac ymdeimlad eu bod yn cael eu trin yn llai ffafriol); a
- defnyddio iaith ddealladwy.

“Mae dewis i ddefnyddio’r Gymraeg neu beidio yn aml yn cael ei wneud yn yr isymwybod, ac rydyn ni’n asesu trwy’r amser beth yw’r tebygolrwydd bod gwasanaeth Cymraeg yn mynd i fod ar gael yma, felly mae angen ffyrdd clyfar o ddangos bod y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg.”

Aelod o’r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

“Dyw pobl ddim isie gofyn. Gwed bod e ddim ar ga’l neu dyw e ddim yn amlwg, ti ddim isie gorfod dechre meddwl a oes yna opsiwn Cymraeg – ti isie jyst neud e... A wedyn, os ti yn mynnu ca’l stwff yn Gymraeg, o ma *hassle* wedyn, nag o’s e?”

Aelod o’r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

“Fy mai i yw e, dwi’n defnyddio’r Saesneg oherwydd mod i’n cymryd yn ganiataol na fyddan nhw’n siarad Cymraeg.”

Aelod o’r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

“Ma’ pobl yn *embarrassed*, mae e bron fel bod e’n *political statement* a dyle fe ddim bod. Dyle fe ddim bod yn *statement* i ddefnyddio’r Gymraeg.”

Aelod o’r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

“Ma’r cyngor sir yn danfon popeth mas yn y Gymraeg, chware teg iddyn nhw. Ond ambell waith mae’r ffordd mae’r Gymraeg wedi ei gyfieithu bach yn glogyrnaidd. Bydde’n well defnyddio iaith mwy syml, sy’n llai stiff.”

Aelod o’r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

“Mwy o’r busnes dwyieithog ’na – heb orfod gofyn amdano fe. Heb orfod optio am y Gymraeg neu’r Saesneg – bod e’n ddwyieithog beth bynnag.”

Aelod o’r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

“Mae’r Gymraeg yn gallu bod yn drwsgl iawn ar bethau swyddogol, a dwi’n ffeindio bod gwneud y pethau yma’n ddigon anodd yn Saesneg heb sôn am orfod dehongli pethau yn y Gymraeg ar ben hynny.”

Aelod o’r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2017–18

1.59

Amlygodd ymatebion i arolygon barn fod potensial i sefydliadau gynyddu'r defnydd a wnaed o'u gwasanaethau Cymraeg drwy godi ymwybyddiaeth o wasanaethau a'u cynnig yn rhagweithiol. Yn 2018 a 2019, nododd dros 70% o ddefnyddwyr eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau'n ei gwneud yn glir eu bod ar gael.

Siart 34: Barn siaradwyr Cymraeg ynghylch effaith sefydliadau'n ei gwneud yn glir fod gwasanaethau Cymraeg ar gael (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Rydw i'n fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau yn ei gwneud yn glir i mi eu bod ar gael.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2016	–	–	–	–	–
2017	–	–	–	–	–
2018	55%	24%	13%	5%	3%
2019	42%	31%	14%	6%	7%
2020	28%	33%	22%	10%	7%

1.60

Awgryma ymatebion i gwestiynau eraill fod mwy y gellir ei wneud i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, a'u cynnig yn rhagweithiol i ddefnyddwyr.

Siart 35: Ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg o'r math o wasanaethau y mae hawl i'w derbyn yn Gymraeg (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Rydw i'n gwybod pa fath o wasanaethau y mae gen i hawl i'w derbyn yn Gymraeg gan sefydliadau cyhoeddus.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2016	34%	32%	17%	11%	6%
2017	34%	29%	17%	12%	8%
2018	29%	32%	18%	16%	5%
2019	35%	34%	15%	6%	9%
2020	27%	38%	20%	5%	10%

Siart 36: Barn siaradwyr Cymraeg ynghylch a yw sefydliadau cyhoeddus yn cynnig dewis iaith (Ffynhonnell: Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg, Beaufort Research).

'Mae sefydliadau cyhoeddus yn gofyn i mi ym mha iaith yr hoffwn i ddelio â nhw.'

	Cytuno'n gryf	Cytuno i raddau	Anghytuno i raddau	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
2016	42%	32%	12%	11%	3%
2017	46%	31%	11%	8%	4%
2018	31%	31%	18%	18%	2%
2019	31%	31%	20%	13%	4%
2020	29%	41%	18%	7%	5%

1.61

Roedd ymchwil cysgodi defnyddwyr, a ddyfeisiwyd ac a gynhaliwyd ar ran y Comisiynydd gan gwmni Ateb mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, yn tracio a thrafod ymddygiad iaith defnyddwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd o gyrchu gwasanaethau er mwyn adnabod y ffactorau oedd yn dylanwadu ar eu penderfyniad i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

1.62

Cynhaliwyd yr ymchwil ddwywaith, yn ystod 2017–18 a 2018–19. Yn ystod ymchwil 2017–18, adnabuwyd nifer o ddylanwadau ar benderfyniadau iaith defnyddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwneud asesiad cynhwysfawr, isymwybodol o'r tebygolrwydd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael;
- pryder y byddai ceisio defnyddio'r Gymraeg lle nad yw ar gael yn arwain at letchwithdod neu embaras, neu y byddai defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg yn golygu eu bod dan anfantais;
- profiadau a gwybodaeth flaenorol am y sefydliad; a
- chiwiau gweledol a chlywedol sy'n awgrymu bod gwasanaeth Cymraeg ar gael (e.e. arwyddion a bathodynnau, iaith sgwrs staff, cerddoriaeth, a chyfeiriadau e-bost).

1.63

Adnabuwyd tueddiadau tebyg yn ystod gwaith cysgodi defnyddwyr 2018–19:

- Pan nad oedd y gwasanaeth Cymraeg yn amlwg, neu pan gâi unrhyw rwystr, oedi neu drafferth ei gyflwyno, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn penderfynu defnyddio'r Saesneg yn hytrach na dyfalbarhau er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg.
- Roedd dylanwad cymdeithasol clir ar ymddygiad defnyddwyr â phobl yn dilyn arferion y defnyddwyr o'u blaenau.
- Roedd cyfranogwyr yn hoffi cael deunyddiau'n ddwyieithog; dewisodd nifer o'r cyfranogwyr gyfeirio at y ffurflen Saesneg tra'n llenwi'r un Gymraeg, er enghraifft, gan sôn bod ffurfioldeb a chywair iaith y ffurflen yn golygu nad oeddent yn hyderus i ddefnyddio'r ffurflen Gymraeg ar ei phen ei hun.
- Roedd pobl yn dilyn yr iaith ddiofyn, er enghraifft wrth ddefnyddio peiriannau hunanwasanaeth.
- Wrth ofyn i siaradwyr Cymraeg a ddewisodd yr opsiwn Saesneg wrth ffonio canolfan alwadau pam y gwnaethant hynny yn hytrach na defnyddio'r Gymraeg, nododd 48% ohonynt y byddent yn gorfod disgwyl yn hir am ateb ar y llinell Gymraeg. Nododd 31% ei bod yn well ganddynt siarad Saesneg, a nododd 13% eu bod heb glywed yr opsiwn Cymraeg (roedd yr opsiwn Cymraeg yn ail, ar ôl y Saesneg).

"Os nad ydw i'n cael fy nghyfarch yn Gymraeg, dwi'n cymryd nad ydi'r gwasanaeth Cymraeg ar gael."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

"Dwi ddim yn hoffi gwneud ffys, dwi'n dueddol o jyst derbyn beth sy'n cael ei gynnig i fi."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

"Mae'n *rili rili* pwysig cael gwybod bod rhywbeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fi'n bersonol y math o berson swni fyth yn gofyn. Os san nhw'n cynnig o'n Susneg, swn i'n cymryd yn ganiataol mai Susneg ydi o felly."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

1.64

Ar sail y gwaith hwn gellir casglu bod cynyddu defnydd o wasanaethau'n ddibynnol ar sicrhau y gall defnyddwyr ymddiried bod argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg cystal â'r rhai Saesneg, dylunio gwasanaethau fel bod y Gymraeg yn cael ei chynnig yn rhagweithiol neu'n ddiofyn, a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

1.65

Dim ond yn ddiweddar, wrth i'r safonau ddod yn weithredol, y daeth argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn rhywbeth y gellir dibynnu arno, er bod bylchau'n parhau mewn llawer o sefyllfaoedd. Bydd blynyddoedd o brofiadau ac argraffiadau negyddol yn llywio ymddygiad defnyddwyr, ac felly ni ellir disgwyl cynnydd cyflym yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg: ymgyrchoedd y Comisiynydd

1.66

Un o'r ffyrdd amlycaf i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yw defnyddio'r bathodyn Iaith Gwaith, y swigen siarad oren honno sydd i'w gweld hyd a lled y wlad mewn siopau, swyddfeydd ac ar wefannau. Mae'r cynllun Iaith Gwaith wedi hen sefydlu erbyn hyn, a dathlodd ei ben-blwydd yn 15 oed yn 2020.



Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, cafodd dros chwarter miliwn o fathodynnau, cortynnau gwddf a phosteri eu dosbarthu i sefydliadau cyhoeddus, busnesau, elusennau ac aelodau o'r cyhoedd.

1.67

Yn wir, mor llwyddiannus yw'r cynllun Iaith Gwaith yma yng Nghymru nes i'r Alban fachu ar y syniad. Cydweithiodd y Comisiynydd â Bòrd na Gàidhlig i ddatblygu cynllun tebyg yno ac ers mis Hydref 2019 mae ganddynt hwythau fathodynnau, cortynnau gwddf a phosteri â swigen las, sy'n deillio'n uniongyrchol o'r cynllun yng Nghymru, i ddangos bod gwasanaeth Gaeleg ar gael.



1.68

Ymgyrch arall i annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yw'r Diwrnod Hawliau. Yn 2018, darparodd y Comisiynydd ddeunyddiau a thempledi marchnata i sefydliadau dan safonau am y tro cyntaf i'w gwneud hi'n haws iddynt hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Y nod oedd hyrwyddo hawliau mewn ffordd oedd yn hawdd i'r cyhoedd ei ddeall gan symleiddio'r safonau yn hawliau perthnasol. Arweiniodd hyn at lansio Diwrnod Hawliau yn 2019, diwrnod i sefydliadau cyhoeddus hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Cynhaliwyd yr ymgyrch eto yn 2020 a'r bwriad yw cynnal y Diwrnod Hawliau'n flynyddol ar 7 Rhagfyr i gyd-fynd â dyddiad pasio Mesur y Gymraeg yn y Cynulliad.

Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

1.69

Mae safonau'r Gymraeg yn cynnwys gofyniad i hybu gwasanaethau Cymraeg a hysbysebu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

1.70

Yn 2016–17, cynhaliodd y Comisiynydd arolwg o weithgareddau sefydliadau rheoliadau rhif 1 i godi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau Cymraeg. Ni lwyddodd cyfran helaeth o'r sefydliadau a arolygwyd, sef 77% ohonynt, i gynnig enghraifft o weithgareddau a dulliau rhagweithiol o hybu a hysbysebu gwasanaethau Cymraeg.

1.71

Wrth wirio gwasanaethau yn 2019–20, edrychwyd ar nifer o feini prawf er mwyn gweld a oedd sefydliadau'n hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg yn unol â gofynion penodol y safonau. Mae'n ymddangos mai canran eithaf isel o sefydliadau sy'n cymryd camau syml er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gall hynny fod mor syml â chynnwys datganiad mewn llofnod e-bost ac ar ddeunyddiau, er enghraifft, neu roi bathodyn Iaith Gwaith i staff derbynfa.

Siart 37: Sefydliadau'n hyrwyddo'u gwasanaethau Cymraeg (Ffynhonnell: Adroddiad sicrwydd 2019–20).

Llyfrynnau, taflenni ayb: fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg	7%
Ffurflenni: fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg	19%
Datganiadau i'r wasg: fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg	22%
Peiriannau hunanwasanaeth: iaith ddiofyn yn Gymraeg neu'n ddwyieithog	25%
Gohebiaeth Saesneg: ymateb yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg	31%
Derbynfeydd: pob aelod o staff y dderbynfa a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn yn nodi hynny	36%
Gohebiaeth Gymraeg: ymateb yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg	41%
Galwadau ffôn: neges peiriant ateb yn rhoi gwybod bod modd gadael neges yn Gymraeg	43%
Hysbysebion swyddi: ffurflen gais yn rhoi lle i nodi dewis iaith asesu	47%
Derbynfeydd: arwydd yn datgan bod croeso i ddefnyddio'r Gymraeg	51%
Hysbysebion swyddi: datganiad yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg	58%
Galwadau ffôn: cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg ar ddechrau'r alwad	67%
Gwefannau: tudalen sblash neu debyg yn cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol	69%
Peiriannau hunanwasanaeth: cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg	75%
Tudalennau gwe: botwm 'Cymraeg' ar y fersiwn Saesneg	91%

"Mae gorfod gofyn i rywun siarad Cymraeg, a'r posibilrwydd o gael eich gwrthod, yn *awkward*. Os dwi'n gweld eu bod nhw yn gwisgo bathodyn Iaith Gwaith, wna i siarad Cymraeg yn syth."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

"Y logo ydi'r ffordd hawsa i hyrwyddo... Ma pawb yn nabod y logo."

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod, 2018–19

1.72

Mae'n glir felly nad yw sefydliadau ar y cyfan wedi ymateb yn ddigon da i'r gofynion newydd i hyrwyddo'u gwasanaethau Cymraeg. A hyn er gwaetha'r ffaith fod y Comisiynydd wedi rhoi sylw manwl i'r diffyg hwn mewn adroddiadau sicrwydd ac wedi cynnal gweithdai ar y mater i sefydliadau.

1.73

Ceir rhai eithriadau, fodd bynnag. Aeth Cyngor Sir Gâr ati i godi ymwybyddiaeth am ei wasanaethau Cymraeg yn gyffredinol drwy'r ymgyrch Pa Bynnag Ffordd yn 2016–17, er enghraifft.

Astudiaeth achos: Cyngor Sir Gâr

Doedd data ynghylch defnydd cwsmeriaid ein canolfan gyswllt o'r Gymraeg ddim yn cyfateb â data'r cyfrifiad ynghylch y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y sir. Fe wnaethon ni benderfynu bod angen sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o wasanaethau Cymraeg y Cyngor.

Fe benderfynon ni wneud hyn drwy gynnal ymgyrch gyffredinol yn tynnu sylw at y ffaith fod gwasanaethau'r Cyngor – pa bynnag ddull mae pobl yn ei ddewis o gysylltu â ni – ar gael yn Gymraeg.

Fe aethon ni ati i lunio slogan bachog i gymell pobl i ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg. Roedd y slogan Gymraeg – 'Pa bynnag ffordd...' – yn canolbwyntio ar y dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr, a'r slogan Saesneg – 'Learning the language?' – yn targedu dysgwyr Cymraeg yn benodol.

Fe wnaethon ni ddylunio brand a baneri llachar ar gyfer yr ymgyrch, a gosod hysbysebion gyda'r slogan a'r brand mewn lleoliadau amlwg fel papur newydd y Cyngor, papurau bro, ac arosfannau bws.

Fe wnaethon ni ddilyn hyn drwy barhau i fonitro defnydd o'r Gymraeg yn y ganolfan gyswllt.

Ers i'r ymgyrch gyffredinol hon ddigwydd yn 2016–17, rydym wedi canolbwyntio ar hybu gwasanaethau Cymraeg penodol, er enghraifft drwy gydweithio gydag ymarferwyr iechyd a dechrau'n deg i hybu gwasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg.

1.74

Mae sefydliadau wedi gwneud newidiadau syml ac effeithiol er mwyn i'r gwasanaeth Cymraeg ymddangos fel yr opsiwn amlycaf, er enghraifft drwy gynnig eu gwefan yn Gymraeg yn ddiofyn, newid lleoliad y dewis Cymraeg i fod yn amlycach ar wasanaeth ffôn, a chyflwyno hysbyseb naid ar fersiwn Saesneg gwefan yn annog defnyddwyr i fynd i'r fersiwn Cymraeg.

1.75

Lansiodd Dŵr Cymru ymgyrch yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 i gynyddu nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg y cwmni i 25,000 erbyn 2025. Adeg cofrestru, gwahoddir cwsmeriaid yn rhagweithiol i nodi eu dewis iaith ac adeg drafftio'r adroddiad hwn roedd Dŵr Cymru yn y broses o gyflwyno diweddariadau pellach i'w systemau er mwyn olrhain defnydd cwsmeriaid o'r gwasanaethau Cymraeg.

1.76

Mae'n glir, fodd bynnag, fod angen i bob sefydliad fwrw ati i wneud pethau syml a sylfaenol i'w gwneud yn hollol glir i ddefnyddwyr fod eu gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Gweithredu ar ddewis iaith

1.77

Mae rhai sefydliadau wedi rhoi trefniadau mewn lle i sefydlu dewis iaith defnyddwyr a gweithredu ar hynny ym mhob cyswllt dilynol. Er enghraifft:

- Mae Cronfa Gymunedol y Loteri yn adnabod dewis iaith yn ystod y sgwrs gychwynnol ag ymgeiswyr a derbynwyr grantiau. Caiff y dewis iaith ei gofnodi ar system rheoli cyswllt y sefydliad sydd ar gael i staff ym mhob lleoliad.
- Mae Heddlu De Cymru wedi datblygu dull o adnabod a chofnodi unigolion sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg â nhw er mwyn gallu teilwra gwasanaethau ar eu cyfer lle mae hynny'n bosibl. Roedd dros 4,500 o unigolion wedi eu hadnabod ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae hyfforddiant a gynigir i staff yn cynnwys sut i ddelio â siaradwyr Cymraeg a phwysigrwydd cofnodi dewis iaith.

1.78

Nododd rhai sefydliadau nad yw eu systemau TG yn ei gwneud yn hawdd i gofnodi dewis iaith defnyddwyr a thrafodir hynny'n fanylach yn Rhan 4 yr adroddiad hwn.

1.79

Mae safonau penodol wedi eu gosod ar sefydliadau iechyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ofyn i gleifion mewnol ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysbyty a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu hymweliad, a rhoi gwybod i staff sy'n debygol o gyfathrebu â'r cleifion am y dymuniad hwnnw.

Astudiaeth achos: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rydyn ni'n deall mor bwysig yw hi i gleifion sy'n siarad Cymraeg allu defnyddio'r iaith gymaint â phosib yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.

Rydyn ni wedi mynd ati i brif ffrydio gofynion y safonau drwy ein Cynllun Achredu Wardiau. Mae'r cynllun yma'n cyflwyno cyfres o safonau i staff ynghylch ansawdd, diogelwch a gofal cleifion ar wardiau, ac felly ychwanegu gofynion ynghylch y Gymraeg ato oedd y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o roi'r safonau ar waith.

Golyga'n Cynllun Dewis Iaith fod angen gofyn i gleifion beth yw eu dewis iaith. Ar ôl gwneud hyn – ac os yw'r claf yn cytuno i fod yn rhan o'r cynllun – gosodir magned logo Iaith Gwaith ar y bwrdd gwyn magnetig wrth wely'r unigolyn, er mwyn dangos i staff y dylent gyfathrebu â nhw yn Gymraeg os gallant.

Ar ôl ei beilota'n llwyddiannus ar wardiau penodol yn Ysbyty Gwynedd ar ddechrau 2017, cafodd Cynllun Dewis Iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei ymestyn i gynnwys holl wardiau Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd erbyn mis Mai 2019.

"Wrth weithredu'r cynllun mae staff yr Uned wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o anghenion penodol pob teulu. Mae'r magnedau'n caniatáu i ni weld a yw rhieni newydd yn medru'r Gymraeg, heb i ni orfod gofyn.

Pan fydd aelodau o staff Cymraeg eu hiaith ar ddyletswydd yn yr Uned, cânt eu paru â siaradwyr Cymraeg erbyn hyn.

Gan fod ein staff hefyd yn gwisgo logo 'Dw i'n siarad Cymraeg' ar eu gwisg, mae'r Cynllun yn gweithio'r ddwy ffordd gan fod rhieni hefyd yn gweld pa aelodau staff sy'n medru'r Gymraeg heb orfod gofyn. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus, gan eu bod yn gallu cyfathrebu â'r aelodau hynny o staff yn eu hiaith gyntaf."

Uwch Nyrs Staff, Uned y Newydd-anedig, Ysbyty Glan Clwyd

"Yn ystod fy arhosiad yn Ysbyty Alltwen, mi wnes i ddewis bod yn rhan o'r cynllun iaith, a gosododd y staff y magned 'Cymraeg' uwch fy mhen, fel eu bod yn gwybod ei bod hi'n well gennyf siarad Cymraeg. Mae'n syniad gwych, ac mae'n galluogi'r staff i gyfathrebu'n well gyda'r cleifion y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg, sy'n helpu i ddarparu hyd yn oed gwell gofal."

Claf o Harlech

Sgiliau Cymraeg y gweithlu

1.80

Mae'r canfyddiadau a geir yn y bennod hon ynghylch argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun gwasanaethau personol, yn amlygu mor allweddol yw cael digon o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu er mwyn gwella profiadau siaradwyr Cymraeg. Gellir darparu rhai gwasanaethau Cymraeg drwy drefniadau canolog, ond ar gyfer gwasanaethau fel derbynfa a ffôn mae angen i staff fod mewn lle penodol ar amser penodol i ddarparu'r gwasanaeth.

1.81

Daeth y Comisiynydd i'r casgliad yn adroddiad sicrwydd 2018–19 mai'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar allu sefydliadau i gynnig darpariaeth Gymraeg addas yw nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg, ac felly bod cynyddu'r niferoedd yn allweddol.[13] Mae'r safonau'n cynnig dwy brif ffordd i sefydliadau gynyddu eu capasiti mewnol o ran sgiliau Cymraeg: datblygu sgiliau Cymraeg staff presennol, a recriwtio staff sydd eisoes â sgiliau Cymraeg.

Data am sgiliau Cymraeg staff

1.82

Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau asesu sgiliau Cymraeg eu staff; cadw cofnod o nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg (a'u lefel sgiliau pan fo hynny'n wybyddus); a chyhoeddi'r nifer hwn yn adroddiad blynyddol y sefydliad.

1.83

Does dim gofyn i sefydliadau ddefnyddio dull cyson o asesu, ac maent yn defnyddio modelau amrywiol i asesu sgiliau Cymraeg eu staff. Hunanasesiad yw sail y cofnodion fel arfer, yn hytrach na phrawf wedi ei wirio neu asesiad gan diwtor. Nid oes modd felly cael ffigur cyfun o nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob sefydliad cyhoeddus sy'n gweithredu safonau, na chymharu capasiti gwahanol sefydliadau â'i gilydd.

1.84

Gwelwyd potensial i weddnewid y sefyllfa hon yn ystod y cyfnod adrodd. Yn 2018–19 cynhaliodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gynllun peilot y Gwiriwr Lefel Cenedlaethol, a'i lansio'n llawn yn Ebrill 2019. Mae'r gwiriwr yn adnodd y gall sefydliadau ei ddefnyddio yn rhan o'r broses recriwtio ac apwyntio. Gall hefyd weithredu fel dull o fesur cynnydd unigolion wrth iddynt ddysgu Cymraeg yn broffesiynol.

1.85

Mae gan y Ganolfan beth tystiolaeth sy'n awgrymu bod tybiaeth ymhlith nifer o sefydliadau bod staff yn tueddu i ystyried eu sgiliau'n llai datblygedig nag y maent mewn gwirionedd. Gall y gwiriwr asesu sgiliau'n hwylus ac yn annibynnol, ac mae potensial iddo gael ei ddefnyddio'n strategol yn rhan ffurfiol o raglen hybu a recriwtio gan bennu lefelau fesul swydd neu fesul adran. Rhwng 2018 a diwedd y cyfnod adrodd defnyddiwyd y gwiriwr gan 334 cyflogwr a 2,761 unigolyn.

13 ***Hawlio cyfleoedd: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2018–19***, t. 66.

1.86

Mae'n ymddangos, ar sail adroddiadau blynyddol safonau'r Gymraeg a gyhoeddir gan sefydliadau, fod yna sefydliadau lle mae 90% a mwy o'r staff yn siarad Cymraeg. Ar y llaw arall, mae'n ymddangos fod rhai sefydliadau â llai na 10% o'r staff yn siarad Cymraeg. Ceir sefydliadau eraill yn y canol sydd â chanrannau amrywiol a llai eithafol. Un ffactor yw demograffeg yr ardal y lleolir y sefydliad ynddi; mae diwylliant a swyddogaethau ar lefel sectorol a sefydliadol hefyd yn dylanwadu, ac mae'r patrymau fel arfer yn rhai hirsefydlog.

1.87

Er nad oes modd coladu'r data i gael darlun cenedlaethol ar hyn o bryd, mae asesu sgiliau'r gweithlu er mwyn galluogi cynllunio i wella darpariaeth sefydliadau unigol yn allweddol. Yn sgil gofynion y safonau, mae rhai sefydliadau'n gweithredu polisïau i sicrhau bod isafswm o siaradwyr Cymraeg yn gweithio ar bob tîm neu shifft. Mae eraill wedi ymrwymo i sicrhau bod y ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd ym mhob ardal ddaearyddol yn gyfartal i neu'n uwch na'r ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yno.

Cynyddu capasiti'r gweithlu: recriwtio siaradwyr Cymraeg

1.88

Recriwtio staff newydd sy'n siarad Cymraeg yw'r dull cyflymaf o gynyddu capasiti Cymraeg sefydliadau. Â diffyg argaeledd rhai gwasanaethau'n dangos angen clir am ragor o staff sy'n siarad Cymraeg, dylai sefydliadau ddefnyddio cyfleoedd i recriwtio staff i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion.

1.89

Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad ar gyfer pob swydd wag a newydd maent yn ei hysbysebu, er mwyn ystyried a oes angen sgiliau Cymraeg i'w chyflawni. Mae'n rhaid nodi a yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, angen eu dysgu ar ôl penodi, neu ddim yn angenrheidiol ar gyfer y swydd, a chyfathrebu hynny wrth hysbysebu'r swydd.

1.90

Mae'r asesiadau'n bwysig er mwyn sicrhau bod yr angen am sgiliau Cymraeg yn cael ystyriaeth briodol ar gyfer pob swydd, ond hefyd er mwyn osgoi gwahaniaethu ar sail hil a chanlyniadau cyfreithiol anffafriol o ganlyniad i hynny. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gall gosod gofynion sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn grwpiau hil sydd â llai o siaradwyr Cymraeg, os nad yw gosod y gofynion hynny'n ddull cymesur o gyflawni nod dilys.[14]

14 Mae gwybodaeth lawn ynghylch y sefyllfa gyfreithiol, a sut y gall sefydliadau sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn pobl o grwpiau ethnig sydd â llai o siaradwyr Cymraeg, yn ein dogfen gyngor, *Recriwtio: Dogfen gyngor arferion da* (Medi 2020).

1.91

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwelwyd nifer o sefydliadau'n mabwysiadu trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal, ond awgryma gwaith ymchwil y Comisiynydd fod mwy angen ei wneud i sicrhau bod yr angen am sgiliau Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn a strategol wrth recriwtio i bob swydd wag neu newydd.

1.92

Gwiriwyd sampl o hysbysebion swyddi rhai sefydliadau cyhoeddus yn 2019–20. Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer 17% o swyddi, yn ddymunol ar gyfer 63%, a ddim yn angenrheidiol ar gyfer 2%. Doedd 18% o hysbysebion ddim yn cyfeirio at sgiliau Cymraeg (naill ai am nad oeddent yn angenrheidiol, neu am nad oedd yr angen wedi cael ei ystyried).

1.93

Pan gynhaliwyd ymarferiad tebyg yn 2015–16, roedd sgiliau Cymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer 6% o swyddi, ac yn ddymunol ar gyfer 42%. Yn 2016–17, roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer 17% o swyddi, ac yn ddymunol ar gyfer ar gyfer 40%.

1.94

Mae'r cynnydd i'w groesawu, ond mae angen parhau i'r cyfeiriad hwn er mwyn dod â'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn sefydliadau i lefel sy'n eu galluogi i gydymffurfio'n gyson â'r safonau.

Cynyddu capasiti'r gweithlu: datblygu sgiliau Cymraeg staff presennol

1.95

Mae'n ofynnol i sefydliadau ddarparu cyfleoedd i staff gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac mewn rhai achosion i ddarparu cyfleoedd pellach i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg.

1.96

Mae'r mwyafrif o sefydliadau'n gweithredu trefniadau i wella sgiliau Cymraeg staff ers blynyddoedd. Pan gynhaliwyd astudiaeth yn 2018–19, cyfeiriodd pob un o'r sefydliadau a holwyd at o leiaf un math o ddarpariaeth, â'r mwyafrif yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd. Roedd y dulliau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- hyfforddiant Cymraeg ar-lein (65%), yn enwedig cwrs blasu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (52%)
- cyfeirio staff at gyrsiau dysgu Cymraeg a gynhelir yn y gymuned (39%) a chyrsiau preswyl (13%)
- cynnal cyrsiau mewnol neu rai yn ystod oriau gwaith (65%), gan gynnwys gweithio â darparwr cydnabyddedig (e.e. coleg lleol neu ddarparwr Dysgu Cymraeg).

1.97

Mae heddluoedd, yn benodol, wedi bod yn effeithiol wrth wneud dysgu a gwella sgiliau Cymraeg yn rhan systematig o ddatblygiad gyrfa aelodau staff, â rhai heddluoedd yn ei gwneud yn ofynnol cael sgiliau lefel 1 wrth gychwyn fel heddwas, a symud i lefelau 2, 3 ayb, â chefnogaeth a hyfforddiant, cyn cael dyrchafiadau. Yn hyn o beth maent yn dilyn esiampl hirsefydlog Heddlu Gogledd Cymru.

1.98

Ymddengys bod sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi arwain at welliannau yn narpariaeth dysgu Cymraeg sefydliadau yn y blynyddoedd diwethaf drwy gynyddu'r ddarpariaeth o wersi Cymraeg, galluogi sefydliadau i deilwra'r ddarpariaeth i'w hanghenion busnes yn well, a chreu cwrs ar-lein 10 awr i roi sgiliau sylfaenol i nifer fwy o staff. Ceir trafodaeth bellach am waith y Ganolfan yn Rhan 2 yr adroddiad.

> **"Mae cynnydd mawr wedi bod yn faint o bobl sydd yn awyddus i falle datblygu eu sgiliau iaith nhw – ar lefel 3 ac ishe cryfhau i fod yn lefel 4 neu beth bynnag. Lot mwy o staff yn awyddus i ddatblygu sgiliau... a ma lot mwy o gyfleoedd i gael hefyd."**
>
> *Aelod o staff sefydliad mewn grŵp trafod, 2019–20*

1.99

Yn y cyfnod diwethaf gwelwyd mwy o sefydliadau'n targedu staff sydd â sgiliau Cymraeg eisoes, ond sydd ddim yn gwbl hyderus i ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol. Gall hyn fod ar ffurf sesiynau gloywi iaith, neu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun penodol, er enghraifft mewn cyfarfodydd neu ar y we. Ochr yn ochr â gwersi Cymraeg ar gyfer staff ar lefelau is o ran rhuglder a gwaith recriwtio, gall gwaith i gynyddu hyder staff sydd eisoes yn siarad Cymraeg fod yn ddull cost-effeithiol o gynyddu'r nifer o staff all ymwneud â'r cyhoedd yn Gymraeg.

1.100

Os yw gwaith sefydliadau ar ddatblygu sgiliau Cymraeg eu staff yn effeithiol, ochr yn ochr â recriwtio siaradwyr Cymraeg gall wneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod gan sefydliadau'r capasiti i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â gofynion y safonau.

Profiadau staff o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle: cyd-destun deddfwriaethol

1.101

Mae deddfu ar ddefnydd iaith yn y gweithle'n agwedd gyson ar gynllunio ieithyddol mewn gwledydd dwyieithog ac amlieithog. Mae enghreifftiau o ddeddfau sy'n gosod dyletswyddau ieithyddol penodol yn y gweithle yn cynnwys Deddf Ieithoedd Swyddogol Canada 1988, Deddf Cynllunio Ieithyddol Catalunya 1998, Siarter yr Iaith Ffrangeg 2002 (Quebec), a Deddf Diogelu Inuit 2008. Mae'r deddfau hyn yn darparu, ymysg pethau eraill:

- hawliau i unigolion weithio yn eu dewis iaith
- dyletswyddau ar lywodraethau a sefydliadau cyhoeddus i gynnal gweithdrefnau mewnol mewn un neu fwy o ieithoedd
- dyletswyddau ar sefydliadau i sicrhau y gall timoedd rheoli weinyddu mewn iaith neu ieithoedd penodol
- dyletswyddau ar sefydliadau i roi cynnig dewis iaith rhagweithiol i gyflogeion ar gychwyn cyfnod o gyflogaeth
- dyletswydd ar sefydliadau i weithredu mesurau i gael gwared ar unrhyw rwystrau i ddefnyddio iaith leiafrifol.

1.102

Gosodir hefyd ddyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gefnogi gweithwyr i ddefnyddio eu dewis iaith drwy ddarparu gwasanaethau canolog fel adnoddau dynol a goruchwyliaeth gan reolwyr, gan gynnwys rheoli perfformiad, mewn un neu fwy o ieithoedd penodol.

1.103

Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol Iwerddon (2003) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sicrhau bod y Wyddeleg yn dod yn iaith gwaith eu swyddfeydd yn y Gaeltacht erbyn dyddiad penodol.

1.104

Ym mlynyddoedd olaf ei fodolaeth, o tua 2007 tan 2011, cynhaliodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyfres o brosiectau ar y cyd â sefydliadau penodol â'r bwriad o gynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg. Cynigiwyd grantiau i sefydliadau i ariannu treialu ymyriadau, a chomisiynwyd ymchwil i asesu'r canlyniadau. Roedd y gweithgareddau a ariannwyd yn cynnwys datblygu dulliau o gynyddu gallu ac ymwybyddiaeth ieithyddol staff, hwyluso defnyddio'r Gymraeg drwy dechnoleg gwybodaeth, a sefydlu strwythurau neu swyddogaethau penodol i gefnogi'r Gymraeg yn y gweithle. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, a'i ganfyddiadau, yn yr adroddiad *Defnydd Mewnol o'r Gymraeg Mewn Gweithleoedd*, a luniwyd gan Gwmni Iaith.[15]

15 Iaith, ***Defnydd Mewnol o'r Gymraeg Mewn Gweithleoedd*** (Tachwedd 2010).

1.105

Roedd y prosiectau hyn yn digwydd heb sail statudol penodol, hynny yw, nid oedd Deddf yr Iaith Gymraeg na'r cynlluniau iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae Mesur y Gymraeg, ar y llaw arall, yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i lunio safonau gweithredu sy'n ddyletswyddau iaith yn ymwneud â gweithredu mewnol sefydliad.

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle: gwaith monitro'r Comisiynydd

1.106

Mae'r dosbarth o safonau gweithredu yn cynnwys nifer o ofynion sy'n creu:

- hawliau i staff dderbyn deunyddiau (fel dogfennau a ffurflenni, neu adnoddau cefnogol fel rhaglenni TG) yn Gymraeg, a chwblhau prosesau penodol (fel cwyno neu ddisgyblu mewnol) yn Gymraeg
- dyletswydd i gynnig hyfforddiant sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- dyletswydd i ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol â'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

1.107

Mae gwaith blaenorol y Comisiynydd yn awgrymu bod sefydliadau'n gweithredu'r safonau er mwyn gwireddu'r hawliau hyn, ond does dim gwybodaeth glir ynghylch faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r hawliau ar y pwynt cynnar hwn yn eu bodolaeth.[16]

16 ***Mesur o Lwyddiant: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017–18***, tt. 190–202.

1.108

Yn 2017–18, cynhaliodd y Comisiynydd arolwg o gydymffurfiaeth sampl o sefydliadau rheoliadau rhif 1, 2 a 5 â'r safonau gweithredu. Nododd pob un o'r sefydliadau eu bod yn galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ynghylch cwynion, disgyblu a datblygu, a bod dogfennau, ffurflenni, rhyngwynebau, templedi ac ati ar gael yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau. Roedd lle i gredu, fodd bynnag, nad oedd llawer o ddefnydd ar y Gymraeg yn y sefydliadau:

- Ni soniodd sefydliadau pa mor aml roedd staff yn dewis defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ynghylch cwynion, disgyblu a datblygu, nac i ba raddau roedd cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud ynteu a oedd angen i staff wneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg. Nododd un sefydliad mai'r Gymraeg oedd iaith naturiol prosesau mewnol, a dywedodd un arall ei fod yn gwybod nad oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn prosesau mewnol.
- Adroddodd nifer o sefydliadau fod defnydd o feddalwedd gwirio sillafu a rhyngwynebau Cymraeg yn isel. Ychydig oedd yn dweud eu bod yn hyrwyddo'r defnydd ohonynt. Dim ond dau sefydliad a nododd eu bod yn cynnig y feddalwedd yn rhagweithiol; roedd un arall yn ystyried gosod y Gymraeg yn ddiofyn a'i gwneud yn ofynnol optio allan. Nid oedd sefydliadau'n gallu dweud faint o ohebiaeth fewnol oedd yn cael ei hanfon yn Gymraeg.
- Nodwyd, ar y cyfan, mai Saesneg oedd iaith cyfarfodydd mewnol sefydliadau, â chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg dim ond pan fo'r holl fynychwyr yn siarad Cymraeg. Nid oedd sefydliadau'n gallu dweud faint o gyfarfodydd a gynhelir yn Gymraeg.
- Nododd pob sefydliad, ac eithrio un, mai Saesneg oedd yr iaith ysgrifenedig. Roedd swyddogion sy'n siarad Cymraeg yn tueddu i gwblhau gwaith yn Saesneg, naill ai oherwydd diffyg hyder neu oherwydd bod angen i nifer o bobl – gan gynnwys cydweithwyr di-Gymraeg – ei drafod neu ei gymeradwyo.

1.109

Erbyn 2019–20, er nad oedd ganddynt fel arfer ffordd feintiol o brofi hynny, dywedodd nifer o sefydliadau fod y Gymraeg yn fwy gweladwy a'i bod yn cael ei defnyddio'n amlach yn y sefydliad. Nodwyd bod:

- Timau ac adrannau â chanran iach o siaradwyr Cymraeg wedi symud fwyfwy yn naturiol at ddefnyddio'r Gymraeg, a sawl sefydliad sydd â swyddfeydd mewn lleoliadau amrywiol yn dweud bod y Gymraeg yn brif iaith eu swyddfeydd yn y gogledd a'r gorllewin.
- Y Gymraeg yn fwy gweladwy mewn sefydliadau yn sgil staff yn gwisgo'r logo Iaith Gwaith neu'n dangos y logo neu nodyn tebyg ar eu cyfrif e-bost, gan olygu bod staff yn sylweddoli bod eu cydweithwyr yn siarad Cymraeg.
- Gweithio'n hyblyg o ran lleoliadau gwaith wedi arwain at siaradwyr Cymraeg yn casglu at ei gilydd.
- Cynnal digwyddiadau cymdeithasol anffurfiol (sesiynau siarad, eisteddfodau ac ati) yn rhoi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr ymarfer eu Cymraeg.

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle: polisïau ar ddatblygu defnydd mewnol o'r Gymraeg

1.110

Yn sgil y safonau, mae'n ofynnol i sefydliadau gael polisi ar ddatblygu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. Yn arolwg y Comisiynydd yn 2017–18, dim ond 57% o'r sefydliadau a rannodd gopi o'u polisi, gan greu amheuaeth nad oedd bron i hanner y sefydliadau'n cydymffurfio â'r gofyniad. Teg nodi, fodd bynnag, fod y gofyniad yn un newydd – doedd dim gofyniad o'r fath dan y drefn cynlluniau iaith – ac yn un arwyddocaol gan ei fod yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith.

1.111

Drwy ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau lunio'u polisi eu hunain, yn hytrach na rhagnodi camau penodol i'w cymryd, roedd y Llywodraeth yn cydnabod fod sefyllfaoedd gwahanol sefydliadau'n golygu bod yr hyn y gallent anelu tuag ato o ran gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg yn amrywio'n fawr. Mae'r polisi'n galluogi sefydliadau i wneud beth sy'n bosibl yn eu sefyllfa nhw. Er enghraifft:

- Ar gyfer sefydliadau sydd â chanrannau isel o siaradwyr Cymraeg, a dim hanes o ddiwylliant cefnogol i'r Gymraeg, golyga y gallent gymryd camau cychwynnol i gynyddu pa mor weladwy yw'r Gymraeg yn y swyddfa, a'i defnyddio mewn modd cyfyngedig.
- Ar ben arall y sbectrwm, fodd bynnag, gobaith y Comisiynydd yw y bydd y polisïau hyn yn golygu bod sefydliadau sydd â chapasiti mawr a chefnogaeth gref i'r Gymraeg yn newid eu hiaith weithredol i'r Gymraeg, neu gymryd camau pellgyrhaeddol eraill i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg.

1.112

Mae rhai sefydliadau sydd – naill ai'n ffurfiol neu i bob pwrpas – yn gweinyddu yn Gymraeg eisoes. Gwnaeth Cyngor Gwynedd benderfyniad ffurfiol wrth iddo gael ei sefydlu yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 i fabwysiadu polisi gweinyddu mewnol Cyngor Dosbarth Dwyfor. Ceir sefydliadau eraill, fel y Llyfrgell Genedlaethol, y Theatr Genedlaethol, y Cyngor Llyfrau, S4C a Pharc Cenedlaethol Eryri, lle mae mwyafrif llethol y staff yn siarad Cymraeg, a'r rhan fwyaf o gyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol o fewn y sefydliad, ar bob lefel, yn digwydd yn Gymraeg.

1.113

Dau sefydliad arall sydd wedi mynd ati o ddifri i ymgodymu â'r cyfrifoldeb i hybu a hwyluso defnydd mewnol o'r Gymraeg yw Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn.

1.114

Sgiliau staff yw prif gyfrwng Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn. Yn ei pholisi *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*, a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2020, mabwysiadodd y Llywodraeth y nod y 'bydd yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050', gan alluogi'r holl staff sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg i wneud hynny a chael eu deall gan eu holl gydweithwyr.[17] Bwriad y Llywodraeth yw y bydd modd defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg 'mewn modd naturiol a chyfnewidiol'

17 Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd [HTML] | LLYW.CYMRU.

1.115

Mae sicrhau bod pob aelod staff yn deall Cymraeg yn nod hynod uchelgeisiol, ac mae'r cyfnod sylweddol o amser a ganiatawyd ar gyfer cyrraedd y nod yn adlewyrchu hynny i raddau. Ond o ystyried maint y dasg, bydd angen i'r Llywodraeth weithredu'n effeithiol iawn er mwyn creu'r newidiadau angenrheidiol. Mae'r camau y bwriada'r Llywodraeth eu cymryd yn y pum mlynedd hyd 2025 yn cynnwys:

- datblygu model ystadegol er mwyn cofnodi lefelau presennol y sgiliau Cymraeg (er enghraifft, ystyried demograffeg y sgiliau hynny, eu gradd a'u lleoliad), ac yna ystyried graddfa'r newid sydd ei angen er mwyn cyrraedd nod 2050
- datblygu cyfleoedd newydd, gwell ac arloesol i ddysgu'r Gymraeg a newid y meini prawf i gael dysgu Cymraeg yn ffurfiol
- adolygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i swyddi presennol â golwg ar gynyddu'n raddol nifer y staff dwyieithog sy'n ymuno â Llywodraeth Cymru a chyflwyno lefel 'cwrteisi' sylfaenol ar gyfer sgiliau Cymraeg.

1.116

Yn ogystal â'r camau uchod, sy'n ymwneud yn benodol â sgiliau'r gweithlu, bwriedir cymryd camau eraill er mwyn newid agweddau ac ymddygiad o fewn y sefydliad, gan gynnwys:

- diwygio hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
- cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (yn enwedig i staff sy'n derbyn gwersi Cymraeg)
- datblygu offeryn llywodraethu i fesur prif ffrydio polisïau'r Gymraeg, cydymffurfiaeth â'r gyfraith a defnydd o'r iaith
- cynyddu'r defnydd o adnoddau TG Cymraeg, a defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu mewn ffordd wahanol.

1.117

Mae gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar ddefnydd mewnol, ar y llaw arall, yn canolbwyntio ar newid arferion y gweithlu presennol yn hytrach na newid ei gyfansoddiad.

Astudiaeth achos: Cyngor Sir Ynys Môn

Rydym ni wedi penderfynu cymryd camau er mwyn sbarduno datblygiad pellach yn y defnydd mewnol o'r Gymraeg, gan adeiladu ar gynnydd blaenorol ac agweddau cadarnhaol. Roedd defnydd helaeth o'r Gymraeg yn y Cyngor yn barod, gyda'r rhan helaethaf o sgyrsiau rhwng staff yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gohebiaeth fewnol yn Gymraeg yn gyntaf, a chyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac ati'n digwydd yn Gymraeg. Ond roeddem eisiau parhau i gynnal a grymuso awyrgylch corfforaethol positif sy'n arddel defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng gwaith.

Roedd heriau i'w hwynebu wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae diffyg hyder, arbenigedd a sgiliau'n gallu dylanwadu ar barodrwydd siaradwyr Cymraeg rhugl yn ogystal â dysgwyr i roi cynnig arni i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle. Mae arferion defnydd iaith sydd wedi'u sefydlu ers nifer o flynyddoedd hefyd yn anodd i'w newid.

Ers 2018 mae gennym raglen dreigl chwe mlynedd ar gyfer gweithio'n ddwys ag adrannau yn eu tro er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan staff. Dechreuir drwy ddefnyddio holiadur i sefydlu gwaelodlin defnydd iaith, ac yna rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n cynnwys camau fel adnabod pencampwyr iaith sy'n gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi defnyddio'r Gymraeg ymysg eu cydweithwyr, hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, Cymraeg Clir, gloywi iaith, drafftio ac ati, defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd penodol, sesiynau anffurfiol drwy'r Gymraeg, a gwaith mapio sgiliau. Rydym hefyd yn gweithredu rhaglen ARFer o fewn y Cyngor.

"Dwi'n bencampwr iaith o fewn Hamdden ac mae gennym ni wyth pencampwr arall yn eistedd o fewn y grŵp. Dan ni'n trafod sut allwn ni gefnogi'n cydweithwyr sy ella ddim yn hyderus, neu'n rhugl yn Gymraeg, i ddefnyddio mwy o'r iaith yn y gwaith."

Aelod o staff gwasanaeth Hamdden

"Dwi wedi cael lot o gefnogaeth i helpu fi siarad Cymraeg yn y gwaith. Dwi'n teimlo dwi eisiau siarad Cymraeg rwan, dim "Mae'n rhaid i chdi" – dwi eisiau siarad Cymraeg. Dwi'n siarad Cymraeg efo'r teulu ac wrth wirfoddoli hefyd erbyn hyn."

Aelod o staff gwasanaeth Hamdden

1.118

Menter sy'n ymwneud â chynyddu defnydd mewnol sefydliadau o'r Gymraeg trwy ddylanwadu ar arferion iaith staff yn hytrach na thrwy gyflwyno hawliau neu fel mater o bolisi yw rhaglen ARFer, a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Bangor â chymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn dilyn methodoleg a ysbrydolwyd gan brosiect Aldahitz yng Ngwlad y Basg ac wedi'i seilio ar ddwy egwyddor sy'n deillio o economeg ymddygiadol, sef dylanwad sylweddol gwneud ymrwymiad, a rhagosodiadau.

1.119

Defnyddir methodoleg mesur a elwir yn Teclyn Arsylwi Dwyieithrwydd i sefydlu gwaelodlin o ran defnydd o ieithoedd mewn gweithle penodol, yna gofynnir i nifer o staff wneud ymrwymiad iaith i ddefnyddio'r Gymraeg fel yr iaith ddiofyn â'u cydweithwyr sy'n gallu deall Cymraeg. Dangosodd treial o fewn y Brifysgol fod y rhaglen wedi dyblu'r defnydd o'r Gymraeg mewn un gweithle penodol. Mae cynlluniau ar fynd gan y Brifysgol a Llywodraeth Cymru i ymestyn y rhaglen i weithleoedd eraill.

1.120

Gan adeiladu ar waith sefydliadau dros y blynyddoedd diwethaf, a chan edrych yn ôl ar ymdrechion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, bwriada'r Comisiynydd fynd ati i annog sefydliadau i gyflwyno ymyriadau er mwyn cynyddu defnydd staff o'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys ymyriadau i newid arferion – cymell staff i newid yr iaith y maent yn ei defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd – yn ogystal â gwaith cyfathrebu mewnol, darparu'r isadeiledd o ran technoleg ac adnoddau angenrheidiol i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ymyriadau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n ddigon hyderus yn eu sgiliau i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau gwaith.

Casgliadau'r Comisiynydd

Mae'n glir fod cyflwyno'r safonau wedi gwella profiadau defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg, ond nid yw sefydliadau'n cydymffurfio'n llawn â'r dyletswyddau. Rydym yn sicr wedi cymryd camau breision i'r cyfeiriad cywir, ac mae'n bwysig cydnabod effeithiolrwydd y safonau a gwaith caled sefydliadau o ran hynny.

Mae hawliau pobl i gwyno am ddiffygion yn narpariaeth Gymraeg sefydliadau wedi cryfhau, a bodolaeth grymoedd gorfodi'r Comisiynydd wedi arwain at newid ym meddylfryd sefydliadau. Mae gwaith cwynion ac ymchwiliadau'r Comisiynydd wedi amlygu methiannau a sicrhau bod camau mewn lle i'w datrys.

Gan ystyried hyn, rydym am weld Llywodraeth Cymru'n cyflwyno safonau ar gyfer rhagor o sectorau ar fyrder.

Un o'n prif bryderon yw bod y gwelliant a welwyd wedi ei gyfyngu i rai sefydliadau'n unig. Hyd yn oed os yw'r sefydliadau sy'n cydymffurfio'n ddibynadwy yn y mwyafrif, mae rhai sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio fel ag y dylent. Golyga hynny fod y siaradwyr Cymraeg sy'n gorfod defnyddio gwasanaethau'r sefydliadau hynny'n cael eu hamddifadu o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae angen i'r lleiafrif o sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio fel ag y dylent ddal i fyny â'r lleill.

Drosodd a thro, rydym wedi ei gwneud yn glir fod angen i sefydliadau gael:

- **trefniadau mewnol cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a chynlluniau iaith** – ffyrdd dibynadwy o wybod a yw eu darpariaeth yn sicrhau bod hawliau statudol pobl yn cael eu gwireddu, gan gynnwys monitro mewnol trylwyr a gweithredu ar sail cwynion a phrofiadau defnyddwyr.
- **capasiti digonol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu'r gwasanaethau Cymraeg sy'n ofynnol** – digon o staff fel y gall pobl fod yn hyderus y gallant ddibynnu ar sefydliadau i roi profiad didrafferth a chadarnhaol iddynt wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Gall fod yn fanteisiol sicrhau bod cyfrifoldeb am y Gymraeg gan unigolyn ar lefel arweiniol uchel, a swyddogion neu dîm yn darparu arbenigedd gweithredol.

Serch yr angen i fynd i'r afael â chwestiwn capasiti ar lefel sefydliadol neu leol, hyd nes y bydd dull cyson gan sefydliadau i asesu a chofnodi sgiliau iaith staff bydd hi'n amhosibl cael darlun cynhwysfawr o lefelau sgiliau Cymraeg yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. **Mae hwn yn fater y dylid mynd i'r afael ag ef yn ystod y pum mlynedd nesaf.**

Rydym wedi cynnig arweiniad clir a manwl ynghylch camau y gall sefydliadau eu cymryd i wneud yn siŵr fod cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg â nhw. Mae digonedd o enghreifftiau o sefydliadau – bach a mawr, ym mhob rhan o Gymru – sy'n gweithredu'n unol â'r arweiniad hwn ac yn arloesi â ffyrdd newydd o weithio er mwyn cydymffurfio mewn modd sy'n gweddu i'w hamgylchiadau.

Nid yw'r defnydd o wasanaethau Cymraeg yn cael ei hybu a'i hwyluso i'r graddau y dylai, ac o ganlyniad nid yw'r defnydd o wasanaethau Cymraeg mor uchel ag y gallai fod. **Mae angen gwneud rhagor hefyd i ddylunio gwasanaethau mewn modd sy'n cymell pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.** Rydym am weld sefydliadau'n ddigon hyderus yn eu gwasanaethau i allu mynd ati'n rhagweithiol i annog pobl i'w defnyddio, gan fanteisio ar yr arweiniad a ddarperir gan y Comisiynydd ac adnoddau ac ymgyrchoedd fel Iaith Gwaith a'r Diwrnod Hawliau.

Mae lle i weld cynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg fel iaith gwaith. Â llawer o bobl yn treulio mwyafrif eu horiau effro yn eu gwaith, gall rhoi cyfleoedd i bobl fynd i'r arfer o dreulio'r amser hwnnw'n trafod a gweithredu drwy'r Gymraeg gael traweffaith sylweddol ar arferion iaith yn y gweithle, y cartref a'r gymuned. **Bydd angen rhoi sylw o'r newydd i'r maes hwn yn ystod y pum mlynedd nesaf gan sicrhau bod y newid ym mhatrymau gwaith pobl yn cynyddu – nid yn llesteirio – y defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg yn y gweithle.**

Barn y Comisiynydd am effaith COVID-19 ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg



Nid yr adroddiad hwn yw'r lle i ystyried effaith hirdymor pandemig COVID-19 ar y defnydd o'r Gymraeg nac ychwaith i gloriannu sut mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi ymateb i heriau'r cyfnod. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y cyfnod digynsail hwn wedi amlygu cyfleoedd a risgiau sy'n bwysig i'w cofnodi yma.

Amlygwyd o'r newydd yr heriau sy'n codi wrth gynllunio ar gyfer y Gymraeg ar lefel Brydeinig yn sgil y penderfyniad brys i gaffael a threfnu peth o'r ymateb i'r pandemig yn ganolog drwy Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan. Mae'r cydweithio a welwyd rhwng Llywodraethau'r pedair gwlad i gynllunio datrysiadau brys i heriau newydd yn ganolog – yn benodol yn achos caffael gwasanaethau profi ac olrhain – wedi arwain at oedi o ran darparu rhai o'r gwasanaethau creiddiol hyn yn y Gymraeg. Rhaid canmol y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r heriau hyn a'i hymrwymiad i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg: ymrwymiad sydd hefyd yn cael ei yrru gan ei dyletswyddau statudol, wrth gwrs. Ond yn anffodus cafwyd sefyllfa lle roedd gwasanaethau Cymraeg yn aml yn cael eu hoedi, a'r pwysau dealladwy i gyhoeddi neu gychwyn gwasanaethau ar frys yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ar brydiau. **Mae'n hanfodol felly i ddysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd, ac os cyfyd amgylchiadau neu drefniadau cydweithio tebyg yn y dyfodol bydd angen sicrhau bod ystyriaeth ddigonol ac amserol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg.**

Rhaid dathlu hefyd y llwyddiannau a'r cyfleodd niferus a amlygwyd gan y pandemig. A hawdd cymryd rhai ohonynt yn ganiataol bron. Mae'r llythyr cwbl ddwyieithog a dderbyniodd pob aelwyd yng Nghymru gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig yng ngwanwyn 2020 yn enghraifft, ac yn brawf fod statws y Gymraeg wedi treiddio ac yn rhan o'r cynllunio ar y lefel uchaf. Teg amau a fyddai hynny wedi digwydd o gwbl mewn blynyddoedd a fu.

Mae'r cynnydd yn ein defnydd o dechnoleg hefyd yn darparu heriau a chyfleoedd amlwg. Roedd darparu ap COVID-19 y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn llwyddiant mawr gan alluogi nifer i gyrchu a defnyddio'r ap yn Gymraeg yn gwbl ddi-rwystr os oedd y Gymraeg wedi'i gosod yn iaith ddiofyn eu dyfais. Mae'n drueni, fodd bynnag, na wnaethpwyd digon i godi ymwybyddiaeth am argaeledd y gwasanaeth Cymraeg. Byddai wedi bod yn bosibl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn lansio'r ap, gan bwysleisio y byddai'r gwasanaeth hwn ond ar gael yn llawn yn Gymraeg os oedd gosodiadau'r ddyfais yn caniatáu hynny ymlaen llaw.

Un o lwyddiannau mawr y cyfnod yw fod yr ap hwn ar gael yn Gymraeg adeg ei lansio. Yn anffodus nid oedd pawb yn ymwybodol o'r llwyddiant hwn a derbyniwyd nifer o gwynion gan rai nad oeddent yn ymwybodol bod angen i osodiadau eu dyfais fod yn Gymraeg yn y lle cyntaf er mwyn i'r ap weithio yn Gymraeg. Roedd nifer o achwynwyr o'r herwydd wedi cymryd yn gwbl ganiataol nad oedd y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg. **Wrth i ni symud yn y dyfodol i fyd o wasanaethau digidol, rhaid sicrhau nid yn unig argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg, ond bod adnodd yn cael ei neilltuo hefyd i hybu a hwyluso eu defnydd.** Rhaid i ni hefyd ystyried a dysgu o'r ymateb a gafwyd i'r ap: does dim amheuaeth nad yw safonau'r Gymraeg wedi codi disgwyliadau defnyddwyr ynghylch beth ddylai fod ar gael ac mae hynny'n hollbwysig wrth i ni anelu at normaleiddio defnydd o'r gwasanaethau hyn. **Rhaid cydnabod hefyd y bydd rhai defnyddwyr yn cymryd yn ganiataol ar sail hir arfer nad yw gwasanaethau Cymraeg yn mynd i fod ar gael: mae'n hanfodol eu hysbysu fel arall.**

Defnydd o'r Gymraeg mewn dau sector



Hyd yma rydym wedi ymdrin â phrofiad cyffredinol siaradwyr Cymraeg o geisio defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau'n bennaf. Yn y bennod hon y nod yw codi cwr y llen ar sut brofiad oedd ceisio defnyddio'r Gymraeg mewn dau sector penodol iawn: y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth gofal dementia. Dewiswyd y sectorau hyn gan eu bod ill dau yn sectorau nad yw pobl yn *dewis* eu defnyddio fel y cyfryw. Yn hytrach gellid synio amdanynt fel gwasanaethau hanfodol i gynnal cymdeithas ac unigolion pan fo pobl eu hangen fwyaf. Bydd y defnyddwyr yn aml yn fregus neu o dan straen ac mae gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith o dan yr amgylchiadau hynny yn bwysicach nag erioed, fel yr amlyga'r astudiaethau isod.

1 Y Gymraeg yn y carchar

i.

Yn 2017 a 2018 cynhaliodd y Comisiynydd ymchwil i'r defnydd o'r Gymraeg mewn carchardai, a oedd yn cynnwys cyfweliadau strwythuredig â 18 o garcharorion a chyn-garcharorion yn ogystal â chyfweliadau â rheolwyr a swyddogion carchardai unigol a Gwasanaeth Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yn ganolog. Roedd y Comisiynydd o'r farn fod galluogi carcharorion i siarad eu hiaith eu hunain yn dangos parch at eu hunaniaeth, ac yn eu galluogi i'w mynegi eu hunain yn well, gan gael dylanwad ar eu llesiant.

ii.

Yn ystod yr ymchwil, clywyd am nifer o enghreifftiau o staff carchardai'n dweud wrth garcharorion am beidio â defnyddio'r Gymraeg, naill ai â'i gilydd neu â phobl o'r tu allan i'r carchar, mewn cyd-destunau lle na ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth. Ar y llaw arall, roedd agweddau'r rheolwyr a gyfwelwyd yn gyson oddefgar neu gadarnhaol, a sefydlwyd grŵp anffurfiol yng Ngharchar EM Berwyn i roi cyfleoedd i garcharorion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Awgryma hyn fod yr ymyrraeth yn digwydd o ganlyniad i agweddau negyddol neu ddiffyg gwybodaeth gan swyddogion y carchar.

iii.

Pwysleisia'r adroddiad a gyhoeddwyd yn sgil yr ymchwil yr angen i'w gwneud yn gwbl glir fod gan garcharorion hawl i gyfathrebu â'i gilydd ac â chysylltiadau allanol yn Gymraeg, a hwyluso cyfleoedd iddynt wneud hynny.

"Dwi'n dewis peidio â siarad Cymraeg â charcharorion eraill – ddim am i bobl wybod fy mod i'n siarad Cymraeg, ddim am fod yn darged; jyst eisiau *blend in* – ddim am sefyll allan mewn unrhyw ffordd. Dwi'n ofni bydd swyddogion yn fy nhrin yn wahanol neu'n gwneud bywyd yn anodd i mi os oeddwn am ddefnyddio'r Gymraeg."

"Ar un achlysur pan oedd Dad yn ymweld, wnaeth aelod o staff ofyn i ni beidio â siarad Cymraeg. Ro'n i yn teimlo'n grac oherwydd mae pobl eraill yn cael siarad eu hiaith nhw felly pam ddim y Gymraeg? Wnes i ddim cwyno; pwy fyddai'n gwrando? Does dim pwynt gwneud cwyn."

"Yn ystod un ymweliad gyda'r teulu, dyma aelod o staff yn dweud wrthym i siarad Saesneg. Cafodd hynny effaith mawr ar Mam achos roedd hi'n becso gan feddwl bydda i mewn trwbl ar ôl iddynt adael. Ar ôl y profiad yma, roedd Mam yn siarad Saesneg os oedd swyddogion o gwmpas gan ei bod hi'n becso am unrhyw *consequences* i fi."

iv.

Cafwyd darlun cymysg o argaeledd gwasanaethau a chyfleoedd i siarad Cymraeg mewn carchardai. Gwelwyd, er enghraifft:

- ymwybyddiaeth fod gwasanaethau Cymraeg i fod ar gael, ond nad oeddent ar gael mewn gwirionedd
- gwasanaethau'n cael eu hysbysebu ond ddim ar gael
- gwasanaethau'n ddibynnol ar argaeledd staff
- profiadau'n llawer gwell yng Nghymru nag yn Lloegr
- profiadau cyferbyniol o fewn yr un carchar.

v.

O ran gwasanaethau penodol:

- roedd dros hanner y cyfweleion wedi methu â chael ffurflenni a deunyddiau tebyg yn Gymraeg
- ymddangosai fod y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyfan, yn gyfyngedig ddosbarthiadau i ddysgu neu wella Cymraeg
- roedd llyfrau Cymraeg yn y llyfrgell, a mynediad at S4C a Radio Cymru, ar gael yng Nghymru ond nid yn Lloegr
- nid oedd gwasanaeth caplan Cymraeg ar gael yn yr un carchar, er ei fod yn rhan allweddol o'r gofal emosiynol a seicolegol a roddir i garcharorion.

"Dwi'n deall fy mod i gallu delio gyda awdurdodau'r carchar yn y Gymraeg ond heb wneud hyn – dwi ddim yn gwybod sut bydd hyn yn gweithio gan nad oes unrhyw un yn siarad Cymraeg yma."

"Dwi'n gwybod bod perffaith hawl gen i ddefnyddio'r Gymraeg ond ddim yn gweld fy mywyd yn hawdd os oeddwn yn mynnu defnyddio'r Gymraeg; dwi ddim am gorddi'r swyddogion a'r awdurdodau. Dwi ddim yn teimlo y gallaf ddelio ag awdurdodau'r carchar yn y Gymraeg – does dim digon ohonyn nhw'n deall Cymraeg."

"Dwi'n teimlo fel *outsider* wrth ddewis defnyddio'r Gymraeg; mae pobl yn edrych arnaf yn syn. Mae defnyddio'r Gymraeg yn gwneud chi'n wahanol. Dwi'n meddwl taw dyma'r rheswm pam nad yw pawb sy'n gallu siarad Cymraeg yn dewis defnyddio'r iaith. Angen i'r holl drafodaeth ynglŷn a'r iaith Gymraeg fod yn fwy agored o fewn y carchar."

vi.

Daeth y Comisiynydd i'r casgliad y byddai'n fanteisiol lleoli carcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn carchardai yng Nghymru. Yn gyntaf, mae'n debygol o leihau pellter carcharorion o'u cartref, gan alluogi gwell cyswllt â theuluoedd a chymunedau, a chynyddu'r tebygolrwydd o adsefydlu'n llwyddiannus. Yn ail, mae mwy o hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn carchardai yng Nghymru nag yn Lloegr, yn sgil y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, ymrwymiadau cynllun iaith Gymraeg Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yng Nghymru o ran gofal a chymorth.

vii.

Gan nad oes carchar i fenywod yng Nghymru, a bod strategaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch troseddwyr benywaidd yn datgan bwriad i fuddsoddi mewn darpariaeth gymunedol a chanolfannau preswyl i fenywod a cheisio lleihau nifer y menywod ar ddedfrydau byr, pwysleisiwyd yr angen i ystyried anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg.

viii.

Nododd y Comisiynydd hefyd y dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM addasu'r modd yr âi ati i gasglu data ynghylch anghenion iaith carcharorion er mwyn adnabod dewis iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd ac adnabod gallu i siarad Cymraeg yn ogystal â dewis iaith. Nododd bod angen cryfhau'r trefniadau i sicrhau bod data ynghylch y Gymraeg yn cael ei gasglu ar gyfer pob carcharor yn ddi-ffael, a sicrhau bod modd i bob carchar gael mynediad at ddata cywir er mwyn cynllunio'i wasanaethau.

ix.

Roedd y dystiolaeth a dderbyniodd y Comisiynydd gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn awgrymu bod rhai prosesau mewn lle i ystyried anghenion iaith defnyddwyr, ond ni dderbyniwyd llawer o wybodaeth ynghylch gweithrediad gwasanaethau Cymraeg o ddydd i ddydd.

x.

Gan fod profiadau carcharorion yn ddibynnol iawn ar sicrhau cyflenwad digonol o staff sy'n siarad Cymraeg, a sicrhau bod yr holl staff yn parchu pwysigrwydd gallu defnyddio'r Gymraeg, nodwyd bod angen gwell data am sgiliau Cymraeg staff, a chymryd camau, yn enwedig wrth recriwtio staff newydd, er mwyn sicrhau bod nifer digonol o staff er mwyn cynnig gwasanaethau i garcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn modd cyson a dibynadwy.

xi.

Mabwysiadodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM gynllun iaith newydd ym mis Medi 2020 sy'n mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Mae'r cynllun iaith yn ymrwymo i:

- archwilio sut gall dewis iaith carcharorion gael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ar leoli carcharorion, lle bo'n ymarferol bosibl
- pennu pa ddata sydd ei angen am staff i sicrhau bod nifer digonol o staff yng Nghymru sy'n siaradwyr Cymraeg er mwyn diwallu anghenion carcharorion a throseddwyr ar brawf sy'n siaradwyr Cymraeg
- adolygu prosesau recriwtio, yn enwedig yng Nghymru, i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i recriwtio siaradwyr Cymraeg ar y lefel gywir
- annog sefydlu a rhedeg cymdeithasau a fforymau Cymraeg yng Nghymru, ac ymdrechu i sicrhau eu bod yn weithredol
- parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg a bod yn eglur ynghylch hawl carcharorion i siarad Cymraeg â'i gilydd ac â chysylltiadau allanol, gan nodi'n glir lle bo cyfyngiadau ar hyn o fewn y Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol.

xii.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i weithio i sicrhau bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn cadw at ymrwymiadau eu cynllun iaith. Yn ystod ail hanner 2020 gwnaed honiadau cyhoeddus ynghylch y driniaeth o siaradwyr Cymraeg sy'n garcharorion yng Ngharchar EM Berwyn. Yn sgil hynny, bu'r Comisiynydd mewn cyswllt cyflym ac agos â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a Charchar EM Berwyn er mwyn deall sail yr honiadau, a sicrhau bod unrhyw ddiffygion yn cael eu cywiro'n briodol.

2 Gofal dementia siaradwyr Cymraeg

i.

Gwelwyd newidiadau mawr yn y sector iechyd dros y cyfnod adrodd wrth i awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ers 2016 a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ers 2019 ac wrth i ddyletswyddau ieithyddol cysylltiedig, ond mwy elfennol, gael eu gosod am y tro cyntaf ar ddarparwyr gofal sylfaenol. Yn gefndir i'r cyfan gosododd fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Mwy na geiriau*,[18] raglen waith benodol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol gan bontio'r rhan fwyaf o gyfnod adrodd yr adroddiad hwn.

ii.

Mae *Mwy na geiriau* yn pwysleisio'r ffaith fod gofal yn y Gymraeg yn angen clinigol i nifer, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau a phroblemau iechyd meddwl. Ymhlith y carfannau hyn mae pobl sy'n byw â dementia. Yn ystod 2017 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynllun gweithredu dementia i Gymru. Cyfrannodd y Comisiynydd ymateb ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru a nifer o gyrff eraill gan bwysleisio'r angen am wasanaethau dementia Cymraeg.

iii.

Mae *Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018–22* yn cydnabod bod 'derbyn gofal a chymorth yn eu mamiaith neu'r iaith o'u dewis yn fater o angen clinigol'[19] i siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia ac yn cynnig rhai camau gweithredu i alluogi hynny.

iv.

Yn y cyfamser cydweithiodd Comisiynydd y Gymraeg ac Alzheimer's Society Cymru ar ymchwil yn edrych ar brofiadau siaradwyr Cymraeg o ofal dementia a chyhoeddwyd y canfyddiadau yn yr adroddiad *Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg*[20] ddiwedd 2018. Yn rhan o'r ymchwil ymwelwyd â lleoliadau a oedd yn darparu gofal dementia ar draws Cymru gan gyfweld â deunaw o unigolion oedd yn byw â dementia ac ar gyfnodau gwahanol o fyw â'r cyflwr. Cyfwelwyd hefyd ag ymarferwyr ac uwch swyddogion awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal ag academyddion a oedd yn gweithio ym maes dementia a iechyd, a gofal cymdeithasol.

v.

Canfu'r ymchwil fod deddfwriaeth a pholisïau sydd eisoes yn creu amodau ffafriol ar gyfer darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl sy'n byw â dementia. Gyda'i gilydd mae'r ddeddfwriaeth a'r polisïau o blaid y Gymraeg mewn gofal yn gymharol bwerus. Er hynny, cyflwynodd yr arolwg ddarlun cymysg o'r gofal a dderbyniai siaradwyr Cymraeg a oedd yn byw â dementia.

18 Llywodraeth Cymru, ***Mwy na geiriau: Cynllun Gweithredu 2019–2020*** (2019).
19 Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018–2022*** (2018), t. 31.
20 Gweler yr adroddiad, *Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg*, yn atodiad i lythyr at Dai Lloyd AC yn cyflwyno'r ymchwil: **Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ac Alzheimers Society Cymru ynghylch Gofal Dementia Siaradwyr Cym.pdf (senedd.cymru)**

vi.

Serch enghreifftiau lleol o arfer da ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol ar lefel strategol, dangosodd yr ymchwil fod llawer o fylchau yn y gofal ar lawr gwlad a phrin iawn oedd yr enghreifftiau lle roedd holl anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu. Roedd yr adroddiad felly'n amlygu diffygion yng ngweithrediad y polisïau a'r ddeddfwriaeth gan arwain at ddiffygion mewn gofal i unigolion sy'n byw â dementia: diffygion sy'n gyfystyr â methiant mewn gofal.

Hyfforddi a datblygu'r gweithlu

vii.

Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, nad oes enghreifftiau o ofal da ac ystyrlon yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol i'w gweld yn yr adroddiad. Roedd gweithwyr gofal yn ymdrechu i ddefnyddio cymaint o Gymraeg ag yr oeddent yn gallu ei siarad wrth ddarparu gofal i siaradwyr Cymraeg â dementia ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i wylio a gwrando ar gyfryngau Cymraeg neu dderbyn deunydd darllen Cymraeg, er enghraifft.

viii.

Er hynny, gwelwyd diffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth am effaith dementia ar siaradwyr Cymraeg ymysg y gweithlu ac roedd diffyg hyder staff yn eu sgiliau Cymraeg yn her sylweddol. Mae recriwtio pobl i weithio yn y maes yn broblem gyffredinol, ac mae recriwtio siaradwyr Cymraeg yn her ychwanegol. Amlygwyd yr angen am ragor o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, hyfforddiant gwella sgiliau Cymraeg ynghyd â hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy cyffredinol. Rhaid pwysleisio bod y canfyddiadau hyn o safbwynt y gweithlu'n berthnasol i bob agwedd ar becyn gofal pobl sy'n byw â dementia, boed yn seicolegwyr, yn feddygon teulu, yn therapyddion neu'n weithwyr gofal.

ix.

Ym mis Hydref 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a luniwyd ar y cyd rhwng Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.[21] Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel angen clinigol ac mae nifer o gamau gweithredu yn ymwneud â datblygu'r gweithlu i fedru cynnig gofal yn y Gymraeg.

x.

Mae saith thema strategol yn perthyn i'r strategaeth a'r bwriad yw llunio cynlluniau gweithredu ar gyfer pob thema. Rhaid sicrhau bod egwyddorion y strategaeth yn cael eu gweithredu drwy'r cynlluniau hyn. Yn ymarferol golyga hyn fod angen strategaeth dysgu Cymraeg i'r sector iechyd a gofal a fydd yn sicrhau bod pob ymarferwr yn gadael hyfforddiant iechyd a gofal a ariennir gan arian cyhoeddus gyda sgiliau iaith Gymraeg priodol ac ymwybyddiaeth iaith. Law yn llaw â hyn, mae angen buddsoddi'n sylweddol i wella sgiliau iaith pob gweithiwr iechyd a phob gweithiwr gofal gan adeiladu ar brosiectau presennol Cymraeg Gwaith.

21 Strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol - AaGIC (gig.cymru).

Asesiadau ac adnoddau addas

xi.

Amlygodd adroddiad y Comisiynydd ac Alzheimer's Society Cymru anghysondeb yn ystod y teclynnau, y profion diagnostig a'r adnoddau asesu dementia sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio yn y Gymraeg. Mae tystiolaeth bod cyfrwng iaith asesiadau yn hanfodol wrth gynnal profion gwybyddol a'i fod yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad pobl ynddynt. Gall hyn yn ei dro arwain at oedi wrth i bobl gael diagnosis o ddementia a gall effeithio hefyd ar y pecyn gofal a dderbyniant.

xii.

Dangosodd yr ymchwil fod cyfrwng ieithyddol yr asesiadau oedd ar gael yn dibynnu yn aml ar allu ieithyddol yr ymarferwyr oedd yn cynnal y profion. Cafwyd enghreifftiau cwbl annerbyniol o brofion dementia yn cael eu cynnal gan ymarferwyr Saesneg gyda gweithwyr gofal yn cyfieithu i'r Gymraeg. Nid yw hyn yn deg o safbwynt hawliau'r claf ar y naill law na'r gweithiwr gofal ar y llall. Ysywaeth mae hyn yn nodweddiadol o'r sefyllfa mewn nifer fawr o feysydd eraill lle mae angen asesu gwybyddiaeth a sgiliau cleifion, er enghraifft ym maes anableddau dysgu fel awtistiaeth ac ym maes therapi iaith a lleferydd.

xiii.

Mae gwir angen astudiaeth eang o'r asesiadau gwybyddol sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru gan gynnwys i ba raddau y maent wedi'u safoni ar gyfer anghenion ieithyddol pobl Cymru, yn bobl uniaith Gymraeg, dwyieithog ac amlieithog fel ei gilydd. Rhaid cofio wrth wneud hynny ein bod i gyd yn caffael ieithoedd mewn dulliau gwahanol bellach, boed hynny fel mamiaith neu drwy'r system addysg fel plant ac oedolion, a bod hynny yn ei dro yn gallu effeithio ar ein perfformiad mewn amryfal brofion diagnostig o'r fath.

Arwain, comisiynu a chynllunio gwasanaethau

xiv.

Dangosodd gwaith y Comisiynydd ac Alzheimer's Society Cymru fod diffyg casglu a defnyddio data digonol am sgiliau ieithyddol staff a defnyddwyr, a'i rannu rhwng asiantaethau, yn llesteirio cynllunio gwasanaethau dementia.

xv.

Bellach mae safonau gweithredu sy'n berthnasol i fyrddau iechyd ac i awdurdodau lleol fel ei gilydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau hyn asesu sgiliau eu gweithluoedd. Rhaid sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wedyn i gynllunio gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn y lle iawn i'r bobl iawn ar yr amser iawn. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i bawb sy'n rhan o becyn gofal unigolyn siarad Cymraeg yn rhugl, ond bod ganddynt lefel addas ar gyfer anghenion eu swyddi mewn perthynas ag anghenion y bobl y byddant yn gofalu amdanynt.

xvi.

Amlygodd adroddiad y Comisiynydd ac Alzheimer's Society Cymru amheuaeth hefyd ynghylch y graddau y mae'r cynnig rhagweithiol wedi treiddio o fod yn gysyniad polisi i fod yn realiti lle ceir dealltwriaeth wirioneddol o ystyr ymarferol y cysyniad ar lawr gwlad. Cred y Comisiynydd fod angen cynnal adolygiad o'r graddau y mae dealltwriaeth o'r cynnig rhagweithiol a gallu neu angen clinigol pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg wedi treiddio ac yn weithredol ymysg gweithwyr iechyd. Mae hynny'n arbennig o wir ymysg y rheini sy'n darparu gofal i grwpiau a flaenoriaethir, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn a phobl â phroblemau iechyd meddwl.

xvii.

Bellach mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau sy'n cael eu caffael gan awdurdodau lleol a chyrff iechyd gydymffurfio â gofynion y safonau i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwelwyd enghreifftiau cadarnhaol yn yr ymchwil o gynnwys gofynion am y Gymraeg wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a monitro'r darpariaethau hynny, ond rhaid sicrhau bod hyn yn parhau ac yn digwydd yn eang.

xviii.

Nid oedd llawer o dystiolaeth yn yr adroddiad fod cydweithio aml-asiantaeth yn digwydd yn eang i sicrhau bod y bobl sydd ei angen yn derbyn gwasanaeth Cymraeg. Wrth i becynnau gofal bontio gwaith awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr trydydd parti, rhaid i'r asiantaethau hyn gydweithio'n effeithiol i sicrhau bod unigolion yn derbyn gofal yn y Gymraeg. Rhaid nodi, er hynny, y gwelwyd enghreifftiau o arfer da; gwelwyd cydweithio â grwpiau lleol a sefydliadau trydydd sector, er enghraifft, i lenwi bylchau mewn sgiliau staff a darparu profiad Cymraeg i unigolion.

xix.

Yn olaf, casglwyd o'r ymchwil fod angen hyrwyddo'r ddealltwriaeth o angen clinigol pobl â dementia i gael gwasanaethau Cymraeg, a bod angen sicrhau'r hawl hwn drwy gynllunio gwasanaethau, cydweithio rhwng asiantaethau, a thrwy brosesau recriwtio a darparu addysg a hyfforddiant i weithwyr proffesiynau sy'n rhan o'r pecyn gofal i bobl â dementia.

xx.

Ym mis Medi 2020 cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia. Canfu'r adolygiad fod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n siarad Cymraeg sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n helaeth yn derbyn eu gofal yn Gymraeg. Er hynny, gwelwyd pobl sy'n siarad Cymraeg mewn cartrefi lle nad oedd unrhyw staff a oedd yn siarad Cymraeg nac unrhyw weithgareddau nac adnoddau Cymraeg ar eu cyfer. Adroddir bod llai na hanner y cartrefi gofal yn darparu gwasanaeth dwyieithog ac nad oedd llawer o gartrefi gofal yn nodi bod staff yn siarad Cymraeg. Dywedir y '[g]allai hyn fod yn niweidiol i bobl y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg ac amharchu eu hawliau unigol.'[22]

22 Arolygiaeth Gofal Cymru, ***Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia*** (Medi 2020), t. 6.

xxi.

Yn gyffredinol, mae nifer o ganfyddiadau'r adolygiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau ymchwil y Comisiynydd ac Alzheimer's Society Cymru ddwy flynedd ynghynt. Noda'r Arolygiaeth bod 'angen i gomisiynwyr gysoni cynlluniau comisiynu â'r angen a ragwelir am leoliadau Cymraeg a gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y broses o gynllunio gwasanaethau yn canolbwyntio ar anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Hefyd, dylai darparwyr, comisiynwyr a Gofal Cymdeithasol Cymru gefnogi'r broses o addysgu a gwella sgiliau Cymraeg staff gofal.'[23] Mae'n siom felly na welwyd gwelliant yn y sefyllfa er gwaethaf ein gwaith ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru.

xxii.

Rhaid cydnabod nad mater hawdd fydd datrys yr anawsterau a amlygwyd gennym mewn perthynas â darparu gofal dementia i siaradwyr Cymraeg, anawsterau sy'n cael eu hadlewyrchu yn gyffredinol wrth ddarparu gofal yn y Gymraeg. Er hynny, o'u gweithredu'n addas, mae camau strategol a statudol y blynyddoedd diweddar yn cynnig peth gobaith bod gwelliannau yn bosibl yn y gofal a ddarperir. Yn benodol, rhaid ystyried pwysigrwydd safon 110 y mae gofyn i bob bwrdd iechyd gydymffurfio ag ef lle mae gofyn iddynt gyhoeddi cynlluniau 5-mlynedd yn nodi i ba raddau y gallant gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg ac, yn hanfodol, y camau y bwriadant eu cymryd i gynyddu eu gallu i wneud hynny.

xxiii.

Rhaid sicrhau bod gan y cynlluniau clinigol hyn gysylltiad uniongyrchol â'r gwaith cenedlaethol o gynllunio gofal clinigol sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu ac adnoddau ac asesiadau fel ei gilydd. Nodwyd eisoes bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu a phwysigrwydd y camau ymarferol a fydd yn deillio o strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid pwysleisio eto fod angen ystyried yn llawn sut orau mae medi a defnyddio'r wybodaeth am y gweithlu sy'n deillio o weithredu'r safonau er mwyn datblygu a chynllunio'r gweithlu a gwasanaethau fel ei gilydd.

xxiv.

Ni fyddai'n dderbyniol i adroddiad 5-mlynedd nesaf y Comisiynydd orfod adrodd ar enghreifftiau annerbyniol o ddiffygion mewn gofal siaradwyr Cymraeg sy'n byw â dementia, nac unrhyw gyflwr arall chwaith. Ni fyddai hynny'n gwneud cyfiawnder â'r camau cadarnhaol diweddar a welwyd yn y maes.

xxv.

Bydd angen arweiniad a gweledigaeth glir gan Lywodraeth Cymru i ysgogi ac arwain y gwaith, a dealltwriaeth o swyddogaeth a chyfraniad nifer fawr o bartneriaid, gan gynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol; darparwyr preifat; comisiynwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant; rheoleiddwyr a cholegau brenhinol, ynghyd â myrdd o asiantaethau eraill.

xxvi.

Rhaid i'r holl bartneriaid hyn adnabod a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd er mwyn sicrhau nad cnau gweigion mo'r gofynion deddfwriaethol na'r strategaethau hyn. Mae dyletswydd arnynt i berchnogi'r gwaith er mwyn sicrhau nad oes yr un siaradwr Cymraeg yn dioddef derbyn gofal o ansawdd is am nad yw'r Gymraeg wedi cael ei hystyried yn rhan greiddiol o ddarparu'r gofal hwnnw.

23 **Ibid.**, t. 8.

2 Busnesau a'r trydydd sector

2.1

Trafodwyd hyd yma'r gweithleoedd a'r gwasanaethau sydd dan ddylanwad uniongyrchol safonau'r Gymraeg. Ond mae'n debygol iawn bod canran uchel o'r gwasanaethau rydym yn eu defnyddio a'u mwynhau yn ein bywyd beunyddiol yn cael eu darparu gan sectorau sy'n syrthio y tu allan i gwmpas Mesur y Gymraeg: gelwir hwy yn 'sectorau anstatudol' yn yr adroddiad hwn. Cyfeiria'r term gan amlaf at fusnesau ac elusennau.

2.2

Mae'r gwasanaethau a gynigir gan y sectorau hyn yn cael dylanwad mawr ar ein profiad o fywyd bob dydd. Wrth grwydro'r stryd fawr o siop fawr boblogaidd i siop elusen cyn galw i mewn i fwyty, tafarn neu fanc, neu wrth daro i'r archfarchnad neu archebu nwyddau ar lein, mae gwasanaethau anstatudol yn rhan fawr o wead ein diwrnod. Yn gynyddol mae'r gwasanaethau y byddwn wedi arfer eu derbyn dros y cownter yn symud ar lein, a'r duedd hon wedi cyflymu eto o ganlyniad i gyfyngiadau symud pandemig COVID-19.

2.3

Ond nid gwasanaethau er cyfleustra neu hamdden yw'r unig rai y cyfeirir atynt yn y bennod hon chwaith. Gall unigolion gael ymwneud agos â sefydliadau trydydd sector wrth dderbyn cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, ac mae rhai yn dibynnu ar wasanaethau o'r fath; yn wasanaeth cyfeillio er mwyn cael cwmnïaeth, yn wasanaeth cyngor ac eirioli neu'n wasanaeth cludiant i'r dref agosaf neu i apwyntiad meddygol, er enghraifft.

2.4

Ceir dros 267,000 o fusnesau yng Nghymru sy'n cyflogi 2.1 miliwn o bobl,[24] a thros 8,100 o elusennau a 32,000 o sefydliadau trydydd sector sy'n cyflogi 99,750 o bobl.[25] Mae cyfraniad y trydydd sector at hyfywedd ein cymunedau Cymraeg yn sylweddol wrth ystyried gweithgareddau cyrff fel yr Urdd, Merched y Wawr, y mentrau iaith a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc. Ac wrth i fusnesau ac elusennau fritho'r stryd fawr, mae cyfle gwirioneddol yma i ddylanwadu ar eu defnydd hwythau o'r Gymraeg ac ar amlygrwydd y Gymraeg yn gyffredinol.

24 Llywodraeth Cymru, ***Statistical First Release: Size Analysis of Active Businesses in Wales, 2019*** (5 Rhagfyr 2019), t. 1.
25 **Porth Data CGGC (wcva.cymru)**.

2.5

Does dim dwywaith nad yw amlygrwydd y Gymraeg yn y sector hwn yn cael effaith fawr ar ein canfyddiad o berthnasedd yr iaith i'r byd modern. Yma, byddwn yn ystyried rhai ymdrechion yn ystod y cyfnod adrodd i fynd i'r afael â'r her o gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg y sefydliadau sy'n perthyn i'r sectorau anstatudol.

Y fantais i fusnesau ac elusennau

2.6.

Oni bai fod busnes yn un Cymraeg yn ei hanfod, bod gofyn iddo ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o amod derbyn grant neu nawdd, neu bod awydd naturiol i ddefnyddio'r iaith gan unigolion, y gwir amdani yw bod yn rhaid mynd ati'n rhagweithiol i ddangos budd a mantais defnyddio'r iaith i nifer o fusnesau ac elusennau. Mae ystadegau'n dangos bod y cyhoedd yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg â 86% o'r boblogaeth 'yn teimlo bod yr iaith Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi', a '67% yn credu bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith'.[26]

86%

yn teimlo bod yr iaith Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi.

67%

yn credu bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith.

2.7.

Yn ôl ymchwil Cyngor ar Bopeth yn 2015, roedd 90% o'r rhai a holwyd 'yn teimlo bod gallu cyfathrebu â sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn golygu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel cwsmeriaid', a 94% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl a holwyd 'yn teimlo bod gwasanaeth Cymraeg da yn helpu cwmni i greu argraff'.[27]

2.8.

Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan y Comisiynydd yn 2018,[28] mae'r ysgogiad i fuddsoddi yn y Gymraeg yn amrywio yn ôl maint y busnes. I gwmnïau mawr â thros 250 o staff, er enghraifft, gall ffactorau fel disgwyliadau'r cwsmer, egwyddorion corfforaethol, pwysau gwleidyddol, cystadleuaeth cwmnïau eraill, a'r gosb fasnachol o beidio â defnyddio'r iaith effeithio ar benderfyniad y cwmni i fuddsoddi yn y Gymraeg. Mae buddsoddiad cwmnïau canolig eu maint â rhwng 50–249 o staff yn dibynnu, ar y llaw arall, ar iaith yr ardal y lleolir y busnes, ar farn wleidyddol ac egwyddorion personol.

26 Llywodraeth Cymru, ***Bwletin Ystadegol: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017–18, Y Gymraeg: Hyder ac agweddau*** (10 Hydref 2018), t. 1.
27 Cyngor ar Bopeth, ***Hefyd ar gael yn Gymraeg: deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg*** (2015), t. 8.
28 Ymchwil er mwyn casglu barn y sector busnes gan Wavehill ar ran Comisiynydd y Gymraeg (2018).

2.9.

Mae cwmnïau bach â rhwng 10–49 o staff yn fwy tebygol o fuddsoddi yn y Gymraeg os oes budd i'r busnes o wneud hynny, os yw cynnig y Gymraeg yn rhinwedd er mwyn ennill cytundebau, os oes budd o ran marchnata, neu os oes dylanwadau gwleidyddol neu bersonol yn effeithio ar y penderfyniad. Mae buddsoddiad cwmnïau micro (1–10 o staff), ar y llaw arall, yn ddibynnol ar ofynion cwsmeriaid neu gleientiaid a gofynion tendr.

2.10

O wybod beth sy'n sbarduno gwahanol gwmnïau i ystyried y Gymraeg, haws yw cynllunio cefnogaeth strategol a theilwra achos busnes dros ddefnyddio'r Gymraeg ar eu cyfer. Yn sgil canfyddiadau'r arolwg, cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad yn crynhoi'r achos busnes dros ddefnyddio'r Gymraeg gan ddangos sut mae nifer o fusnesau'n cynnig gwasanaethau Cymraeg a sut maent yn elwa o wneud hynny.[29] Ymatebodd 82 o fusnesau i'r arolwg, ac mae'r ymchwil yn dangos bod gan lawer o fusnesau arferion da wrth ddefnyddio'r Gymraeg:



Dywedodd 60% bod eu brandio'n ddwyieithog.



Dywedodd 65% bod eu harwyddion yn ddwyieithog eisoes.



Dywedodd 63% eu bod wedi gwneud peth gwaith marchnata dwyieithog neu Gymraeg.



Dywedodd 79% bod ganddynt staff oedd yn gallu siarad Cymraeg a'u bod yn gallu darparu rhai gwasanaethau yn Gymraeg.



Dywedodd 72% bod defnyddio'r Gymraeg â chwsmeriaid a chleientiaid yn wasanaeth allweddol sy'n gweithio'n dda iddynt.

29 Comisiynydd y Gymraeg, *Defnyddio'r Gymraeg – yr achos busnes* (2018).

2.11

Dangosodd yr ymchwil hefyd fod:[30]

76%

yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod defnyddio'r Gymraeg yn denu cwsmeriaid.

82%

yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod defnyddio'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth ar gynnyrch neu wasanaeth.

84%

yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod defnyddio'r Gymraeg yn gwella brand y busnes.

2.12

Does dim dwywaith felly nad oes awydd i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg o fewn y sectorau anstatudol, ond heb orfodaeth uniongyrchol arnynt i ystyried y Gymraeg, mae gofyn am waith mawr i ddwyn perswâd ac i addysgu cwmnïau, rhai sydd â'u pencadlysoedd y tu allan i Gymru. Rhaid yw hefyd hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael iddynt, a mynd ati'n rhagweithiol i gynnig y cymorth hwnnw'n hwylus.

O ble y daw cymorth?

2.13

Mae'r gwaith o ddylanwadu ar y sectorau anstatudol a chynnig cymorth ymarferol wrth iddynt ddatblygu eu darpariaethau Cymraeg yn cael ei rannu yn bennaf rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg: y Comisiynydd yn canolbwyntio gan fwyaf ar fusnesau mawr a chanolig ac elusennau, a'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar gynorthwyo busnesau bach i ehangu eu gwasanaethau Cymraeg. Mae llu o bartïon eraill hefyd fel y mentrau iaith, Menter a Busnes a chwmnïau preifat fel Ateb ac Iaith Cyf. yn chwarae rhan wrth hyrwyddo'r Gymraeg, naill ai yn rhan o gytundeb â'r Llywodraeth neu am eu bod yn manteisio ar gyfleoedd masnachol.

2.14

Sefydlodd Llywodraeth Cymru brosiect Cymraeg Byd Busnes ym mis Ebrill 2017 a gâi ei weithredu gan Fentrau Iaith Cymru rhwng 2017–20. Penodwyd 12 o swyddogion ledled Cymru er mwyn cynnig cymorth dwys un i un i fusnesau bychain, cyfieithu am ddim ac adnoddau marchnata fel arwyddion agor a chau ar gyfer siopau. Ym mis Chwefror 2020, ailfrandiwyd Cymraeg Byd Busnes yn Helo Blod a'r swyddogion yn swyddogion Helo Blod Lleol.

30 Ibid., t. 4.

2.15

Mae Helo Blod yn rhan o Fusnes Cymru ac yn wasanaeth ar lein, ar y ffôn a wyneb yn wyneb sy'n cynnig cyngor a chyfieithu hyd at 500 o eiriau am ddim y mis, ynghyd â gwirio testun hyd at 1,000 o eiriau'r flwyddyn am ddim. Mae arwyddion cynnar bod y gwasanaeth yn boblogaidd; rhwng dechrau Chwefror a diwedd Rhagfyr 2020, ymdriniwyd â 1,675 o geisiadau gan fusnesau, elusennau ac unigolion am gyngor, cyfieithu neu wirio testun.[31]

2.16

Nod Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg yw cynorthwyo a llywio taith busnesau ac elusennau at fan lle mae'r Gymraeg yn ystyriaeth strategol hirdymor ganddynt. Gwneir hyn trwy ganolbwyntio ar annog sefydliadau i ddatgan pa wasanaethau Cymraeg fydd ar gael ganddynt ac yna'u cynorthwyo i lunio polisi ac amserlen er mwyn gwireddu'r cynlluniau. Mae'r tîm hefyd yn cynnal seminarau a chyfarfodydd unigol â sefydliadau, ac yn cynnal a chyhoeddi ymchwil er mwyn cyflwyno'r achos busnes dros fuddsoddi yn y Gymraeg. Cyhoeddwyd ymchwil i'r Gymraeg mewn archfarchnadoedd yn 2017,[32] ac adroddiad yn crynhoi'r adborth gan fusnesau sydd wedi manteisio ar y Gymraeg yn 2019, er enghraifft.[33]

2.17

Mae'r Comisiynydd hefyd yn cynnig gwasanaeth prawfddarllen am ddim, hyd at 1,000 o eiriau'r flwyddyn, er mwyn annog a datblygu hyder siaradwyr Cymraeg mewn busnesau ac elusennau i roi cynnig ar ddefnyddio eu Cymraeg eu hunain yn hytrach na dibynnu ar gyfieithwyr. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddefnyddio'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf a'r nifer o fusnesau ac elusennau sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn amrywio'n flynyddol; defnyddiwyd y gwasanaeth gan dros 100 o gyrff gwahanol yn 2016–17,[34] tra y'i defnyddiwyd gan 68 o gyrff gwahanol yn 2019–20.[35]

2.18

Mae cyfres o ganllawiau hefyd ar gael gan y Comisiynydd i gynorthwyo busnesau ac elusennau i ddylunio'n ddwyieithog a gwneud cais am gontract neu grant, er enghraifft. Cyhoeddwyd y canllaw diweddaraf ar ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol yn 2018.[36] Yn ogystal â rhannu'r canllawiau hyn, cynhyrchwyd fideos er mwyn cyflwyno'r achos busnes dros ddefnyddio'r Gymraeg mewn amryw feysydd.

2.19

Caiff sesiynau hyfforddiant 'Dwyieithrwydd ar Waith' hefyd eu cynnig gan swyddogion y Comisiynydd drwy law Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chronfa Gymunedol y Loteri. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri'n gwahodd y rhai sy'n derbyn nawdd ganddynt yng Nghymru i fynychu'r sesiynau hyfforddiant ers 2017. Ddiwedd 2020 roedd 16 sesiwn wedi eu cynnal a 121 o gynrychiolwyr wedi derbyn yr hyfforddiant tra bo Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn amcangyfrif bod 105 o bobl wedi mynychu'r sesiynau hyfforddiant ers 2016. Nod y sesiynau hyn yw rhannu enghreifftiau o arfer da wrth ddylunio'n ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, trafod manteision cynnig gwasanaethau dwyieithog i'r sefydliad a'r defnyddiwr, a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau wneud hynny.

31 Daw'r ffigur hwn o e-bost gan Lywodraeth Cymru at Gomisiynydd y Gymraeg.
32 Comisiynydd y Gymraeg, *Y Gymraeg yn y fasged siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd* (2017).
33 *Defnyddio'r Gymraeg – yr achos busnes.*
34 Comisiynydd y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2016–17* (2017), t. 74.
35 Comisiynydd y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2019–20* (2020), t. 24.
36 Comisiynydd y Gymraeg, *Defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol: Canllaw ymarferol i fusnesau ac elusennau* (2018).

2.20

Lansiodd y Comisiynydd holiadur hunan asesu ar lein yn 2016 er mwyn i fusnesau ac elusennau adnabod eu cryfderau a'u gwendidau ac i'w hannog i lunio cynllun datblygu'r Gymraeg. Erbyn hyn mae'r hunanasesiad wedi ei gwblhau dros 400 o weithiau. Er mor galonogol yw bod cymaint o sefydliadau wedi mynd ati i ddefnyddio'r asesiad yn bwrpasol ac fel arf i ystyried eu darpariaeth Gymraeg, am amryw o resymau, isel oedd y nifer aeth ati i gymryd y cam pellach o lunio cynllun datblygu'r Gymraeg, â dim ond tua 15% yn cyhoeddi cynllun ffurfiol wedi ei gymeradwyo gan y Comisiynydd. O'r herwydd, addaswyd y cynllun a sefydlwyd y Cynnig Cymraeg.

Y Cynnig Cymraeg

2.21

Yn sgil yr ymchwil a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2018 i ganfyddiad busnesau ac elusennau o werth y Gymraeg a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol,[37] adnabuwyd bod angen rhoi cydnabyddiaeth i'r rheini sy'n frwd dros yr iaith. Adnabuwyd hefyd yr angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Nodwyd bod tystiolaeth o gynnydd mewn defnydd o'r gwasanaethau yn abwyd allweddol sy'n gyrru buddsoddiad pellach gan fusnesau.

2.22

Fis Gorffennaf 2020 lansiodd Comisiynydd y Gymraeg y cynllun Cynnig Cymraeg er mwyn i fusnesau ac elusennau ei gwneud yn amlwg i'r cyhoedd pa wasanaethau Cymraeg maen nhw'n eu cynnig â'r nod o geisio cynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg hynny. Mae'r Cynnig Cymraeg hefyd yn fodd o gydnabod ymdrechion y sefydliadau hynny sy'n profi eu bod o ddifri am gynllunio gwasanaethau Cymraeg.

2.23

Er mwyn ennill cydnabyddiaeth y Comisiynydd, rhaid i sefydliad gwblhau hunanasesiad, llunio Cynllun Datblygu'r Gymraeg ac adnabod o leiaf pum gwasanaeth Cymraeg a gynigir ganddynt ac sy'n barod i'w hyrwyddo. Cwblhawyd yr hunanasesiad gan 89 o fusnesau ac elusennau yn y cyfnod o chwe mis rhwng lansio'r cynllun a diwedd 2020. Llwyddodd chwe sefydliad i dderbyn cydnabyddiaeth swyddogol y Comisiynydd a chymorth dilynol gan swyddogion y Comisiynydd i hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a chynyddu'r defnydd ohonynt.

37 *Defnyddio'r Gymraeg – yr achos busnes.*

Arianwyr cyhoeddus

2.24

Mae nifer o sefydliadau cyhoeddus sy'n ariannu neu sy'n cynnig grantiau i brosiectau a mentrau anstatudol yn sefydliadau sydd dan safonau. Ymhlith yr arianwyr cyhoeddus hyn mae Cronfa Gymunedol y Loteri, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, a nifer o adrannau Llywodraeth Cymru fel Croeso Cymru, Busnes Cymru, yr Adran Digwyddiadau Mawr ac Adran yr Economi. Mae gofyn i'r sefydliadau hyn, ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, fod â pholisi dyfarnu grantiau sy'n manylu ar sut y maent yn ystyried cyfleoedd i hybu'r Gymraeg wrth ddyrannu grantiau neu nawdd.

2.25

Mae'r graddau mae sefydliadau'n hybu'r Gymraeg yn eu gofynion wrth ddyrannu grantiau yn amrywio'n fawr â nifer o ohonynt heb bolisi dyfarnu grantiau wedi ei gyhoeddi o gwbl. Mae gan rai sefydliadau sy'n dyfarnu grantiau fel eu prif weithgaredd, fodd bynnag, fel y rhai a enwyd uchod, bolisïau mewn lle erbyn hyn er mwyn sicrhau bod eu grantiau'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, er enghraifft, yn gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ystyried y Gymraeg wrth wneud ceisiadau am grantiau, a gall methiant i wneud hynny fod yn rheswm dros beidio â chynnig grant. Caiff gofynion ynghylch gwasanaethau a marchnata yn Gymraeg eu cynnwys yn yr amodau grant ganddynt hefyd. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri yn enghraifft arall o gorff dyfarnu grantiau sy'n gofyn i ymgeiswyr am grantiau i weithredu eu prosiectau yn ddwyieithog ac yn cynnig cefnogaeth iddynt wneud hynny. Ânt hefyd ati i chwilio am gyfleoedd i gefnogi ceisiadau Cymraeg drwy dimau ariannu lleol gan gydweithio â sefydliadau cymunedol gan gynnwys y mentrau iaith, Merched y Wawr, a'r Mudiad Meithrin.[38]

Archfarchnadoedd

2.26

Mae'r Gymraeg bellach i'w gweld yn amlwg mewn nifer fawr o archfarchnadoedd. Mae arwyddion dwyieithog yn ein tywys trwy'r siop, a lleisiau Cymraeg yn ein cyfarch wrth y til a thros yr uchelseinydd. Gwelwn fod y Gymraeg hefyd wedi dod yn rhan o gynllun busnes nifer o fusnesau rhyngwladol yng Nghymru, ac mae tystiolaeth gynyddol eu bod yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg i'w cwsmeriaid.

2.27

Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015, mae siopwyr yng Nghymru yn ymweld ag archfarchnad o ryw fath 4.6 o weithiau'r wythnos ar gyfartaledd.[39] Hyn cyn argyfwng COVID-19 wrth gwrs, ac mae'n bosibl iawn fod arferion wedi newid yn sylweddol yn ystod yr argyfwng, dros dro o leiaf. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, i archfarchnadoedd ystyried sut i gryfhau eu perthynas â'u cwsmeriaid ac mae defnyddio'r Gymraeg yn sicr yn un ffordd o ddenu a chadw cwsmeriaid.

38 ***Cau'r Bwlch: Adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2019–20,*** tt. 74–5.
39 Ymchwil gan Kantar Worldpanel i Lywodraeth Cymru: *Grocery Shopping in Wales* (Gorffennaf 2015).

2.28

Cytunodd 68% o'r rhai a holwyd mewn arolwg yn 2016 eu bod yn 'hoffi gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan archfarchnadoedd yng Nghymru' ac roedd dros hanner (55%) yn anghytuno â'r datganiad bod 'gweld archfarchnadoedd yn defnyddio'r Gymraeg yn golygu dim i mi'.[40] Dyma amlygu fod y cwsmer yn gweld gwerth i'r Gymraeg yn yr archfarchnad a bod siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg yn gwerthfawrogi pan fo'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gan y siopau mawrion.



68%

yn hoffi gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan archfarchnadoedd yng Nghymru.

2.29

Bu'r Comisiynydd yn gweithio'n agos ag archfarchnadoedd dros y pum mlynedd diwethaf a defnyddiwyd yr ymchwil *Y Gymraeg yn y fasged siopa* i ddwyn perswâd arnynt i ddefnyddio rhagor ar y Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfodydd fforwm rhwng 2017–20 gyda busnesau fel Asda, Tesco, Aldi, Co-op, Lidl, Waitrose, Morrisons, Sainsbury's a Marks and Spencer er mwyn rhannu canfyddiadau'r ymchwil, rhannu arferion da a chlywed am yr heriau a'r anghysondebau ar draws y sector. Cafwyd ymateb cadarnhaol â nifer o uwch swyddogion archfarchnadoedd yng Nghymru yn falch fod ymchwil a thystiolaeth ar gael i'w rhannu â phenaethiaid y tu allan i Gymru am fuddion cymdeithasol ac economaidd cynnig gwasanaethau Cymraeg.

2.30

Er y cynnydd, mae'r sefyllfa'n parhau'n anghyson ar draws y wlad, ond mae'r awydd i blesio cwsmeriaid ac osgoi cwynion ynghylch arwyddion uniaith Saesneg, er enghraifft, yn gyson gryf. Ar y cyfan, mae'n wir mai cystadleuwyr newydd i'r farchnad, neu gwmnïau sy'n ceisio ennill cwsmeriaid newydd drwy feithrin 'enw da' yn y gymuned, oedd y cwmnïau mwyaf brwd i fynd ati i gynnig gwasanaethau Cymraeg newydd yn ystod y cyfnod adrodd.

40 *Y Gymraeg yn y fasged siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd*, t. 14, 16.

2.31

Penderfynodd Co-op, er enghraifft, eu bod am arwain â'u harwyddion dwyieithog, ac maent yn sôn yn gyson yn gyhoeddus am eu profiadau cadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg i farchnata cynnyrch o Gymru. Aethant ati hefyd i ddarlledu rhaglen radio ddwyieithog yn eu siopau unwaith yr wythnos ac archebu bathodynnau Iaith Gwaith wedi iddynt adnabod sgiliau iaith staff. Mae Lidl hefyd yn enghraifft o archfarchnad sydd wedi gweithio â'r Comisiynydd, wedi iddynt dderbyn cwynion am ddiffyg arwyddion Cymraeg, i sicrhau bod eu holl arwyddion yn ddwyieithog, a'r Gymraeg yn flaenllaw ar rai o'r rheini.

2.32

Ond mae lle i wella o hyd. Gallai archfarchnadoedd fynd ati i ehangu eu gwasanaethau Cymraeg ar-lein a theilwra iaith eu deunyddiau marchnata drwy gofnodi dewis iaith cwsmeriaid sy'n aelodau o gynlluniau teyrngarwch. Roedd nifer o'r archfarchnadoedd oedd yn cyfrannu at gyfarfodydd y fforwm yn cydnabod bod angen cofnodi neu ddiweddaru'r wybodaeth am allu staff i siarad Cymraeg, ac mae cyfleoedd rhwydd yma hefyd iddynt ddefnyddio a hyrwyddo sgiliau ieithyddol staff yn fwy effeithiol drwy ddefnyddio bathodynnau Iaith Gwaith.

Bancio

2.33

Mae'r ffordd rydym yn bancio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd wrth i nifer ohonom symud o ddefnyddio canghennau'r stryd fawr i fancio ar lein neu ar ap.

2.34

Er bod gwasanaethau, staff ac arwyddion Cymraeg yn dal i'w cael yn y canghennau eu hunain, a llinellau ffôn Cymraeg yn dal ar gael gan Lloyds, Natwest, Barclays a HSBC, sef y pedwar banc mwyaf yng Nghymru, nid yw'r un banc yn cynnig gwasanaeth bancio ar lein yn Gymraeg hyd yma. Dyma broblem gynyddol pan fo canghennau lleol yn cau a'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r banc yn Gymraeg yn prinhau o'r herwydd, yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg.

2.35

Ddiwedd cyfnod adrodd yr adroddiad 5-mlynedd diwethaf cyhoeddodd y Comisiynydd adolygiad o wasanaethau Cymraeg banciau'r stryd fawr yng Nghymru. Casglodd yr adroddiad nad oedd y gwasanaethau Cymraeg oedd ar gael mewn canghennau wedi symud gyda'r oes i gael eu cynnig ar lein ac nad oedd y banciau'n hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol. Yr un oedd canfyddiadau adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ym mis Hydref 2019. Mae'r adroddiad hwnnw'n trafod y syniad o sefydlu banc cymunedol i Gymru ac argymhellir yno y 'dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynnig bancio cymunedol yng Nghymru yn ystyried yn llawn yr angen i ddarparu gwasanaethau bancio dwyieithog'.[41]

41 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Mynediad at Fancio*** (Hydref 2019), t. 55.

2.36

Ar hyn o bryd, mae gan saith o'r banciau mawrion bolisïau iaith, a cheir datganiad ynghylch y Gymraeg ar wefannau chwech ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o'r banciau amlycaf yn defnyddio arwyddion dwyieithog yn eu canghennau a'r rhan fwyaf hefyd yn cynnig y Gymraeg ar eu peiriannau twll yn y wal. Ond er hynny, gall y sefyllfa fod yn anghyson ar draws y wlad a gall amrywio o gangen i gangen o fewn yr un cwmni. Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r rhan fwyaf o fanciau wedi diweddaru eu polisïau yn ymwneud â'r Gymraeg, ond er gwaethaf ymdrechion y Comisiynydd a gwaith cynllunio gan nifer o fanciau, ni chafwyd ymrwymiad ynghylch darparu gwasanaethau bancio ar lein yn Gymraeg. Gwelwyd rhai arwyddion cadarnhaol, fodd bynnag, ymhlith rhai o'r banciau newydd sy'n ymddangos yn llawer parotach hyd yma i roi cynnig ar y Gymraeg mewn ymdrech i ddenu cwsmeriaid newydd a phrofi eu hagosatrwydd at y gymuned. Mae'r banciau newydd hyn yn dueddol o fod yn eiddo i fanciau mawr rhyngwladol sydd wedi arfer â gweithio'n amlieithog ac efallai fod hynny'n rheswm arall am eu hagwedd unrhyw-beth-yn-bosibl tuag at gynnwys y Gymraeg yn rhan o'u gwasanaethau.

2.37

Mae Metro Bank yn enghraifft o un o'r banciau newydd hyn. Agorodd ddwy gangen yng Nghaerdydd ddechrau 2020 ac mae wedi gweithio'n agos â Chomisiynydd y Gymraeg i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a sicrhau bod eu harwyddion yn ddwyieithog. Yn 2020, ehangodd cymdeithas adeiladu'r Principality eu gwasanaeth Cymraeg hefyd gan lansio ap a gwefan ddwyieithog i addysgu plant ynghylch sut i gynilo. Nododd y Principality fod oddeutu 10% o'r ymweliadau ag ap Cuddfan Dylan a gwefan Sgwad Safio Dylan wedi defnyddio'r ochr Gymraeg.[42]

42 Casglwyd ystadegau gan fanc y Principality fis Mawrth 2021, lle roedd 392 o sesiynau wedi bod ar ochr Gymraeg ap Cuddfan Dylan, a 440 o ymweliadau wedi bod ag ochr Gymraeg gwefan Sgwad Safio Dylan.

2.38

Banc arall sydd wedi datblygu eu gwasanaeth Cymraeg yw Santander a lansiodd wasanaeth twll yn y wal newydd sy'n cofio dewis iaith y defnyddiwr.

Astudiaeth achos: Santander

Ddiwedd 2016, fe gyflwynom ni beiriant twll yn y wal sy'n cofio dewis iaith cwsmeriaid ar draws y Deyrnas Unedig. Unwaith mae cwsmer wedi dewis Cymraeg fel iaith wrth ddefnyddio cerdyn debyd neud gredyd yna bydd y peiriant yn cofio'r dewis at y tro nesaf bydd y cerdyn yn cael ei ddefnyddio.

Rydym yn monitro'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r Gymraeg ar y peiriannau ar draws y Deyrnas Unedig, a thra bod yr ystadegau o'r defnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru yn galonogol, mae defnydd sylweddol yn cael ei wneud o'r Gymraeg ar beiriannau y tu allan i Gymru, yn enwedig mewn dinasoedd poblog fel Llundain a Manceinion.

Rhwng 1 Ionawr a 31 Mai 2017, dewiswyd y Gymraeg ar y peiriannau 53,734 o weithiau. Gwelwyd y defnydd mwyaf yn ardal gogledd Cymru a Chilgwri lle dewiswyd y Gymraeg 5,204 o weithiau ac yn ail oedd de Cymru â'r Gymraeg yn cael ei dewis 5,164 o weithiau. Gwelwyd mai'r drydedd ardal a wnaeth y defnydd mwyaf o'r dewis Cymraeg oedd Gorllewin Canol Llundain â 2,101 o ddefnyddwyr ac yna Birmingham lle roedd 2,065 o ddefnyddwyr. Mae ein ffigyrau'n dangos i'r Gymraeg gael ei dewis dros 1,000 o weithiau mewn 17 o ardaloedd eraill y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2018 wedyn, buom yn cydweithio â Choleg Caerdydd a'r Fro er mwyn cyflwyno rhaglen Gymraeg bwrpasol dros gyfnod o bum mis i weithwyr ar draws canghennau'r banc yng Nghymru gyda'r nod o wella sgiliau Cymraeg ein cyflogeion.

"Mae'r iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru ac yn rhan o'r hyn sy'n diffinio Cymru fel cenedl. Mae'n bwysig ein bod ni yn Santander yn adlewyrchu'r cwsmeriaid rydyn ni'n eu gwasanaethau drwy alluogi i'n cydweithwyr ni yng nghanghennau Cymru ddysgu a siarad Cymraeg er budd ein cwsmeriaid ni a'r gymuned leol."

Wayne Blakemore,
Rheolwr rhanbarthol Santander

Elusennau

2.39

Mae dangos agosatrwydd â'r gymuned yn fanteisiol i elusennau hefyd er mwyn denu cyfranwyr: mae manteision amlwg felly i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r British Heart Foundation yn enghraifft o elusen sydd wedi elwa'n sylweddol o ddatblygu rhwydwaith o siaradwyr Cymraeg. Yn sgil y rhwydwaith, cafodd yr elusen ei dewis yn elusen y flwyddyn i'w chefnogi gan dri sefydliad gwahanol a thrwy hynny codwyd £80,000. Mae Cymorth Canser Macmillan hefyd wedi sylwi ar werth defnyddio'r Gymraeg ar eu cyfryngau cymdeithasol, yn eu deunydd marchnata ac mewn ymgyrchoedd fel eu boreau coffi er mwyn i gleifion a'u teuluoedd yng Nghymru deimlo fod eu gwaith a'u gwasanaethau yn berthnasol iddynt.

2.40

Ym mis Ionawr 2016, dan nawdd y Farwnes Tanni Grey-Thompson ac mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddoli Cymru, cynhaliodd y Comisiynydd ddigwyddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi i elusennau mawr. Nod y prynhawn oedd dangos bod y Gymraeg yn hollbwysig ac o fudd i unrhyw elusen sy'n weithredol yng Nghymru. Mynychodd 120 o benaethiaid elusennau y digwyddiad lle clywyd am fanteision y Gymraeg o ran denu rhoddion, a lle cyflwynwyd y ddadl foesol ynghylch cynnig darpariaeth Gymraeg i rai sy'n ceisio gwasanaeth a chefnogaeth elusennau. Ysgogodd y digwyddiad drafodaethau pellach â nifer o elusennau mawr a arweiniodd at ddatblygiadau arwyddocaol fel penodi swyddogion iaith i elusennau Barnardo's a'r NSPCC.

2.41

Sefydlodd Comisiynydd y Gymraeg rwydwaith elusennau a sefydliadau trydydd sector yn 2019 er mwyn cynnull cynrychiolwyr ynghyd mewn sesiynau i rannu arferion da a chydweithio â swyddogion y Comisiynydd. Mae cynrychiolwyr o oddeutu 20 elusen yn mynychu cyfarfodydd y rhwydwaith yn rheolaidd, a'r rheini'n cynrychioli elusennau fel Mind, Shelter Cymru a'r NSPCC. Yn sgil bod yn aelod o'r rhwydwaith hwn, mae o leiaf dwy elusen wedi mynd ati i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg.

2.42

Â chymorth y Comisiynydd, aeth elusen Mind ati i lunio cynllun iaith, er enghraifft, a gwahoddwyd swyddogion y Comisiynydd i roi cyflwyniad i wahanol adrannau'r elusen ar bwysigrwydd cynnig gwasanaethau iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r NSPCC yn enghraifft arall o elusen sydd wedi elwa o'r rhwydwaith ac o'r cyswllt â'r Comisiynydd wrth iddynt gael cymorth i baratoi achos busnes er mwyn penodi swyddog iaith a fyddai'n arwain ar y gwaith o brif ffrydio'r Gymraeg i galon gwasanaethau'r elusen. Bellach, mae trefn mewn lle ganddynt i godi ymwybyddiaeth o'u darpariaeth Gymraeg yng nghanghennau'r elusen ar draws y Deyrnas Unedig, a chynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus yn 2018–19 i recriwtio rhagor o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i fynd i ysgolion i addysgu disgyblion am waith yr elusen.

Bwytai, tafarndai a siopau'r stryd fawr



2.43

Â chymaint o amrywiaeth o siopa cadwyn, bwytai a thafarndai yn britho'r stryd fawr, nid yw'n syndod bod anghysondeb mawr o ran y defnydd a wnânt o'r Gymraeg. Mae gweld rhai arwyddion dwyieithog yn y lleoedd hyn yn gyfarwydd bellach, ond â nifer o'r pencadlysoedd yn Lloegr, gall fod yn dalcen caled eu hargyhoeddi o fudd y Gymraeg.

2.44

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Tîm Hybu'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau â nifer o fusnesau mawr gan geisio eu hargyhoeddi o werth y Gymraeg i'w cwsmeriaid a'u busnes. Enghraifft o lwyddiant gwaith y tîm yw gweld siopau Boots yng Nghymru yn ehangu eu gwasanaethau Cymraeg ac yn gwneud ymrwymiadau cadarn o ran arwyddion dwyieithog a defnyddio bathodynnau Iaith Gwaith. Mae eu tiliau hunanwasanaeth hefyd ar gael yn Gymraeg ers 2019.

"Yma yn Boots, rydym yn cydnabod y manteision o ddarparu gwasnaethau Cymraeg i'n cwsmeriaid yng Nghymru. Fel cyflogwr mawr yng Nghymru gyda 120 o siopau, rydym bob amser yn edrych i ddatblygu a chwilio am gyfleoedd newydd er mwyn ateb anghenion ein cwsmeriaid."

Andy Francis,
Pennaeth profiad y cwsmer Boots

2.45

Yn ogystal â chynnal digwyddiadau mawr i elusennau, mae'r Comisiynydd wedi bod yn cynnal brecwastau busnes yn Llundain ac yng Nghymru er mwyn dod â phenaethiaid busnesau mawr, archfarchnadoedd a banciau ynghyd i drafod eu darpariaeth Gymraeg.

2.46

Tra bo ceisio argyhoeddi penaethiaid busnes y tu hwnt i Gymru o werth y Gymraeg yn gallu bod yn heriol, mae targedu busnesau lletygarwch lleol lle ceir cymysgedd o fwytai a thafarndai cadwyn a rhai annibynnol yn her wahanol. Mae'n sicr bod lle a chyfleoedd i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes lletygarwch, ac er bod y Comisiynydd wedi llwyddo i gydweithio ag ambell fwyty newydd sydd wedi agor ei ddrysau yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd diwethaf, nid oes adnoddau digonol ganddo i dargedu busnesau newydd yn rhagweithiol ledled y wlad.

2.47

Â'r Eisteddfod Genedlaethol ddi-ffiniau ym Mae Caerdydd yn 2018, roedd cyfle gan nifer o fwytai cadwyn i roi cynnig ar y Gymraeg er mwyn denu a phlesio Eisteddfodwyr brwd. Cydweithiodd Wagamama â Chomisiynydd y Gymraeg a swyddogion Cymraeg Byd Busnes i gyfieithu eu taflenni gweithgareddau i blant gan dderbyn ymateb hynod o gadarnhaol.

Astudiaeth achos: Bwyty Wagamama

Wrth wraidd popeth a wnawn yn Wagamama mae ein cysyniad o *kaizen*: term Siapaneaidd sy'n golygu 'newid da'.

Daeth cyfle i gyfuno fy angerdd am y Gymraeg a Wagamama drwy *kaizen* gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyrraedd Bae Caerdydd yn 2018. Gydag ychydig o help, fe aethom ati i gynhyrchu taflenni gweithgareddau Cymraeg i blant. Profodd y taflenni hyn yn hynod boblogaidd ymhlith plant a rhieni trwy gydol wythnos yr Eisteddfod. A dweud y gwir, roeddent mor boblogaidd fel eu bod bellach ar gael yn barhaol yn Wagamama Cei'r Fôr-forwyn, ac maent ar gael ym mhob un o'r pedwar bwyty Wagamama yng Nghymru.

Mae poblogrwydd y taflenni yn cael ei weld ar ein cyfryngau cymdeithasol, mewn adborth wyneb yn wyneb gan westeion, negeseuon e-bost gan westeion at y bwyty ac at brif swyddfa Wagamama, a drwy wefannau fel Trip Advisor.

Bu'r taflenni gweithgareddau'n fan cychwyn ar gyfer cynyddu ein gweithgarwch Cymraeg. Ers yr Eisteddfod rydym wedi cynhyrchu deunyddiau marchnata printiedig yn Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, mae ein sgriniau digidol yn y bwyty yn cynnwys cyfieithiadau Cymraeg, ac rydym yn postio ar ein cyfrif Instagram yn Gymraeg yn rheolaidd. Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol iawn ar gyfer cyflwyno ein gweithgarwch Cymraeg, gan gynnwys bod â bwydlenni Cymraeg, darparu ein rhaglen ymweld ag ysgolion yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg, bod â chyfieithiad Cymraeg ar un ochr ein matiau bwyd, a chynyddu ein gweithgarwch Cymraeg yn ein marchnata a hysbysebu digidol ac ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cael ei yrru gan gydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel nodwedd greiddiol o'n hunaniaeth genedlaethol a'i phwysigrwydd yn y byd masnachol a domestig. Mae'n adlewyrchu bod Wagamama yn cydnabod lle'r iaith yn nhirlun Cymru.

Christian Williams, Rheolwr cyffredinol Wagamama

Y cyfleustodau a gwasanaethau bysiau a threnau

2.48

Mae cwmnïau cyfleustodau fel dŵr, nwy a thrydan, a chwmnïau bysiau a threnau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru yn cael eu hadnabod yn y Mesur fel rhai y mae modd gosod safonau arnynt. Nid yw'r Llywodraeth wedi eu cynnwys o dan y drefn safonau hyd yma, ond gwelir yn nrafft strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru fod paratoi safonau i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth dros y pum mlynedd nesaf.[43]

2.49

Ddiwedd 2020, nododd y Llywodraeth fod y gwaith o baratoi rheoliadau i gwmnïau dŵr yn parhau ac ymrwymodd i baratoi safonau ar gyfer cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr yng Nghymru yn ystod cyfnod y Senedd nesaf.[44] Wedi hir aros am ddatganiad o'r fath a'r broses gychwynnol o gynnal ymchwiliad safonau wedi mynd rhagddi yn 2016, mae'r ymrwymiad hwn yn sicr yn un calonogol.

2.50

Cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiadau ar yr ymchwiliad safonau i'r cwmnïau bysiau, y cwmnïau trenau a chwmni rheilffyrdd Network Rail ym mis Hydref 2016. Yna ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd adroddiadau yn dilyn ymchwiliad safonau i'r cwmnïau nwy a thrydan. Ond ym mis Mehefin 2018 cyhoeddodd Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg ar y pryd, na fyddai'n cyflwyno rhagor o safonau am y tro ac nid oes datganiad pellach wedi ei wneud hyd yma yn awgrymu bod amserlen mewn lle ar gyfer cyflwyno rheoliadau i'r sector nwy a thrydan.

2.51

Ychydig iawn o ystyriaeth sydd wedi bod yn cael ei rhoi i'r Gymraeg yn y sectorau nwy a thrydan mewn gwirionedd. Yn wir, adeg ymgymryd â'r ymchwiliad safonau, dim ond un cwmni trydan allan o 25 a nododd ei fod yn anfon biliau neu ddatganiadau yn ddwyieithog, â thri arall yn nodi bod eu biliau yn cael eu hanfon yn Saesneg â pheth Cymraeg. Un cwmni yn unig a nododd ei fod yn ateb galwadau ffôn cyffredinol yn ddwyieithog hefyd, ag un cwmni arall yn gwneud hynny yn Saesneg â pheth Cymraeg. Darlun digon tebyg a welwyd ymhlith y cwmnïau nwy. Nododd tri o'r 22 cwmni nwy a ymatebodd fod ganddynt bolisi neu gynllun iaith, ac roedd dau allan o'r 22 yn cynnig hyfforddiant ieithyddol i'w staff.



1 allan o 25

Dim ond un cwmni trydan allan o 25 a nododd ei fod yn anfon biliau neu ddatganiadau yn ddwyieithog.

43 Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth newydd ar gyfer Cymru (llyw.cymru).
44 Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2019–20* (2020), t. 36.

2.52

O safbwynt cwmnïau bysiau a threnau, roedd y darlun yn 2016 yn anghyson a dweud y lleiaf. Nododd tri allan o'r pedwar cwmni trên oedd yn gweithredu yng Nghymru adeg yr ymchwiliad safonau eu bod yn cofnodi sgiliau iaith staff, ag un yn nodi bod 20 allan o 56 aelod o staff oedd ganddo yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Nododd dau gwmni eu bod yn ateb galwadau ffôn cyffredinol yn ddwyieithog, ond doedd yr un o'r pedwar cwmni yn cynnig llinell ffôn archebu tocynnau yn Gymraeg. Anghyson oedd y darlun o ran gohebu hefyd â dau o'r cwmnïau'n nodi eu bod yn anfon gwybodaeth gyffredinol yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig at y cyhoedd. Ond doedd yr un cwmni yn ymateb i ohebiaeth Gymraeg gan unigolion yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig; nododd dau gwmni eu bod yn ymateb yn Saesneg â pheth Cymraeg.

2.53

Ers 2016, gwelwyd rhywfaint o welliant yn y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y sector trenau, a hynny'n bennaf gan fod gofynion ieithyddol yn cael eu cynnwys yn y contractau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Yn 2018, rhoddodd Gweinidogion Cymru yr hawl i Keolis Amey Wales Cymru Limited (Keolis Amey) – drwy gytundeb grant – i weithredu a datblygu'r gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau am y 15 mlynedd nesaf.[45]

2.54

Sicrhaodd Gweinidogion Cymru fod y cytundeb â Keolis Amey yn cynnwys gofynion ieithyddol, oedd yn golygu bod yn rhaid i'r cwmni ddarparu rhywfaint o wasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Roedd y cytundeb hefyd yn gofyn i'r cwmni ddatblygu cynllun gweithredu yn egluro sut y bydd yn sicrhau y caiff y gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg.[46] Felly er nad oedd Keolis Amey dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau, roedd dan ddyletswydd cytundebol i ddarparu rhai gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

2.55

Yn unol â thelerau'r cytundeb felly, datblygodd TrC Trenau bolisi iaith Gymraeg[47] ynghyd â chynllun gweithredu i wella'u darpariaeth Gymraeg rhwng 2019–21.[48] Dan y cynllun gweithredu hwn, sicrhawyd bod system wybodaeth newydd yn cael ei chyflwyno mewn mwy na 170 o orsafoedd yng Nghymru, sy'n darparu cyhoeddiadau ynglŷn â siwrneiau ynghyd â'r manylion diweddaraf yn eglur yn Gymraeg. Cyn hyn, dim ond chwarter o orsafoedd trenau Cymru oedd yn meddu ar system wybodaeth effeithiol yn Gymraeg, tra bod gan y gweddill system testun i leferydd oedd yn brwydro i ynganu geiriau ac enwau gorsafoedd Cymraeg yn gywir. Mae'r cynllun gweithredu wedi esgor ar welliannau eraill hefyd; lansiwyd cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein i staff ym mis Mawrth 2020, er enghraifft, ac mae cortynnau gwddf newydd yn cynnwys y logo Iaith Gwaith yn cael eu gwisgo gan staff.

2.56

Yn Hydref 2020, cyhoeddodd Ken Skates AS, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd, y byddai is-gwmni newydd Trafnidiaeth Cymru, sy'n eiddo cyhoeddus, yn cymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau o Chwefror 2021 ymlaen. O ganlyniad i'r newid hwn mae'n debygol mai'r safonau sydd wedi'u gosod ar Weinidogion Cymru fydd yn berthnasol i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n rhan o fasnachfraint Cymru a'r Gororau.

45 Rhoddodd Gweinidogion Cymru y cyfrifoldeb i Drafnidiaeth Cymru — cwmni dan berchnogaeth lawn Llywodraeth Cymru — am reoli'r cytundeb â Keolis Amey. Mae Trafnidiaeth Cymru dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau sydd wedi'u gosod ar Weinidogion Cymru.
46 **ODP Grant Agreement .pdf (trc.cymru)** [ar gael yn Saesneg yn unig].
47 **Polisi Ddwyieithog | Transport for Wales (trctrenau.cymru)**.
48 **Mae'r Iaith Gymraeg yn Flaenoriaeth | Transport for Wales (trctrenau.cymru)**.

2.57

Enillodd First Trenitalia y fasnachfraint West Coast Partnership yn 2019 gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth San Steffan, a chyda hynny, rhoddwyd y cyfrifoldeb i gwmni Avanti West Coast i gynnal y gwasanaethau trên rhwng gogledd Cymru a Llundain. Gwelwyd rhywfaint o ofynion iaith yn y cytundeb masnachfraint newydd hwn hefyd, gan gynnwys gofyniad i sicrhau bod cyhoeddiadau awtomataidd a wneir ar drenau sy'n teithio i ac o Gymru yn cael eu gwneud yn Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mabwysiadodd Avanti West Coast bolisi iaith Gymraeg gwirfoddol yn 2019.[49] Cydweithiodd y cwmni â Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn llunio'r polisi a chyflwyno arwyddion a chyhoeddiadau Cymraeg ar eu trenau, gan fodloni amodau'r cytundeb masnachfraint.

2.58

Mae ymrwymiad cwmnïau trenau annibynnol eraill i'r Gymraeg yn amrywio'n fawr o hyd. Er enghraifft, mae gan gwmni'r Great Western Railway – sy'n rhedeg gwasanaethau o dde Cymru i Lundain ac arfordir de Lloegr – bolisi iaith Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015.[50] Fodd bynnag, pan gyflwynwyd trenau newydd gan y cwmni yn 2017, nid oedd arwyddion na chyhoeddiadau Cymraeg ar eu cyfyl.[51] Ac nid oes gan gwmni Cross Country Trains – sy'n gweithredu gwasanaethau o Gaerdydd i Ganolbarth Lloegr – bolisi iaith o gwbl.

2.59

Er bod gwelliant wedi bod yn y sector rheilffyrdd felly ers yr ymchwiliad safonau yn 2016, afraid dweud y bydd gosod safonau ar yr holl sectorau y soniwyd amdanynt uchod yn cysoni ac yn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn sylweddol. Mae lle hefyd i ddadlau y byddai datganoli rhagor o bwerau yn y maes hwn i Gymru yn arwain at welliant yn y gwasanaethau Cymraeg ac yn seilwaith y gwasanaethau rheilffyrdd. Awgrymodd Ken Skates AC, y byddai datganoli pellach ar y rheilffyrdd yn galluogi'r Llywodraeth i 'flaenoriaethu ac ariannu ein hanghenion ein hunain a bodloni ein dyletswyddau statudol ein hunain – o dan feysydd Cydraddoldeb, yr Amgylchedd, yr Iaith Gymraeg, a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.[52]

49 **Polisi Iaith Gymraeg | Avanti West Coast**.
50 **Polisi Iaith Gymraeg GWR**.
51 **Diffyg Cymraeg ar drenau Great Western yn 'annerbyniol' - BBC Cymru Fyw**.
52 Llywodraeth Cymru, ***Rheilffordd i Gymru: Diwallu anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol*** (2019), t. 3.

Casgliadau'r Comisiynydd

Efallai mai'r defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau anstatudol – ar fwydlen mewn caffi neu ar grys pêl-droed – sydd bennaf gyfrifol am ei gwneud yn weledol neu'n berthnasol i nifer o bobl. Heb ofyniad cyfreithiol ar y sectorau hyn i ystyried y Gymraeg fodd bynnag, rhaid bod yn greadigol yn y modd yr eir ati i ddwyn perswâd arnynt.

Mae'r Cynnig Cymraeg yn gyfle i gydnabod yr elusennau a busnesau sy'n dangos ymrwymiad at y Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg. **Er mwyn sicrhau llwyddiant i'r ymgyrch rhaid sicrhau bod y logo i'w weld yn eang o ddrws ffrynt y banc i far y clwb rygbi. Rhaid iddo fod mor amlwg â'r bathodyn laith Gwaith sy'n sail i'r ddelwedd. I gyflawni hyn rhaid i bartneriaid ddod at ei gilydd i chwarae rhan.**

Mae busnesau ac elusennau yn chwilio am dystiolaeth gadarn bod y Gymraeg yn fuddsoddiad sy'n talu'n ôl. **Mae angen felly sicrhau deilliannau clir i'r gefnogaeth a roddir gan y Comisiynydd, Helo Blod ac eraill a chydweithio i sicrhau cynnydd mesuradwy yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg. Law yn llaw â hynny mae hefyd angen sicrhau bod unrhyw wasanaethau neu adnoddau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol.** Heb hynny, ni fydd cynnydd yn y defnydd ohonynt ac o'r herwydd ni fydd ysgogiad i gwmnïau barhau i ddatblygu eu darpariaeth Gymraeg.

Mae angen rhagor o bwyso ar y sectorau hyn fel eu bod yn dangos uchelgais o blaid y Gymraeg, a chysondeb yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael. Mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys o'r cychwyn wrth gyflwyno tiliau hunanwasanaeth yng Nghymru, er enghraifft, a bod yr opsiwn i ddewis y Gymraeg yn amlwg, yn hawdd ei ddewis a bod modd newid iaith yn rhwydd yng nghanol trafodion. Mae hefyd angen cau'r bylchau mawr yng ngwasanaethau Cymraeg cwmnïau ar lein ac yn y gwasanaethau personol wyneb yn wyneb maent yn eu cynnig.

Er bod y safonau wedi effeithio ar nifer o gyrff sy'n dyrannu grantiau a bod eu gofynion ynghylch y Gymraeg wrth iddynt gynnig nawdd wedi cryfhau'n sylweddol o'r herwydd, **mae dal lle i anelu at well cysondeb rhwng trefniadau sefydliadau a rhwng gwahanol sectorau. Mae gosod gofynion eglur a phriodol am y Gymraeg mewn cytundebau yn ffordd o sicrhau bod pob corff sy'n derbyn arian cyhoeddus yn gorfod rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg.** Bydd gan y Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau rôl allweddol i chwarae yn y gwaith hwn.

Fel y dysgwyd yn sgil mynd ati i gynnal ymchwiliad safonau i sectorau preifat, os yw'r Llywodraeth am ystyried gosod safonau ar unrhyw sector, rhaid i'r safonau terfynol ddod i rym yn brydlon gan gyflawni'r hyn a ddisgwylir gan y cyhoedd a chan y cwmnïau. Heb i hynny ddigwydd, gall fod yn anodd dwyn perswâd yn y cyfamser ar y cyrff dan sylw i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o'u gwirfodd. **Yn hynny o beth, dylai'r Llywodraeth ddatgan eu bwriadau'n eglur a rhannu amserlenni pendant er mwyn osgoi oedi ac ansicrwydd ac er mwyn i gwmnïau ddechrau paratoi ar gyfer y safonau.**

3 Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Iaith y gymuned

3.1

I bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn hyfyw heddiw, mae'r cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg yn gallu bod yn niferus, yn codi'n naturiol gan gyd-fynd â'r diddordebau lleol, ac yn cael eu cymryd yn ganiataol i raddau helaeth. Caiff cymdeithasau llenyddol[53] ac eisteddfodau lleol[54] eu trefnu, clybiau cinio a chlybiau Merched y Wawr eu mynychu, mae aelwydydd a chorau yn dod ynghyd a chapeli Cymraeg a'u festrïoedd yn dal yn ganolfannau pwysig i ambell gymuned. Mae'r Gymraeg i'w chlywed mewn sesiynau hyfforddi clybiau chwaraeon lleol, ar y cae ymysg chwaraewyr a chan gefnogwyr ar ochr y cae.

3.2

Mewn rhannau eraill o'r wlad lle nad yw'r Gymraeg mor gadarn, mae gofyn i gyfleoedd cymdeithasol gael eu cynllunio'n fwriadol, ac yn amlach na pheidio unigolion brwd sydd wrthi'n ddygn yn ceisio creu'r cyfleoedd hyn. Ceir enghraifft dda yn y Rhondda lle aeth criw bychan o bedwar ati i sefydlu Aelwyd Cwm Rhondda yn 2018,[55] sefydlwyd côr yn ei sgil â'r bwriad o ddenu siaradwyr Cymraeg chweched dosbarth neu hŷn i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol. Ym mis Awst 2020, cynhaliwyd Eisteddfod y Rhondda am y tro cyntaf, a hynny'n ddigidol wrth gwrs oherwydd COVID-19, lle cystadlodd 83 o unigolion ar draws 11 cystadleuaeth.

3.3

Â chynifer wedi troi at y we a'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfnod y pandemig am gysur, cwmnïaeth ac adloniant, gwelwyd cymunedau Cymraeg rhithiol newydd yn ffurfio yn 2020, a'r rheini'n caniatáu i bobl o bob cwr o'r byd fod yn rhan ohonynt. Roedd gan dudalen Facebook CÔR-ONA!, lle byddai pobl yn cyfrannu fideos ohonynt eu hunain yn canu, 46,300 o aelodau, er enghraifft.

3.4

Nid peth newydd yn sgil COVID-19 yw'r cymunedau Cymraeg rhithiol i gyd chwaith. Yn 2018, crëwyd tudalen Facebook Rhwydwaith Menywod Cymru sydd â 10,400 o aelodau, yn gymuned rithiol er mwyn i ferched Cymru ofyn am gyngor, hysbysebu a chynnig cefnogaeth i'w gilydd. Does dim sicrwydd pa mor hirhoedlog fydd y cymunedau hyn, ond maent yn sicr yn werthfawr fel cyfryngau i bobl drafod pob math o bethau a chymdeithasu'n ddigidol yn Gymraeg.

53 Ceir rhestr o'r cylchoedd trafod a'r cymdeithasau llenyddol yma: **Cymdeithasau Llenyddol - Literature Wales (llenyddiaethcymru.org)**.
54 Ceir gwybodaeth am yr eisteddfodau lleol ar wefan **Cymdeithas Eisteddfodau Cymru**.
55 **Menter Iaith Rhondda Cynon Taf - Aelwyd Cwm Rhondda**.

3.5

Fel y noda strategaeth *Cymraeg 2050*, nid pawb sydd â'r amser na'r awydd i fynychu digwyddiadau neu fod yn aelod o glwb neu gôr, a gall defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol hefyd olygu ei defnyddio'n naturiol yn y gymuned, mewn siopau lleol ac wrth ddefnyddio gwasanaethau, er enghraifft.[56] Dyma un o ganfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor ar ran Llywodraeth Cymru yn 2014 ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.[57] Casgliad pwysig arall a geir yno yw bod rhai dysgwyr yn ei chael yn anodd i ymarfer eu Cymraeg gan fod siaradwyr rhugl yn troi i'r Saesneg; rhoddir sylw i sicrhau cyfleoedd i siaradwyr newydd ymarfer hefyd yn *Cymraeg 2050*.

3.6

Yn 2019, cydweithiodd Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin a Menter Iaith Môn i greu cyfres o fideos gydag actorion y gyfres deledu Rownd a Rownd er mwyn dangos i siaradwyr Cymraeg sut i siarad â dysgwyr, a rhannwyd y rhain ar y cyfryngau cymdeithasol. Lansiwyd hefyd becyn Cefnogi Dysgwyr er mwyn cynorthwyo busnesau a chymdeithasau i groesawu dysgwyr yn Gymraeg. Mae diwrnod Shwmae Sumae yn ymgyrch blynyddol i'r un perwyl o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned lle anogir pobl i ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg a chyfarch yn Gymraeg. Caiff y diwrnod ei gynnal ar 15 Hydref bob blwyddyn ers 2013.[58]

3.7

Ynghlwm â defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, prin, ar hyn o bryd, yw'r cyfleoedd ffurfiol i wirfoddoli yn Gymraeg ond mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi dechrau casglu data am sgiliau Cymraeg y rhai sy'n cofrestru â nhw. Wrth adrodd ar eu data ym mis Mehefin 2020, dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod 31,206 o bobl wedi cofrestru i wirfoddoli ar eu gwefan, nododd 3,385 o'r rheini eu bod yn medru'r Gymraeg a nododd 2,692 o bobl eu bod yn medru ychydig o Gymraeg.

3.8

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwil ar y Gymraeg a gwirfoddoli yn 2014 oedd yn argymell bod y Comisiynydd ynghyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn '[c]ynnal ymgyrch i godi proffil gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg'.[59] Yn sgil yr ymchwil hwn, dechreuodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar brosiect ddiwedd 2020 i geisio sicrhau bod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau ieithyddol hyn wrth wirfoddoli.

3.9

Â nifer o siaradwyr Cymraeg yn gwirfoddoli'n anffurfiol mewn clybiau chwaraeon, cylchoedd meithrin ac ysgolion, â'r papurau bro, eisteddfodau ac yn y gymuned, bwriad prosiect Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw annog mwy o gymdeithasau Cymraeg i ddefnyddio gwefan Gwirfoddoli Cymru i hysbysebu eu cyfleoedd gwirfoddoli. Byddai hynny'n cynyddu'r cynnwys Cymraeg ar y wefan yn y gobaith o ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg a'u hannog i gofrestru i wirfoddoli.

56 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 56.
57 Llywodraeth Cymru, ***Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned: Astudiaeth ymchwil*** (2014).
58 **www.shwmae.cymru**.
59 Comisiynydd y Gymraeg, *Y Gymraeg a gwirfoddoli* (Chwefror 2014), t. 5.

Strategaethau hybu'r Gymraeg yn lleol

3.10

Ymhlith y safonau a osodir ar sefydliadau cyhoeddus, mae dosbarth o safonau penodol yn ymwneud â hybu'r Gymraeg wedi eu gosod ar awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol.[60] Mae'r safonau hybu hyn yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau i lunio a chyhoeddi strategaethau 5-mlynedd sy'n esbonio sut y maen nhw'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardaloedd. Ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i'r strategaeth gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y pum mlynedd. Cyhoeddwyd y mwyafrif helaeth o'r strategaethau hybu yn ystod 2016 a 2017, felly bydd disgwyl i sefydliadau eu hadolygu a chyhoeddi fersiynau diwygiedig ohonynt yn ystod 2021 a 2022.

3.11

Wrth reswm, ceir cysylltiad amlwg rhwng amcanion y safonau a'r strategaethau hybu a dwy o brif themâu *Cymraeg 2050*, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Teg dweud bod nifer fawr o'r strategaethau cyfredol yn canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg. Gwelwyd bod strategaethau hybu'r awdurdodau lleol a'u Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn aml yn ymdrechu i gefnogi ei gilydd o safbwynt nodau a thargedau. Serch hynny, mae gwaith gwirio diweddar y Comisiynydd wedi adnabod enghreifftiau o sefydliadau'n cynnal digwyddiadau i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol neu ddigwyddiadau sy'n benodol ar gyfer dathlu'r Gymraeg, a hynny drwy gefnogi neu ariannu gweithgareddau a drefnwyd gan y Fenter Iaith leol.

3.12

Mae rhai sefydliadau hefyd wedi mynd ati i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg drwy bartneriaeth, fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sydd wedi sefydlu partneriaethau â'r Fenter Iaith leol a'r Urdd er mwyn galluogi'r Gymraeg i ddatblygu'n iaith eu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn enghraifft o sefydliad sydd wedi mynd ati i drefnu a chynnal digwyddiadau i ddathlu'r Gymraeg. Trefnwyd gorymdaith ar Ddydd Gŵyl Dewi, er enghraifft, gydag oddeutu 3,600 yn bresennol, a chynhaliwyd tridiau o ddigwyddiadau Hwb Cymraeg mewn partneriaeth a'r Ŵyl Ryngwladol Focus Wales i ddathlu cerddoriaeth Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r cyngor hefyd yn rhoi cymorth ariannol i Focus Wales er mwyn iddynt ehangu'r rhaglen o gerddoriaeth Gymraeg ar draws yr ŵyl â'r nod o greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu yn Gymraeg.

3.13

Wrth ystyried gweithio mewn partneriaeth yng nghyd-destun y strategaethau hybu, nod y prif bartneriaid yw gwasanaethu cymunedau o siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a darpar siaradwyr Cymraeg. Mae'n glir o'r strategaethau hybu fod amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol gan bob un o'r sefydliadau, ac mae'n hollbwysig adnabod, datblygu a chynnal y partneriaethau hyn i sicrhau llwyddiant y strategaethau yn y pen draw.[61]

60 **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Atodlen 4**.
61 Comisiynydd y Gymraeg, *Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg* (2018), t. 30.

Mewnfudo, allfudo, a hunaniaeth Gymreig

3.14

Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng yn Ynys Môn, Gwynedd, Caerfyrddin a Cheredigion, yr ardaloedd yr ystyrir hwy yn gadarnleoedd y Gymraeg. Un o'r rhesymau am hyn yw fod pobl yn allfudo ac yn symud i drefi a dinasoedd, wrth gwrs, tra bo eraill yn mewnfudo gan effeithio ar y ganran o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd.

3.15

Meddylir yn aml fod y rhesymau dros allfudo o'r cymunedau Cymraeg yn ymwneud yn bennaf â gwaith neu fynd i'r brifysgol, ond awgryma ymchwil Dr Lowri Cunnington Wynn nad rhesymau economaidd yn unig sy'n tynnu unigolion o'u bröydd. Yn wir, mae 'ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg, diwylliant a chenedligrwydd' yn effeithio ar ymdeimlad pobl o berthyn i'w hardaloedd a gallant ddylanwadu'n fawr ar batrymau integreiddio.[62]

3.16

Noda mai sgìl yn unig yw'r Gymraeg ym meddwl rhai pobl ifanc 'ac nid yw dysgu'r iaith o reidrwydd yn golygu eu bod yn mabwysiadu hunaniaeth eu cymunedau'.[63] Yn hynny o beth, awgryma'r Athro Colin H. Williams nad yw bod â miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yn mynd i olygu ymlyniad at yr iaith, defnydd ohoni nac adfywiad i'r cymunedau Cymreig sy'n gweld pobl ifanc yn allfudo:

> ...the somewhat arbitrary target does not necessarily serve the goals of revitalization: a putative set of sills [sic] among a politically symbolic target population matters less than actual usage of Welsh in a wide range of domains in daily life.[64]


62 Lowri Cunninton Wynn, "**Beth yw'r ots gennyf i am Gymru?': Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg**', *Gwerddon*, 28 (Mawrth 2019), t. 60.

63 **Ibid**.

64 Colin H. Williams, ***Policy review: Wake me up in 2050! Formulating Language Policy in Wales*** (19 Mai 2017), t. 6.

3.17

Yn ôl canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fis Rhagfyr 2020, mae'n ddadlennol mai 62.6% o boblogaeth Cymru sy'n eu hystyried eu hunain yn Gymreig o ran eu hunaniaeth genedlaethol.[65] Yn y cadarnleoedd Cymreig traddodiadol, mae 60.9% yn arddel hunaniaeth Gymreig ym Môn, 70.9% yng Ngwynedd, 67.0% yn Sir Gaerfyrddin a 52.6% yng Ngheredigion. Mae'r canrannau'n sylweddol uwch yn ardaloedd diwydiannol y de-ddwyrain, fodd bynnag, ag 82.3% yn eu hystyried eu hunain yn Gymreig ym Merthyr Tudful, 83.0% ym Mlaenau Gwent a 75.8% yn Rhondda Cynon Taf.



Canran y boblogaeth sirol sy'n ystyried eu hunain yn Gymry o ran eu hunaniaeth genedlaethol.

3.18

Bu mewnfudo, prynu ail gartrefi a newid enwau tai o'r Gymraeg i'r Saesneg yn bwnc llosg yn ystod 2020, yn enwedig felly yng Ngwynedd a Môn.[66] Treialwyd cynllun yn 2018 i gymhathu mewnfudwyr a'u hannog i ddefnyddio a pharchu'r Gymraeg; ymhelaethir rhywfaint ar y cynllun hwnnw yn Rhan 4.

65 Canlyniadau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020: Hunaniaeth genedlaethol yn ôl ardal a hunaniaeth (llyw.cymru).

66 Beach message highlights North Wales housing crisis that's stopping locals living at home - North Wales Live (dailypost.co.uk); Newid enwau tai o Gymraeg i Saesneg yn 'buro ieithyddol' - BBC Cymru Fyw; Pryder am gynnydd ail gartrefi yng ngogledd Cymru - BBC Cymru Fyw.

Canolfannau Cymraeg

3.19

Rhwng 2014–16, dyrannodd Llywodraeth Cymru grantiau i sefydlu canolfannau Cymraeg ar draws Cymru â'r bwriad o '[g]ynnig pob math o gyfleoedd i bobl o bob oedran ddefnyddio, ymarfer a mwynhau'r iaith ar lawr gwlad', yn ôl Carwyn Jones AC, y prif weinidog ar y pryd.[67] Sefydlwyd chwe chanolfan amlbwrpas newydd ag arian grant Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Bwrw Mlaen:



1. Y Lle (Llanelli)
2. Yr Atom (Caerfyrddin)
3. Tŷ'r Gwrhyd (Pontardawe)
4. Y Man a'r Lle (Aberteifi)
5. Popdy (Bangor)
6. Yr Hen Lyfrgell (Caerdydd)

3.20

Caeodd drysau canolfan Y Lle yn Llanelli yn 2020 wedi pum mlynedd o gynnal digwyddiadau Cymraeg i bobl ifanc yr ardal yn bennaf. Cynhaliwyd gweithdai roc wythnosol yno am gyfnod, cynhaliodd yr Urdd glwb ieuenctid wythnosol a defnyddiwyd y ganolfan fel lleoliad ar gyfer sesiynau ioga a gigs.[68] Yr un fu hanes yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd i raddau. Agorodd y Mudiad Meithrin crèche yn yr Hen Lyfrgell fis Ionawr 2016 a gaeodd ei ddrysau yn diweddarach y flwyddyn honno oherwydd diffyg diddordeb yn y gwasanaeth. Cau a wnaeth y bar, y caffi a'r siop yno hefyd yn eu tro gan adael swyddfeydd ac ystafelloedd i'w rhentu. Er y cynhaliwyd adolygiad ar ddyfodol yr Hen Lyfrgell yn 2017 oedd yn argymell bod angen sefydlu bwrdd rheoli newydd a sefydlu gweledigaeth y ganolfan,[69] nid oes arwydd hyd yma o fuddsoddiad pellach yn yr Hen Lyfrgell fel canolfan Gymraeg.

3.21

Ymddengys mai dyna ffawd amryw o'r canolfannau hyn mewn gwirionedd sydd heb gyllid i'w cynnal fel canolfannau byrlymus. Mae amryw ohonynt yn cartrefu mudiadau Cymreig fel y mentrau iaith neu ganghennau o'r Urdd ac yn cynnig ystafelloedd i'w llogi, ond prin yw presenoldeb nifer ohonynt ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol ac anodd yw dod o hyd i ddigwyddiadur ar lein ar eu cyfer. Efallai mai'r mwyaf llwyddiannus o'r canolfannau a ariannwyd gan y Llywodraeth yw'r Atom a Tŷ'r Gwrhyd lle ceir caffi neu siop sy'n cynnig cyfle i bobl daro i mewn i'r ganolfan yn anffurfiol.

67 **£1.5m i ganolfannau Cymraeg - BBC Cymru Fyw**.

68 Ceir ymchwil ar y Canolfannau Cymraeg yn nhraethawd MPhil Manon Elin James, ***Astudiaeth ar Draweffaith Canolfannau Cymraeg: Cloriannu cryfder polisi Llywodraeth Cymru i sefydlu Canolfannau Cymraeg, mewn cymhariaeth â Chanolfannau Cymraeg cymunedol*** (Prifysgol Aberystwyth, 2018).

69 **Ansicrwydd am ddyfodol Canolfan Gymraeg yr Hen Lyfrgell - BBC Cymru Fyw**.

3.22

Mwy llwyddiannus ar y cyfan na'r canolfannau a ariannwyd gan y Llywodraeth yw'r canolfannau Cymraeg a sefydlwyd yn organig gan wirfoddolwyr mewn cymunedau. Mae Tŷ Tawe yn Abertawe, Canolfan Soar ym Merthyr Tudful a Saith Seren yn Wrecsam yn enghreifftiau o ganolfannau o'r fath. Sefydlwyd Tŷ Tawe yn 1987, Canolfan Soar yn 1992 a Saith Seren yn 2012, ac mae'r tair yn parhau'n fywiog, yn cynnal nosweithiau cymdeithasol a gigs cyson. Daw Côr Tŷ Tawe ynghyd i ymarfer yn Nhŷ Tawe yn wythnosol, cynhelir siop siarad a barhaodd ar lein yn ystod cyfnod COVID-19, ac mae siop Tŷ Tawe yn ffenest i'r ganolfan. Yn yr un modd, symudodd sesiwn siarad a Gŵyl werin-hydref Canolfan Soar ar lein yn 2020 ac roedd calendr Saith Seren yn llawn o sesiynau sgwrsio i ddysgwyr, sesiynau jamio a gigs tan fis Mawrth 2020.

3.23

Mae effaith COVID-19 wedi bod yn andwyol ar ganolfannau Cymraeg a lleoliadau sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg, fel Galeri yng Nghaernarfon a Chlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd ac amser a ddengys i ba raddau y bydd rhai o'r canolfannau hyn yn goroesi a'u drysau wedi gorfod cau gyhyd.

Tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

3.24

Mae sicrhau bod cyfleoedd ar gael i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad iaith dysg a gwaith yn unig yw'r Gymraeg ac mae sefydlu arferion o ddefnyddio'r iaith o oedran cynnar yn hynod bwysig, fel y pwysleisia strategaeth *Cymraeg 2050*.[70]

3.25

Nod y rhaglen Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yw 'arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg' ac 'ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau'.[71] Cyflwynwyd y rhaglen ar draws Cymru'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf wedi iddi gael ei sefydlu gan Gyngor Gwynedd yn 2011–12. Cydiodd Llywodraeth Cymru yn y prosiect yn 2015–16, ac erbyn 2019–20 roedd 423 o ysgolion yn rhan o'r rhaglen.[72]

3.26

Mae'r rhaglen yn mesur defnydd plant o'r Gymraeg yn y dosbarth, ar yr iard ac o fewn y gymuned, ac mae gofyn am gyfranogiad yr ysgol gyfan, gan gynnwys y disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni, i weithredu'r Siarter wrth i ysgolion anelu am wobr efydd, arian neu aur dros gyfnod o amser. Ceir rhaglen gyfatebol o'r enw Cymraeg Campus mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a cheir rhaglen Siarter Iaith Uwchradd a/neu Brosiect Cefnogi Arferion Iaith mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu grant i'r Urdd redeg prosiect Cymraeg Bob Dydd.

70 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 55.
71 Llywodraeth Cymru, *Siarter Iaith Gymraeg: Ysgolion Cynradd* (2016).
72 Llywodraeth Cymru, ***Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig*** (9 Gorffennaf 2020), t. 22.

3.27

Yn 2019–20, rhoddwyd grant o £500,000 gan y Llywodraeth i'r consortia addysg ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith ac mae swyddogion y consortia yn darparu cyngor a chefnogaeth i ysgolion. Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw penderfynu sut i weithredu'r Siarter Iaith a gwnânt hynny â mewnbwn gan ddisgyblion yr ysgol sydd wedi eu penodi i'r Criw Cymraeg, sef grŵp o ddisgyblion sy'n cyfarfod i drafod sut i hybu'r Gymraeg yn yr ysgol a chefnogi gweithgareddau'r ysgol sy'n ymwneud â'r Siarter. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o ysgol i ysgol ac yn gallu cynnwys tripiau, siaradwyr gwadd a chydweithio â mudiadau fel yr Urdd a'r mentrau iaith.

3.28

Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig a gyhoeddwyd yn 2020.[73] Noda'r adroddiad fod y rhaglen yn cael ei chroesawu a'i gwerthfawrogi gan ysgolion a swyddogion y consortia ond bod ennill cefnogaeth a dealltwriaeth rhieni o'r rhaglen yn gallu bod yn heriol. Yn achos yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, nodwyd bod y rhaglen Cymraeg Campus hithau'n cael ei chroesawu gan ysgolion a disgyblion ond bod angen rhagor o gymorth ar ysgolion a bod dod o hyd i amser i drefnu gweithgareddau yn gallu bod yn anodd.

3.29

O droi ein sylw at brifysgolion, mae'r cymunedau a'r undebau Cymraeg mewn prifysgolion hefyd yn parhau i dynnu siaradwyr Cymraeg at ei gilydd yn gymdeithasol, ac ym mis Medi 2020 ailagorwyd Neuadd Pantycelyn yn Aberystwyth ar ei newydd wedd, bum mlynedd wedi i'r drysau gau.[74] Derbyniodd Prifysgol Aberystwyth £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru o gronfa'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif er mwyn cyfrannu at y gost o adnewyddu'r neuadd.[75] Dyma ddatblygiad hirddisgwyliedig a phwysig i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr â fu'n protestio yn erbyn cau'r neuadd yn 2013 a 2014 gan bwysleisio'r gwerth cymdeithasol sydd i neuadd Gymraeg.

Grantiau Llywodraeth Cymru

3.30

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ar y pryd, Eluned Morgan AC, fod cynllun grantiau gwerth £4.2 miliwn wedi ei sefydlu i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn cefnogi nod *Cymraeg 2050*. Ymhlith y sefydliadau a dderbyniodd arian grant oedd yr Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, y mentrau iaith, Merched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifainc Cymru, papurau bro, Urdd Gobaith Cymru a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

3.31

Wrth lansio'r cynllun hwn, sy'n ymestyniad o gynlluniau grant tebyg yn y gorffennol, eglurodd Eluned Morgan bod y sefydliadau a ariennir gan y grantiau yn 'rhoi llawer o gyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol'.[76]

73 Ibid.
74 'Cam pwysig iawn' wrth ailagor Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth - BBC Cymru Fyw.
75 Gweinidog Llywodraeth Cymru yn ymweld â Neuadd Pantycelyn - Prifysgol Aberystwyth.
76 Cynllun Grantiau gwerth £4.2m i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg | LLYW.CYMRU.

3.32

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019–20 derbyniodd 27 o bartneriaid grant eu cyfran o'r ychydig dros £4 miliwn i hybu a hyrwyddo'r iaith. Cynhaliwyd 21,000 o weithgareddau o ganlyniad, â thros hanner y rhain yn weithgareddau i blant a phobl ifanc, gan roi cyfleodd i '[f]wy na miliwn'[77] ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ynddynt.

3.33

Ond rhaid gochel rhag cael ein llygad-dynnu gan niferoedd addawol. Er pwysigrwydd cynnal digwyddiadau proffil uchel yn lleol a chenedlaethol i gynnal statws a gweledded yr iaith a hyfywedd y diwylliant Cymraeg, nid oes cyswllt uniongyrchol rhyngddynt o reidrwydd â *chynnydd* yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Gall fod mai'r un rhai sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn ac felly nad oes dros filiwn o bobl *wahanol* i'w cyfri yn y niferoedd, a gall siaradwyr Cymraeg ganfod a chreu eu cyfleoedd eu hunain i gymdeithasu wrth gwrs.

3.34

Mae'n bwysig cydnabod hefyd fod y sefydliadau a ariennir yn gwneud llawer iawn mwy dros y Gymraeg na threfnu digwyddiadau yn unig; maent yn darparu swyddi amrywiol i bobl sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft. Yn sicr mae angen rhagor o waith ymchwil i ddeall arwyddocâd y cynllun grantiau hwn yn llawn. Ym mis Mawrth 2020 cyhoeddwyd gwahoddiad i dendro i gynnal adolygiad o gynllun grantiau'r Llywodraeth ond gohiriwyd y gwaith o ganlyniad i COVID-19.

Y mentrau iaith

3.35

Sefydlwyd y fenter iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991 ac erbyn hyn mae 22 o fentrau rhanbarthol annibynnol yn ogystal â dwy fenter sy'n gweithio mewn ardaloedd penodol, sef Bangor a Phatagonia. Yn gyfrifol am gefnogi ac uno'r Mentrau rhanbarthol unigol mae Mentrau Iaith Cymru sydd â'i bencadlys yn Llanrwst.

3.36

Caiff y mentrau iaith eu cyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cymru[78] ond maent hefyd yn derbyn nawdd ar gyfer prosiectau amrywiol trwy ffynonellau fel awdurdodau lleol, grantiau gan y Loteri a grantiau Ewropeaidd. Caiff llai na thraean o'u swyddi eu hariannu gan grantiau'r Llywodraeth, ac mae denu arian o ffynonellau eraill wedi eu galluogi i greu 254 o swyddi ychwanegol.[79] Ffynhonnell incwm arall i'r mentrau yw'r prosiectau masnachol maent wedi eu sefydlu, yn gaffis, siopau, cwmnïau cyfieithu a meithrinfeydd, i enwi llond llaw, â'u pwyslais cyson ar gyfrannu at gymunedau Cymru.

77 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2019–20***, t. 39.
78 Prifysgol Caerdydd ar ran Llywodraeth Cymru, ***Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe*** (2014).
79 Mentrau Iaith, ***Y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol: Maniffesto'r Mentrau Iaith ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021*** (2021), t. 8.

3.37

Mae gwaith y mentrau unigol yn amrywio'n fawr yn ôl gofynion yr ardal ac yn amrywio hefyd o ran maint digwyddiadau, o'r cenedlaethol i'r cymunedol. Un o lwyddiannau mawr Menter Caerdydd yw gŵyl Tafwyl sydd wedi ei hen sefydlu'n ŵyl flynyddol erbyn hyn ac sy'n denu miloedd o Gaerdydd a thu hwnt i gael eu trochi mewn diwylliant Cymraeg a Chymreig. Yn 2019, ymwelodd 40,000 o bobl â'r ŵyl yng nghastell Caerdydd.[80] Erbyn 2020 wrth gwrs, rhaid oedd symud yr ŵyl ar lein oherwydd COVID-19 lle cafwyd sesiynau cerddorol, sesiynau i blant a phobl ifanc, sesiynau trafod a chyfweliadau. Cafwyd cynulleidfa o dros 25,000 yn gwylio'r sesiynau amrywiol yn fyw.[81]

3.38

Er bod Tafwyl yn un o wyliau mawr y calendr Cymreig bellach, caiff gwyliau eraill eu trefnu gan y mentrau iaith ar raddfa ychydig yn llai â blas mwy lleol; caiff Gŵyl Cefni ei chynnal gan Fenter Môn ers 2000 a chynhaliwyd Gŵyl Fach y Fro yn Ynys y Barri gan Fenter Iaith Bro Morgannwg am y tro cyntaf yn 2015. Yn 2019, dyrannodd Llywodraeth Cymru £50,000 i 11 o wyliau llai a newydd gan gynnwys Gŵyl Canol Dre yng Nghaerfyrddin a Gŵyl y Ferch yn Ynys Môn.[82]

3.39

Daw un arall o'r llwyddiannau cenedlaethol o du Menter Iaith Fflint a Wrecsam. Yn 2014, cyflwynodd y fenter apiau Magi Ann, sy'n cynnwys straeon Cymraeg i helpu plant cynradd ddysgu darllen. Ers lansio'r apiau cyntaf, mae'r fenter wedi ychwanegu at y cynnwys ac mae'r apiau wedi eu lawrlwytho dros 200,000 o weithiau.[83]

3.40

Mae nifer o'r mentrau'n cynnal digwyddiadau Cymraeg i blant, pobl ifanc a theuluoedd gydol y flwyddyn a digwyddiadau ychwanegol dros wyliau'r haf. Ond mae amrywiaeth o gyrsiau, dosbarthiadau ymarfer corff, a grwpiau cymunedol i oedolion hefyd yn cael eu trefnu ganddynt. Gall y grwpiau hyn fod yn fforymau ar gyfer busnesau lleol, ar gyfer trefnu gweithgareddau diwylliannol, yn grwpiau i ddod ynghyd i sgwrsio dros baned neu i ddysgwyr ymarfer siarad Cymraeg.

3.41

Adroddodd Menter Caerdydd fod 265 o oedolion wedi mynychu cyrsiau ganddynt yn 2018–19 a bod 23 clwb wythnosol yn cael eu cynnal i blant oed cynradd gyda rhwng 400–450 o blant yn aelodau.[84] Dywedodd Menter Iaith Fflint a Wrecsam iddo gynnal neu weithio mewn partneriaeth i gynnal dros 180 o weithgareddau a digwyddiadau yn 2018–19 gan ddenu dros 9,000 o bobl.[85] Flwyddyn yn ddiweddarach yn Sir Conwy, cynhaliwyd 275 o digwyddiadau gan Fenter Iaith Conwy â thros 5,700 yn mynychu.[86] Rhwng yr holl fentrau iaith, cynhaliwyd 9,229 o ddigwyddiadau lle bu cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn 2019 a manteisiodd 231,366 o bobl ar y digwyddiadau hyn.[87]

80 Amdanom | Tafwyl.
81 Tafwyl Digidol: Gwerthusiad.
82 Cyhoeddi Gwyliau Llwyddiannus Grantiau Mentrau Iaith Cymru | Y Mentrau Iaith.
83 Magi Ann | Menter Iaith Fflint a Wrecsam (menterfflintwrecsam.cymru).
84 Menter Caerdydd, *Adroddiad blynyddol Menter Caerdydd 2018/19* (2019).
85 Menter Iaith Fflint a Wrecsam, *Adroddiad Blynyddol 2018– 2019* (2019), t. 5.
86 Menter Iaith Conwy, *Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Conwy 2019–2020* (2020).
87 *Papur tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu*.

3.42

Erbyn 2020, roedd y rhan helaeth o weithgarwch y mentrau iaith wedi symud ar lein wrth gwrs. Buont yn cynhyrchu cannoedd o weithgareddau dros fideo, yn cefnogi mudiadau gwirfoddol fel papurau bro i symud ar lein, ac yn cynnal ymgyrchoedd cenedlaethol. Rhwng Ebrill a Medi 2020, cynhaliodd y mentrau iaith 6,806 o ddigwyddiadau digidol gyda 755,751 yn cymryd rhan.[88] Er bod y ffigyrau hyn oll yn rhoi darlun i ni o gyrhaeddiad gwaith y mentrau, nid ydynt yn ddigonol i ni fesur effaith neu arwyddocâd y digwyddiadau a gynhaliwyd, wrth gwrs.

Astudiaeth achos: Menter Iaith Ynys Môn

Mae Menter Iaith Môn yn fenter egnïol sy'n gweithio i sicrhau bod Ynys Môn yn parhau yn gadarnle i'r Gymraeg. Mae'r gwaith yn amrywio wrth inni fuddsoddi mewn ardaloedd sydd angen cefnogaeth o ran y Gymraeg, a chynnal gweithgareddau mewn ardaloedd eraill er mwyn dathlu Cymreictod y gymuned.

Mae'r ddarpariaeth amrywiol yn cynnwys cynnal Theatr Ieuenctid Môn i blant a phobl ifanc ledled y sir, sesiynau Bocsŵn i annog dysgu a'r defnydd o Gymraeg drwy gerddoriaeth, a chynlluniau digidol sy'n sicrhau lle i'r Gymraeg ym myd arloesi technoleg.

Tu hwnt i'r gwaith hwn gyda phlant a phobl ifanc, rydym yn cynnal ac yn cyfrannu at lu o gynlluniau cymunedol fel Gŵyl Cefni, atgyfodi hen draddodiad lleol y Clapio Wyau, a gorymdeithiau Gŵyl Ddewi ym mhedair o brif drefi'r Ynys. Y nod yw codi proffil y Gymraeg yn lleol, yn ogystal â chynnig cyfle i blant, pobl ifanc, ac oedolion fwynhau a chymdeithasu. Mae'r gorymdeithiau hefyd yn gerbyd sgwrs gyda busnesau a chymdeithasau lleol, ac yn un o uchafbwyntiau calendr yr Ynys erbyn hyn.

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo tu ôl i'r llen hefyd wrth inni gydlynu gweithgarwch y sir yn y Fforwm Iaith, a gweinyddu grantiau i fusnesau ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, oll er mwyn cyfrannu tuag at y Miliwn o Siaradwyr.

88 *Y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol: Maniffesto'r Mentrau Iaith ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021*, t. 5.

Astudiaeth achos: Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy

Mewn ardal lle mae cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn brin a lle mae diffyg hyder ieithyddol yn broblem, mae Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy yn darparu cyfleoedd i oedolion, plant a theuluoedd gymdeithasu yn Gymraeg. Rydym yn trefnu clybiau cerdded, boreau coffi, teithiau i ardaloedd Cymraeg eu hiaith a nosweithiau cymdeithasol gyda siaradwyr gwadd, ac mae mwyafrif y grwpiau sgwrsio wedi parhau ar lein yn ystod cyfnod COVID-19.

Rydym yn gyfrifol am ddarparu gofal plant mewn dwy ysgol gynradd ac yn cynnal clybiau celf, cerddoriaeth a chwaraeon cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant dan 12 oed mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ein hardal. Mae gennym hefyd Fforwm Ieuenctid sy'n ein helpu i drefnu digwyddiadau fel gigs a chlybiau ar gyfer disgyblion Ysgol Gyfun Gwynllyw. Yn sgil COVID-19, mae holl weithgarwch y Fforwm wedi bod yn digwydd ar-lein â'r pwyslais ar greu cynnwys digidol.

Mae ein darpariaeth ar gyfer teuluoedd yn canolbwyntio ar drosglwyddo iaith o fewn y teulu, cyfleoedd i ddysgu Cymraeg fel oedolion, a chyfleoedd i'r plant ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn digwyddiadau fel diwrnodau hwyl i'r teulu, cwisiau, cyngherddau Nadolig a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Rydym hefyd yn cynnal grŵp cymorth gwaith ysgol i rieni di-gymraeg.

Chwaraeon

3.43

Ni ellir crybwyll y Gymraeg ym myd chwaraeon heb sôn am gyfraniad yr Urdd. Yn 2020, roedd nifer aelodau'r Urdd ar ei uchaf erioed. Â chymryd ffigyrau adroddiad blynyddol yr Urdd ar gyfer 2018–19, cyn bod sôn am COVID-19 i amharu ar weithgareddau'r mudiad, roedd gan yr Urdd dros 56,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed, ac roedd 21,498 o'r aelodau hynny'n ddysgwyr. Ymwelodd 49,000 o blant a phobl ifanc â gwersylloedd yr Urdd yng Nglan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd ac roedd 12,000 yn cymryd rhan yng Nghlybiau Chwaraeon Cymunedol yr Urdd bob wythnos y flwyddyn honno: y nifer fwyaf erioed i'r Urdd ei weld. Mynychodd dros 48,000 gystadlaethau chwaraeon yr Urdd a chyhoeddwyd nod o greu 100 o brentisiaethau chwaraeon erbyn dathlu canmlwyddiant y mudiad yn 2022.

3.44

Gan cymaint yw gwaith ac ymroddiad yr Urdd i hybu'r Gymraeg mewn chwaraeon, mae perygl nad yw clybiau chwaraeon eraill yn ysgwyddo cyfrifoldeb digonol dros hybu'r Gymraeg yn eu gweithgareddau. Gwelwyd, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, fod cyrff cenedlaethol sy'n arwain ar wahanol gampau fel Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Nofio Cymru yn cydweithio â'r Urdd er mwyn cynnal rhai gweithgareddau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg, ond golyga hynny'n aml nad yw'r Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn gweithgareddau a digwyddiadau eraill mae'r cyrff hyn yn eu trefnu ac nid y Gymraeg yw iaith y clybiau cymunedol ar y cyfan chwaith.

3.45

Ni ellir pwysleisio digon y dylanwad mae'r maes hwn yn ei gael ar agweddau tuag at y Gymraeg, ac mae gweld chwaraewyr ac athletwyr byd-enwog o Gymru'n defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn cyfweliadau yn sicr yn gwneud lles aruthrol i ddelwedd yr iaith. Gwelwyd hynny'n glir adeg Pencampwriaeth yr Ewros yn 2016 â'r tîm cenedlaethol i gyd yn gwisgo crysau-t â'r gair 'Diolch' arnynt. Does dim amheuaeth nad oedd y Gymraeg yn rhan greiddiol o hunaniaeth y tîm pêl-doed a'u cefnogwyr adeg Ewros 2016, a defnyddiwyd y Gymraeg gan gwmnïau mawr fel Adidas a Budweiser i farchnata, a'i defnyddio hefyd gan enwogion o tu allan i Gymru wrth iddynt longyfarch y tîm.

3.46

Ar y cyfan, mae defnyddio'r Gymraeg mewn clybiau chwaraeon lleol yn rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol heb fawr o gynllunio, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar agwedd hyfforddwyr unigol a demograffeg siaradwyr Cymraeg yr ardal. Mewn ardaloedd o'r fath, mae llai o ddibyniaeth ar yr Urdd i fod yn cynnal ymarferion chwaraeon yn Gymraeg gan fod clybiau lleol yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu gweithgareddau.

3.47

Er mai prin felly yw'r clybiau cymunedol sydd wedi mynd ati'n fwriadol i brif ffrydio'r Gymraeg i'w gweithgareddau, dangosodd ymchwil gan y Comisiynydd yn 2015 fod agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr iaith mewn clybiau lleol. Casglodd yr ymchwil fod awydd yno i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ond bod diffyg hyder a diffyg diwylliant o ddefnyddio'r Gymraeg yn rhwystr. Roedd canfyddiad cyffredinol hefyd na ddylid defnyddio'r Gymraeg pan nad yw pawb yn deall yr iaith.[89]

3.48

Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ym mis Mai 2016 lansiodd y Comisiynydd becyn gwybodaeth *Amdani!: Defnyddio'r Gymraeg mewn Chwaraeo*n. Nod y pecyn yw argyhoeddi cyrff chwaraeon o fantais y Gymraeg wrth ddenu aelodau newydd, ffurfio perthnasau â grwpiau eraill a sicrhau bod pob unigolyn yn cael y profiad gorau posibl wrth ymwneud â champ.

3.49

Cydweithiodd y Comisiynydd hefyd â Chwaraeon Cymru a chymdeithasau chwaraeon amrywiol i ddatblygu adnoddau a syniadau ymarferol ynghylch sut i annog clybiau cymunedol i fachu ar gyfleoedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Daeth yn amlwg mai drwy'r cymdeithasau mae cyflwyno negeseuon i'r clybiau cymunedol gan mai dyna lle mae'r dylanwad mwyaf. Ond ar hyn o bryd nid oes disgwyliadau clir o ran y Gymraeg nac amodau grant pendant i'r nawdd sy'n cael ei ddyrannu i'r cymdeithasau gan Chwaraeon Cymru. Gwelwyd yn aml yn y blynyddoedd diwethaf fod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn ddibynnol ar frwdfrydedd rhai unigolion yn hytrach na phenderfyniad strategol hirdymor.

89 Ategir y canfyddiadau hyn yn Lana Evans, '"Defnyddiwch y Gymraeg": community sport as a vehicle for encouraging the use of the Welsh language', *Sport in Society*, Cyfrol 22: Rhifyn 6 (Chwefror 2019).

3.50

Daeth cyfle yn 2017 i atgyfnerthu darpariaeth y cymdeithasau trwy grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg. Bu sawl cymdeithas yn llwyddiannus yn ennill grant er mwyn prif ffrydio'r Gymraeg i'w systemau datblygu hyfforddiant. Aeth Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru ati i ddatblygu modiwl 'Y Gymraeg mewn chwaraeon' i hyfforddwyr, er enghraifft, a chomisiynu cyfieithiad o'r gwaith theori sy'n gefn i'r modiwl. Yn yr un cyfnod datblygodd y Comisiynydd fodiwl e-ddysgu a chyhoeddi rhagor o fideos ymarferol ar wefan 'Atebion Clwb', porth sy'n cefnogi clybiau chwaraeon.

Y Celfyddydau

3.51

Nid oes amheuaeth nad yw sefydliadau fel yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn cynnig cyfleoedd amhrisiadwy i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wrth ymwneud â'r celfyddydau. Mae Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn parhau i gyfrannu'n helaeth at y celfyddydau Cymraeg ac yn rhoi cyfleoedd i ieuenctid ac oedolion ddod ynghyd i ffurfio corau ac amryw bartïon er mwyn cystadlu. Cofrestrwyd 70,530 o enwau ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd yn 2019, a chroesawyd dros 100,000 o ymwelwyr i faes di-ffiniau, rhad-ac-am-ddim Bae Caerdydd y flwyddyn honno.[90]

3.52

Ym Mae Caerdydd y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2018 a hithau am ddim i ymweld â hi ac heb ffiniau maes arferol. Amcangyfrifwyd bod oddeutu hanner miliwn o bobl wedi mynychu'r Eisteddfod honno a denwyd ymwelwyr na fyddai fel arfer yn mynychu nac yn ymwybodol o ddigwyddiadau Cymraeg.[91] Yn 2019, ymwelodd dros 175,000 â maes Eisteddfod Sir Conwy yn Llanrwst. Mae cynnal yr eisteddfod mewn ardaloedd gwahanol hefyd yn sail i brosiect cymunedol sy'n creu cyfleoedd cymdeithasol yn yr ardaloedd yn ystod y ddwy flynedd sy'n arwain at yr ŵyl a chynhelir rhwng 250 a 350 o ddigwyddiadau cymunedol i godi arian yn ystod y cyfnod hwnnw fel arfer.[92]

3.53

Ag Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol wedi eu gohirio yn 2020, aeth yr Urdd ati i gynnal Eisteddfod T ar lein gan roi cyfle i blant a phobl ifanc gystadlu yn y cystadlaethau arferol ac mewn cystadlaethau hwyliog newydd gan ddenu dros 6,000 o gystadleuwyr ac adloniant i'r genedl gyfan er mwyn llenwi bwlch yr Eisteddfod arferol. Darparodd Eisteddfod T dros 25 awr o ddarlledu byw i S4C a 28 awr i BBC Radio Cymru.[93]

90 **Cynnydd yn y nifer sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni (lleol.cymru)**.
91 **Eisteddfod Caerdydd wedi gwneud colled o £290,000 - BBC Cymru Fyw.**
92 ***Papur tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu***, t. 4.
93 **LLWYDDIANT WRTH I EISTEDDFOD T BLESIO CYNULLEIDFA DDIGIDOL | Urdd Gobaith Cymru**.

3.54

Aeth yr Eisteddfod Genedlaethol ati i lenwi'r bwlch yn 2020 hefyd drwy gynnal Eisteddfod AmGen ar lein rhwng mis Mai a mis Awst â'r nod o '[g]reu gweithgareddau a fyddai'n cefnogi llesiant ac annog cymdeithasu digidol ymysg ein cynulleidfa graidd' a 'denu cynulleidfa newydd'.[94] Bu'r ŵyl AmGen yn llwyddiant ysgubol a chynigiwyd yr arlwy ar amryw o blatfformau digidol. Dangosodd y ffigyrau gwylio fod fideos o ddigwyddiadau'r ŵyl wedi eu gwylio 584,000 o weithiau ar Facebook a 44,800 o weithiau ar YouTube rhwng 18 Mai a 10 Awst.

3.55

Wrth flaenoriaethu dod â phobl ynghyd i gymdeithasu'n ddigidol, trefnwyd bod Côr yr Eisteddfod yn ymarfer dros Zoom bob yn ail wythnos a Chôr y Gymanfa yn cyfarfod yn rhithiol ddwywaith y mis i ganu emynau. Gwahoddwyd corau a bandiau pres i anfon recordiadau o'r gân gomisiwn Pont y Glaw gan Gareth Glyn, prosiect a ddenwyd dros 400 o gyfraniadau. Cynhaliwyd gweithdai ar lein i ddysgu sut i arwyddo'r anthem genedlaethol. Trefnodd yr Eisteddfod hefyd ddau gwrs wythnosol yn ystod y cyfnod clo, un yn gyflwyniad i'r gynghanedd a wyliwyd yn ôl 1,191 o weithiau, a'r llall yn gwrs dysgu gosod cerdd dant a wyliwyd yn ôl 419 o weithiau.

3.56

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r prif sefydliad trydydd sector sy'n cyllido'r celfyddydau yng Nghymru, yn ariannu theatrau, orielau, canolfannau celfyddydol ac amryw brosiectau a digwyddiadau. Yn y flwyddyn 2018–19, cynhaliwyd 1,139 o ddigwyddiadau celfyddydol yn Gymraeg allan o 23,149 o ddigwyddiadau i gyd, a mynychwyd y digwyddiadau Cymraeg a gynhaliwyd gan 124,462 o bobl. Yn yr un flwyddyn, cynhaliwyd 10,001 o sesiynau ymgyfranogol yn Gymraeg allan o 72,383 o sesiynau, a mynychwyd y sesiynau Cymraeg gan 103,260 o bobl. Nid oes amheuaeth felly nad oes angen cynyddu'r nifer o sesiynau Cymraeg. Noda adroddiad blynyddol y Cyngor Celfyddydau bod galw am ddigwyddiadau Cymraeg ac mae'n cydnabod 'nad ydym yn gweld yr amrywiaeth na'r ansawdd o weithgareddau Cymraeg y byddem yn eu disgwyl, yn arbennig ym maes theatr'.[95] Trafodir rhagor ar ymwneud siaradwyr Cymraeg â'r celfyddydau yn Rhan 4.

94 Ymchwil a ddarparwyd gan yr Eisteddfod Genedlaethol.

95 Cyngor Celfyddydau Cymru, ***Gweithgareddau Cyffredinol a dosbarthu arian y loteri : Adroddiad a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019*** (2019), t. 51.

COVID-19 a chymdeithasu

3.57

Mae'r ffaith i COVID-19 beri i ddigwyddiadau mawr a bach ar draws y wlad gael eu gohirio yn destun pryder wrth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gael eu hamddifadu o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wyneb yn wyneb. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ceisio mesur effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg a chawsant gymorth gan y mentrau iaith i weinyddu arolwg ym mis Medi 2020.[96]

3.58

Adnabuwyd 2,806 o grwpiau cymunedol Cymraeg i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg, ac ymatebodd 1,092 ohonynt. Dim ond 2% o'r grwpiau a adroddodd eu bod yn cynnal gweithgareddau ar lein cyn cyfnod y pandemig sy'n golygu bod newid sylweddol wedi gorfod digwydd gan y grwpiau oedd am barhau i gynnal eu gweithgarwch yn ystod y cyfnod clo cyntaf.

3.59

Nododd 20% eu bod wedi gallu addasu eu gweithgareddau er mwyn parhau â'u gweithgarwch ers dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 ond eu bod yn teimlo bod y gweithgareddau'n llai effeithiol, eu bod yn cyfarfod yn llai aml a bod llai o bobl yn cymryd rhan. Roedd 68% o weithgareddau arferol y grwpiau wedi peidio, a nodwyd mai tripiau, gwyliau ac eisteddfodau, ymgyrchoedd codi arian, perfformiadau ac ymarferion cerddorol oedd y gweithgareddau oedd fwyaf tebygol o fod wedi peidio â'u cynnal.

3.60

Pan holwyd y grwpiau ym mis Medi a Hydref 2020 a fyddent yn parhau i fodoli fel grŵp pe bai'r rheolau am gadw pellter cymdeithasol yn parhau ymhen blwyddyn, 62% a nododd y byddent yn debygol o barhau fel grŵp. Ar y llaw arall, nododd 88% o'r grwpiau y byddent yn debygol o barhau i fodoli pe na bai'r rheolau cadw pellter cymdeithasol yn bodoli ymhen blwyddyn.

3.61

Wrth edrych tua'r dyfodol dywedodd 45% y bydden nhw'n mabwysiadu ambell ffordd newydd o weithredu, hyd yn oed pe na bai'r rheolau cadw pellter cymdeithasol yn bodoli mewn blwyddyn. Dywedodd 31% y byddent yn mynd yn ôl i weithredu yn union fel yr oeddent: amser a ddengys i ba raddau y bydd rhyddid ganddynt i wneud hynny.

96 Llywodraeth Cymru, ***Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg – canfyddiadau arolwg*** (10 Rhagfyr 2020).

Casgliadau'r Comisiynydd

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y cyfleoedd sydd wedi bod i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn ystod 2020, ac ni fydd modd asesu'r effaith yn llawn nes llunio'r adroddiad 5-mlynedd nesaf. **Un peth sy'n sicr, bydd gofyn am gefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad yw'r momentwm a fu cyn mis Mawrth 2020 yn cael ei golli.**

Rhaid yw canmol sawl sefydliad ar allu symud eu gweithgarwch ar lein mor ddisymwth, a llongyfarch mudiadau fel yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol am eu darpariaeth ddigidol yn lle'r gwyliau sydd fel arfer yn ganolog i'r calendr Cymreig. Mae'r cynnwys Cymraeg sydd ar gael ar lein wedi cynyddu'n aruthrol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hynny'n beth cadarnhaol wrth gwrs ac yn rhywbeth i'w ddatblygu ymhellach hyd yn oed pan gawn ni gwrdd wyneb yn wyneb eto. Mae'n fodd hwylus o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru a thu hwnt.

Ond rhaid hefyd gydnabod nad pawb sy'n gallu cael mynediad at ddarpariaeth ddigidol, oherwydd diffyg cysylltiad gwe mewn ardaloedd gwledig neu ddiffyg sgiliau technolegol. Mae hyn wedi golygu bod rhai wedi eu hamddifadu o'r cyfleoedd cymdeithasol digidol gan effeithio'n niweidiol ar iechyd meddwl pobl, yn ogystal ag ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. **Mae'n hanfodol felly nad yw symud gweithgarwch cymdeithasol ar lein yn disodli cyswllt wyneb yn wyneb yn y dyfodol. Bydd cael y cydbwysedd hwn yn iawn yn her i'r pum mlynedd nesaf.**

Mae nifer a phoblogrwydd y digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg a gynhaliwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn galonogol iawn, a chyfleoedd newydd yn codi'n gyson. Efallai mai un peth sy'n dod i'r amlwg wrth edrych ar weithgarwch y pum mlynedd diwethaf yw mai'r digwyddiadau neu'r mentrau sy'n datblygu'n organig mewn cymdeithas yw'r rhai mwyaf llwyddiannus fel rheol. Wedi'r cwbl, aelodau'r gymuned sy'n gwybod orau yn aml beth yw anghenion a diddordebau eu cymunedau eu hunain. **Yn hynny o beth, mae lle i Lywodraeth Cymru ystyried dulliau o feithrin cenhedlaeth newydd o drefnwyr lleol a chefnogi prosiectau neu fentrau sydd wedi eu sefydlu eisoes neu sydd angen cymorth er mwyn eu sefydlu yn y lle cyntaf.**

Mae hefyd yn bwysig nad yn y digwyddiadau cymdeithasol 'Cymraeg' yn unig y caiff yr iaith ei defnyddio, ac mae lle i ddefnyddio rhagor ar y Gymraeg mewn clybiau chwaraeon a digwyddiadau celfyddydol y tu hwnt i'r rhai prif ffrwd iaith Gymraeg.



Enw: **Cynan Griffiths**

Oed: **15**

Ardal: **Llanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn**

71.8%

yn siarad Cymraeg yn Llanfair Pwllgwyngyll



UN O FILIWN

Mae Cynan yn ddisgybl blwyddyn 10 yn Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy lle mae wedi dewis astudio gwyddoniaeth driphlyg, addysg gorfforol, hanes a dylunio fel pynciau TGAU – oll trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n siarad Cymraeg â'i rieni, ei frawd a'i chwaer gartref. Cymraeg yw iaith y teulu estynedig ar ochr ei fam a'i dad hefyd.

"Mae gennan ni iaith ein hunain sydd yn unigryw i'n gwlad ni."

Y Gymraeg drwy lygaid Cynan

Nes i fynd i Ysgol Gynradd Llanfair ac ro'n i'n siarad Cymraeg efo pawb yna, doedd na ddim llawer o blant Saesneg yna.

Rŵan, dwi'n ddisgybl blwyddyn 10 yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Yn yr ysgol, dwi'n siarad Cymraeg efo'r rhan fwyaf o'n ffrindiau er bod 'na un neu ddau o fy ffrindiau sydd ddim yn siarad Cymraeg. Dwi wedyn yn siarad rhyw gymysgedd o Gymraeg a Saesneg efo nhw.

Dwi'n chwarae rygbi i Fethesda, a Chymraeg rydw i'n siarad efo holl chwaraewyr y tîm. Er, dwi'n siarad Saesneg efo un o'r hyfforddwyr. Wedyn dwi'n chwarae pêl-droed i Llanfair a Chymraeg yn unig rydan ni'n siarad yn fanna.

Dwi ddim *rili* yn mynd i siopa ar y stryd fawr, felly dwi'm yn siŵr be fysa'r iaith mewn siop yn yr ardal. Os dwi'n gwrando ar gerddoriaeth dros y we, fyswn i ddim yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, dim ond cerddoriaeth Saesneg.

Os byswn i'n postio negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, yn Gymraeg fyswn i'n gwneud.



Enw: **Sarah White**

Oed: **36**

Ardal: **Pentrepiod, Torfaen**

9.3%

yn siarad Cymraeg yng nghymuned Pen Transh



UN O FILIWN

Saesneg mae Sarah yn siarad â'i gŵr a'i rhieni, ond mae'n siarad Cymraeg â'i thair chwaer a'i dau frawd. Mynychodd uned fach Gymraeg o fewn ysgol cyfrwng Saesneg yr ardal, Ysgol Pontnewynydd, cyn i'r ysgol gynradd Gymraeg leol, Ysgol Bryn Onnen, agor. Mae'n byw ym Mhentrepiod, sy'n rhan o gymuned Pen Transh.

"Dwi'n meddwl fod y Gymraeg wedi fy helpu i gael swyddi – mi oedd wedi rhoi mantais i mi ac o edrych ar fy mrodyr a chwiorydd, mae wedi rhoi mantais iddyn nhw hefyd i gael swyddi."

Y Gymraeg drwy lygaid Sarah

Mae fy mam yn Saesnes a'm tad yn dod o'r ardal ond doedd y cyfleoedd ddim yna iddo ef, nac i'm gŵr sy'n dod o Flaenafon, i ddysgu Cymraeg. Yn lwcus i mi, mi oedd mam eisiau i ni gael cyfle i siarad Cymraeg felly mi aethom i uned Gymraeg o fewn yr ysgol Saesneg. Wedyn mi es i 'mlaen i Ysgol Gwynllyw.

Mi fues i'n gweithio i gwmni gwyliau Thomsons am gyfnod a chael siarad Cymraeg efo cwsmeriaid, cyn mynd i Ysgol Gwynllyw i weithio am saith mlynedd oedd yn wych gan fod popeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn hyn, dwi'n gweithio i gwmni yswiriant cŵn, ac yn teithio lot i Lundain ac Ailesbury a phrin iawn yw'r cyfle i siarad Cymraeg.

Ond, dwi'n lwcus 'mod i a fy mrodyr a chwiorydd dal i siarad Cymraeg gyda'n gilydd. Mae un o fy chwiorydd wedi colli hyder i siarad yr iaith, ond mae'r pedwar arall yn gweithio mewn llefydd ble maent yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith.

Does dim llawer o lefydd ble byddet ti'n gallu siarad Cymraeg ym Mhont-y-pŵl. Mae e'n anodd, achos fi'n gweld llwyth o gyn-ddisgyblion Gwynllyw sydd wedi colli eu hyder. Oherwydd ti'n dod o'r arfer o siarad yr iaith, mae amryw sydd ddim eisiau ceisio siarad yr iaith ar ôl gadael ysgol rhag ofn iddyn nhw swnio'n dwp.

Dwi'n falch iawn o allu siarad yr iaith a fydda i wastad yn brwydro amdani. Mi gawsom ni bobl yn gweiddi *'Welshies go home'* ac yn taflu pethau at ein bws yn yr ysgol gynradd ond mae hynny wedi fy ngwneud i yn fwy balch a phenderfynol i siarad yr iaith.



Enw: **Shelly Beckett**

Oed: **45**

Ardal: **Bagillt, Sir y Fflint**

13.0%
yn siarad Cymraeg yn Bagillt



UN O FILIWN

Daw rhieni Shelly o Sir y Fflint a Saesneg mae hi'n siarad gyda'r ddau. Saesneg mae hi hefyd yn siarad gyda'i brawd, Paul. Roedd ei brawd, sy'n byw ym Mrychdyn, yn awyddus i'w blant fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg, ond doedd eu mam, sy'n wreiddiol o Grimsby, ddim yn awyddus iddynt ddysgu Cymraeg.

"'Sa pethau wedi mynd i gyfeiriad hollol wahanol i fi os na fyddwn i'n siarad Cymraeg – fasa fi ddim yn y gwaith ydw i'n gwneud rŵan."

Y Gymraeg drwy lygaid Shelly

Mae Paul, fy mrawd, wedi colli ei hyder yn siarad Cymraeg a neith o ddim siarad Cymraeg ddim mwy. Mi oedd taid ar ochr mam yn gallu siarad Cymraeg, ond pan wnaeth o symud draw i Bagillt o Landudno, wnaeth o ddim siarad Cymraeg hefo neb wedyn.

Mi wnaeth Mam a Dad adael i ni ddewis i ba ysgol uwchradd fasa ni'n mynd. Ro'n i wrth fy modd efo'r athrawes Gymraeg yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg felly nes i ddewis Ysgol Maes Garmon. Roedd 'na rhywbeth am y Gymraeg yn fy nennu i. Doedd Mam a Dad ddim yn siŵr am y penderfyniad, ond mi wnaeth fy mrawd fy nilyn i hefyd.

Dwi'n siarad Cymraeg efo un ffrind ysgol, mwy rŵan nag oedden ni gynt. Pan o'n i yn yr ysgol, roedd rhan o fi'n teimlo nad oedd o y peth i wneud. Roedd y rhan fwyaf yn siarad Saesneg. Ro'n i'n ei weld o'n iaith addysg.

Dwi'n gweithio fel gweinyddes feithrin yn Ysgol Croes Atti, Fflint ers 20 mlynedd a dyna pam, yn fwy na dim arall, dwi'n dal i siarad Cymraeg. Dwi'n deall pam fod y plant yn gweld y Gymraeg fel iaith ysgol. Pan o'n i'n mynd adre, ro'n i'n rhoi'r Gymraeg mewn bocs bach, a doedd o ddim yn dod allan tan o'n i yn yr ysgol.

Dwi'n nabod ychydig o siaradwyr Cymraeg yn Bagillt – maen nhw tua'r un oed a fi, a hŷn. Os dwi'n bwmpio i mewn i nhw, mi fyddai'n siarad Cymraeg. Unwaith y mis mae 'na 10 ohonan ni'n mynd allan am beint i gymdeithasu yn Gymraeg.

Mae'r ardal yma mor agos i Loegr. Does 'na ddim cyfleoedd wedyn lle rydan ni'n byw i'r plant ddefnyddio'r iaith. Heblaw am weithio yn Croes Atti, dyna be fasa wedi digwydd i fi. Baswn i wedi colli'r iaith.

Dwi wrth fy modd efo'r Gymraeg. Mae 'na deimlad iddo fo, fedri di ddim esbonio. Ti'n teimlo fel rhan o rywbeth mwy.

Rhan 4: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rhan 4: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun 220

Mae angen 'sgidiau cryf **223**

1 Cymuned a'r economi **224**

Tai a gwaith i gadw'r iaith 224

Cynllunio gwlad a thref 225

Y farchnad dai 227

Gwaith ac economi 230

Brexit a'r Gymraeg 232

COVID-19, yr economi a'r Gymraeg 236

Gweithredu dros lewyrch economaidd yn y Gymraeg 237

Casgliadau'r Comisiynydd **238**

2 Diwylliant a'r cyfryngau **240**

Darllen 241

Darlledu a'r Gymraeg 243

Y celfyddydau 246

Casgliadau'r Comisiynydd **252**

3 Cymru a'r byd ehangach **254**

Y Gymraeg ar y map 254

Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith (IALC): Dysgu, rhannu a chydweithio 255

Y Gymraeg ar wasgar 257

'Sefyll allan o'r dorf uniaith' â Strategaeth Ryngwladol i Gymru 258

Gwarchodaeth Ewropeaidd 259

Yr iaith ar daith 260

Casgliadau'r Comisiynydd **261**

4 Technoleg ddigidol **262**
Y Gymraeg yn y chwyldro digidol 262
Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg 263
Rhyngwynebau a systemau Cymraeg 264
Systemau cofnodi dewis iaith cwsmeriaid 266
Technoleg llais i destun a deallusrwydd artiffisial sgyrsiol Cymraeg 267
Technoleg cyfieithu a lleisiau synthetig 268
Wicipedia 269
Gwefannau ac apiau 270
Technoleg yn ffenestri i'r byd yn oes COVID-19 271
Casgliadau'r Comisiynydd **272**
5 Seilwaith ieithyddol **273**
Beth yw'r gair Cymraeg am *infrastructure*?: Diffinio'r term 273
Seiliau *laith fyw: iaith byw* 274
Cyfnewid cyfrifoldeb 274
Pwyslais a phwysigrwydd newydd 275
Geiriaduron a therminoleg 276
Cyfieithu a chyfieithu ar y pryd 276
Enwau lleoedd 279
Casgliadau'r Comisiynydd **281**
6 Cynllunio ieithyddol **282**
Pam pennawd penodol? 282
Ysgwyddau llydan y Llywodraeth 283
Sefydlu bwrdd rhaglen 285
Deall dwyieithrwydd 286
Cydweithio ag awdurdodau lleol 287
Prosiect 2050 288
Casgliadau'r Comisiynydd **289**
7 Gwerthuso ac ymchwil **290**
Fframwaith gwerthuso 290
Data arolygon 291
Gwerthuso prosiectau 292
Astudiaethau thematig 293
Hyrwyddo ymchwil gan eraill 293
Casgliadau'r Comisiynydd **294**
Y Gymraeg drwy lygaid Geraint, Steffan a Tim **295**

Mae angen ’sgidiau cryf

Dyma droi at y meysydd hynny sy’n perthyn i drydedd thema strategol *Cymraeg 2050*. Ar yr olwg gyntaf gall y rhain ymddangos fel meysydd digyswllt, wedi eu grwpio gyda’i gilydd er cyfleustra i ddrafftwyr strategaeth oedd yn chwilio am strwythur tri phen taclus. Ond y meysydd hyn yw sgaffaldiau’r iaith: maent yn hanfodol ar gyfer unrhyw ddefnydd ohoni.

Ar ei lefel symlaf, os yw’r Gymraeg i gael ei siarad o gwbl rhaid wrth gymunedau o siaradwyr a rhaid wrth gynhaliaeth economaidd i’r cymunedau hynny – diwedd y gân yw’r geiniog. Rhaid i’r Gymraeg fod â diwylliant bywiog a chyfryngau amrywiol os yw am fod yn fwy na sgìl a chyfrwng cyfathrebu dienaid. Rhaid hefyd i’r Gymraeg fod yn iaith technoleg os nad yw am gael ei gadael ar ôl yn y chwyldro digidol. Rhaid wrth ffynonellau o eirfa a therminoleg er mwyn caniatáu defnydd o iaith mewn unrhyw gyd-destun. Yn sylfaen i’r meysydd hyn i gyd, rhaid wrth bolisïau cynllunio ieithyddol strategol ac ymatebol wedi eu selio ar ymchwil o’r radd flaenaf. A rhaid i Gymru fod yn barod i edrych i’r byd i ddysgu o arferion gorau yn y meysydd hyn a bod yr un mor barod hefyd i roi yn ôl i’r byd a chaniatáu i wledydd eraill ddysgu o arferion arloesol yng Nghymru.

Y meysydd hyn yw sylfeini’r strategaeth mewn gwirionedd – rhaid iddynt fod yn gadarn er mwyn cefnogi pob gweithgarwch yn y ddwy thema strategol gyntaf. Maent yn hanfodol hefyd er mwyn cadarnhau statws yr iaith. Bydd y rhan olaf hon yn parhau â’r un patrwm o werthuso ymdrechion y cyfnod adrodd a chyflwyno casgliadau ac argymhellion ymarferol i’r dyfodol er mwyn sicrhau bod y sylfeini’n ddi-syfl.

1 Cymuned a'r economi

Tai a gwaith i gadw'r iaith

1.1

Nid yw'r cysylltiad rhwng tai, gwaith ac iaith ym maes cynllunio ieithyddol yn un newydd – yn wir, daw'r teitl 'tai a gwaith i gadw'r iaith' o un o sloganau'r mudiad iaith yn y 1970au. Er bod ymgyrchoedd wedi bod ar droed ers yn agos i hanner canrif, a gwahanol brosiectau wedi eu cyflwyno gan amryw lywodraethau i sicrhau parhad y Gymraeg fel iaith gymunedol, erys her y drindod hon ymysg y mwyaf cymhleth i'w datrys.

1.2

Er bod canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn dangos bod siaradwyr Cymraeg ym mhob cymuned yng Nghymru, ceir rhai cymunedau lle mae dwysedd uwch o siaradwyr rhugl ac yn yr ardaloedd hynny y caiff yr iaith ei defnyddio'n ddyddiol fwyaf. Mae nifer ohonynt yn ardaloedd gwledig neu ôl-ddiwydiannol ac ynddynt ceir cymunedau â chyflog cyfartalog sydd ymysg yr isaf yn y Deyrnas Unedig.[1] Y diwydiannau amaeth, lletygarwch, twristiaeth a'r sector cyhoeddus yw asgwrn cefn llawer o'r cymunedau hyn. Dros nifer o ddegawdau, gwelwyd canran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau yn gostwng, a chydnabu Llywodraeth Cymru yn *Cymraeg 2050* fod yn rhaid datblygu economi ffyniannus, gynaliadwy, ynddynt er mwyn hybu'r iaith.[2]

1.3

Does dim dwywaith nad yw'r berthynas rhwng iaith ac economi yn un dyrys ac amlweddog. Ar un llaw, mae ystod o ffactorau cymdeithasol ac economaidd fel cyfleoedd cyflogaeth ac argaeledd tai yn debygol o ddylanwadu ar gynaladwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn benodol, ceir pryderon y gall y ffactorau hyn sbarduno allfudo o'r cymunedau Cymraeg, yn enwedig gan bobl ifanc. Ac ynghlwm wrth allfudo, ceir mewnfudo all effeithio ar broffil ieithyddol y gymuned. Ar y llaw arall, fel yr adroddir yn Rhan 3, gall y Gymraeg fod o fudd i'r economi, er enghraifft fel arf marchnata neu sgìl gwerthfawr yn y gweithle.

1 £480 yw cyflog cyfartalog wythnosol etholaethau Arfon a Dwyfor Meirionnydd o'i gymharu â chyflog cyfartalog wythnosol o £540 yng Nghymru a £580 ar draws y Deyrnas Unedig: **Constituency data: wages (parliament.uk)**.

2 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*** (2017), tt. 61–3.

Cynllunio gwlad a thref

1.4

Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddarpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg yn y system gynllunio. Mae'r ddeddf yn galluogi awdurdodau cynllunio i roi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Gymraeg wrth gynnal gwerthusiad cynaliadwyedd, yn rhan o waith paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

1.5

Diwygiadau i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yw sail Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, wedi i Lywodraeth Cymru benderfynu teilwra'r ddeddf i gwrdd ag anghenion cynllunio unigryw Cymru. Roedd y diwygiadau hyn yn golygu bod sail statudol i awdurdodau cynllunio a'r Llywodraeth ystyried y Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio am y tro cyntaf. Er hynny, dadleua'r Bargyfreithiwr Gwion Lewis mai 'newidiadau technegol a difflach a gafwyd' ar y cyfan heb 'ymdrech i ddiwygio'r drefn yn sylfaenol er mwyn cynnig atebion Cymreig i broblemau Cymreig'.[3]

1.6

Dadleua ymhellach y dylid rhoi rhagor o reolaeth i gymunedau Cymreig dros ddatblygiadau yn eu hardaloedd, ac y dylid 'newid natur y drafodaeth a gweld y berthynas rhwng datblygiadau newydd a bywiogrwydd cymunedau Cymreig fel cyfle yn hytrach na phroblem'. [4] Er hynny, roedd y diwygiadau yn golygu bod sail statudol i awdurdodau cynllunio a'r Llywodraeth ystyried y Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio am y tro cyntaf. Ym mis Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn diwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol 20, *Cynllunio a'r Gymraeg*. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cyfeirio at botensial y system gynllunio i gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg, a amlinellir ymhellach yn *Cymraeg 2050*, ac yn rhoi peth canllawiau ynglŷn â sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Gymraeg.

1.7

Dywed y Nodyn Cyngor Technegol na ddylid 'fel rheol cynnal asesiad o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg', gan y byddai hynny'n 'dyblygu gwaith' y mae'r awdurdod cynllunio eisoes wedi ei wneud wrth baratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n cynghori y dylid yn hytrach ddim ond asesu effaith cais ar y Gymraeg mewn 'hap-safleoedd', sef safleoedd nad ydynt wedi eu neilltuo ar gyfer tai yn y Cynlluniau Datblygu Lleol, os yw'r safle mewn ardal sydd wedi ei 'diffinio fel un ieithyddol sensitif neu arwyddocaol'.[5]

1.8

Nid oedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r datganiad hwn, ac mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ym mis Tachwedd 2017, dadleuodd dros roi hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio ystyried y Gymraeg mewn ceisiadau cynllunio unigol. Wrth gynnal asesiad effaith ei Gynlluniau Datblygu Lleol, gallasai awdurdod cynllunio fod wedi ystyried effaith ei gynllun o fewn ardal gyfan yr awdurdod, heb ystyried ei effaith yn fanwl ar bob cymuned benodol. Mae'n bosibl hefyd y gallai tystiolaeth newydd ddod i law ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardal nad oedd ar gael adeg paratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol, neu fod yr asesiad a gynhaliwyd o effaith y cynlluniau wedi dyddio.

3 **'Sut i godi tai a chael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' - BBC Cymru Fyw**.
4 **Bargyfreithiwr blaenllaw i roi darlith ar gynllunio cymunedol a'r Gymraeg (swansea.ac.uk)**.
5 Llywodraeth Cymru, ***Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg*** (Hydref 2017), t. 12.

1.9

Bu Cymdeithas yr Iaith hefyd yn feirniadol o'r Nodyn Cyngor Technegol gan ddweud bod y nodyn, yn hytrach na chyflwyno methodoleg i awdurdodau ei ddefnyddio wrth ystyried effaith datblygiadau ar y Gymraeg, yn 'awgrymu yn gamarweiniol y dylid cyfyngu ar asesiadau o'r fath'. Pwysleisiodd y Gymdeithas 'fod deddf mewn statud megis Deddf Cynllunio 2015 bob tro yn gorbwyso nodyn cyngor fel [Nodyn Cyngor Technegol 20], neu yn wir Polisi Cynllunio Cymru, a bod effaith ar y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol ar unrhyw gam yn y broses gynllunio.' Galwodd Cymdeithas yr Iaith ar y Llywodraeth i ddiwygio'r Nodyn Cyngor Technegol 'ar frys, er mwyn adlewyrchu'r ddyletswydd dan y Ddeddf Cynllunio ar awdurdodau i ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth ddelio â cheisiadau unigol am ganiatâd cynllunio, os yw hynny'n berthnasol i'r cais'.[6]

1.10

Mewn erthygl yng nghylchgrawn *Barn*, ysgrifennodd Gwion Lewis: 'Ni ellir rhoi ystyriaeth deilwng i effeithiau tebygol ar y Gymraeg heb bwyso a mesur yr effeithiau hynny.' Dadleuodd nad yw'r 'asesiad ieithyddol arwynebol a wneir ar gyfer y [Cynlluniau Datblygu Lleol]' yn ddigonol ac nad oes modd i gynllun sydd ag oes o tua deng mlynedd ystyried anghenion marchnad dai gyfnewidiol. Tynnodd sylw at ofynion amgylcheddol penderfynu rhoi caniatâd cynllunio, a bod cyfraith yr amgylchedd yn gorfodi awdurdodau cynllunio lleol i ystyried effeithiau amgylcheddol datblygiadau newydd ddwywaith: wrth baratoi'r cynllun ac eto wrth ystyried ceisiadau unigol. 'Bwriad y Cynulliad wrth basio Deddf 2015', meddai, 'oedd gwneud darpariaeth debyg ar gyfer yr iaith Gymraeg. Ni all dogfen bolisi newid y gyfraith. Dylid edrych eto ar [Nodyn Cyngor Technegol 20] ar fyrder.'[7]

1.11

Mae'r nodyn cyngor yn datgan mai Comisiynydd y Gymraeg 'yw un o'r rheini sy'n cael ymgynghori ar [Gynlluniau Datblygu Lleol], gyda rôl benodol i ystyried effaith cynigion a pholisïau'r [Cynlluniau Datblygu Lleol] ar y Gymraeg, a hynny'n fuan yn y broses'. [8] Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, a gyhoeddodd y Llywodraeth yn 2015, yn rhestru Comisiynydd y Gymraeg ymhlith yr 'ymgyngoreion eraill' y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried ymgynghori â nhw ynglŷn â'u Cynlluniau Datblygu Lleol.[9]

1.12

Er bod y Comisiynydd yn ymateb i ymgynghoriadau ar Gynlluniau Datblygu Lleol ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i hybu'r Gymraeg mewn penderfyniadau cynllunio, nid oes ganddo'r capasiti na'r adnoddau i ddarparu cefnogaeth arbenigol i awdurdodau cynllunio ar geisiadau cynllunio unigol.

6 **Polisi Cynllunio Cymru - Ymateb Mai 2018 | Cymdeithas yr Iaith**.
7 Gwion Lewis, 'Yr iaith a chynllunio – anghysondeb', *Barn*, 658 (Tachwedd 2017), t. 8.
8 ***Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg***, t. 11.
9 Llywodraeth Cymru, ***Llawlyfr CDLlau***, 2il argraffiad (Awst 2015), t. 135.

1.13

Â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Nodyn Cynllunio Technegol 20 yn eu lle ers rhai blynyddoedd, roedd y Comisiynydd yn awyddus i ddeall realiti'r sefyllfa, ac a yw'r polisïau hyn yn ddigonol, ac yn cael eu gweithredu er lles y Gymraeg. Yn 2019 cynhaliodd astudiaeth o bolisïau cynllunio lleol a'r modd y mae awdurdodau cynllunio yn ystyried y Gymraeg wrth eu gwaith. Anfonodd holiadur at holl awdurdodau cynllunio Cymru yn holi nifer o gwestiynau am y Gymraeg yng nghyd-destun eu polisïau cynllunio. Mewn adroddiad sy'n dadansoddi ymatebion yr arolwg, daeth y Comisiynydd i'r casgliad bod:

- Diffyg cysondeb ym mholisïau cynllunio'r awdurdodau yng nghyd-destun y Gymraeg. Nid oes sicrwydd bod effaith posibl datblygiadau ar y Gymraeg yn cael ei asesu mewn modd dibynadwy, na bod camau addas yn cael eu cymryd i leddfu unrhyw effeithiau niweidiol.
- Galw o du'r awdurdodau am ganllawiau clir, cenedlaethol ar asesu effaith ar iaith a diffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Yn gysylltiedig â hyn, mae galw am ganolwr annibynnol, arbenigol â'r awdurdod i ddilysu penderfyniadau ar faterion iaith a chynllunio.

Cwestiwn wedi codi ynghylch arbenigedd yr Arolygiaeth Gynllunio mewn perthynas â materion ieithyddol. Bydd creu Arolygiaeth Gynllunio benodol i Gymru yn gyfle i ystyried hyn ymhellach.[10]

Ar sail y canfyddiadau hyn, gwnaeth y Comisiynydd yr argymhellion canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad clir a manwl i'r Arolygiaeth Gynllunio ac i awdurdodau lleol ar sut i asesu effaith ar y Gymraeg a sut y dylai polisïau cynllunio hybu defnydd o'r Gymraeg.
- Dylid rhoi'r cyfrifoldeb am roi cyngor gwrthrychol ac arbenigol ar faterion cynllunio i gorff statudol annibynnol, o bosibl yr Arolygaeth Gynllunio i Gymru sydd yn yr arfaeth.

Y farchnad dai


1.14

Tra bo cyfleoedd a heriau'n wynebu'r Gymraeg drwy'r gyfundrefn cynllunio a datblygiadau newydd, gellid dadlau mai'r farchnad dai sy'n bodoli'n barod sy'n cael yr effaith fwyaf ar hyfywedd y Gymraeg mewn nifer o gymunedau. Prin iawn yw'r pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru ar hyn o bryd i reoli'r farchnad hon a rhoi polisïau cadarn mewn lle a all sicrhau hyfywedd y Gymraeg mewn cymunedau.

10 Comisiynydd y Gymraeg, *Cynllunio a'r Gymraeg: arolwg o weithdrefnau awdurdodau cynllunio Cymru* (Ionawr 2019), t. 2.

1.15

Ym mis Ionawr 2016, pris cyfartalog tŷ yng Nghymru oedd £140,015.[11] Erbyn mis Medi 2020, roedd y pris cyfartalog wedi codi i £184,195.[12] Cynyddodd prisiau tai yng Nghymru o 10.7% yn y flwyddyn hyd Rhagfyr 2020, sy'n gynt na'r 8.5% o gynnydd a welwyd ar draws y Deyrnas Unedig yn yr un cyfnod.[13] Eisoes mae llawer o adroddiadau yn y wasg ac yn y pau gwleidyddol am bobl ifanc leol yn methu fforddio prynu tai,[14] ac os bydd y patrwm hwn yn parhau, mae'n deg tybio y bydd y sefyllfa'n dwysáu.



1.16


Yn 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru darged i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy erbyn 2021, gan gydweithio â Chartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn cyrraedd y nod. Mae tair elfen i'r strategaeth, sef cynyddu'r niferoedd o dai fforddiadwy fel y'i diffinnir yn Nodyn Cyngor Technegol 2,[15] y cynllun Rhentu i Berchnogi – Cymru,[16] a'r cynllun Cymorth i Brynu – Cymru.[17] Roedd ystadegau ar gyfer 2019–20 yn rhagdybio y byddai'r Llywodraeth yn cwrdd â'r targed erbyn 2021.[18]

11 Mynegai Prisiau Tai y DU (data.gov.uk).
12 UK House Price Index Wales: December 2020 - GOV.UK (www.gov.uk).
13 Ibid.
14 Gweler, er enghraifft, A coronavirus exodus from cities is pricing locals out in rural Wales. We need protection | Mabon ap Gwynfor | The Guardian ac Ystyried deddfu i reoli nifer yr ail gartrefi yng Nghymru - BBC Cymru Fyw.
15 Llywodraeth Cymru, *Nodyn Cyngor Technegol 2: cynllunio a thai fforddiadwy* (Mehefin 2006).
16 Rhentu i Berchnogi – Cymru | LLYW.CYMRU.
17 Cymorth i Brynu – Cymru | LLYW.CYMRU.
18 Darpariaeth tai fforddiadwy: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 | LLYW.CYMRU.

1.17

Mae mewnlifiad o'r tu allan i Gymru yn ffactor sy'n cael effaith fawr ar y farchnad dai, ac ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod dros chwarter poblogaeth Cymru (830,000) wedi eu geni tu allan i'r wlad; ac o'r rheini, dim ond 66,000 (8.0%) sy'n siarad Cymraeg.[19] Mae effaith mewnfudo ar yr iaith i'w weld fwyaf mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg wedi bod yn draddodiadol gryf:

- Er bod 75% o drigolion Ceredigion a gafodd eu geni yng Nghymru yn siarad Cymraeg, dim ond 15% o'r rhai na anwyd yng Nghymru sy'n medru'r iaith. Roedd hyn yn gostwng cyfartaledd siaradwyr Cymraeg y sir i 47%.
- Gwelwyd patrwm tebyg yng Ngwynedd, ag 89% o'r bobl a anwyd yng Nghymru yn siarad Cymraeg, a 20% o'r bobl a anwyd y tu allan i Gymru. Cyfartaledd siaradwyr Cymraeg y sir oedd 65%.



66,000

Roedd dros chwarter poblogaeth Cymru (830,000) wedi eu geni tu allan i'r wlad; ac o'r rheini, dim ond 66,000 (8.0%) sy'n siarad Cymraeg.

1.18

Ffactor arall sy'n effeithio ar y Gymraeg yw'r cynnydd mewn pryniant ail gartrefi a'r ffaith fod hynny'n aml yn gwthio prisiau tu hwnt i gyrraedd pobl leol. Dangosodd ffigyrau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer 2019–20 fod treth ychwanegol i'w dalu ar 38% o'r tai a werthwyd yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn,[20] ac roedd ffigyrau tebyg ar gyfer Ynys Môn a Cheredigion hefyd. Yr awgrym yw mai ail gartrefi oedd nifer o'r tai hyn ag arnynt dreth ychwanegol.

1.19

Mae posibilrwydd cryf y bydd hyd yn oed rhagor o dai yn cael eu gwerthu fel ail gartrefi o ganlyniad i COVID-19 a'r symud cyffredinol o'r dinasoedd i'r wlad gyda mwy o hyblygrwydd i bobl weithio o bell.

1.20

Ers 2019 bu Dr Simon Brooks o Brifysgol Abertawe yn craffu ar bolisi ail gartrefi yng Nghymru a Chernyw ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Oherwydd diddordeb cynyddol yn y maes, ar gais Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ehangwyd yr ymchwil er mwyn craffu ar faterion ehangach yn ymwneud ag ail gartrefi yng Nghymru a gwneud argymhellion polisi.[21]

19 Llywodraeth Cymru, ***Bwletin Ystadegol: Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg*** (11 Rhagfyr 2012).
20 **Ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir: Ebrill 2019 i Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU**.
21 Dr Simon Brooks ar ran Llywodraeth Cymru, ***Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru*** (10 Mawrth 2021). Cyhoeddwyd yr adroddiad y tu hwnt i gyfnod adrodd yr adroddiad hwn ac felly ni cheir dadansoddiad o'r canfyddiadau.

Gwaith ac economi

1.21

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi pwysigrwydd datblygu economaidd ar gyfer hyfywedd y Gymraeg:

> Mae'r economi'n hanfodol er mwyn creu'r amodau cymdeithasol priodol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Er nad ydym yn gallu rheoli pob ffactor sy'n dylanwadu ar dwf economaidd, mae yna bethau y gallwn ddylanwadu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau, y pwys a roddir ar y Gymraeg, lleoliad swyddi yn y sector cyhoeddus, clystyrau, sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil gwerthfawr mewn datblygiadau mawr, a chyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hyn.[22]

1.22

Mae'r strategaeth hefyd yn datgan bod y Llywodraeth 'yn bendant ynghylch yr angen i'r gwaith mewn perthynas â chynllunio ieithyddol a datblygu economaidd fynd law yn llaw â'i gilydd, er mwyn creu cymunedau Cymraeg sy'n hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol'.[23]

1.23

Er y consensws ynghylch pwysigrwydd y cyswllt rhwng yr iaith a'r economi, prin yw'r sail dystiolaeth am draweffaith polisïau a thueddiadau economaidd ar iaith, fel y dangosodd adroddiad ymchwil *Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau* gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020.[24] Mae'r adroddiad *Marchnad Lafur Cymraeg*[25] hefyd yn tynnu sylw at y diffyg hwn yn y sail dystiolaeth, gan ddatgan bod y 'pwyslais yn tueddu i fod ar y berthynas rhwng yr iaith a'r economi. Hynny yw, mae'r ffocws ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn busnesau, ar fudd yr iaith i unigolion o fewn y farchnad lafur neu i fusnesau wrth fasnachu [...] Prin iawn yw'r drafodaeth o'r modd y gall prosesau economaidd effeithio ar yr iaith'.[26]

1.24

Rhybuddia Dr Elin Royles o Brifysgol Aberystwyth fod tuedd gyffredinol i iaith a'r economi gael eu '[t]rafod mewn termau cymharol gyffredinol. Yn hytrach, mae angen gwahaniaethu'n gliriach rhwng elfennau'r berthynas iaith-economi'.[27] Â yn ei blaen i egluro elfennau gwahanol y cyswllt rhwng iaith ac economi, gan eu rhannu i ddau ddimensiwn: Iaith > Economi, ac Economi > Iaith.

22 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 59.
23 **Ibid**., t. 17.
24 Llywodraeth Cymru, ***Y Gymraeg a'r Economi*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 27 Chwefror 2020).
25 Marchnad Lafur Cymraeg, ***Marchnad Lafur Cymraeg: Adroddiad cryno yn tynnu sylw at allbynnau perthnasol ac argymhellion allweddol prosiect Marchnad Lafur Cymraeg*** (Medi 2020).
26 **Ibid**., t. 4.
27 Dr Elin Royles, ***Adroddiad Briffio Gweithdy 3, Thema'r Gweithdy: Adfywio iaith a thrawsnewid economaidd*** (Chwefror 2019), t. 3.

1.25

Mae'r dimensiwn Iaith > Economi yn canolbwyntio ar sut y gall iaith ddylanwadu ar yr economi, er enghraifft 'buddiannau economaidd gweithlu dwyieithog/gweithlu all weithio mewn iaith leiafrifol, neu effaith economaidd gymharol ar gwmnïau sy'n gweithredu mewn dwy iaith'. Mae'r dimensiwn Economi > Iaith yn ymwneud â sut gall datblygu economaidd ddylanwadu ar iaith, er enghraifft 'datblygiadau economaidd newydd mewn ardal, neu strategaethau cynllunio economaidd rhanbarthol a'u heffaith ar fywiogrwydd iaith leiafrifol, yn enwedig niferoedd y siaradwyr neu lefelau defnydd'.[28]

1.26

Yn ystod Senedd 2016–20 cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa arbrofol Arfor, sef cronfa o £2m ar gyfer creu rhagor, a gwell, swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a chefnogi twf yr iaith ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin. Y siroedd unigol oedd yn penderfynu sut i wario'r arian, ac roedd y blaenoriaethau'n amrywio rhywfaint o sir i sir. Penderfynodd Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, ganolbwyntio ar roi cymorth ariannol i gefnogi twf busnesau yn y sector bwyd a'r sector creadigol, tra ymrwymodd y siroedd eraill i roi cymorth i fusnesau dyfu heb ganolbwyntio ar sectorau penodol.

1.27

Adeg llunio'r adroddiad hwn roedd adolygiad o Arfor wedi ei gomisiynu ond heb ei gyhoeddi. Prin felly yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am lwyddiant Arfor ac am y prosiectau unigol a elwodd o'r cynllun. Nid oedd sicrwydd chwaith a fyddai'r cynllun yn parhau neu'n cael ei ddatblygu ymhellach gan lywodraeth nesaf Cymru wedi etholiad y Senedd yn 2021.

1.28

Fis Hydref 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth gronfa newydd o £4.5m i gefnogi cyfres o brosiectau arbrofol i brofi'r ffordd orau o gefnogi'r economi sylfaenol a gweld pa ymyriadau gan y Llywodraeth sy'n gweithio orau. Adnabuwyd y sector gwasanaethau iechyd a gofal, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a mân-werthwyr y stryd fawr fel enghreifftiau o'r economi sylfaenol ar y sail eu bod yn darparu gwasanaethau a chynnyrch sy'n cadw pobl Cymru'n 'ddiogel, cysurus a gwâr'.[29]

1.29

Un fenter a elwodd o'r gronfa economi sylfaen yw Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog a dderbyniodd £100,000 ar gyfer helpu busnesau lleol i weithio gyda mentrau cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau ym maes twristiaeth gymunedol, ynni adnewyddadwy, creu cynnwys ar gyfer y cyfryngau digidol a sefydlu gwasanaeth ymgynghori newydd i'r economi sylfaenol.

28 Ibid.
29 Yr economi sylfaenol | LLYW.CYMRU.

1.30

Yn ystod y cyfnod adrodd sefydlwyd y bargeinion dinesig yn ninas-ranbarthau Caerdydd a Bae Abertawe, ynghyd â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer hybu economi rhanbarthol yng Nghymru. Ceir hefyd dair partneriaeth sgiliau rhanbarthol, yng ngogledd Cymru, de-orllewin a chanolbarth Cymru a phrifddinas-ranbarth Caerdydd. Byrddau gwirfoddol, anstatudol yw'r partneriaethau sgiliau sy'n cynnwys cyflogwyr, darparwyr addysg a rhanddeiliaid eraill, a hwy sy'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyrsiau coleg a phrentisiaeth, ynghyd â niferoedd dysgwyr.

1.31

Yn ei adroddiad ar y partneriaethau sgiliau rhanbarthol ym mis Hydref 2019, nododd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Senedd bryder 'nad yw'n ymddangos [bod y Gymraeg] wedi ei phrif-ffrydio, ei ffurfioli na'i strwythuro'n llawn eto' yn eu gwaith.[30] Bydd angen sicrhau gweithredu ymrwymiad y Llywodraeth i ddarparu 'arweiniad strategol' i 'alluogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas ag anghenion sgiliau Cymraeg'.[31]

Brexit a'r Gymraeg

1.32

Bydd canlyniad refferendwm 2016 a'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith hirdymor ar economi Cymru, ac mae i hyn oblygiadau pellgyrhaeddol i ddyfodol yr iaith Gymraeg yn ogystal.

1.33

Mae sectorau fel y sector amaeth a'r sector ôl-16 yn eithriadol o bwysig i'r Gymraeg a'r ddau sector yn cyflogi canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl Cyfrifiad 2011, amaeth yw'r sector sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn gweithio ynddo.[32] Mae ardaloedd yng ngorllewin, canolbarth a gogledd Cymru lle mae oddeutu traean o'r boblogaeth leol yn cael eu cyflogi yn y sector, a lle mae dros 90% o'r gweithlu amaethyddol yn siarad Cymraeg.

1.34

Busnesau amaethyddol sy'n cynnal llawer o gymunedau gwledig lle siaredir y Gymraeg fel iaith naturiol pob dydd, a'r sector ôl-16 sy'n gyfrifol am gynhyrchu gweithlu medrus dwyieithog. Mae'r sectorau hyn wedi manteisio'n helaeth ar fuddion aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd; maent wedi derbyn cymorth ariannol ac wedi elwa o drefniadau masnachu rhydd a threfniadau teithio rhydd.

30 Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol*** (Hydref 2019), t. 38.
31 **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**, t. 6.
32 Undeb Amaethwyr Cymru, ***Ffermio yng Nghymru a'r Gymraeg*** (Gorffennaf 2017), t. 6.

1.35

Ym mis Ionawr 2018 cyhoeddodd y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru adroddiad yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd posibl i amaethyddiaeth ac ardaloedd gwledig yng Nghymru yn sgil Brexit. Noda'r adroddiad:

> Our scenario analysis suggests that the most likely changes in trading conditions would tend to disadvantage the competitive position of Welsh agriculture vis-à-vis its main current markets and trading competitors (particularly in sheep and beef). Further, we may anticipate generally reduced levels and scope of public funding by comparison with those the sector has enjoyed in recent years.[33]

1.36

Roedd hefyd yn casglu bod rhai ffermydd yn wynebu heriau llawer mwy sylweddol nag eraill, a bod yr heriau'n fwy sylweddol yng nghymunedau amaethyddol gogledd a gorllewin Cymru:

> […] a decline in the economic viability of sheep production is likely, with these farm businesses especially vulnerable to changes in both market access arrangements and public funding support – this could increase pressure on rural services;
>
> accordingly, north and west Wales are likely to face stronger negative impacts than the south and east, where more potentially positive and diverse impacts can be expected among dairy, horticultural, mixed and other farm types.[34]

Ag ystyried pwysigrwydd amaethyddiaeth i'r Gymraeg, ac yn enwedig felly yn y gogledd a'r gorllewin, casglodd y Comisiynydd fod bygythiad sylweddol i hyfywedd y Gymraeg o adael yr Undeb Ewropeaidd.

1.37

Mae cyllid Ewropeaidd hefyd wedi cefnogi'r Gymraeg yn fwy uniongyrchol. Roedd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn rhoi £375 miliwn i economi Cymru yn flynyddol, a llwyddodd sefydliadau fel yr Urdd, y mentrau iaith a Four Cymru i ddenu cefnogaeth y cronfeydd hyn i ariannu prosiectau lle'r oedd y Gymraeg wrth galon y gweithgareddau. Mae arian Ewropeaidd wedi hwyluso mentrau a phrosiectau eraill sy'n hybu'r Gymraeg, gan gynnwys adnewyddu canolfan iaith Nant Gwrtheyrn a chynhyrchu rhaglenni teledu fel *Y Gwyll/Hinterland*. Cyflwynodd Llywodraeth y DU gynlluniau ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin, a lleisiodd Llywodraeth Cymru ac eraill bryderon ynghylch y gefnogaeth ariannol fyddai ar gael ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mynegodd Comisiynydd y Gymraeg bryderon hefyd am y graddau y caiff y Gymraeg ei defnyddio wrth weinyddu'r gronfa ac i ba raddau y bydd yn cefnogi prosiectau sy'n llesol i'r Gymraeg.[35]

33 Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, ***The Implications of Brexit for Agriculture, Rural Areas and Land Use in Wales*** (Ionawr 2018), t. 2.
34 **Ibid**.
35 **Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU**.

1.38

Ers y refferendwm, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwahanol ymgynghoriadau, cynlluniau a strategaethau ar gyfer cynnal a thyfu'r economi y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*[36] a'r cynllun gweithredu economaidd[37] sy'n gysylltiedig â hi. Un o themâu allweddol y strategaeth yw 'meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd'.[38]

1.39

Mae'r Llywodraeth wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynlluniau economaidd rhanbarthol o dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Bwriad y cynlluniau hyn yw darparu sylfaen ar gyfer blaenoriaethu nifer o fuddsoddiadau mewn rhanbarthau yn y dyfodol, yn amrywio o fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys yr hyn a ddaw yn lle cronfeydd rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd, i fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat ehangach. Noda Llywodraeth Cymru:

> Drwy ddarparu fframwaith cydlynol ar gyfer buddsoddi yn ein heconomïau rhanbarthol, gallwn sicrhau swmp digonol o fuddsoddi mewn datblygu economaidd gan anelu tuag at amcanion a rennir, ac adeiladu ar gryfderau ac asedau neilltuol pob rhanbarth.[39]

1.40

Ymgynghorodd y Llywodraeth ar ddiogelu dyfodol ffermio yng Nghymru yn *Brexit a'n Tir*,[40] *Strategaeth Ryngwladol*,[41] a *Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*,[42] ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd agorodd ymgynghoriad i'r *Papur Gwyn Amaeth (Cymru)*.[43] Cynhaliodd pwyllgorau Senedd Cymru a Thŷ'r Cyffredin ymchwiliadau i effaith bosibl Brexit ar Gymru, yn eu mysg ymchwiliad gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar effaith Brexit ar feysydd cylch gwaith y pwyllgor[44] ac ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig ar y gronfa ffyniant gyffredin arfaethedig.[45]

1.41

Bedair blynedd wedi'r refferendwm, un mis ar ddeg ers ymadawiad cyfreithiol y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, ac un wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer dod i unrhyw gytundeb, cyhoeddodd arweinwyr y ddau du ar 24 Rhagfyr 2020 eu bod wedi cytuno ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cefnogi'r Cytundeb, gan y byddai'n 'darparu'r berthynas agosaf posibl â'r UE ac felly cyn lleied o amharu â phosibl'. Er hynny, gellir casglu mai yn anfoddog y daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn, gan gyhoeddi 'nad dyna'r fargen yr oeddem ei eisiau' ac 'mae penderfyniadau Llywodraeth y DU wedi gadael Cymru a'n cymunedau yn brin'.[46]

36 Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (19 Medi 2017).
37 Llywodraeth Cymru, ***Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi*** (2017).
38 *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol,* t. 3.
39 **Polisi Economaidd Rhanbarthol yng Nghymru (llyw.cymru)**, t. 2.
40 Llywodraeth Cymru, ***Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru*** (2018).
41 Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Ryngwladol: drafft ymgynghori*** (2019).
42 Llywodraeth Cymru, ***Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*** (2020).
43 Llywodraeth Cymru, ***Dogfen ymgynghori: Papur Gwyn Amaeth (Cymru)*** (2020).
44 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Effaith Brexit ar y sector celfyddydau, diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r iaith Gymraeg*** (Rhagfyr 2018).
45 Pwyllgor Dethol Materion Cymreig, ***Wales and the Shared Prosperity Fund: Priorities for the replacement of EU structural funding*** (Hydref 2020).
46 **Y berthynas newydd â'r UE beth mae'n ei olygu i Gymru | LLYW.CYMRU**.

1.42

Cyfrannodd y Comisiynydd sylwadau i sawl ymgynghoriad ar effaith posibl Brexit ar y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn crynhoi'n hwylus holl bryderon y Comisiynydd ynghylch effaith Brexit ar y Gymraeg.[47]

1.43

Bob tro y cododd y Comisiynydd lais am y materion hyn, bu'n dadlau dros sicrhau na ddylai'r Gymraeg fod ar ei cholled yn sgil y newidiadau, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad effaith llawn o effaith Brexit ar y Gymraeg. Ategodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r dadleuon hyn, ond nid yw'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynnal asesiad o'r fath hyd yma ac eithrio'n rhan o'r polisi arfaethedig ar gyfer y sector amaeth.

1.44

Mewn ymateb i ymgynghoriad ar Brexit a'n Tir yn 2018, rhybuddiodd Cymdeithas yr Iaith am oblygiadau 'hunllefus' cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant amaeth yn sgil y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd:

> Yn wir, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio tir Cymru ar gyfer coedwigoedd, hamdden a thwristiaeth, ymddengys fod y Llywodraeth yn ceisio atgyfodi'r hunllef yn nofel 'Wythnos yng Nghymru Fydd' lle mae'r siaradwr Cymraeg olaf wedi marw ac mae tir Cymru yn cael ei orchuddio gan goedwigoedd. Gresynwn at y ffaith bod ein Llywodraeth ddatganoledig yn agor cil y drws ar yr hunllef hon drwy gynnig cymhorthdal hael i bobl, cwmnïau a chyrff o'r tu allan i Gymru i ddod i ddinistrio cymunedau gwledig ein gwlad.[48]

1.45

Er bod Brexit wedi hawlio llawer o sylw gwleidyddol dros y pum mlynedd diwethaf, teg nodi i fwyafrif o drafodaethau'r blynyddoedd cynnar wedi'r bleidlais ganolbwyntio ar faterion cyfansoddiadol a chyfreithlondeb y refferendwm, a phrin iawn oedd y sylw a roddwyd i effaith Brexit ar y Gymraeg o'r herwydd.

47 Gweler ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'r ymchwiliad byr i oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i feysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yma: **BREXIT07 - Comisiynydd y Gymraeg.pdf (senedd.cymru)**.

48 **Brexit a'n tir: Cymorth i ffermwyr Cymru ar ôl Brexit | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**.

COVID-19, yr economi a'r Gymraeg

1.46

Tra bod ansicrwydd Brexit yn parhau, ym misoedd cynnar 2020 trawyd Cymru ag argyfwng COVID-19. Adeg llunio'r adroddiad, mae hi'n rhy gynnar gweld beth fydd hyd a lled effaith y pandemig ar economi Cymru, a'r Gymraeg yn ei sgil. Mae arwyddion cynnar, fodd bynnag, yn awgrymu y bydd effaith COVID-19 ar yr economi yn andwyol, a'r effaith tymor byr o leiaf ar y Gymraeg yn anghymesur o drychinebus.

1.47

Byddai ergydion economaidd mewn ardaloedd sydd eisoes yn profi tlodi gwledig yn debygol o olygu y byddai hyd yn oed llai o gyfleoedd economaidd yn yr ardaloedd hynny yn y tymor canolig. Mae llawer iawn o gymunedau Cymraeg gorllewin a gogledd-orllewin Cymru yn dibynnu ar sefydlogrwydd y sectorau sydd wedi eu heffeithio galetaf gan y cyfyngiadau, sef twristiaeth a lletygarwch.

1.48

Ar 15 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd yr Urdd bod dyfodol swyddi 80 o'i staff, 25% o'i weithlu, mewn perygl yn sgil colledion ariannol oedd yn uniongyrchol o ganlyniad i'r pandemig.[49] Mae pryderon gwirioneddol y bydd y penderfyniad i gyfyngu ar symud, gohirio digwyddiadau a chlirio'r calendr diwylliannol a chymdeithasol yn ansefydlogi nifer fawr o fusnesau Cymraeg, yn ogystal ag arwain at dlodi diwylliannol yn yr iaith. Yn ei golofn yng nghylchgrawn Golwg, ysgrifennodd Dylan Iorwerth:

> Yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ydi dau o'r cyrff mwya' sy'n diodde' – ynghyd â rhannau o'r diwydiant teledu a theatr ac adloniant – ac, mewn diwylliant bach, mae eu cyfraniad nhw yn llawer mwy na'r incwm y maen nhw'n ei greu neu'r gweithgareddau uniongyrchol y maen nhw'n eu cynnal.
>
> [...] Llawn mor bwysig â'r conglfeini cenedlaethol ydi'r holl fân ddigwyddiadau, gwyliau, gigs a chyfarfodydd cymdeithasol sy'n digwydd drwy'r flwyddyn ledled y wlad. Y rheiny ydi leinin ein diwylliant ni, sy'n cadw siâp y dilledyn.[50]

49 **80 o swyddi'r Urdd dan fygythiad yn sgil Covid-19 - BBC Cymru Fyw**.
50 Dylan Iorwerth, 'Cadw diwylliant rhag boddi', *Golwg* (13 Awst 2020) t. 10.

Gweithredu dros lewyrch economaidd yn y Gymraeg

1.49

Mae Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio'n agos â busnesau mawr yng Nghymru gan eu hannog i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg, a'u cefnogi a'u cynorthwyo wrth iddynt wneud hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y tîm yn dylanwadu ar fusnesau ac elusennau i gynyddu'r defnydd gweledol a chlywedol o'r Gymraeg mewn siopau a changhennau yn Rhan 3.

1.50

Yn ogystal â'r gwaith ymarferol hwn, defnyddia'r Comisiynydd y cyfleoedd sy'n codi i amlygu gwerth economaidd y Gymraeg ar lefel strategol drwy ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus. O ddylanwadu ar bolisi a sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisïau, y nod yw lleihau'r risg y gallai'r datblygiadau gael effaith negyddol ar yr iaith neu fod cyfleoedd yn cael eu colli i effeithio'n gadarnhaol ar ei dyfodol.

1.51

Dadleuodd y Comisiynydd y dylid datblygu'r economi mewn modd sydd, nid yn unig yn gwarchod a diogelu'r Gymraeg, ond sydd hefyd yn ei hybu a'i chryfhau. Dadleuodd hefyd y dylid adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd drwy gyllid Ewropeaidd drwy ddod â hyd yn oed mwy o fuddion economaidd ac ieithyddol i Gymru yn y dyfodol. Galwodd am weithredu arloesol i ddefnyddio'r Gymraeg er budd yr economi mewn ymateb i'r strategaeth ryngwladol ddrafft.

1.52

Yn ei ymateb i ymgynghoriad ar y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol, galwodd y Comisiynydd am greu cynlluniau buddsoddi mewn diwydiannau sydd eisoes yn bwysig i'r Gymraeg, ond hefyd y dylid bod yn uchelgeisiol wrth sefydlu gweithleoedd Cymraeg a gyrfaoedd o ansawdd mewn sectorau arloesol – boed hynny wrth ddatblygu technoleg amlieithog, ynni adnewyddadwy neu ddarparu gwasanaethau cefnogi busnes.

1.53

Yn *Cymraeg 2050* mae'r Llywodraeth yn datgan mai'r her yw 'sicrhau fod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd deniadol a chartrefi er mwyn iddynt allu aros, neu ddychwelyd, i'r cymunedau [Cymraeg]'[51] a hybu defnydd o'r Gymraeg fel iaith gweithle a busnes mewn ardaloedd eraill. Er bod y datganiadau polisi lefel uchel hyn yn eu lle, a rhai prosiectau arbrofol yn cefnogi twf, nid yw wedi arwain at brif ffrydio'r Gymraeg fel egwyddor gyffredinol ar draws prosiectau datblygu economaidd. Heb weithredu uchelgeisiol a chynllunio bwriadus, anodd yw dychmygu tro'r trai ar y patrwm cyson o leihad yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

51 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 7.

Casgliadau'r Comisiynydd

Mae galluogi unigolion i aros a byw yn eu cymunedau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'n fater o gyfiawnder cymdeithasol. Mae'n gwbl amlwg nad yw'r gyfundrefn bresennol yn gweithio o blaid cymunedau Cymraeg a gwledig. Mae perygl i'r cynnydd mewn tai haf nid yn unig danseilio'r defnydd o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, ond hefyd danseilio'r nod llesiant o Gymru sy'n fwy cyfartal drwy brisio pobl leol allan o'r farchnad ac arwain at sefyllfa lle gwelir pentrefi a chymunedau bywiog yn cael eu disodli gan ganolfannau gwyliau.

Wrth i bandemig COVID-19 chwyldroi'r ffordd rydym yn gweithio a dylanwadu ar ble rydym yn dymuno byw a threulio'n dyddiau, mae angen i Lywodraeth Cymru sefydlu tasglu ar fyrder i edrych ar y datrysiadau posibl i reoli'r farchnad dai.

Er bod y symudiad tuag at weithio o gartref yn sgil COVID-19 yn creu heriau penodol i'r farchnad dai mewn rhai ardaloedd, does dim dwywaith nad yw'r newid hwn yn creu cyfleodd i'r Gymraeg hefyd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi datgan ei nod o weld 30% o'r gweithlu yn gweithio o'u cartrefi a'u cymunedau yn dilyn y pandemig. Mae cyfleoedd amlwg i gynyddu gweithgarwch economaidd mewn cymunedau Cymraeg yn sgil y newid chwyldroadol hwn, gan na fydd yr un rheidrwydd ar bobl i symud i ganolfannau dinesig na phoblog a gadael cymunedau gwledig er mwyn dilyn gyrfaoedd penodol. **Bydd angen i'r Llywodraeth wella'n sylfaenol isadeiledd ardaloedd gwledig er mwyn galluogi'r weledigaeth hon a chefnogi twf economaidd angenrheidiol. Rhaid sicrhau bod y Gymraeg wrth galon cynllunio'r newid sylfaenol hwn i isadeiledd ein cymunedau ni.**

Gan fod y sefyllfa hon yn un fyw a'r newid yn dechrau digwydd adeg llunio'r adroddiad hwn rhaid cadw llygad barcud arni. **Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol gydweithio i fonitro effaith y newid mewn patrymau gweithio ar gymunedau Cymraeg *wrth iddynt ddatblygu*. Ni fyddai'n dderbyniol gadael i'r newid strwythurol hwn ddigwydd heb fonitro'n agos ac yn rhagweithiol ei draweffaith ar y Gymraeg. Rhaid sicrhau bod dealltwriaeth ddigonol o'r sefyllfa gan lunwyr polisi er mwyn iddynt fod mewn sefyllfa i gyflwyno mesurau lliniarol brys pe bai angen.**

Er mwyn i'r cynllunio hyn fod yn ystyrlon mae hefyd angen gwell dealltwriaeth sylfaenol arnom ar y berthynas rhwng iaith ac economi. **Mae mawr angen i'r Llywodraeth gomisiynu ymchwil gynhwysfawr er mwyn sicrhau sylfaen theoretig gadarn ac adnabod pa ddatblygiadau economaidd sydd â'r potensial i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg. Yn sicr, dylid cynnal gwerthusiad o gynllun Arfor hefyd a defnyddio'r gwersi'n sail ar gyfer strategaethau economaidd hirdymor i'r cymunedau hynny lle ceir canrannau arwyddocaol o siaradwyr Cymraeg.**

Mae'n hanfodol hefyd nad yw'n dinasoedd a chanolfannau trefol yn cael eu gadael ar ôl mewn perthynas â chynllunio ieithyddol. **Rhaid sicrhau bod y Llywodraeth, awdurdodau lleol a'r bargeinion twf dinesig yn prif ffrydio'r Gymraeg fel egwyddor gyffredinol ar draws prosiectau cefnogi'r economi.**

Wrth ailgodi ac ailgynllunio yn dilyn Brexit a COVID-19, rhaid gafael yn y cyfleoedd newydd sy'n ymagor i sicrhau bod gweithleoedd ym mhob rhan o Gymru yn cynnig cyfleoedd i bobl weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. **Carem weld y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain yn y maes hwn dros y pum mlynedd nesaf drwy greu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn fewnol.** Yn sicr, dylai awdurdodau lleol yng Nghymru lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ystyried efelychu polisi iaith Cyngor Gwynedd o weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mae lle i bob rhan o'r sector cyhoeddus arwain yn y maes hwn, ble bynnag maent wedi eu lleoli. Bydd yr hyblygrwydd newydd o ran lleoliadau gweithio hefyd yn rhoi hyblygrwydd i sefydliadau sicrhau bod y bobl â'r sgiliau iaith iawn yn y swyddi iawn. Byddai hyn yn gam sylfaenol ymlaen i hybu'r farchnad lafur Gymraeg a hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg gan greu llwybrau gyrfaol clir i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n gadael addysg Gymraeg.

2 Diwylliant a'r cyfryngau

2.1

Gwelwyd twf sicr ym mhresenoldeb digidol y Gymraeg ers cyhoeddi'r adroddiad 5-mlynedd diwethaf. Cyfranna hyn at ehangu cyrhaeddiad ac amrywiaeth yr arlwy diwylliannol Cymraeg, wrth gwrs. Nid yw hynny heb ei heriau i iaith fel y Gymraeg gan fod cynnydd ac amrywiaeth cyfatebol yn arlwy ieithoedd eraill hefyd, nid lleiaf y Saesneg, yn golygu bod dewisiadau ehangach ar gael i siaradwyr Cymraeg.

2.2

Yr her barhaus felly yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn dewis profi diwylliant Cymraeg. Mae cyfryngau digidol yn hwyluso hynny, wrth gwrs, ond yr un yw'r her waelodol. Er hynny, mae'r modd y cofleidiodd siaradwyr Cymraeg y cyfryngau digidol yn wyneb heriau niferus argyfwng COVID-19 gan greu cymunedau rhithiol newydd a defnyddio'r cyfryngau digidol i ddathlu gwyliau, canu mewn corau rhithiol a thrafod materion mor amrywiol â bwyd a chroen, yn arwydd cadarnhaol o ddiwylliant cryf a hyfyw sy'n mynnu cael mynegiant.

Darllen

2.3

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 15% o boblogaeth Cymru (ychydig dros 430,700 o bobl) yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg; ac yn wir o'r rhai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, nododd 77% fod ganddynt hefyd sgiliau darllen ac ysgrifennu Cymraeg.[52] Mae gan y diwydiant cyhoeddi llyfrau a chylchgronau yn y Gymraeg ran greiddiol yn normaleiddio'r arfer o ddarllen y Gymraeg ac adlewyrchu diwylliant ac amrywiaeth pobl Cymru mewn print, a thrwy hynny gynyddu hyder pobl yn eu sgiliau.

2.4

Cyngor Llyfrau Cymru sy'n arwain y gwaith hwnnw drwy hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg; hybu'r diwydiant cyhoeddi; cynorthwyo a chefnogi awduron; a dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd yn y Gymraeg.[53] Mae'n darparu gwasanaeth cyfanwerthu i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr hefyd drwy ei ganolfan ddosbarthu. Yn 2019–20 cefnogodd y Cyngor Llyfrau gyhoeddi 215 o deitlau Cymraeg oedd â chyfartaledd gwerthiant o 846 llyfr ar ôl 18 mis; ffigurau sy'n adlewyrchu tueddiadau'r cyfnod ers 2016.[54]

2.5

Dangosodd adroddiad ymchwil Beaufort ar dueddiadau darllen siaradwyr Cymraeg fod cynnydd wedi bod yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n darllen llyfrau Cymraeg rhwng 2003 a 2012, o 37% i fwy na hanner (55%). Rhwng 2012 a 2016 arhosodd y ganran hon yn gymharol gyson (54%) ond gwelwyd twf amlwg yn y gyfran sy'n darllen llyfr Cymraeg yn gymharol aml (o leiaf unwaith y mis), o 19% yn 2012 i bron i chwarter (24%) yn 2016.[55] Bydd Holiadur Arferion Darllen siaradwyr Cymraeg a gynhaliwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn ystod haf 2020 yn amlygu patrymau darllen mwy diweddar siaradwyr Cymraeg.

2.6

Mae llyfrau plant ac oedolion ifanc yn bwysig iawn i'r Gymraeg oherwydd eu bod yn meithrin ac yn datblygu arferion darllen yn yr iaith a fydd yn parhau, gobeithio, gydol eu hoes. Ddiwedd 2017 cyhoeddwyd adroddiad Dr Siwan M. Rosser ar lyfrau plant a phobl ifanc,[56] adroddiad heriol y mae ei argymhellion wedi gosod cyfeiriad i waith Cyngor Llyfrau Cymru byth ers hynny. Arweiniodd yr adroddiad, er enghraifft, at roi rhagor o bwyslais ar gyhoeddi llyfrau gwreiddiol i blant a phobl ifanc, ac erbyn hyn mae grantiau mwyaf y Cyngor ar gael ar gyfer llyfrau i blant hŷn a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion. Mae grantiau llai hefyd wedi eu haddasu i annog awduron newydd i lunio llyfrau gwreiddiol i oedolion ifanc ac mae cydweithio wedi bod â Llenyddiaeth Cymru i hyfforddi awduron a darlunwyr i greu llyfrau gwreiddiol i blant.

52 **Sgiliau Cymraeg fesul Awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, cyfrifiad 2011 (llyw.cymru)**.
53 **Ein Hamcanion | Cyngor Llyfrau Cymru**.
54 Cyngor Llyfrau Cymru, **Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020** (2020).
55 Beaufort Research, ***Adroddiad Ymchwil Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg: Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2016*** (2016), t. 6.
56 Siwan M. Rosser, ***Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Terfynol*** (20 Gorffennaf 2017).

2.7

Arweiniodd yr adroddiad hefyd at gomisiynu ymchwil pellach yn 2018 i geisio deall yn well anghenion rhieni â sgiliau cyfyngedig yn y Gymraeg oedd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Darparodd awgrymiadau pwysig ar gyfer hyrwyddo llyfrau Cymraeg i'r gynulleidfa allweddol hon wrth iddynt gefnogi eu plant mewn addysg Gymraeg. Prosiect pwysig arall yw Darllen yn Well[57] sy'n ffrwyth cydweithio ers 2018 rhwng Llywodraeth Cymru, y Reading Agency a Chyngor Llyfrau Cymru i sicrhau bod teitlau Cymraeg ym meysydd dementia ac iechyd meddwl ar gael er hyrwyddo llesiant siaradwyr Cymraeg.

2.8

Pontio a chefnogi gweithgareddau darllenwyr, llyfrwerthwyr, awduron a gweisg yw gwaith y Cyngor Llyfrau. Yn gynyddol dros y cyfnod adrodd gwelwyd rhagor o gyfleoedd i brynu llyfrau Cymraeg ar y we gan fod modd gwneud hynny drwy wefan y Cyngor Llyfrau gan roi'r comisiwn i siop lyfrau o ddewis y prynwr; yn uniongyrchol gan rai gweisg; a chan y rhan fwyaf o siopau llyfrau Cymraeg.

2.9

Mae'n rhy gynnar i fesur effaith hirdymor argyfwng COVID-19 ar y diwydiant. Cafwyd awgrym bod yr arfer o brynu dros y we wedi cynyddu yn sgil yr argyfwng a chynyddu hefyd a wnaeth gwerthiant e-lyfrau yn ystod y cyfnod clo cyntaf.[58] Awgrymodd data ymchwil Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg yn 2016 fod galw sylweddol am e-lyfrau Cymraeg yn bodoli bryd hynny: er bod llai nag un o bob deg (7%) o'r rhai oedd â mynediad i'r rhyngrwyd wedi prynu e-lyfr Cymraeg, byddai mwy na dau o bob pump o'r rhain yn ystyried prynu un.[59]

2.10

Erbyn diwedd y cyfnod adrodd roedd Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn cefnogi cyhoeddi 16 cylchgrawn Cymraeg wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd gwahanol. Tuedd amlwg dros y cyfnod yw symudiad at ehangu presenoldeb digidol y cylchgronau hyn. Er enghraifft, lansiwyd cylchgrawn *O'r Pedwar Gwynt* yn 2016 fel cyhoeddiad papur a fyddai'n ymddangos deirgwaith y flwyddyn gyda deunydd wythnosol newydd ar y wefan,[60] tra bo *Lysh* a lansiwyd yn 2019, sy'n gylchgrawn ar gyfer merched yn eu harddegau yn bennaf, ar gael yn ddigidol yn unig.[61]

2.11

Mae croesgyfeirio clir rhwng gwefan newyddion Golwg 360 a chylchgrawn *Golwg* gyda'r naill yn cyfeirio darllenwyr at y llall,[62]a bellach mae modd tanysgrifio i fersiwn digidol o gylchgrawn *Golwg* ei hun sy'n galluogi tanysgrifwyr i ddarllen cynnwys arbennig. Yn 2017 rhoddwyd y gorau i gyhoeddi *Y Cymro* fel papur newydd wythnosol a methwyd â chanfod prynwyr addas ar ei gyfer. Fodd bynnag erbyn diwedd yr un flwyddyn fe'i hailgyhoeddwyd fel papur newydd misol â chefnogaeth gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylid pwysleisio hefyd wrth gwrs y cyhoeddir cylchgronau a chylchlythyrau Cymraeg mewn print ac ar lein lle nad ydynt yn derbyn nawdd cyhoeddus. Yn eu plith mae cylchgronau enwadol a'r *Faner Newydd* a chylchlythyrau cymdeithasau Cymreig, â rhai ohonynt yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

57 Reading Well (reading-well.org.uk).
58 Mwy yn prynu llyfrau Cymraeg ar y we yn ystod y pandemig - BBC Cymru Fyw.
59 *Adroddiad Ymchwil Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg: Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2016*, t. 4.
60 O'r Pedwar Gwynt.
61 Lysh Cymru.
62 Golwg360.

2.12

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu llenyddiaeth gan hwyluso, noddi a chyflawni rhaglen lenyddol ledled Cymru. Bydd yn gwneud hynny mewn sawl ffordd. O safbwynt datblygu awduron, bydd yn darparu ysgoloriaethau a chynlluniau mentora i awduron a chyrsiau ysgrifennu yn Nhŷ Newydd yn Llanystumdwy. Mae hefyd yn gyfrifol am brosiectau Bardd Plant Cymru, Bardd Cenedlaethol Cymru a Gwobr Llyfr y Flwyddyn sy'n ysbrydoli ac yn denu pobl at lenyddiaeth.

2.13

Ni ellir tanbrisio cyfraniad papurau bro at sicrhau cyfleoedd i bobl ddarllen yn Gymraeg chwaith. Mae rhagor na 50 papur bro yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar draws Cymru â'r rhan fwyaf yn derbyn peth cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Datblygiad difyr dros y cyfnod adrodd oedd sefydlu prosiect Bro 360 i greu rhwydwaith o wefannau bro mewn cymunedau yn Arfon a gogledd Ceredigion. Bellach mae saith gwefan bro â rhwydwaith o gyfranwyr sy'n rhoi sylw i straeon lleol. Mae'r prosiect hefyd yn darparu cyfleoedd i feithrin gohebwyr lleol. Hwylusodd Bro 360 gyhoeddi nifer o bapurau bro yn ddigidol yn ystod y cyfnod clo ac erbyn mis Hydref 2020 roedd cant o rifynnau wedi eu cyhoeddi'n ddigidol yn ystod y cyfnod clo.[63]

Darlledu a'r Gymraeg

2.14

Ni fu newid i'r ffaith mai S4C a'r BBC yw prif gynheiliaid y cyfryngau darlledu yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, â llawer o'u darpariaeth ar gael yn gynyddol yn ddigidol. Er hynny, mae'n bryder nad oes amrywiaeth arlwy Cymraeg ar gael gan ddarparwyr eraill yn lleol, nac yn genedlaethol, er mwyn adlewyrchu lluosogrwydd safbwyntiau a phrofiadau pobl Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Trafodwyd y materion hyn mewn nifer o ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cyfryngau Senedd Cymru ar ddyfodol S4C,[64] radio yng Nghymru,[65] newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru,[66] ac yn fwy diweddar ar ddatganoli darlledu.[67]

2.15

Adeg trafod adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC gan Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DCMS) yn 2015–16, dechreuwyd trafodaeth am y cyfryngau Cymraeg, ac S4C yn benodol. Arweiniodd hyn at gyhoeddi adroddiad yn adolygu'r Sianel yn 2018 a luniwyd o dan gadeiryddiaeth y diweddar Euryn Ogwen Williams.[68]

63 **Cant o rifynnau papur bro ar-lein yn ystod Covid – Bro360**.
64 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Tu Allan i'r Bocs: Dyfodol S4C*** (Awst 2017).
65 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Ar yr un donfedd: Ymchwiliad i Radio yng Nghymru*** (Rhagfyr 2018).
66 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Y Penawdau: Ymchwiliad i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru*** (Mai 2018).
67 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru, ***Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?*** (Mawrth 2021).
68 Euryn Ogwen Williams ar ran yr Adran Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ***Creu S4C ar gyfer y dyfodol*** (Rhagfyr 2017).

2.16

Mae argymhellion yr adroddiad wedi llywio gwaith y sianel ers y cyfnod hwnnw. Yn eu plith roedd argymhelliad i'r sianel sefydlu partneriaeth iaith â Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Esgorodd hyn ar gydweithio rhwng y sianel a chyrff fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a arweiniodd at ddatblygu adnoddau pwrpasol ar gyfer dysgwyr i gyd-fynd â nifer o gyfresi poblogaidd S4C. Fel rhan o nod S4C i gefnogi dysgwyr, cyflwynwyd nifer o gyfresi newydd penodol ar gyfer dysgwyr fel *Iaith ar Daith*. Bu'r gyfres yn hynod o lwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddenu dros 1 miliwn o sesiynau gwylio, 650,000 ohonynt ar Facebook.

2.17

Yn 2019 cyhoeddwyd partneriaeth arall rhwng S4C a'r Mudiad Meithrin i greu cyfleoedd i gaffael a throsglwyddo'r iaith Gymraeg ac i gefnogi plant, teuluoedd a gofalwyr yn y blynyddoedd cynnar. Roedd arlwy S4C yn hollbwysig yn ystod cyfnod clo 2020 yn rhoi cyfleoedd i blant glywed a defnyddio'r Gymraeg pan gaewyd y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau gofal plant. Rhyddhaodd S4C nifer o raglenni plant o'r archif a chyhoeddodd adnoddau Ysgol Cyw ar ei gwefan. Gwelwyd cynnydd o 182% yn nifer cyfartalog gwylwyr rhaglenni plant S4C.[69]

2.18

Argymhelliad hynod bwysig arall adroddiad Euryn Ogwen Williams oedd yr un i S4C sefydlu hwb digidol i ddatblygu a gwella dylanwad digidol y sianel, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol yn y Gymraeg. Mewn ymateb mae S4C wedi datblygu gwasanaeth ar alw S4C Clic i gynnig cynnwys arbennig sydd ar gael trwy Clic yn unig, fel bocs sets a dramâu a chynnwys penodol i ddysgwyr ac i blant a phobl ifanc. Ddechrau 2020 cyrhaeddodd Clic 100,000 o danysgrifwyr mewn cyfnod o 6 mis.[70]

2.19

Cam pwysig arall o safbwynt ymrwymiad S4C i ddatblygiadau digidol oedd lansio Hansh ym mis Mehefin 2017. Mae'n cynnig platfform a chynnwys unigryw i bobl ifanc rhwng 16–34 oed ac yn cynnig adloniant, dramâu digidol a rhaglenni ffeithiol. Mae yno hefyd ddarpariaeth materion cyfoes a newyddion gan newyddiadurwyr dan hyfforddiant mewn partneriaeth ag ITV Cymru Wales. Mewn cyfnod o fis yn unig ddechrau 2020 denodd Hansh filiwn o sesiynau gwylio ar draws Twitter, Facebook ac YouTube am y tro cyntaf erioed, ac ers hynny ehangodd i greu cynnwys ar Instagram a TikTok yn ogystal â chreu podlediadau.[71] Yr her yn y tymor hir wrth gwrs yw sicrhau bod cynulleidfa Hansh yn ei thro yn trosglwyddo i wylio arlwy ehangach S4C.

69 Tystiolaeth S4C i Bwyllgor Materion Cymreig San Steffan i'w ymchwiliad ar effaith COVID-19 ar economi Cymru: **https://committees.parliament.uk/writtenevidence/5630/pdf/**.

70 **S4C Clic yn bwrw'r 100,000 | S4C**.

71 **Hansh yn denu 1 miliwn o sesiynau gwylio mewn mis | S4C**.

2.20

Daeth Rhodri Williams yn Gadeirydd S4C ar 1 Ebrill 2020 i gymryd lle Huw Jones a fu'n Gadeirydd ers 2011. Yn ei gyfweliad cyntaf yn y swydd beirniadodd Rhodri Williams S4C am fod ar ei hôl hi o safbwynt darpariaeth ddigidol ac am fethu â 'dygymod â'r her o benderfynu pa fath o wasanaethau mae'n bosibl eu darparu nhw ar y sgrin deledu traddodiadol, a pha wasanaethau sydd yn well yn cael eu darparu ar lwyfannau digidol gwahanol'.[72] Bydd yn ddiddorol gweld pa newidiadau felly fydd yn deillio o'i benodiad. Un o'i brif dasgau yn ei swydd newydd fydd trafod setliad ffi'r drwydded ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 ymlaen.

2.21

Mae'n bwysig sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a phobl sy'n dysgu'r iaith yn cael mynediad at wybodaeth a chynnwys Cymraeg mewn meysydd sy'n eu diddori, ac mae normaleiddio'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol yn ffordd amlwg o wneud hynny. Mae datblygiadau digidol S4C wedi mynd law yn llaw â chynnydd cyffredinol mewn cynnwys digidol Cymraeg, er nad oes modd mesur maint y cynnydd mewn modd ystyrlon. Mae llawer o'r cynnwys hwn wedi'i ddatblygu â chefnogaeth ariannol darlledwyr cyhoeddus fel y BBC ac S4C, ond gwelwyd hefyd sawl gwefan, blog a phodlediad[73] yn cael eu datblygu yn Gymraeg mewn meysydd mor amryfal â hanes menywod anghofiedig Cymru,[74] gwrachod heddiw,[75] hanes lleol a'r celfyddydau,[76] iechyd meddwl,[77] a datblygiadau technolegol a'r Gymraeg.[78] Mae llawer o'r cynnwys digidol hwn bellach i'w weld gyda'i gilydd drwy borth amam.cymru, sy'n hwyluso mynediad hawdd at gynnwys Cymraeg.

2.22

Mae perthynas agos rhwng S4C a'r BBC. Mae Deddf Darlledu 1990 yn mynnu bod y BBC yn darparu dim llai na 520 awr o gynnwys i S4C bob blwyddyn.[79] Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, chwaraeon a'r Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal â rhai rhaglenni ffeithiol. Mae S4C hefyd yn talu am bresenoldeb ar BBC iPlayer sy'n ychwanegol at S4C Clic ac yn ddull pwysig iawn o gyrraedd cynulleidfa eang, gan ei fod yn rhoi presenoldeb i S4C ar draws ystod eang o ddyfeisiau na fyddent fel arall ar gael i S4C, ac yn cyfrannu'n sylweddol at niferoedd gwylio cynnwys ar-lein o'r herwydd. Roedd bwriad gwreiddiol y byddai gwasanaethau technegol darlledu S4C yn cael eu cydleoli â rhai'r BBC erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019–20, ond golygodd y pandemig oedi pellach i'r cynlluniau tan ddechrau 2021.[80]

2.23

Y BBC hefyd yw prif ddarparwr cynnwys cyfrwng Cymraeg ar y radio a'r unig un sy'n darlledu yn y Gymraeg yn unig. Prin yw'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael ar orsafoedd masnachol ac nid oes gan Ofcom, y rheoleiddiwr darlledu, bwerau i'w gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg gael ei chynnwys mewn fformatau radio masnachol. Ceir ambell orsaf radio lle mae rhywfaint o allbwn cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac mae rhai gorsafoedd radio fel Môn FM yn darlledu'n ddwyieithog.

2.24

72 S4C 'ar ei hôl hi' ar lwyfannau digidol, medd cadeirydd - BBC Cymru Fyw.
73 Ceir rhestr o wefannau, blogiau a phodlediadau Cymraeg ar wefan Hedyn, ac mae'r podlediadau Cymraeg wedi eu casglu ynghyd ar wefan ac ap Y Pod.
74 drudwen (tumblr.com).
75 Podlediad Gwrachod Heddiw (ypod.cymru).
76 Yr Hen Ddeurodiwr – yn dŵad yn ôl o dro i dro i weld be' 'di be' yn 'rhen Ga'rdydd (wordpress.com); Enwau Dyffryn Ogwen; Cyhoeddiadau'r Stamp (ystamp.cymru).
77 meddwl.org • Meddyliau ar Iechyd Meddwl; Podlediad DEWR (ypod.cymru); Podlediad Digon (ypod.cymru)
78 Yr Hacledïad.
79 Ymateb y BBC i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru ar ddatganoli darlledu (Ionawr 2020), t. 13.
80 S4C, *Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar gyfer cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2020* (2020), t. 99.

Ddechrau 2018 ychwanegwyd gorsaf BBC Radio Cymru 2 at arlwy Cymraeg y BBC. Yn ôl adroddiad y BBC ar gyfer y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ddechrau 2020 roedd 17.5% o siaradwyr Cymraeg (4.4% o boblogaeth Cymru dros 15 oed) yn gwrando ar Radio Cymru yn wythnosol.[81]

2.25

BBC Cymru Fyw yw gwasanaeth digidol y BBC ac mae'n darparu cynnwys amrywiol ym meysydd newyddion, cynnwys cyffredinol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y cyfnod adrodd datblygodd y BBC gynnwys Cymraeg pwrpasol ar gyfer siaradwyr Cymraeg o dan 35 oed ar BBC Sounds, sy'n cyd-fynd â bwriad Hansh o apelio at oedolion ifanc. Yn yr un modd ag S4C, mae'r BBC wedi cydweithio yn ystod y cyfnod adrodd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi dysgwyr, er enghraifft drwy ddarlledu rhaglen radio wedi'i chyflwyno gan ddysgwyr a ddarlledwyd ar wefan Cymru.fm a BBC Radio Cymru 2, yn ogystal â chynhyrchu rhaglen newyddion wythnosol pwrpasol ar gyfer dysgwyr.

2.26

Ariennir S4C yn bennaf drwy ffi'r drwydded deledu a chymorth grant bychan ychwanegol gan y DCMS. Ers 2017 derbynia gyllid ffi'r drwydded yn uniongyrchol gan y BBC yn unol â Siarter Frenhinol y BBC. Roedd hyn werth £74.5miliwn y flwyddyn i S4C yn 2018–19, swm sy'n sefydlog tan ddiwedd cyfnod presennol ffi'r drwydded yn 2021–22. Mae sicrwydd ffi'r drwydded yn caniatáu graddau o sefydlogrwydd i S4C a gallu i gynllunio i'r tymor hirach, mater sy'n hanfodol i'r sianel fel y nododd Euryn Ogwen Williams yn ei adolygiad.

2.27

Argymhellodd yr adroddiad y dylai S4C gael ei hariannu'n gyfan gwbl gan ffi'r drwydded o 2022–23 ymlaen, â'r holl benderfyniadau am ariannu yn cael eu gwneud yr un pryd â'r trafodaethau am setliad ariannu ffi trwydded y BBC. Â hynny mewn golwg, ym mis Tachwedd 2020 ysgrifennodd Gweinidog Diwylliant Llywodraeth y Deyrnas Unedig at y BBC ac S4C i amlinellu sgôp ac amserlen y trafodaethau ar ffi'r drwydded o 2022 ymlaen.[82] Yn ei lythyr at S4C amlygodd bwysigrwydd y sianel fel yr unig ddarlledwr Cymraeg, a'i safle diwylliannol a chymdeithasol unigryw, gan gyfeirio at ei heffaith economaidd hanfodol a'i rhan allweddol yn hyrwyddo'r Gymraeg. Nododd hefyd fod angen i S4C gael ei moderneiddio.

2.28

Dylid nodi wrth fynd heibio y cynhaliodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgynghoriad yn 2020 ar ddad-droseddoli achosion o osgoi talu'r drwydded deledu; cam a fyddai, o'i wireddu, yn creu ansicrwydd ynghylch faint o ffi'r drwydded fyddai ar gael i ariannu gweithgareddau S4C a'r BBC yn y Gymraeg.

2.29

Yn ystod 2019–20 cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ymchwiliad i ddatganoli darlledu i Gymru. Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn credu y byddai gwneud hynny'n arwain at well sylfaen ar gyfer y cyfryngau Cymraeg ac yn arwain at ddarpariaeth ehangach.

Y celfyddydau

81 Ymateb y BBC i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru ar ddatganoli darlledu, t. 11.
82 Letters from the Culture Secretary to the BBC and S4C on the 2022 Licence Fee Settlement - GOV.UK (www.gov.uk).

2.30

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cenedlaethol swyddogol sy'n cyllido a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Yn *Er Budd Pawb*,[83] ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2018–23 ymrwymodd y Cyngor Celfyddydau i gynyddu ei fuddsoddiad mewn gwaith pobl sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir gwybodaeth am gyfranogiad siaradwyr Cymraeg yn y celfyddydau yn ogystal ag ymrwymiadau Cyngor Celfyddydau Cymru o safbwynt gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog mewn adroddiadau blynyddol am y Gymraeg ar ei wefan.[84] Mae adroddiad 2019–20 yn ategu ymrwymiad y Cyngor i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 drwy weithgarwch a chyfleoedd yn y celfyddydau.

2.31

Yn ôl ffigurau 2019–20,[85] mynychodd 92.3% o oedolion sy'n medru'r Gymraeg o leiaf un digwyddiad celfyddydol, unwaith neu ragor y flwyddyn. Roedd hyn yn cymharu ag 86.9% yn 2018–19 ac roedd 11% yn fwy nag yn 2015–16 (81%). Roedd ffigurau 2019–20 yn dangos bod 49% o oedolion sy'n medru'r Gymraeg yn cyfranogi yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu ragor.

2.32

Yn 2018–19 ariannodd y Cyngor 437 o brosiectau â chymorth y Loteri Genedlaethol. Roedd 26 o'r prosiectau hyn yn rhai Cymraeg, sydd dri yn llai nag yn 2016–17. Mae'r niferoedd hyn lawer yn is na'r 41 prosiect ar ariannwyd yn 2014–15, ond dylid nodi bod gostyngiad nodedig yn nifer gyffredinol y prosiectau a ariannwyd gan y Loteri hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn 2018–19 ariannwyd 194 prosiect dwyieithog Cymraeg/Saesneg ag arian y Loteri sydd 17 yn llai nag yn 2016–17. Mae'r Cyngor ei hun yn cydnabod fod angen gwell dealltwriaeth o'r hyn a olyga gweithgarwch 'dwyieithog'.

2.33

O'r holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau o Bortffolio Celfyddydol Cymru yn 2018–19, nodir y bu cyfanswm o 1,139 digwyddiad Cymraeg sy'n 4.9% o'r holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd; cafwyd 124,462 mynychiad hefyd sef 3% o'r cyfanswm. Roedd hyn yn gynnydd o 13.4% o ddigwyddiadau a chynnydd o 13.1% o fynychiadau o gymharu â 2017–18. O fewn y sefydliadau hyn roedd 4,797 o bobl yn cael eu cyflogi neu'n gwirfoddoli ac roedd 1,042 (21.7%) ohonynt yn siarad Cymraeg.[86]

2.34

Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd y Cyngor Celfyddydau ganlyniad ei ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer arian y Loteri i'r celfyddydau yn y dyfodol[87] sy'n cyflwyno safbwyntiau diddorol ynghylch ariannu prosiectau ac artistiaid Cymraeg. Daw i'r casgliad fod yn rhaid gwarchod a hybu'r egwyddor sylfaenol o greu gwaith yn Gymraeg yn unig. Bydd darparu rhagor o gyfleoedd i bobl ddysgu'r Gymraeg ac ymgysylltu â'r iaith yn rhywbeth y bydd yn gofyn i bob sefydliad ac artist ei ystyried wrth greu a chyflwyno gwaith, a hynny'n rhan o gyflawni amcanion *Cymraeg 2050*.

2.35

Mae hefyd yn nodi'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd, ac yn eu plith y mae cynyddu

83 Cyngor Celfyddydau Cymru, ***Er budd pawb: Cynllun Corfforaethol 2018–2023*** (2018).
84 **Adroddiadau blynyddol y Gymraeg | Arts Council of Wales**.
85 Noder bod COVID-19 wedi effeithio ar ffigurau 2019–20 gan na wnaeth pob corff portffolio adrodd mewn pryd.
86 Cyngor Celfyddydau Cymru, ***Portffolio Celfyddydol Cymru: Uchafbwyntiau Arolwg 2018/19*** (2019), t. 7, 9, 11.
87 Cyngor Celfyddydau Cymru, ***Trawsnewid a newid: Canlyniadau ymgynghoriad Cyngor Celfyddydau Cymru ar y trefniadau ar gyfer arian y Loteri Genedlaethol i'r celfyddydau yn y dyfodol*** (Mehefin 2019).

buddsoddiad y Cyngor Celfyddydau mewn gwaith Cymraeg; darparu cymelliadau ariannol i gomisiynu, cynhyrchu a hyrwyddo gwaith Cymraeg a buddsoddi mewn mentrau sy'n datblygu gallu a sgiliau gweithwyr proffesiynol creadigol sydd eisiau gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn hynny o beth, comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2020 becyn newydd cynhwysfawr o adnoddau hybu dwyieithrwydd ar gyfer y sector celfyddydol. Nod y pecyn yw helpu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgarwch celfyddydol; creu llefydd gwaith mwy dwyieithog, a chynnig cymorth i unrhyw un ym maes y celfyddydau sydd am ddysgu Cymraeg, gwella eu sgiliau iaith neu roi hwb i'w hyder wrth siarad Cymraeg.

2.36

Ddechrau 2020 dechreuwyd ar waith wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i fapio cymaint â phosibl o'r gweithgarwch celfyddydol sy'n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn creu darlun cyflawn a chyfredol o'r sefyllfa. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar weithgarwch celfyddydol ddiwedd 2020 ynghyd ag ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru iddo.[88] Ystyriodd yr ymchwil swyddogaeth y celfyddydau yng Nghymru fel rhan o weithgarwch datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg â'r ffocws ar sut y gellid cynyddu hynny.

2.37

Mae'r adroddiad, sydd ei hun yn pwysleisio mai cipolwg yn unig a gynigir o'r holl weithgarwch, yn tanlinellu cynifer o weithgareddau celfyddydol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny gan fwyaf heb gyllid craidd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnig nifer o argymhellion i Gyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gynnwys creu partneriaeth hir dymor a memorandwm cyd-ddealltwriaeth cysylltiedig rhwng sector y celfyddydau a'r sector datblygu iaith.

2.38

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r adolygiad gan dderbyn argymhellion yr adroddiad yn llwyr a chydnabod bod angen gweithredu'n rhagweithiol a chydag ymdeimlad o frys. Un o'r argymhellion yw y dylid penodi unigolyn i fod yn gyfrifol am arwain ar weithgareddau'n ymwneud â'r Gymraeg yn y sector celfyddydol. O'r herwydd bydd Ysgogwr Newid yn cael ei benodi yn 2021 i herio'r Cyngor a'i randdeiliaid allweddol i feddwl a gweithredu'n wahanol mewn perthynas ag agenda'r Gymraeg. Y gobaith felly yw y bydd argymhellion yr adroddiad yn dwyn ffrwyth yn y cyfnod nesaf gan ddod â manteision i'r Gymraeg a'r celfyddydau fel ei gilydd.

2.39

Wrth gwrs, fel y trafodwyd eisoes, erbyn diwedd y cyfnod adrodd effeithiodd COVID-19 yn sylweddol ar y gallu i gynnal digwyddiadau celfyddydol o bob math a buan y daeth yn amlwg y byddai angen cefnogaeth arbennig ar sector y celfyddydau. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 ail-ddyrannodd y Cyngor Celfyddydau arian i greu cronfa ymateb brys o dros £7 miliwn drwy Gronfa Gwytnwch y Celfyddydau.

88 Adroddiad Mapio'r Gymraeg | Arts Council of Wales.

2.40

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol gwerth £53 miliwn i'w weinyddu ar y cyd rhwng y Cyngor Celfyddydau a'r Llywodraeth. O'r £53 miliwn, derbyniodd y Cyngor £25.5 miliwn o arian refeniw a £2 filiwn o arian cyfalaf. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd cyhoeddwyd cyfnod clo pellach yng Nghymru a fyddai eto yn effeithio ar y sector celfyddydol. Bydd rhaid sicrhau bod cyllid a chefnogaeth ar gael i gefnogi sector y celfyddydau i oroesi y tu hwnt i gyfnod y pandemig, yn arbennig yn achos gweithgareddau Cymraeg o ystyried y cyfleoedd y maent yn eu cynnig i ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg.

2.41

Yn 2016 lansiodd y Llywodraeth Ddydd Miwsig Cymru,[89] digwyddiad sydd bellach yn un blynyddol i ddathlu cerddoriaeth Gymraeg o bob math drwy gigs a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae Dydd Miwsig Cymru yn adlewyrchu iechyd a bywiogrwydd cyffredinol y sîn gerddoriaeth Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd â cherddoriaeth o bob math yn cael ei chynhyrchu, a gigs a gwyliau cerddorol ym mhob rhan o Gymru yn rhoi cyfle i glywed cerddoriaeth, yn arbennig yn yr haf.

2.42

Nid ei bod yn fesur o lwyddiant cerddoriaeth Gymraeg wrth gwrs, ond mae nifer o grwpiau Cymraeg hefyd wedi cael cyfle i ganu mewn gwyliau rhyngwladol, ac mae ffrydio cerddoriaeth yn golygu bellach y gellir clywed cerddoriaeth Gymraeg o unman yn y byd. Arwydd o'r apêl ryngwladol hon, o bosibl, oedd llwyddiant y grŵp Alffa yn ennill y ras o ganu'r sengl Gymraeg gyntaf i gael ei ffrydio dros filiwn o weithiau ar Spotify yn Rhagfyr 2018, a dwy sengl ganddynt yn torri record ffrydio cerddoriaeth Gymraeg drwy gael eu ffrydio dros 3 miliwn o weithiau yn 2019.[90] Ceir rhestr chwarae o'r caneuon sydd wedi cael eu ffrydio ragor na chan mil o weithiau ar Spotify dan yr enw 'Y Clwb Can Mil'.[91] Dyma brofi gwerth cynnwys y Gymraeg ar blatfformau mawr rhyngwladol i ddenu defnyddwyr.

2.43

Fodd bynnag, mae ffrydio drwy gyfrwng technoleg fel Spotify ac Apple Music yn golygu mai prin yw'r cyllid a ddaw yn ôl i'r diwydiant cerddoriaeth Gymraeg. Mewn ymateb i hynny datblygodd Cwmni Sain ap ffrydio Apton a lansiwyd ym mis Hydref 2016 gan fuddsoddi ei arian ei hun yn y fenter a derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Ddechrau 2020 er hynny nododd Sain ei bod yn annhebygol y byddai Apton yn gallu parhau heb ragor o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru oherwydd nad oedd modd iddo gystadlu â Spotify, Deezer, Apple Music a'u tebyg.[92]

89 Dydd Miwsig Cymru | LLYW.CYMRU.
90 'Gwenwyn' yn croesi 3m ffrwd – Y Selar.
91 Y Clwb Can Mil – rhestr chwarae gan Ywain Gwynedd | Spotify.
92 'Annhebygol' y gall ap Apton barhau heb fuddsoddiad - BBC Cymru Fyw.

2.44

Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd gyllid i Pyst yn 2018 i gefnogi gwasanaeth dosbarthu a chynghori digidol pwrpasol ar gyfer cerddoriaeth yng Nghymru.[93] Parhawyd i gyhoeddi cylchgrawn *Y Selar* bedair gwaith y flwyddyn a dathlu gwobrau'r Selar yn flynyddol.[94] Un o isafbwyntiau'r cyfnod adrodd oedd cau Maes B yr Eisteddfod Genedlaethol yn gynnar yn 2019 oherwydd tywydd garw a chanslo neu ohirio nifer o wyliau diwylliannol 2020 o ganlyniad i argyfwng COVID-19. Er bod nifer o wyliau wedi'u cynnal yn ddigidol, fel Tafwyl, a bod nifer o artistiaid wedi parhau i rannu eu cerddoriaeth yn ddigidol fel y mae technoleg ffrydio yn ei ganiatáu, roedd diwedd y cyfnod adrodd yn drychinebus o safbwynt cyfleoedd pobl i wrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn fyw a thrwy hynny gymdeithasu yn yr iaith.

2.45

Yn gynyddol, mae'n rhaid cydnabod pwysigrwydd y diwylliant, y celfyddydau a'r cyfryngau Cymraeg i hyfywedd yr iaith. Nid yn unig oherwydd eu bod yn rhoi drych a mynegiant i ddyheadau a bywydau'r bobl hynny sy'n siarad yr iaith, ond eu bod hefyd yn cynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg weithio drwy gyfrwng yr iaith gan roi gwerth ar y gallu i siarad Cymraeg. Yn ei dro felly rhaid pwysleisio pwysigrwydd cyfraniad economaidd y diwylliant a'r cyfryngau Cymraeg at hyfywedd cymunedau Cymraeg gan eu bod yn cyflogi cynifer o bobl yn y cymunedau hynny.

2.46

Yn achos S4C, er enghraifft, yn 2018–19 gweithiodd gyda mwy na 50 o gwmnïau cynhyrchu a phartneriaid yn y sector creadigol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.[95] Noda'r adroddiad blynyddol fod pob £1 o fuddsoddiad S4C werth £2.09 i economi Cymru a bod £0.51 o bob £1 yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys mewn trethi.[96] Eglurodd adroddiad blynyddol 2019–20 fod 47% o wariant S4C yn digwydd yng ngogledd a gorllewin Cymru, sy'n ardaloedd lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.[97]

93 **PYST – Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru**.
94 **Y Selar – Y diweddara am gerddoriaeth Gymraeg gyfoes**.
95 S4C, ***Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar gyfer y cyfnod 12 mis hyd at Mawrth 2019*** (2019), t. 7.
96 ***Ibid***., tt. 82–3.
97 ***Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar gyfer cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2020,*** t. 84.

2.47

Tynnodd y Comisiynydd ac eraill sylw at effaith posibl COVID-19 ar ddiwylliant a chyfryngau Cymraeg wrth ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd i effaith y pandemig ar ei feysydd gwaith. Ym marn y Pwyllgor roedd ei 'oblygiadau i'r Gymraeg [...] yn sylweddol gyda'r pandemig yn arwain at golli llawer o gyfleoedd i unigolion fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau a diwylliant Cymraeg'.[98]

2.48

Yn ei ymchwiliad ar effaith COVID-19 ar y Gymraeg[99] derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o gyrff oedd yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg. Nododd bod y cyrff yn ddibynnol ar gynnal gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol i gynhyrchu incwm 'ac yn bwysicach fyth i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant'. Pwysleisia hefyd fod 'buddion economaidd llawer o'r gweithgareddau diwylliannol yn mynd ymhellach na dim ond ffrydiau refeniw'r sefydliadau dan sylw' a thanlinellodd bwysigrwydd swyddi yn y sector.

98 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru, ***Adroddiad ar waith pellach ar effaith COVID-19 ar y celfyddydau*** (Rhagfyr 2020), t. 8.

99 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru, ***Effaith yr achosion o COVID-19 ar y Gymraeg*** (Rhagfyr 2020), t. 6.

Casgliadau'r Comisiynydd

Daeth y digidol yn gyfrwng hollbwysig yn y maes hwn o ganlyniad i bandemig COVID-19 ac amser a ddengys i ba raddau y bydd rhai o'n harferion wedi newid am byth yn ei sgil. Difyr fydd gweld a yw'r cynnydd yn y darllen e-lyfrau yn parhau i'r tymor hwy, er enghraifft. Yn gynyddol mewn ieithoedd eraill gwelwyd cynnydd ym mhoblogrwydd llyfrau llafar yn ystod y cyfnod adrodd. Hawdd gweld apêl y cyfrwng hwn ar aelwydydd lle nad yw rhieni'n gallu darllen llyfrau Cymraeg i'w plant, er enghraifft. Mae costau cynhyrchu llyfrau llafar yn uchel iawn, fodd bynnag, ac felly bydd angen cynllunio'n ofalus ar gyfer twf i'r cyfeiriad hwnnw. **Bydd hi'n hanfodol i Gyngor Llyfrau Cymru cadw golwg manwl ar y patrymau hyn a sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer y Gymraeg i ddenu darllenwyr o amrywiol allu a diddordebau yn ogystal â chyflwyno amlder profiadau a safbwyntiau siaradwyr Cymraeg yn y Gymru sydd ohoni.**

Roedd sicrhau mynediad digidol at bapurau bro yn un o lwyddiannau mawr y cyfnod adrodd. Wrth gwrs, nid pawb sydd â mynediad cyfleus at ddyfais electronig na'r we, ac nid pawb fyddai'n dewis darllen papur bro ar lein yn hytrach nag un papur. Rhaid cofio hefyd fod modd cael refeniw gwerthiant o fersiwn papur y mae'n anos ei ddenu o gyhoeddiad digidol. **Bydd angen cymorth ar y papurau bro i addasu i wasanaethu eu cymunedau ar ôl cyfnod COVID-19.**

Tanlinellodd argyfwng COVID-19 ddiffyg dealltwriaeth dybryd a chamarweiniol y cyfryngau Prydeinig o'r gwahaniaeth mewn polisi cyhoeddus rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ac mae hynny eisoes wedi arwain at ragor o drafodaeth ynghylch datganoli darlledu i Gymru. Bydd y drafodaeth yn rhwym o barhau yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, a bydd darlledu i gwrdd â gofynion Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg yn sicr yn bwnc a fydd o dan drafodaeth yng nghyfnod y Senedd nesaf.

Does dim amheuaeth nad oes peryglon real i'r diwylliant Cymraeg oherwydd y ddibyniaeth bresennol ar wasanaethau darlledu a ariennir gan y pwrs cyhoeddus, ac yn benodol y BBC. Gwneir nifer o benderfyniadau allweddol am ddarlledu ar lefel Brydeinig a rhaid sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn cael eu parchu'n llawn mewn penderfyniadau o'r fath. Mae'n hanfodol bod setliad ariannol terfynol S4C yn galluogi'r sianel i addasu a ffynnu i'r dyfodol ac i barhau â'r gwaith o gefnogi gweledigaeth *Cymraeg 2050* y mae eisoes wedi bod yn gyfrannog ohono. **Rhaid sicrhau bod cefnogaeth a chyllid digonol ar gael i'r dyfodol i sicrhau y bydd modd i S4C, y BBC ac eraill ddarparu arlwy addas yn y Gymraeg i gyd-fynd â'r newidiadau yn y byd digidol ac i gyfrannu'n llawn at weledigaeth *Cymraeg 2050*.**

Nid oes amheuaeth felly fod COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol iawn ar ddiwylliant Cymraeg yn niwedd y cyfnod adrodd. Rhaid cydnabod yn ogystal nad ydym eto'n llwyr ddirnad beth yw a beth fydd yr effeithiau hynny. **Rhaid sicrhau felly fod hyrwyddo'r Gymraeg yn ddiwylliannol yn rhan hollbwysig o'r ffordd y bydd Cymru yn dod allan o'r pandemig. Rhaid bydd hefyd adolygu effaith y pandemig ar y Gymraeg yn y tymor hir fel y bo cynlluniau a chefnogaeth yn cael eu haddasu a'u darparu yn ôl yr angen. Rhaid parhau i adolygu effaith COVID-19 ar gyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol i ddefnyddio'r Gymraeg boed hynny mewn digwyddiadau cymunedol, rhanbarthol neu genedlaethol a sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu i sicrhau eu parhad.** Bydd yn hanfodol gwneud hynny er mwyn sicrhau na fyddwn yn colli talent, arbenigedd, profiad ac ymrwymiad gwirfoddolwyr, pobl broffesiynol a chanolfannau sy'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'n bwysig peidio â gwangalonni, fodd bynnag. Mae camau cadarnhaol eisoes yn cael eu cymryd gan nifer o'n cyrff cenedlaethol i gofleidio cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg trwy ddathlu ein diwylliant a'n celfyddydau trwy gyfrwng yr iaith ac mae arwyddion cadarnhaol bod ymrwymiad tymor hir i barhau i wneud hynny. Mae'r modd y mae llawer o agweddau ar ddiwylliant Cymraeg wedi addasu dros y blynyddoedd diwethaf i gofleidio'r cyfleoedd a gynigir gan y cyfryngau cymdeithasol yn arwydd amlwg o hyfywedd yr iaith a brwdfrydedd ei siaradwyr i'w mynegi a'i dathlu ym mhob ffordd bosibl. Er hynny, erys yr her i'r Gymraeg, fel pob iaith leiafrifol arall, sicrhau y bydd ar frig y don yn manteisio ar y cyfleoedd hyn heb gael ei llethu gan don fwy o ddiwylliant Saesneg ei hiaith.

3 Cymru a'r byd ehangach

Y Gymraeg ar y map

3.1

Efallai mai un o'r prif ddigwyddiadau yn ystod y pum mlynedd diwethaf a roddodd Gymru a'r Gymraeg ar y map oedd pencampwriaeth Ewros 2016. Ag enwau Gareth Bale ac Aaron Ramsey ar wefusau pawb yr haf hwnnw – yng Nghymru a thu hwnt – rhoddwyd lle amlwg i'r Gymraeg gan y tîm cenedlaethol a defnyddiwyd yr iaith fel arf i farchnata.

3.2

Aethpwyd â'r Gymraeg i sawl cornel o'r byd yn ystod y cyfnod dan sylw, a hynny er mwyn trafod polisi yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol a chydweithio ar brosiectau diwylliannol. Cafodd Ifor ap Glyn ei benodi'n fardd cenedlaethol Cymru yn 2016, swydd sydd wedi galluogi iddo fynd â barddoniaeth Gymraeg i wyliau a digwyddiadau yn Tseina, Gwlad Pwyl, Camerŵn, yr Almaen ac Iwerddon. Mae Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau a Mercator hefyd wedi cysylltu beirdd a llenorion Cymraeg â chymheiriaid o Ewrop a thu hwnt, a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi cydlynu rhaglenni i fynd â cherddoriaeth Gymraeg i wŷl ryng-geltaidd An Oriant yn Llydaw yn 2018 yn ogystal â dod â cherddorion Cymraeg, Gwyddeleg a Gaeleg ynghyd i gydweithio ar brosiect Mamiaith yn rhan o flwyddyn ieithoedd brodorol UNESCO 2019.

3.3

Yn ogystal ag ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg mewn digwyddiadau rhyngwladol fel Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a Chwpan Criced y Byd yn 2019, bu Llywodraeth Cymru hefyd yn treialu prosiect i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i ymwelwyr a rhai sy'n symud i fyw i Gymru. Yn rhan o'r ymdrech hon, dechreuodd dreialu'r cynllun Croeso i Gymru, Croeso i'r Gymraeg ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gâr yn 2018. Wrth adolygu'r cynllun, sylwyd ei bod yn anodd cyrraedd y grwpiau targed ac felly dechreuwyd ar waith i gyflwyno'r pecyn wrth i rywun gofrestru â meddygfa neu drefnu taliad treth cyngor. Mae'r pecynnau hefyd bellach yn ceisio dangos i berchnogion sy'n prynu busnesau bwysigrwydd ystyried y Gymraeg yn eu cynlluniau busnes.

3.4

Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg nifer o wahoddiadau i rannu arbenigedd â chymunedau ieithyddol ar draws y byd ac mae'n amlwg bod cydnabyddiaeth ryngwladol eang i'r arloesi sy'n digwydd yng Nghymru o ran hybu defnydd o'r Gymraeg. Yn 2016, croesawodd y Comisiynydd aelodau o bwyllgor iaith yr Inuit Tapiriit Kanatami o Nunavut i Gymru i drafod safoni orgraff, gwarchod a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, ac yn ystod 2018–19 yn unig, gwahoddwyd y Comisiynydd i rannu arferion da o Gymru â chymunedau ieithyddol yn Georgia, Abkhazia, Romania a Thaiwan.

3.5

Teg dweud bod cymunedau o ieithoedd lleiafrifol yn sicr yn edrych tuag at Gymru fel esiampl i'w dilyn. Yn wir, dyfynnir Comisiynydd Iaith Iwerddon yn dweud fel yr hoffai weld Iwerddon yn dilyn esiampl Cymru drwy gyflwyno trefn safonau yn lle'r drefn bresennol yno o ddefnyddio cynlluniau iaith:

> We do look to Wales as a good example of how to get things done, especially within the International Association of Language Commissioners. The Welsh Language Commissioner has been a huge part of that organisation, a former chair of the organisation, and they've had groups from Nunavut and from Kosovo and from Canada over to view the workings of the office. The main success, I suppose, as I would see it from an outside view looking in, is that they have moved to a system of standards [...][100]

Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith (IALC): Dysgu, rhannu a chydweithio

3.6

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith ers sefydlu'r Gymdeithas yn 2013 a bellach mae 11 o aelodau'n perthyn iddi. Bu Meri Huws, y cyn Gomisiynydd, yn gadeirydd ar y gymdeithas rhwng 2016 a 2018 a bu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn gyfrifol am yr ysgrifenyddiaeth rhwng 2015 a 2018. Prif nod y gymdeithas yw cefnogi a hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb ac amrywiaeth ieithyddol ledled y byd a chefnogi comisiynwyr iaith fel eu bod yn gallu gweithio gan gadw at y safonau proffesiynol uchaf.[101]

100 Cyfraniad Rónán Ó Domhnaill, Comisiynydd iaith Iwerddon, i sesiwn dystiolaeth Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar gyfer 'Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach' ar 10 Ionawr 2019: **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Y Bumed Senedd 10/01/2019 - Senedd Cymru (cynulliad.cymru)**.

101 **International Association of Language Commissioners - Amdanom ni**.

3.7

Bu'r gymdeithas yn cynghori llywodraethau ynghylch materion yn ymwneud â hawliau ieithyddol a chyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgorau dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad i Fil y Gymraeg yn 2017, ymatebodd 10 aelod arall y gymdeithas i'r ymgynghoriad yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ailystyried diddymu swydd Comisiynydd y Gymraeg gan gydnabod gwerth a dylanwad Mesur y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg i'r drafodaeth ryngwladol ar warchod a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol:

> The international community of language ombudsman [sic] has truly benefited from the opportunity to learn from the Welsh example, and we hope that we will continue to learn, and to share in our experiences.[102]

3.8

Â chadeiryddiaeth y gymdeithas wedi ei throsglwyddo i Iwerddon yn 2018, mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i fod yn weithgar o fewn y gymdeithas. Caiff cyfres o weminarau eu trefnu bob blwyddyn er mwyn rhannu arferion da, a chyhoeddwyd cyfrol gyntaf y gymdeithas, *Constitutional Pioneers: Language Commissioners and the Protection of Official, Minority and Indigenous Languages*, yn 2019 dan olygyddiaeth swyddogion Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Gwasanaethau Ffrangeg Ontario.[103]

3.9

Cynhaliwyd pedair cynhadledd yn ystod y cyfnod adrodd, yn Iwerddon, Cymru, Kosovo a Chanada lle cafodd arferion llwyddiannus eu rhannu a bu cyfle i drafod a gweld polisïau iaith yr amryw wledydd ar waith. Ym mis Mai 2017 cynhaliwyd y gynhadledd yng Nghaerdydd ar y thema 'iaith gwaith' a chafwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr nifer o sefydliadau cenedlaethol Cymru ynghyd ag anerchiadau gan aelodau eraill y gymdeithas ar effaith technoleg a chynllunio strategol ar y gweithle dwyieithog. Bu cyfle hefyd i aelodau Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith brofi rhan o gyfarfod llawn dwyieithog y Senedd a nodi 50 mlwyddiant Deddf yr Iaith Gymraeg (1967) yn nigwyddiad lansio'r gynhadledd.[104]

102 **Letter to Welsh Government on behalf of IALC.pdf (languagecommissioners.org)**, t. 1 [cyhoeddiad Saesneg yn unig].

103 Ceir rhagor o wybodaeth am y gyfrol, *Constitutional Pioneers*, ar wefan Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith: **International Association of Language Commissioners - Llyfr IALC**.

104 Gellir gwylio'r anerchiadau a gweld rhaglen y gynhadledd ynghyd â chanfod gwybodaeth am lansiad y gynhadledd ar wefan Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith: **International Association of Language Commissioners - Cynhadledd 2017**.

Y Gymraeg ar wasgar

3.10

Nid yng Nghymru yn unig y ceir siaradwyr Cymraeg, wrth gwrs. Does ond rhaid gwrando ar y bwletinau newyddion ar Radio Cymru neu S4C er mwyn deall bod siaradwyr Cymraeg i'w canfod ledled y byd ac ar gael i sôn am brofiadau a digwyddiadau mewn gwledydd eraill yn Gymraeg.

3.11

Ond nid yw'n syndod chwaith bod y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru i'w cael dros y ffin yn Lloegr â chyfrifiad 2011 yn dangos bod 507,000 o bobl a anwyd yng Nghymru yn byw yn Lloegr.[105] Mae cymdeithasau Cymraeg i'w cael mewn ambell gymuned yn Lloegr o hyd a Chymdeithas Cymry Manceinion, Lerpwl, Derby, Nottingham a Llundain, ynghyd ag Undeb Cymru a'r Byd, yn dal yn weithgar. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain gan nodi bod nifer o'r plant a gaiff eu haddysg gynradd yno yn dychwelyd i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.[106] Cyfrifwyd bod 33 o ddisgyblion yn yr ysgol ym mis Medi 2020.[107]

3.12

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi prosiect i anfon athrawon o Gymru i Batagonia. Caiff Prosiect yr Iaith Gymraeg ei gynnal gan y Cyngor Prydeinig a chafodd ei sefydlu yn 1997 er mwyn hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg yn ardal Chubut yn yr Ariannin. Roedd 1,411 o bobl yn dysgu Cymraeg ym Mhatagonia yn ystod 2019 rhwng plant ac oedolion; y nifer uchaf ers dechrau'r prosiect. Mae cynnydd wedi bod mewn addysg Gymraeg ym Mhatagonia dros y blynyddoedd diwethaf, ac agorwyd drysau Ysgol y Cwm, ysgol cyfrwng Cymraeg a Sbaeneg newydd, yn 2016. Â 50 o blant yn mynychu'r ysgol ar adeg ei hagor, erbyn 2019 roedd y nifer wedi cynyddu i 94.[108] Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cyllido tair ysgoloriaeth flynyddol i fyfyrwyr o Batagonia ddod i Gymru i astudio.

105 Llywodraeth Cymru, ***Bwletin Ystadegol: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg*** (11 Rhagfyr 2012).
106 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2020–21*** (2020), t. 32.
107 **Ysgol Gymraeg Llundain, London Welsh School - GOV.UK (get-information-schools.service.gov.uk)**.
108 Rhisiart Arwel, ***The Welsh Language Project in Chubut: Annual Report 2019*** (2019), t. 24, 26.

'Sefyll allan o'r dorf uniaith' â Strategaeth Ryngwladol i Gymru

3.13

Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth ryngwladol sy'n manylu ar sut yr hoffa'r Llywodraeth ymgysylltu â'r byd a pha ddelwedd yr hoffa ei thaflunio o Gymru. Â'r Gweinidog cyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol hefyd yn gyfrifol am y Gymraeg adeg ei chyhoeddi, roedd cyfle euraid yma i gyfuno'r ddwy swyddogaeth.

3.14

Mae lle digon blaengar i'r Gymraeg yn y strategaeth wrth iddi gydnabod fod yr iaith yn 'un o drysorau Cymru' a'i bod yn 'rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl'.[109] Noda y bydd Cymru yn rhannu ei phrofiad o gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg â gwledydd a chymunedau o ieithoedd lleiafrifol eraill ac yn rhannu ein dulliau o drochi ieithyddol. Mae'r strategaeth hefyd yn ewyllysio y bydd Cymru yn dod yn adnabyddus am ddatblygu technoleg iaith ar gyfer ieithoedd lleiafrifol ac y bydd cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei defnyddio i hybu a chynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

3.15

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi mynd ati i ailddyfeisio brand Cymru. Aethpwyd ati i ddylunio ffontiau i'w defnyddio yn benodol ar gyfer unrhyw gyfleoedd i farchnata Cymru i'r byd gan roi nodweddion unigryw'r wyddor Gymraeg a'i deugraffau yn ganolog iddynt. Gwelir ffont Cymru Wales Sans a Cymru Wales Serif ar wefan ac yng nghyhoeddiadau ac ymgyrchoedd Croeso Cymru a Wales.com, er enghraifft, ac enillodd y ffontiau wobr aur yn yr European Design Awards yn 2020. Yn rhan o'r ail-frandio, ceir hefyd baled o liwiau arbennig i'w defnyddio ag iddynt enwau dwyieithog fel Coch y Ddraig Dragon Red, Fagddu Black a Llechen Sych Blaenau Dry Slate.[110]



© Hawlfraint y Goron: Cymru Wales Llywodraeth Cymru 2021

109 Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Ryngwladol*** (Ionawr 2020), t. 37.
110 **Smörgåsbord (smorgasbordstudio.com)**.

Gwarchodaeth Ewropeaidd

3.16

Mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Cyngor Ewrop ers 2001. Mae'r Siarter yn ymrwymo gwladwriaethau i gymryd camau gweithredol i hyrwyddo defnydd ieithoedd lleiafrifol neu ranbarthol ym meysydd addysg, y llysoedd, gweinyddiaeth, y cyfryngau, diwylliant, ac mewn bywyd economaidd a chymdeithasol. Caiff y modd y gweithredir y Siarter ei fonitro gan Gyngor Ewrop ac mae'n ofynnol i lywodraethau gyflwyno adroddiad ar eu gweithrediad o'r Siarter bob tair blynedd.

3.17

Cyflwynwyd yr adroddiad diweddaraf gan y Deyrnas Unedig ym mis Ionawr 2018 lle rhoddir sylw i holl ieithoedd Celtaidd y Deyrnas Unedig, yn cynnwys y Gymraeg. Mae'r Gymraeg mewn sefyllfa lawer cryfach na'r ieithoedd Celtaidd eraill wrth gwrs, ac felly mae'r rhan fwyaf helaeth o ofynion Cyngor Ewrop yn cael eu bodloni erbyn hyn yn achos y Gymraeg. Yn adroddiad y pwyllgor o arbenigwyr sy'n craffu ar weithrediad y Siarter, ceir tri argymhelliad o ran y Gymraeg:

- Cymryd camau pellach i sicrhau bod cyfleusterau gofal cymdeithasol fel ysbytai, cartrefi gofal a hostelau yn cynnig defnyddio'r Gymraeg.
- Parhau i ddarparu addysg dechnegol a galwedigaethol yn Gymraeg, rhan o addysg dechnegol a galwedigaethol yn Gymraeg, neu ddysgu Cymraeg fel rhan annatod o'r cwricwlwm o leiaf i'r disgyblion sy'n dymuno hynny.
- Sicrhau bod canghennau lleol y llywodraeth ganol yn defnyddio'r Gymraeg.[111]

3.18

Mae'r rhwydwaith hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol (NPLD) hefyd yn gymdeithas Ewropeaidd lle caiff y Gymraeg ei chynrychioli.[112] Mae Llywodraeth Cymru yn aelod llawn o'r rhwydwaith, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a nifer o brifysgolion Cymru yn ogystal â Mentrau Iaith Cymru yn aelodau cyswllt. Chwaraeodd Cymru ran flaenllaw yn sefydlu'r rhwydwaith yn 2008 dan arweinyddiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac er i'r pencadlys symud o Gaerdydd i Frwsel yn 2016, mae Cymru yn parhau i fod yn aelod blaenllaw. Ers 2019 mae Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn is-gadeirydd i'r rhwydwaith.

3.19

Yn 2019, cyfrannodd Llywodraeth Cymru at ddigwyddiad oedd yn trafod rhoi defnydd cymdeithasol ieithoedd lleiafrifol ar waith, a gwahoddwyd cyfranogwyr y digwyddiad a'r rhwydwaith i gydweithio â'r Llywodraeth i ddatblygu'r Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Mae cydweithio ar bolisïau iaith yn un o amcanion y fforwm, ac mae gan Lywodraeth Cymru berthynas ffurfiol â Québec hefyd bellach er mwyn cydweithio ar bolisïau o'r fath.[113]

111 European Charter for Regional or Minority Languages, **Fifth report of the Committee of Experts in respect of the United Kingdom** (1 Gorffennaf 2020), t. 32.

112 **NPLD – Network to Promote Linguistic Diversity**.

113 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2019–20*** (Tachwedd 2020), t. 50.

Yr iaith ar daith

3.20

Mae parhau i gydweithio â chymheiriaid yn Ewrop ac yn ehangach na hynny yn bwysicach fyth erbyn hyn yn dilyn Brexit, a'r Gymraeg wedi colli'r statws 'cyd-swyddogol' oedd ganddi o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

3.21

Daeth cyfle amserol yn 2019 i godi proffil y Gymraeg a Chymru fel gwlad ddwyieithog drwy Flwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Cynhenid UNESCO. Cyfeiriwyd uchod at brosiect Mamiaith oedd yn rhan o ddigwyddiadau'r flwyddyn honno. Cynhaliwyd digwyddiadau eraill hefyd i nodi'r flwyddyn gan gynnwys symposiwm ym Methesda i drafod cyfleoedd i artistiaid berfformio yn Gymraeg ar draws y byd a chynhaliwyd Gŵyl Ein Llais yn y Byd yn Aberystwyth oedd yn gynhadledd deuddydd i drafod pob math o agweddau ar gysylltu'r Gymraeg â gwledydd eraill. Gwelwyd partneriaeth rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol a chwmni o Iwerddon yng nghyngerdd agoriadol yr Eisteddfod, *Tylwyth*, a gwahoddwyd dirprwyaeth ryngwladol i'r Eisteddfod yn Llanrwst.

3.22

Ar ddydd Gŵyl Dewi 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fideo ar gyfrif Twitter Welsh Government International oedd yn cyflwyno'r Gymraeg i weddill y byd.[114]

114 Y Gymraeg / The Welsh Language - YouTube.

Casgliadau'r Comisiynydd

Mae'n amlwg fod gan Gymru lawer i'w ddysgu gan wledydd ar draws y byd ac mae rhannu arferion da a chlywed am bolisïau a dulliau gweithredu gwledydd eraill drwy Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr laith yn sicr wedi bod yn werthfawr i ni dros y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, mae'r perthnasau hyn wedi profi'n hynod ddefnyddiol wrth inni allu cysylltu â swyddogion swyddfeydd Comisiynwyr eraill fel bo'r angen er mwyn gofyn sut maen nhw'n ymdrin â sefyllfaoedd penodol, ac rydym ninnau'n derbyn ceisiadau tebyg ganddynt hwythau yn ein tro. Caiff yr wybodaeth am arferion gwledydd eraill ei defnyddio'n aml gennym mewn ymatebion i ymgynghoriadau ac wrth inni fynd wrth ein gwaith bob dydd. **Mae'n hollbwysig felly nad ceisio gwthio a gwerthu'r Gymraeg i bob cornel yn unig a wnawn, ond yn hytrach feithrin perthnasau ystyrlon ag unigolion a sefydliadau er mwyn dysgu a rhannu arferion.**

Â chynifer o siaradwyr Cymraeg ar wasgar, mae'n bwysig i'r Gymraeg fod ar gael i'r bobl hyn drwy Radio Cymru, S4C a'r we, ac mae'n bwysig iddi hefyd fod yn iaith gynhwysol sy'n croesawu pawb sydd am ei defnyddio neu sydd am deimlo cysylltiad â hi mewn rhyw fodd. Da o beth felly fyddai gweld mwy o gyhoeddusrwydd i frand Cymru Wales ac i adnoddau fel fideo Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Gymraeg. Gellid yn sicr eu defnyddio nid yn unig fel arfau marchnata i wledydd eraill, ond yma yng Nghymru hefyd er mwyn ennyn teimlad o ymfalchïo yn yr iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg.

Mae'r lle mae'r Gymraeg yn ei gael yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru i'w groesawu ac mae amcanion y strategaeth yn uchelgeisiol. **Os ydym am arwain ac arloesi ym maes technolegau iaith ar gyfer ieithoedd lleiafrifol, mae gofyn am fuddsoddi sylweddol a chynllunio'r datblygiadau yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd nesaf gan weithredu ar garlam**. Mae lle hefyd i roi mwy o blatfform i gerddoriaeth boblogaidd Gymraeg a chyflwyno'r gerddoriaeth yn rhagweithiol i gwmnïau mawrion ac i gysylltiadau rhyngwladol os ydym am i eraill hefyd ei defnyddio fel ffordd o hybu a chynrychioli Cymru.

Er cystal yw'r ymgyrchoedd a'r cyfleoedd sydd wedi codi dros y pum mlynedd diwethaf i godi pontydd a rhannu'r Gymraeg â'r byd, **rhaid gochel rhag i'r digwyddiadau a'r cyfleoedd hyn fod yn bethau un-tro os ydym ni wir am godi proffil y Gymraeg ar y llwyfan rhyngwladol a chreu perthnasau sy'n dwyn ffrwyth.**

4 Technoleg ddigidol

Y Gymraeg yn y chwyldro digidol

4.1

Mae technoleg yn rhan mor greiddiol o'n bywydau bob dydd erbyn hyn nes mai hawdd yw cymryd teclynnau a gwasanaethau digidol yn ganiataol. Mae defnyddio ein ffonau symudol fel larwm yn y bore, derbyn y newyddion gan gynorthwyydd personol, defnyddio'r system loeren i'n tywys yn y car, a defnyddio peiriannau hunanwasanaeth mewn archfarchnadoedd i gyd yn weithgareddau mae nifer ohonom yn eu gwneud heb feddwl bob dydd.

4.2

Ni ellir felly orbwysleisio'r angen i'r Gymraeg gael ei chynnwys yn y dechnoleg sy'n bodoli heddiw ac yn nhechnolegau'r dyfodol. Mae hynny wedi cael ei gydnabod ers tro gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n ymddangos bod y weledigaeth a'r gofynion o ran y Gymraeg a thechnoleg yn mynd yn fwy penodol ac yn fwy soffistigedig o hyd wrth i'r Gymraeg geisio dal i fyny â'r datblygiadau diweddaraf. Lle canolbwyntia strategaeth *Iaith fyw: iaith byw* ar ryngwynebau Cymraeg yn bennaf, mae *Cymraeg 2050* yn rhoi mwy o bwys ar ddatblygu'r isadeiledd sy'n galluogi technoleg llais, er enghraifft.

4.3

Yn 2018, a'r Deyrnas Unedig yn dal yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, cyflwynodd Jill Evans, aelod Cymreig o Senedd Ewrop ar pryd, gynnig i Senedd Ewrop ar gydraddoldeb ieithyddol o ran technolegau iaith. Mae'r adroddiad yn nodi pwysigrwydd datblygu polisïau yn ymwneud â thechnoleg iaith er mwyn i ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ac ieithoedd mewn sefyllfa debyg i'r Gymraeg, gael eu trin yn gyfartal. Pwysleisia hefyd bwysigrwydd technoleg iaith i oroesiad ieithoedd lleiafrifol:

> The preservation of a language, and thus of the culture develop around it, is critically tied to its ability to function and be useful in modern and changing environments as the digital world.[115]

4.4

Pasiwyd y cynnig, ond â'r Deyrnas Unedig bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, nid yw'r Gymraeg yn un o'r ieithoedd cyd-swyddogol mwyach, a mater i Lywodraeth Cymru yn bennaf fydd sicrhau cydraddoldeb ieithyddol o ran y Gymraeg yn yr oes ddigidol.

115 Jill Evans, ***Report on language equality in the digital age*** (27 Mehefin 2018), t. 13.

Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg

4.5

Noda *Cymraeg 2050* fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu 'gweddnewid y tirwedd digidol Cymraeg, gan roi pwyslais arbennig ar dechnolegau iaith'[116] er mwyn cyrraedd targedau'r strategaeth. Er mwyn mynd i'r afael â hyn yn fanylach, cyhoeddodd y Llywodraeth *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg* yn 2018 sy'n datgan na fydd y Llywodraeth yn 'swil o ran arwain nac ariannu' datblygiadau mewn technoleg ddigidol.[117]

4.6

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dri maes penodol sef technoleg lleferydd Cymraeg, cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, a deallusrwydd artiffisial sgyrsiol. Gwna hyn drwy gyflwyno 27 o becynnau gwaith, sydd bob un yn mynd i'r afael â maes technolegol penodol.

4.7

Ddechrau 2020, aeth y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg ati i ymgymryd ag ymchwiliad i'r Gymraeg yn y byd digidol er mwyn canfod barn rhanddeiliaid am gynllun gweithredu technoleg Cymraeg y Llywodraeth ac archwilio'r cynnydd a wnaed o ran y pecynnau gwaith amrywiol. Erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad hwn mae'r Llywodraeth wrthi'n gweithredu neu wedi cwblhau 19 o'r pecynnau hyn.[118] Cafodd ymchwiliad y Pwyllgor ei oedi oherwydd y pandemig, fodd bynnag.

116 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 12.
117 Llywodraeth Cymru, ***Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg*** (Hydref 2018), t. 2.
118 Llywodraeth Cymru, ***Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg: Adroddiad cynnydd 2020*** (2020), t. 6.

Rhyngwynebau a systemau Cymraeg

4.8

Rhoddwyd cryn sylw yn y drafodaeth am dechnoleg yn yr adroddiad 5-mlynedd diwethaf i ddatblygiadau'n ymwneud â rhyngwynebau Cymraeg. Erbyn hyn, â'r safonau'n weithredol, mae'n ofynnol i nifer o sefydliadau cyhoeddus sicrhau bod rhyngwyneb Cymraeg i'w gwefan ac i'w mewnrwyd. Gwelwyd rhagor o siopau, archfarchnadoedd a banciau'n cynnwys rhyngwyneb Cymraeg ar eu systemau hunanwasanaeth hefyd.

4.9

Gwelwyd newid pwyslais yn ystod y cyfnod hwn. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu rhyngwynebau Cymraeg, rhoddwyd mwy o ystyriaeth i sut y gellir sicrhau bod y rhyngwynebau hynny'n rhwydd i'w cyrchu ac ar gael heb i rywun orfod gofyn neu chwilio am y dewis Cymraeg.[119] 'Di-ffrithiant' yw term y llunwyr polisi i ddisgrifio'r delfryd hwn lle gall defnyddiwr fanteisio ar wasanaeth yn y Gymraeg heb 'gost' ychwanegol o ran 'amser, rhwystredigaeth neu straen gwybyddol'.[120] Enghraifft o roi'r theori hwn ar waith yn ymarferol yw gwaith Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd i ragosod rhyngwynebau Microsoft 365 ar blatfform HWB i'r Gymraeg yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Cymru yn rhan o un o becynnau gwaith y cynllun gweithredu technoleg Cymraeg. Golyga'r datblygiad hwn fod degau o filoedd o ddisgyblion bellach yn cael profiad cyfrifiadurol Cymraeg heb fod rhaid iddynt wneud dim i'w ddewis.[121]

4.10

Yn ogystal â'r cynnydd yn y systemau Cymraeg sydd wedi dod yn sgil y safonau, gwelwyd yn y blynyddoedd diwethaf gynnydd yn nifer y systemau Cymraeg sydd ar gael gan gyrff y Goron hefyd. Â'r Comisiynydd yn gweithio â chyrff Prydeinig ers blynyddoedd lawer yn ceisio dylanwadu ar eu defnydd o'r Gymraeg, bellach mae modd gwneud cais am basbort newydd ar lein a gwneud cais am gredyd cynhwysol yn Gymraeg, er enghraifft. Ceir rhestr lawn o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gan Lywodraeth y DU ar ei gwefan; yn eu plith mae gwasanaethau'n ymwneud â phrofion a thrwyddedau gyrru, treth, budd-daliadau, a phensiynau.[122]

4.11

Cyflwynodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi'r diweddaraf o'u systemau Cymraeg ym mis Awst 2020 gan alluogi defnyddwyr i wneud cais am ysgariad diwrthwynebiad yn Gymraeg. Mae bellach modd defnyddio gwasanaethau digidol yn Gymraeg er mwyn gwneud cais am grant profiant ac ysgaru.

119 Ceir ymchwil ar newid ymddygiad ieithyddol yn Gwenno Elin Griffiths, ***Newid Ymddygiad Ieithyddol: Cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio rhyngwynebau cyfrifiadurol yn Gymraeg*** (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2018).

120 ***Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg***, t. 23.

121 **Rydyn ni'n ei gwneud yn haws nag erioed i ddefnyddio'r Gymraeg ar Hwb - Newyddion - Hwb (gov.wales)**.

122 **Defnyddio gwasanaethau'r llywodraeth yn Gymraeg - GOV.UK (www.gov.uk)**.

4.12

Un arall o'r cyrff Prydeinig sy'n cynyddu eu gwasanaethau Cymraeg yw'r DVLA a chanddynt bedair system Gymraeg newydd ar gael ers 2016, i dalu dirwy gorfodaeth ar lein, ar gyfer ffitrwydd i yrru, cael llyfr log cerbyd a newid cyfeiriad ar lyfr log cerbyd. Adeg llunio'r adroddiad hwn roedd gan y DVLA 12 system ar gael yn Gymraeg ac mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y defnydd a wneir o'r gwasanaethau hyn ar lein, yn rhannol yn sgil cyflwyno neges ar ddechrau'r gwasanaeth Saesneg yn nodi bod yn gwasanaeth ar gael yn Gymraeg hefyd. Yn 2016–17 defnyddiwyd y system Gymraeg i drwyddedu cerbyd yn electronig 7,718 o weithiau, tra defnyddiwyd yr un system 16,579 o weithiau yn 2019–20. Yn yr un modd, defnyddiwyd y system Gymraeg ar gyfer ymholiadau cerbyd 44,970 o weithiau yn 2016–17, a'i defnyddio 95,642 o weithiau yn 2019–20.

4.13

Gwelwyd gwefannau a systemau newydd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd a gafodd eu datblygu yn sgil COVID-19, a'r rheini oll ar gael yn Gymraeg. Yn ogystal â'r gwasanaethau newydd hyn, datblygodd yr Adran Gwaith a Phensiynau 12 o'u systemau i fod ar gael yn Gymraeg yn ystod 2016–20 gan gynnwys system newydd ar gyfer yr holl wasanaethau Credyd Cynhwysol. Datblygwyd hefyd chwe gwefan ddwyieithog newydd ynghyd â phorth dwyieithog i gyflwyno cwynion ar-lein.

4.14

Agwedd sydd ynghlwm â rhyngwynebau a systemau Cymraeg yw gallu systemau i gadw a storio dewis iaith y defnyddiwr. Cyfeiriwyd yn Rhan 3 at fanc Santander yn arloesi yn hyn o beth yn 2016 â'u peiriannau twll yn y wal yn cofio'r dewis iaith sy'n cyd-fynd â cherdyn debyd neu gredyd os yw'r defnyddiwr wedi dewis defnyddio'r Gymraeg ar un o'u peiriannau.

4.15

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn enghraifft arall o sefydliad sydd wedi mynd ati i gofnodi dewis iaith eu holl aelodau staff ac wrth ddatblygu eu systemau mewnol eu hunain wedi gallu cysylltu lefel iaith staff â'r system e-bost. Mae hyn yn galluogi'r system e-bost i arddangos yn glir y staff hynny sy'n rhugl yn y Gymraeg, ac wedi golygu bod mwy o negeseuon e-bost mewnol yn cael eu hanfon yn Gymraeg o fewn y Cyngor.

Systemau cofnodi dewis iaith cwsmeriaid

4.16

Wrth i'r setiau cyntaf o safonau gael eu gosod, rhai o'r safonau a barodd drafferth i amryw o sefydliadau oedd y safonau hynny sy'n nodi bod yn rhaid i'r sefydliad ofyn i unigolyn a yw'n dymuno cael gohebiaeth a derbyn galwadau ffôn ganddo yn Gymraeg, ac os felly rhaid cadw cofnod o ddewis iaith yr unigolyn a gohebu neu gysylltu dros y ffôn yn Gymraeg o hynny ymlaen. Daeth yn eglur bod gallu sefydliadau i gofnodi dewis iaith unigolion yn gwbl ddibynnol ar y systemau TG roeddent yn eu defnyddio, a'r sefyllfa'n aml iawn yw nad oes modd rhannu data rhwng gwahanol systemau'n rhwydd, hyd yn oed o fewn sefydliad rhwng un adran a'r llall.

4.17

Daeth hefyd yn amlwg bod addasu systemau er mwyn gallu cofnodi dewis iaith unigolion yn gallu bod yn broses hir a chostus. Gwell o lawer felly yw cynnwys y gofyniad hwn o'r cychwyn cyntaf wrth ddatblygu neu gaffael system o'r newydd. Ceir enghraifft o hyn yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)[123] sydd wrthi'n cael ei gyflwyno adeg llunio'r adroddiad hwn ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru er mwyn darparu gofal yn nes at gartrefi pobl.

4.18

Â'r sefyllfa'n amrywio rhwng gwahanol sefydliadau heb sôn am sectorau, cynullodd y Comisiynydd grŵp tasg a gorffen i ymchwilio i arferion sefydliadau wrth gofnodi a rhannu dewis iaith, yr anawsterau a'r datrysiadau posibl. Cyhoeddwyd ffrwyth gwaith y grŵp mewn adroddiad yn 2020 lle ceir cyfres o argymhellion ymarferol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd.[124]

4.19

Un o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru oedd y dylid ystyried rôl datblygiadau cenedlaethol (fel System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n gallu cofnodi a rhannu dewis iaith mewn modd effeithiol. Byddai hyn yn arwain at allu cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol i unigolion sydd wedi nodi wrth ymwneud â gwasanaeth gwahanol eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.

4.20

Argymhelliad arall a wnaed i'r Llywodraeth oedd ei bod yn rhannu canllawiau â chyrff cyhoeddus eraill ynghylch caffael meddalwedd amlieithog. Ddiwedd 2020 roedd y Llywodraeth wrthi'n treialu pecyn cymorth drafft yn fewnol a'r disgwyliad yw y bydd yn cyhoeddi fersiwn terfynol wedi'r cyfnod profi.

4.21

Mae anghysondeb ac anallu systemau a ddefnyddir gan sefydliadau ar hyn o bryd i gofnodi dewis iaith yn peri nifer o broblemau wrth i sefydliadau gydymffurfio â'r safonau, ac nid yw'r systemau presennol yn annog defnydd rhagweithiol o'r Gymraeg. Y gobaith, fodd bynnag, yw y bydd camau'n cael eu cymryd er mwyn gwella'r sefyllfa yn y blynyddoedd nesaf â'r Llywodraeth eisoes wedi dechrau gweithredu yn y maes.

123 **Cofnod digidol gofal cymdeithasol - Iechyd a Gofal Digidol Cymru (gig.cymru)**.

124 Grŵp Tasg a Gorffen Cofnodi a Rhannu Dewis Iaith Comisiynydd y Gymraeg, *Grŵp Tasg a Gorffen Cofnodi a Rhannu Dewis Iaith Comisiynydd y Gymraeg: Adroddiad Terfynol ac Argymhellion* (Medi 2019).

Technoleg llais i destun a deallusrwydd artiffisial sgyrsiol Cymraeg

4.22

Er nad oes modd siarad Cymraeg â dyfeisiadau clyfar poblogaidd fel Alexa, Google neu Siri ar hyn o bryd, mae technoleg lleferydd yn Gymraeg wedi parhau i ddatblygu dros y pum mlynedd diwethaf diolch i waith Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor ac eraill â chymorth grant Llywodraeth Cymru.

4.23

Yn 2014, datblygodd yr Uned Technolegau Iaith ap Paldaruo er mwyn casglu recordiadau o leisiau er mwyn ffurfio corpws a fyddai'n arwain at allu datblygu system adnabod lleferydd yn Gymraeg. Bu'r ap yn casglu recordiadau rhwng 2014 a 2018 ac ym mis Ionawr 2016 rhyddhawyd fersiynau cyntaf cychwynnol y ffeiliau adnabod lleferydd Cymraeg ar drwydded agored ar lwyfan datblygu meddalwedd GitHub. Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddarach o'r corpws y gellid ei lawrlwytho ym mis Rhagfyr 2018.

4.24

Hefyd yn 2018 lansiodd y cwmni rhyngwladol o California, Mozilla, brosiect i gasglu recordiadau o frawddegau a geiriau Cymraeg drwy eu cynllun Common Voice mewn cydweithrediad â'r Uned Technolegau Iaith. Mae Common Voice yn llwyfan torfoli sy'n gwahodd pobl i gyfrannu eu lleisiau i fanc cod agored fydd yn ei dro yn caniatáu datblygwyr i greu technoleg lleferydd. Cefnogodd yr Uned Technolegau Iaith y prosiect hwn gan drosglwyddo'r data a gasglwyd drwy ap Paldaruo i Mozilla. Yn ogystal â chasglu recordiadau o leisiau gwirfoddolwyr, mae Common Voice hefyd yn caniatáu i bobl adolygu a dilysu recordiadau gwirfoddolwyr eraill er mwyn sicrhau ansawdd.

4.25

Yn 2016, lansiodd yr Uned Technolegau Iaith brototeip o system cynorthwyydd personol o'r enw Macsen a oedd yn gallu deall ac ateb â llais synthetig rai cwestiynau penodol yn Gymraeg. Erbyn diwedd 2020 roedd Macsen yn gallu ateb cwestiynau Cymraeg am ragolygon y tywydd a'r newyddion, ac yn gallu cynnig rhaglenni S4C ar S4C Clic, ffeithiau o Wicipedia a chwarae cerddoriaeth Gymraeg drwy Spotify.

4.26

Wrth ddatblygu'r dechnoleg deallusrwydd artiffisial hon, rhaid yw hefyd datblygu rhaglen drawsgrifio sy'n teipio ar sgrin beth sy'n cael ei ddweud ar lafar. Cyhoeddwyd adnoddau o gymorth i ddatblygu technoleg lleferydd Cymraeg gan yr Uned Technolegau Iaith, gan gynnwys modelau adnabod lleferydd Cymraeg. Yn 2020, lansiodd yr Uned brototeip system trawsgrifio fideos yn awtomatig yn Gymraeg i'w ddefnyddio i greu isdeitlau Cymraeg.[125] Diolch i ddata Common Voice Cymraeg mae bellach yn medru trawsgrifio Cymraeg safonol â chywirdeb o 85%.

125 Trawsgrifiwr Cymraeg | (techiaith.cymru).

Technoleg cyfieithu a lleisiau synthetig

4.27

Trafodir y datblygiadau technolegol a fu yn y maes cyfieithu ym mhennod 5 isod â dyfodiad cyfieithu niwral yn gwella ansawdd cyfieithu peirianyddol yn sylweddol. Datblygiad arall yn y blynyddoedd diwethaf yw'r gallu i bwyntio camera ffôn symudol at destun a derbyn cyfieithiad yn syth ar sgrin y ffôn. Mae'r dechnoleg honno ar gael ar gyfer y Gymraeg yn ap cyfieithu Google ar hyn o bryd ac mae modd derbyn cyfieithiad o iaith arall i'r Gymraeg ar ap Microsoft Translator hefyd. Mae ap cyfieithu Google hefyd yn defnyddio technoleg testun i lais ac yn galluogi defnyddwyr i wrando ar y cyfieithiad Cymraeg yn cael ei ddweud gan lais synthetig, er nad yw'r llais yn un naturiol a bod lleisiau sy'n ynganu'n llawer gwell ar gael.

4.28

Mae technoleg testun i lais yn Gymraeg bellach yn ddigon cyffredin a chaiff ei defnyddio ar wefannau, peiriannau hunanwasanaeth a chyhoeddiadau mewn gorsafoedd trên. Gall fod cyfleoedd yma i ddod â thechnoleg ynghyd i greu adnoddau i gynorthwyo â hygyrchedd a chymorth addysgol ychwanegol, er enghraifft beiro glyfar sy'n gallu darllen tudalennau.

4.29

Prosiect llais a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 2017 yn sgil grant gan Lywodraeth Cymru yw prosiect Lleisiwr sy'n creu lleisiau synthetig personol Cymraeg i gleifion sydd ar fin colli eu gallu i siarad.[126] Â'r dechnoleg hon wedi bod ar gael yn Saesneg ers blynyddoedd, mae creu llais Cymraeg wedi bod yn ddatblygiad hollbwysig er mwyn trin cleifion sy'n siaradwyr Cymraeg yn gyfartal â chleifion di-Gymraeg. Datblygodd yr Uned y dechnoleg hon ymhellach yn 2020 i alluogi creu un llais i'w ddefnyddio ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.

126 https://lleisiwr.techiaith.cymru.

Wicipedia

4.30

Yn ôl y Digital Language Diversity Project mae bod â Wikipedia mewn iaith leiafrifol neu ranbarthol yn un ffordd o wella presenoldeb digidol yr iaith honno a chaiff canllawiau manwl ar sut i sefydlu Wikipedia a chynyddu nifer yr erthyglau eu cynnwys yn y *Digital Language Survival Kit*.[127] Mae'r nifer o erthyglau Wikipedia sydd ar gael mewn iaith hefyd yn fesur o hyfywedd yr iaith ac yn fesur sy'n cael ei ddefnyddio gan gwmnïau mawrion wrth iddynt benderfynu ymestyn eu darpariaeth i ieithoedd eraill.

4.31

Noda canllawiau'r Digital Language Diversity Project fod Wikipedia â rhwng 10,000 a 100,000 o erthyglau yn cael ei ystyried yn y cam 'datblygu' a chyrhaeddodd y Wicipedia Cymraeg 100,000 o erthyglau ym mis Mawrth 2018 oedd yn garreg filltir fawr i'r gwyddoniadur. Adeg llunio'r adroddiad hwn roedd yn cynnwys dros 131,000 o erthyglau ac mae'n parhau i dyfu. Yn 2015 penodwyd Wicimediwr preswyl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac ers 2017 mae honno'n swydd barhaol. Mae'r Wicimediwr Cenedlaethol yn gyfrifol am gydweithio â staff y Llyfrgell Genedlaethol er mwyn ychwanegu cynnwys, hyfforddi golygyddion a chynnal gweithdai i lunio rhagor o erthyglau.

4.32

Cynhaliwyd sawl prosiect yn ystod y pum mlynedd diwethaf er mwyn cynyddu nifer yr erthyglau mewn meysydd penodol, a hynny gyda chymorth grantiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- prosiect Wicipop yn 2016 a welodd 783 o erthyglau newydd yn cael eu cyhoeddi ar gerddoriaeth bop;
- prosiect Wicilechyd a gynhaliwyd rhwng 2017 a 2018 a sbardunodd 4699 o erthyglau ar bynciau'n ymwneud â iechyd;
- a phrosiect Wicipobl a gynhaliwyd rhwng 2018 a 2019 a arweiniodd at 1444 o erthyglau newydd ar enwogion a phobl nodedig o Gymru.

Un o'r prosiectau diweddaraf i dderbyn grant gan y Llywodraeth yn 2019–20 oedd Wici-Llên, sy'n brosiect ar y cyd rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a Menter Môn, a dyfarnwyd grant i brosiect Wici-pics yn 2020–21.

4.33

Yn ogystal â'r prosiectau penodol hyn, sefydlwyd prosiectau rhanbarthol fel Wici Môn a enillodd grant gan y Llywodraeth i lunio erthyglau am nodweddion lleol, a Wici Caerdydd a enillodd wobr 'Wikimedians of the year' gan Wikimedia UK yn 2018 am eu gwaith yn cyfieithu erthyglau. Mae Cof y Cwmwd hefyd yn brosiect lleol a gychwynnwyd yn 2017 â grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn cofnodi hanes a thraddodiadau Uwchgwyrfai. Mae'r prosiect wedi esgor ar 1000 o erthyglau hyd yma.[128]

127 The Digital Language Diversity Project, ***Digital Language Survival Kit: The DLDP Recommendations to Improve Digital Vitality*** (2018).
128 **Cof y Cwmwd (uwchgwyrfai.cymru)**.

4.34

Prosiect diweddar arall a sefydlwyd yn 2019 yw MenywodMewnCoch sy'n ymdrech i gynyddu'r nifer o erthyglau am ferched, a hynny wedi i'r Wicipedia Cymraeg fod yr unig Wikipedia mewn unrhyw iaith i fod â mwy o erthyglau am ferched nag am ddynion yn 2016.

Gwefannau ac apiau

4.35

Dros y pum mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig grantiau penodol ar gyfer datblygu technoleg er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth. Adnodd sy'n ffrwyth un o'r grantiau hyn yw gwefan Tocyn Cymru a lansiwyd yn 2016 i reoli digwyddiadau lle gellir archebu a phrynu tocynnau yn ddwyieithog.

4.36

Cynigodd y Llywodraeth grantiau er mwyn cyd-fynd â *Cymraeg 2050* hefyd, a rhai o'r rheini wedi mynd at brosiectau i ddatblygu technoleg. Yn eu plith mae ap Cwtsh sy'n hyrwyddo iechyd a lles meddyliol drwy fyfyrio, prosiect Mapio Cymru sy'n anelu at greu fersiwn Gymraeg o OpenStreetMap, a phrosiect Dementia yn fy Nwylo sy'n brofiad rhithwir Cymraeg er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o brofiadau unigolion â dementia.

4.37

Un o'r apiau mwyaf poblogaidd yn y Gymraeg yw Ap Geiriaduron yr Uned Technolegau Iaith. Rhwng Mehefin 2015 a Rhagfyr 2020 cafodd yr ap ei lawrlwytho 200,180 o weithiau ac mae'n parhau i gael ei ddiweddaru'n gyson.

4.38

Pwysig hefyd yw datblygu gifs a sticeri Cymraeg i'w defnyddio ar gyfryngau poblogaidd fel Instagram, Snapchat, Twitter a Facebook Messenger. Mae cynnydd wedi bod yn y rhain dros y blynyddoedd diwethaf hefyd, a sefydliadau fel yr Urdd, y mentrau iaith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ynghyd â busnesau Cymreig yn cynhyrchu sticeri deniadol i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

4.39

Yn ogystal â chefnogi prosiectau i ddatblygu technoleg Gymraeg, yn 2017 sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun Cracio'r Cod er mwyn meithrin diddordeb a sgiliau plant a phobl ifanc mewn codio.[129] Erbyn mis Ebrill 2019 roedd 105 o glybiau codio wedi eu cofrestru gan Code Club mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog.[130]

129 Llywodraeth Cymru, ***Cracio'r cod: Cynllun i ehangu clybiau codio ym mhob rhan o Gymru*** (Mehefin 2017).
130 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2018–19*** (Ionawr 2020), t. 42.

Technoleg yn ffenestri i'r byd yn oes COVID-19

4.40

Wrth i bobl ddibynnu ar wasanaethau electronig o bob math yn ystod argyfwng COVID-19 – ac wrth i'r technolegau hyn ddatblygu ar garlam er mwyn gwasanaethu cymunedau gwasgaredig – amlygwyd ei bod yn fwy hanfodol nag erioed nad yw'r Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl.

4.41

Â chartrefi ledled y wlad yn troi'n ystafelloedd dosbarth bach yng ngwanwyn 2020 cafwyd croeso mawr i'r cyhoeddiad ym mis Mai 2020 fod gwirydd gramadeg a sillafu Cymraeg, Cysgliad, ar gael am ddim i unigolion, sefydliadau a chanddynt lai na 10 o weithwyr a holl ysgolion Cymru. Erbyn diwedd 2020, roedd wedi ei lawrlwytho dros 5,000 o weithiau.

4.42

Roedd rhyngwyneb Cymraeg Google Classroom hefyd yn fodd o normaleiddio'r Gymraeg wrth i athrawon ddysgu o bell. Mae'n bosibl mai grym pwrcasu'r Llywodraeth a sicrhaodd bod Google Classroom ar gael yn Gymraeg, gan ei bod hi'n hanfodol bod yr adnodd ar gael yn Gymraeg er mwyn ateb gofynion system addysg ddwyieithog Cymru. Dyma awgrym o'r hyn sy'n bosibl ei gyflawni â'r cwmnïau technoleg mawrion pe bai'r Llywodraeth yn defnyddio ei phŵer pwrcasu i'r eithaf.

4.43

Ni welwyd yr un llwyddiant hyd yma yn achos Microsoft Teams. Wrth i'r wlad ddechrau cynnal cyfarfodydd rhithiol o gysur eu cartrefi daeth hi'n amlwg nad oedd platfform Microsoft yn darparu sianel bwrpasol i hwyluso cyfieithu ar y pryd. Llythyrodd Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, â Microsoft ym Mai 2020 i dynnu sylw at yr angen hwn. Erbyn diwedd y flwyddyn galendr gwelwyd anniddigrwydd cynyddol ynghylch y diffyg hwn ymhlith sefydliadau Cymru oedd yn dibynnu ar wasanaethau Microsoft, a llythyrodd y Comisiynydd â Microsoft i'w hatgoffa o gais y Gweinidog. Fodd bynnag, ni ryddhawyd datrysiad gan Microsoft cyn diwedd y cyfnod adrodd.

Casgliadau'r Comisiynydd

Mae'n amlwg fod cynllun ar waith gan Lywodraeth Cymru i yrru datblygiadau ymlaen ym meysydd technoleg gwybodaeth, a bod gwaith dygn a pharhaus yn digwydd er mwyn ceisio dal i fyny â'r technolegau sydd ar gael yn Saesneg. Teg dweud mai criwiau bychain sydd wrth y gwaith, fodd bynnag, ac o'r herwydd araf yw unrhyw ddatblygiadau sylweddol o ran technoleg llais i destun neu ddeallusrwydd artiffisial sgyrsiol yn Gymraeg. Nid oes gwadu nad yw'n dalcen caled cynnal trafodaethau â chwmnïau technoleg mawr fel Google, Microsoft ac Apple, ac mae hynny'n sicr yn rhwystr rhag cyflymu datblygiadau a datblygu technolegau poblogaidd yn Gymraeg. **Credwn, fodd bynnag, fod lle i Lywodraeth Cymru – ac yn wir, pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru – ddefnyddio eu grym pwrcasu i'r eithaf er mwyn buddsoddi mewn rhagor o ddatblygiadau ar y cyd â chwmnïau mawr poblogaidd y mae eu technolegau'n cael eu defnyddio'n feunyddiol gan siaradwyr Cymraeg.** Heb gefnogaeth neu gydweithrediad y cwmnïau mawrion, bydd angen ystyried o ddifri gynyddu'r adnodd i weithio ar ddatblygu'r technolegau ein hunain yng Nghymru er mwyn prysuro'r gwaith yn ei flaen.

Mae *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg* y Llywodraeth yn mynd i'r afael â datblygu nifer o wahanol dechnolegau, ac mae hynny'n sicr i'w groesawu. **Mae lle, fodd bynnag, i'r Llywodraeth ei gwneud yn fwy eglur pwy sy'n gyfrifol am ba becynnau yn y cynllun a beth yw'r amserlen ar gyfer eu datblygu. Efallai hefyd fod angen adolygu'r cynllun yn sgil COVID-19 i sicrhau ei fod yn parhau i ateb y gofyn yn dilyn y newidiadau pellgyrhaeddol a gyflwynwyd i batrymau gwaith a bywyd ddiwedd y cyfnod adrodd.** Wrth i aelwydydd aros gartref yn 2020, a dim arwydd bod y patrymau hynny am newid dros nos, daeth yn amlycach mai technoleg yw ein ffenestri i'r byd. Os yw'r Gymraeg am ffynnu rhaid iddi allu treiddio drwyddynt.

Mae'r safonau'n sicr wedi golygu bod cynnydd wedi bod yn y cynnwys Cymraeg ar wefannau ac yn y rhyngwynebau Cymraeg sydd i wefannau sefydliadau. Gwelwyd cynnydd hefyd yn narpariaeth cyrff y Goron, er bod lle i wneud rhagor ac i sicrhau bod llunwyr polisi San Steffan yn ymwybodol o ddisgwyliadau ac anghenion defnyddwyr yng Nghymru. **Mae gwaith pellach i'w wneud hefyd i annog defnydd o'r rhyngwynebau Cymraeg drwy eu cynnig yn rhagweithiol neu osod y Gymraeg fel yr iaith ddiofyn.** Weithiau mae tudalen sblash yn ddigon er mwyn cynnig dewis iaith cyn i ddefnyddiwr ymwneud â gwefan neu wasanaeth, ond yn gynyddol gwelir bod gosodiadau cwcis ar wefannau yn cofio dewis iaith defnyddiwr ac felly mae angen sicrhau bod gallu neu hyd yn oed annog dewis y Gymraeg yn rhan o'r broses o gyrchu gwefan. Carem hefyd ategu argymhelliad y Grŵp Tasg a Gorffen Cofnodi a Rhannu Dewisiadau Iaith i Lywodraeth Cymru ystyried technoleg allai fod ar gael yn genedlaethol i gynorthwyo sefydliadau i gofnodi a rhannu dewis iaith cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

5 Seilwaith ieithyddol

Beth yw'r gair Cymraeg am *infrastructure*?: Diffinio'r term

Ein nod: sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r strategaeth hon.[131]

5.1

Mor anghyfarwydd i'r darllenydd cyffredin yw'r term 'seilwaith ieithyddol' a ddefnyddir yn *Cymraeg 2050* fel bod angen ei egluro a'i ddiffinio rhwng cromfachau. Dadlennol hefyd yw'r ffaith nad oedd modd canfod y term hwn, na diffiniad ohono, mewn unrhyw un o'r adnoddau geiriadurol neu derminoleg y cyfeirir atynt yn y bennod hon adeg ei llunio. Byddwn yn glynu felly at ddiffiniad cryno *Cymraeg 2050* yma gan ychwanegu 'enwau lleoedd' ato ar gyfrif cyfrifoldeb unigryw'r Comisiynydd yn y maes a'r gydnabyddiaeth o swyddogaeth y Comisiynydd 'yn darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â datblygu a chydgysylltu terminoleg ac enwau lleoedd'.[132]

5.2

Er mor anghyfarwydd y term ac arbenigol y maes mae hi'n gwbl hanfodol nad yw'n cael ei weld fel disgyblaeth gul ar ymylon yr agenda cynllunio ieithyddol. Mae perthynas uniongyrchol rhwng ymdrechion yn y maes hwn a statws a hyfywedd yr iaith.

131 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 74.
132 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21*** (10 Gorffennaf 2017), t. 37.

Seiliau *Iaith fyw: iaith byw*

5.3

Cynhwyswyd y maes hwn yn rhan o faes strategol 'y seilwaith' yn *Iaith fyw: iaith byw* a chafwyd cydnabyddiaeth bryd hynny fod y maes strategol hwn yn gwbl hanfodol er mwyn cynnal pob maes arall. Roedd *Iaith fyw: iaith byw* yn gofyn i'r Comisiynydd 'gefnogi a datblygu'r diwydiant cyfieithu' a '[ch]ydgysylltu'r gwaith o safoni terminoleg ac enwau lleoedd Cymraeg'.[133] Ac er bod *Iaith fyw: iaith byw* yn dal i fod yn weithredol yn ystod dechrau cyfnod adrodd yr adroddiad 5-mlynedd hwn, roedd prif weithgarwch y Comisiynydd mewn perthynas â'r targedau hyn eisoes wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf.

5.4

Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2016 derbyniodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru grant gan y Comisiynydd er mwyn ei chefnogi i ganolbwyntio ar faterion rheoleiddio a chynrychioli ei haelodau. Ac er mwyn mynd i'r afael â'r dasg o gydgysylltu'r maes terminoleg yn strategol cynullodd y Comisiynydd Banel Cydgysylltu Safoni Termau a Geiriadura yn 2013 oedd yn cynrychioli prif lunwyr polisi ac arianwyr y maes.

5.5

Daeth y Panel hwn i nifer o gasgliadau allweddol am y gweithgarwch yng Nghymru gan ddod i'r farn nad oedd y drefn yng Nghymru yn gynaliadwy, yn cynnig y gwerth gorau am arian, nac yn bodloni holl anghenion y defnyddwyr. Barn y Panel oedd bod angen sicrhau ffrydiau ariannu dibynadwy a sefydlog a chydgysylltu ac asio'r adnoddau presennol yn well, ac – yn allweddol – mai Llywodraeth Cymru oedd y sefydliad â'r awdurdod a'r adnoddau priodol i symud y maes pwysig hwn yn ei flaen.

Cyfnewid cyfrifoldeb

5.6

Ac yn wir, o fewn y cyfnod adrodd dan sylw gwelwyd y trosglwyddo cyfrifoldeb hwn yn dechrau digwydd. O fis Ebrill 2016 ymlaen Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ddarparu grant i Gymdeithas Cyfieithwr Cymru. Ac erbyn cyhoeddi *Rhaglen waith 2017–21* strategaeth *Cymraeg 2050* roedd y Llywodraeth wedi ymrwymo i 'adolygu'r strwythurau presennol i sicrhau bod gennym bolisi corpora cynaliadwy'.[134]

133 Llywodraeth Cymru, ***Iaith fyw: iaith byw, Strategaeth y Gymraeg 2012–17*** (Mawrth 2012), t. 53.
134 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21***, t. 37.

5.7

Yn ystod y cyfnod adrodd cafwyd sawl awgrym gan y Llywodraeth fod y gwaith hwn o adolygu'r strwythurau ar ddigwydd. Ym mis Awst 2018 cynhaliodd Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, sesiwn ymgynghori ar ddyfodol seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol. Ac ar 5 Rhagfyr 2018 gwnaeth ddatganiad ysgrifenedig yn nodi'n glir bod 'angen gwneud mwy' ac yn cadarnhau ei bwriad i roi 'cyfeiriad strategol tymor hir i'r maes pwysig hwn a gwella sut mae'r gwahanol elfennau'n asio'. Nododd ei bod hi'n bwriadu gwneud datganiad pellach yng ngwanwyn 2019 am y ffordd ymlaen a chynnig strwythur fyddai'n 'cydlynu'r amrywiol elfennau seilwaith ieithyddol yn effeithiol'.[135] Ni wnaed datganiad o'r fath cyn diwedd y cyfnod adrodd ond mae cynllun gweithredu'r strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020–21 yn cynnwys ymrwymiad i 'ymgynghori ar bolisi i gwmpasu'r gwahanol elfennau ar seilwaith ieithyddol y Gymraeg [...] gyda'r nod o gyhoeddi polisi maes o law'.[136]

Pwyslais a phwysigrwydd newydd

5.8

Yn ystod y cyfnod adrodd gwelwyd pwyslais cynyddol ar y cyswllt annatod sydd rhwng y seilwaith ieithyddol a thechnoleg ddigidol, a *phwysigrwydd* y seilwaith ieithyddol – yn benodol bod â chorpora enfawr – i alluogi datblygu technoleg Cymraeg. Nid yw hyn yn syndod mewn gwirionedd, oherwydd fel y nododd Eluned Morgan AC yn ei datganiad ysgrifenedig ar 5 Rhagfyr 2015, 'mae'r ddau faes yn cydblethu'n naturiol'.[137]

5.9

Yn *Cymraeg 2050* mae 'corpora' yn cael ei gynnwys yn rhan o bennawd ochr yn ochr â geiriaduron a therminoleg a dadleuir yn y fan honno nad yw'r 'ffocws hollbwysig' ar gorpora wedi bod yn ddigonol yng Nghymru yn y gorffennol.[138] Gwelwyd ymgais i unioni hyn yn *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg* y Llywodraeth lle ceir pwyslais ar bwysigrwydd corpora i hyfforddi systemau. Arwyddocaol hefyd yw'r pwyslais a roddir ar y seilwaith ieithyddol yn y cynllun gweithredu hwn a'r ffaith y cynhwysir 'cefnogaeth hirdymor i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg, gan gynnwys corpora, geiriaduron ac adnoddau terminoleg'[139] yn un o'r pecynnau gwaith 'angenrheidiol' i wireddu ei weledigaeth.

5.10

Yn ystod y cyfnod adrodd derbyniodd prosiect CorCenCC arian grant sylweddol o £1.8 miliwn gan yr ESRC/AHRC er mwyn creu corpws o Gymraeg cyfoes o bob cywair a thrwy bob cyfrwng. Gweledigaeth tîm CorCenCC yw bod y corpws agored hwn sy'n cynnwys dros 11 miliwn o eiriau yn cefnogi ymchwil ac o gymorth wrth greu adnoddau addysgol.[140]

135 Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg: Datblygu a Chydlynu (5 Rhagfyr 2018) | LLYW.CYMRU.
136 *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2020–21*, t. 37.
137 Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg: Datblygu a Chydlynu (5 Rhagfyr 2018) | LLYW.CYMRU.
138 *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, t. 72.
139 *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg*, t. 19.
140 CorCenCC – National Corpus of Contemporary Welsh.

5.11

Er mor werthfawr yw CorCenCC o ran cynnwys a chwmpas y corpws, nid dyma'r math o gorpws sydd ei angen i hyfforddi systemau technoleg llais. Ateb y gofyn hwnnw oedd wrth wraidd lansio ymgyrch Common Voice Cymraeg[141] ym mis Mehefin 2018 y cyfeiriwyd ato ym mhennod 4 uchod. Erbyn mis Rhagfyr 2020 roedd 124 awr wedi ei recordio ond gall fod angen hyd at '10,000 awr o sain fel swm realistig er mwyn cael peiriant adnabod lleferydd sy'n gweithio'n dda gydag amrywiaeth o leisiau ac acenion gwahanol ac mewn sefyllfaoedd o sŵn cefndir naturiol'.[142]

Geiriaduron a therminoleg

5.12

Nod y Llywodraeth yn *Cymraeg 2050* yw gweld y seilwaith yn 'parhau i ddatblygu' ac roedd y pum mlynedd diwethaf yn sicr yn gyfnod o barhad yn hanes prif adnoddau geiriadurol a therminolegol y Gymraeg. Parhaodd y Llywodraeth i ariannu prif eiriadur hanesyddol y Gymraeg, *Geiriadur Prifysgol Cymru*,[143] yn ogystal â phrif adnoddau terminolegol y Gymraeg: *Y Termiadur Addysg*[144] ar gyfer y sector addysg a Byd TermCymru[145] sy'n caniatáu mynediad at derminoleg, arddulliadur a rhai o gofau cyfieithu Gwasanaeth Cyfieithu'r Llywodraeth. Parhaodd pob un o'r adnoddau hyn i dyfu a datblygu i'w cyfeiriadau eu hunain.

5.13

Parhaodd Comisiynydd y Gymraeg i gynnal fersiwn electronig o *Geiriadur yr Academi* ar lein. Yn anffodus, o ganlyniad i doriadau cyllidebol, ni ddatblygwyd y Geiriadur hwn yn ystod y cyfnod adrodd. Mae mawr angen datblygu a diweddaru'r adnodd pwysig hwn ar fyrder bellach er mwyn iddo barhau i fod yn gymorth anhepgor i gyfieithwyr ac i bawb sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog.

Cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

5.14

Does dim amheuaeth nad yw dyfodiad safonau'r Gymraeg wedi creu cynnwrf yn y byd cyfieithu yng Nghymru. Gan nad yw sgiliau ieithyddol y gweithlu wedi newid dros nos, mae'n anorfod bron fod y safonau wedi creu galw pellach am wasanaethau cyfieithu.

141 Common Voice (mozilla.org).
142 5. Technoleg Lleferydd | (techiaith.cymru).
143 Geiriadur Prifysgol Cymru | Y geiriadur Cymraeg hanesyddol safonol.
144 Y Termiadur Addysg.
145 BydTermCymru | LLYW.CYMRU.

5.15

Ond mae safonau'r Gymraeg hefyd wedi creu gofynion cymharol newydd yng nghyd-destun gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, fel y ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud â llesiant unigolion.[146] Yn wir, parodd y ddyletswydd hon gymaint o gynnwrf fel mai dyma oedd testun achos cyntaf Tribiwnlys y Gymraeg yn 2017. Mae geiriad dyfarniad y Tribiwnlys ei hun yn arwyddocaol gan ei fod yn awgrymu bod y safonau yn gosod patrymau newydd ar gyfer dyfodol gwasanaethau cyfieithu:

> Nid yw'r safonau sydd o dan sylw yn adlewyrchu, o angenrheidrwydd, y galw a fu yn y gorffennol ond yn gosod safonau ar gyfer y dyfodol, a hynny ar sail *angen*.[147]

5.16

Ymatebodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i'r sefyllfa newydd hon gan greu categori aelodaeth newydd pwrpasol yn ystod blwyddyn ariannol 2017–18. Ym mis Mawrth 2020 roedd gan y Gymdeithas 410 o aelodau, ei nifer uchaf erioed.

5.17

Nid oes cyfyngiad ar bwy sy'n gallu gweithredu fel cyfieithydd Cymraeg-Saesneg yng Nghymru nac, yn sgil hynny, orfodaeth ar gyfieithwyr i berthyn i gorff proffesiynol fel Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Gwelwyd yn ystod y cyfnod adrodd, fodd bynnag, nifer o gytundebau arwyddocaol yn gofyn am aelodaeth o gorff proffesiynol fel maen prawf hanfodol. Mae cytundeb fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar ran y sector cyhoeddus yn un enghraifft.

5.18

Ym mis Medi 2016 derbyniwyd y myfyrwyr cyntaf i'r Cwrs Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol i uwchraddedigion a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Coleg Cymraeg wedi cynnull Consortiwm o blith y proffesiwn i gynghori darparwyr y cwrs a cheisio sicrhau bod y cymhwyster yn ateb gofynion y proffesiwn cyfieithu.

5.19

Gwelwyd cyfieithu peirianyddol yn parhau i ddatblygu ar garlam a chwyldroi'r byd cyfieithu wrth i systemau cyfieithu peirianyddol niwral – sy'n cyflwyno elfen o dechnoleg deallusrwydd artiffisial – gael eu mabwysiadu gan Microsoft ac eraill. Does dim amheuaeth nad yw hyn wedi arwain at gynnydd gweladwy yn ansawdd cyfieithu peirianyddol. Mae'r dechnoleg hon yn cyflwyno heriau newydd fodd bynnag, fel y noda'r Llawlyfr Technolegau Iaith a gyhoeddwyd yn 2019. Rhaid wrth 'adnoddau uwch-gyfrifiadura sylweddol i hyfforddi'r rhwydweithiau' yn ogystal â 'setiau data gwirioneddol anferth er mwyn gallu hyfforddi modelau o safon gwell'.[148]

146 Gweler, er enghraifft, safon 26 A yn ***Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015***, t. 14.
147 Gweler paragraff 31: **170426-decision-pembs-county-council.pdf (llyw.cymru)**.
148 **1. Cyflwyniad i Dechnolegau Iaith | (techiaith.cymru)**.

5.20

Ac ar lefel ymarferol rhaid rheoli disgwyliadau defnyddwyr a sefydliadau sy'n comisiynu gwaith cyfieithu: nid yw'r dechnoleg yn hepgor yr angen am gyfieithydd dynol. Rhaid i'r proffesiwn cyfieithu hefyd addasu i'r datblygiadau newydd hyn fel y nododd Pennaeth Gwasanaethau Cyfieithu a Chofnodi Seneddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

> Y gamp yw addasu i fyd o newid. Mae'n anochel y bydd yn arwain at rai newidiadau ond nid at ddisodli'r angen am weithwyr cymwys, proffesiynol. Mae crefft y cyfieithydd eisoes wedi newid i ôl-olygu testun a gynhyrchir gan beiriant. Efallai y dylid ystyried y grefft yn un ychydig yn wahanol – y grefft o ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd gennym eisoes i drin data.[149]

5.21

Addasu i fyd o newid fu ein hanes ni i gyd yn ystod argyfwng COVID-19. Wrth i bobl Cymru ddechrau gweithio o'u cartrefi ym mis Mawrth 2020 daeth cyfarfodydd fideo yn rhan o fywyd beunyddiol. Ond gwelwyd y proffesiwn cyfieithu yn arloesi ac yn arbrofi er mwyn sicrhau bod modd i gyfarfodydd dwyieithog barhau, fel yr amlygwyd yn y nodyn cyngor brys a ryddhawyd gan y Comisiynydd.[150]

Astudiaeth achos: Arwyddion stryd

Un o'r mannau lle mae'r iaith a'i thrysorau'n cael eu gweld amlycaf bob dydd yw ar arwyddion stryd. Er mwyn parchu egwyddorion safonau'r Gymraeg a manteisio ar y cyfle gwych hwn i hyrwyddo'r Gymraeg, fe benderfynom ni ym mis Tachwedd 2015, rai misoedd wedi i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ddod i rym, fabwysiadu polisi a gweithdrefnau diwygiedig arloesol (bryd hynny) ar gyfer enwi strydoedd yn y sir. Er nad yw safonau'r Gymraeg na Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 yn darparu mecanwaith amlwg lle gall y Cyngor fynnu bod arwyddion stryd yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog, roeddem yn benderfynol bod digon o hyblygrwydd yn y gyfraith i weithredu polisi newydd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y sir. Penderfynom ni y byddai pob enw ar ddatblygiad neu stryd newydd, yn ogystal â strydoedd dienw yn cael enw Cymraeg yn unig o hyn allan. Penderfynom ni hefyd y byddai arwyddion presennol ar gyfer enwau strydoedd oedd yn Saesneg yn unig yn cael eu codi'n ddwyieithog o'u hadnewyddu, naill ai drwy ychwanegu rhagddodiaid/ôl-ddodiaid perthnasol, a/neu mewn achosion lle'r oedd prif elfen enw'r stryd yn un Saesneg, bod cyfieithiad Cymraeg addas yn cael ei roi. Roedd mantais amlwg gennym ni yn y sir gan fod nifer o enwau'r strydoedd yn cyfeirio at aneddiadau hanesyddol sydd eisoes ag enwau Cymraeg yn unig! Agorodd y gwaith yma gil y drws a chyfle inni ddechrau ar y gwaith o sicrhau bod fersiynau Cymraeg swyddogol a safonol ar gael ar gyfer bron i 3,000 o strydoedd. Bydd y rhestr hon yn cael ei phrif ffrydio a'i phlethu i systemau mapio a data cyfeiriadau electronig y Cyngor maes o law, gan roi llwyfan hyd yn oed yn fwy amlwg i'r Gymraeg a threftadaeth gyfoethog y sir.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

149 Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes, ***Cylchlythyr CorCenCC*** (Ionawr, 2019), t. 7.
150 Comisiynydd y Gymraeg, ***Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog*** (2020).

Enwau lleoedd



5.22

Mae enwau lleoedd, ac yn benodol, newid enwau lleoedd wedi parhau i fod yn bwnc llosg yn ystod y cyfnod adrodd. Nid oes data digonol ar gael ar hyn o bryd er mwyn bod yn sicr ynghylch hyd a lled y broblem, ond un peth sy'n sicr yn wir yw bod yna *ganfyddiad* cyffredinol bod enwau hanesyddol Cymru dan fygythiad: eu bod nhw'n cael eu newid, eu cyfieithu neu'u diystyru. Mae'r canfyddiad hwn yn cael ei borthi gan ymgyrchoedd achlysurol ar y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol a'r ymateb cyhoeddus iddynt yn drawiadol. Ar 5 Hydref 2020 cyflwynwyd deiseb ag arni 18,103 o lofnodion i'r pwyllgor deisebau yn galw am ddeddf i atal newid enwau Cymraeg tai.[151]

5.23

Cafwyd sawl ymgyrch ac ymgais yn ystod y cyfnod hwn i gyflwyno deddfwriaeth i warchod enwau lleoedd hanesyddol Cymru. Aflwyddiannus fu ymdrechion y Gymdeithas Enwau Lleoedd ac eraill i gyflwyno mesurau i *warchod* enwau lleoedd yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Aflwyddiannus hefyd fu Dr Dai Lloyd AC wrth geisio cyflwyno Bil Aelod Unigol yn 2017.[152]

5.24

Fodd bynnag, yn ystod Cyfnod 2 o'r broses graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol cyflwynodd Llywodraeth Cymru welliant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Ym mis Mai 2017 lansiwyd y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar ran Gweinidogion Cymru – y rhestr statudol gyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig.[153]

5.25

Mae'r rhestr hon yn gam cyntaf o safbwynt *cofnodi* enwau ac mae dyletswydd statudol ar y cyrff cyhoeddus a enwir yn y ddeddf i 'ystyried' y Rhestr wrth wneud penderfyniadau am enwi.[154] Yn haf 2018 lansiwyd hefyd y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol, sef argymhellion Panel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd am ffurfiau safonol enwau aneddiadau Cymru, y gellir ei chwilio a'i llwytho i lawr o dan drwydded agored.

5.26

Cadw a chyhoeddi ffurfiau wna'r rhestrau hyn yn bennaf, fodd bynnag. Nid ydynt yn ddigonol ohonynt eu hunain i warchod enwau lleoedd na sicrhau bod ffurfiau safonol yn cael eu mabwysiadau a'u hyrwyddo. Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu sesiwn i drafod hyn eto ym mis Hydref 2019[155] ond ni chyhoeddwyd adroddiad o ganfyddiadau'r pwyllgor hyd yma.

151 **Deddfu i atal newid enwau Cymraeg tai. - Deisebau (senedd.cymru)**.
152 **Colli pleidlais Cynulliad ar ddiogelu enwau lleoedd - BBC Cymru Fyw**.
153 **Hafan - Enwau Lleoedd Hanesyddol (cbhc.gov.uk)**.
154 Cadw, ***Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*** (Mai 2017), t. 15.
155 **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Y Bumed Senedd 24/10/2019 - Senedd Cymru (cynulliad.cymru)**.

5.27

Mae hwn hefyd yn faes sydd wedi elwa ar y cyswllt agos rhyngddo a thechnoleg ddigidol o ran ffynonellau cyllido. Rhaid wrth ffurfiau safonol ar enwau lleoedd er mwyn dod o hyd i le ar fap neu drwy feddalwedd SatNav, er enghraifft. Yr angen hwn am fapiau Cymraeg digidol a arweiniodd y Llywodraeth i ddarparu cymorth grant i Mapio Cymru i greu fersiwn Cymraeg o OpenStreetMap.[156] Er bod y prosiect hwn yn un defnyddiol i dynnu'r sylw at yr angen am fapiau Cymraeg, ni fydd yn bodloni'r galw sylfaenol sydd ymhlith sefydliadau i gael mapiau o fanylder ac ansawdd yr Arolwg Ordnans yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Astudiaeth achos: Enwau lleoedd

Rydym wedi bod yn ymgymryd â gwaith ymchwil parhaus i enwau trefi a phentrefi ers 1999. Sicrhau bod arwyddion yn gywir ac yn gyson oedd ac yw'r nod. Dros y blynyddoedd rydym wedi gweithio'n agos â grwpiau hanes lleol, awduron ac arbenigwyr, yn ogystal â Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt.

Dros amser, fodd bynnag, mae'r gwaith wedi ehangu i fod yn llawer mwy na sicrhau arwyddion cywir a chyson yn unig. Mae arwyddion ffyrdd i'w gweld bob dydd ac maent yn chwarae rhan ddigymell ond pwysig wrth gysylltu'r Gymraeg â daearyddiaeth, hanes a threftadaeth leol mewn ffordd unigryw. Cyhoeddwyd y llyfryn *Enwau Lleoedd* ym *Mwrdeistref Sirol Caerffili* am y tro cyntaf yn 2014 ac anfonwyd copïau i bob ysgol yn y fwrdeistref sirol. Cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig yn 2016 yn dilyn derbyn gwybodaeth newydd. Mae'r gwaith hefyd wedi arwain at roi cyflwyniadau i grwpiau lleol ar hanes yr enwau lleoedd a'r modd y maent yn cysylltu â threftadaeth y trigolion lleol eu hunain.

Ers 2018, mae Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'r Cyngor i gytuno ar restr ddiffiniol i'w defnyddio'n genedlaethol. Mae'r trafodaethau a'r gwaith casglu tystiolaeth bellach a wnaed ers 2018 wedi profi i fod yn adeiladol ac yn ddadlennol iawn i'r ddwy ochr, gan gydbwyso arbenigedd cenedlaethol y Panel ag arbenigedd a phrofiad lleol y Cyngor. Bydd fersiwn 2020 y llyfryn yn cynnwys cofnodion newydd a gwybodaeth ychwanegol. Ac yn yr ychydig iawn o achosion lle nad oes cytundeb am ffurf safonol, caiff y rhain eu nodi a'u hesbonio.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

156 OpenStreetMap Cymru.

Casgliadau'r Comisiynydd

Beth felly yw *infrastructure* yn Gymraeg? A ble yn y byd mae cael gafael ar ateb cywir neu awdurdodol?

Mae nifer o ffynonellau terminoleg a geirfa yn bodoli ar hyn o bryd â'r ffynonellau hynny'n aml yn cynnig argymhellion sy'n groes i'w gilydd. Nid yw'n glir chwaith beth yw perthynas y ffynonellau hyn â'i gilydd a gall hyn beri dryswch i ddefnyddwyr sy'n chwilio am atebion awdurdodol. Nid oes yng Nghymru un corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am gynllunio, comisiynu, cyhoeddi na chymeradwyo adnoddau geiriadurol na therminolegol. Rydym yn dal i aros felly i'r maes hwn gael ei 'gydgysylltu'.

Er mor fuddiol yw pwysleisio'r berthynas rhwng y seilwaith ieithyddol a thechnoleg ar y naill law er mwyn prif ffrydio'r maes a sicrhau ffrydiau cyllido, mae'n bwysig hefyd cofio nad hwyluso datblygu technoleg yw ei unig nod. Er mwyn i'r Gymraeg – a phob iaith fyw arall – ffynnu rhaid iddi wrth ffynonellau hygyrch, safonol ac awdurdodol o eirfa.

Mae *Cymraeg 2050* yn rhybuddio ei bod hi'n hawdd 'tanbrisio pwysigrwydd adnoddau geiriadurol o ansawdd uchel'.[157] A hyd nes y gwelwn well buddsoddi a chydlynu ar yr adnoddau geiriadurol gwerthfawr presennol – ynghyd ag ymrwymiad i'w diweddaru a'u datblygu er mwyn iddynt ateb gofynion y defnyddiwr cyfoes – gellid dadlau mai dyna'n union beth sydd wedi digwydd yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Fel y sylwa *Cymraeg 2050*, yr hyn sy'n nodweddu ieithoedd byw yw eu bod yn esblygu'n barhaus ac yn adlewyrchu'r byd o'u cwmpas. Does dim amheuaeth nad yw hyn yn wir am y Gymraeg: mae pawb o gyfieithwyr i gyflwynwyr radio yn brysur yn bathu ac yn poblogeiddio termau yn rhan o'u gwaith beunyddiol. Mae cylchoedd trafod ac ymgyrchoedd Twitter yn prysur sicrhau bod modd trafod pob agwedd ar fywyd modern drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y bwlch yn y broses yw nad yw'r rhain o reidrwydd yn cael eu cofnodi a'u cyhoeddi yn ein geiriaduron ni. **Mae angen sicrhau ffrydiau ariannu tymor hir i brosiectau corpora, terminoleg a geiriaduron y Gymraeg gan sicrhau bod y prosiectau hyn wedi eu cydgysylltu'n strategol a'u bod yn ateb gofynion defnyddwyr heddiw. Rhaid sicrhau hyfforddiant priodol yn y meysydd hyn hefyd er mwyn sicrhau bod gan Gymru weithlu parod o ieithyddion â'r sgiliau technolegol priodol i ddatblygu'r diwydiant ieithyddol yng Nghymru.**

Rhaid hefyd sicrhau bod ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru yn cael eu mabwysiadu'n gyson gan sefydliadau Cymru a'u cynnwys ar fapiau ac mewn cronfeydd data cyfeiriadau.

157 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 74.

6 Cynllunio ieithyddol

Pam pennawd penodol?

6.1

Mae *Cymraeg 2050* yn neilltuo adran benodol i'r nod o 'sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi'.[158] Mewn un ystyr, agweddau ar 'gynllunio ieithyddol' yw cynnwys pob un o benodau'r adroddiad 5-mlynedd hwn a phob nod a thema yn *Cymraeg 2050*. Mae'r penodau eraill i gyd wedi ymdrin ag agweddau *ymarferol* ar gynllunio statws, cynllunio caffael, cynllunio defnydd a chynllunio corpws. Pam felly bod y teitl hwn yn teilyngu sefyll fel nod ynddo'i hun yn y strategaeth?

6.2

At ddibenion yr adroddiad hwn tybir mai'r hyn sydd dan sylw yma yw gwyddor cynllunio ieithyddol – y theori sy'n gefn i'r gweithredu. Mae nod *Cymraeg 2050* a ddyfynnir uchod yn awgrymu uchelgais y Llywodraeth i ddeall natur dwyieithrwydd ac anghenion a seicoleg siaradwyr Cymraeg yn well er mwyn cynllunio ymyraethau fydd yn y pen draw yn hybu'r iaith.

6.3

Mae *Rhaglen waith 2017–2021* strategaeth y Llywodraeth yn cydnabod bod cynllunwyr ieithyddol yn bodoli ym mhob man. Nid oes lle yma i bwyso a mesur ymdrechion pob cynllunydd ieithyddol yng Nghymru. Yn hytrach, craffir yn bennaf ac yn benodol ar y tri phrif weithgaredd a flaenoriaethir gan y Llywodraeth o dan y pennawd hwn yn *Rhaglen waith 2017–2021* y strategaeth, sef sefydlu bwrdd rhaglen, lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol a gweithio gydag awdurdodau lleol.[159]

158 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 76.
159 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21***, t. 39.

Ysgwyddau llydan y Llywodraeth

6.4

Mae cyhoeddi strategaeth iaith yn ofyniad statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006), wrth gwrs, ond mae cyhoeddi strategaeth iaith hefyd yn weithred sy'n perthyn i faes cynllunio ieithyddol.

6.5

Bu swyddogion ac aelodau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhan ganolog o'r gwaith o awduro strategaethau cyntaf y Gymru ddatganoledig ond gyda diddymu'r Bwrdd yn 2012 newidiwyd prif asiant cynllunio ieithyddol y wladwriaeth. Dyfarniad Steve Eaves yn ei draethawd PhD anghyhoeddedig yw mai'r newid hwn yw'r un 'mwyaf allweddol' yn hanes polisi iaith y blynyddoedd diwethaf, sef 'parodrwydd y Llywodraeth i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros osod agenda polisi'r iaith Gymraeg'.[160] Yn wir, mae'r Llywodraeth ei hun yn cydnabod ei pharodrwydd i 'ysgwyddo'r cyfrifoldeb' yn y datganiad polisi *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*.[161]

6.6

Cymraeg 2050, fodd bynnag, yw'r strategaeth gyntaf i gael ei datblygu o'r bôn i'r brig gan y Llywodraeth â chefnogaeth arbenigwyr allanol Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. Ac nid oes amheuaeth bod y cynllun hirdymor hwn â'i strwythur triphlyg a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn un uchelgeisiol. Yn ogystal â llunio strategaeth, y Llywodraeth hefyd sy'n gyfrifol yn y pen draw am ariannu ei gweithrediad – drwy gynlluniau grant penodol a thrwy bartneriaid grant. Mae'r cyfrifoldeb hwn dros y coffrau hefyd yn rhoi grym cynllunio i'r Llywodraeth, wrth gwrs, a chyfle strategol i sicrhau bod yr hyn a ariennir yn 'gydnaws â'r strategaeth'.[162]

6.7

Er parodrwydd ymddangosiadol y Llywodraeth i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros osod agenda polisi iaith yng Nghymru a phennu ei ffrydiau ariannol, nid yw'r Llywodraeth yn fodlon ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llwyr am ei gweithrediad na'i llwyddiant. Mae hyn yn gyffredin ym mhob maes polisi, wrth gwrs, y Llywodraeth yn gosod yr agenda a'r strategaeth lefel uchel ac asiantaethau allanol yn bennaf gyfrifol am eu gweithredu.

6.8

Mae strategaeth iaith y Llywodraeth yn mynd gam ymhellach, fodd bynnag, drwy rannu'r cyfrifoldeb â phawb. Mae pob strategaeth iaith ers *Iaith Pawb* (2003) wedi pwysleisio fod gan *bawb* rôl i'w chwarae yn sicrhau llwyddiant. Rhaid i bawb berchenogi'r her ac mae *Cymraeg 2050* a'i rhaglenni gwaith cysylltiedig yn rhoi'r un pwyslais ar gyfrifoldeb yr unigolyn:

> Mae'r Gymraeg yn berchen i bob dinesydd yng Nghymru ac mae'r hyn rydym yn dewis ei wneud fel unigolion gyda'n rhan ni o'n treftadaeth fyw yn fater i ni yn y pen draw.[163]

160 Steve Eaves, ***Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru*** (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2015), t. 127.
161 Llywodraeth Cymru, ***Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*** (Awst 2014), t. 16.
162 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2017–18*** (Mawrth 2019), t. 27.
163 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 79.

6.9

Pwysleisia Rhagair *Cymraeg 2050* fod angen i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r daith, waeth beth fo'u gallu ieithyddol. Disgrifiwyd yr ymagwedd gynhwysol hon gan un o'n harbenigwyr pennaf ar bolisi iaith, Yr Athro Colin H. Williams, yn 'doctrine of inclusive bilingualism for all'.[164] Yn ei hanfod felly, mae uchelgais gynhwysol *Cymraeg 2050* yn golygu sicrhau cefnogaeth *mwyafrif* y boblogaeth (nad ydynt yn siarad Cymraeg) i ymagweddu ac i weithredu'n wahanol er budd *lleiafrif* ieithyddol. Rhaid ennill a chynnal consensws a chefnogaeth y mwyafrif, fel y sylwodd Steve Eaves:

> Y mwyafrif, mewn democratiaeth, sydd yn llywio'r drafodaeth; y mwyafrif sy'n dylanwadu ar sgôp etholiadau a ffurfiant llywodraeth a'r polisïau a ddatblygir ynghylch y Gymraeg. Ac, yn dra arwyddocaol, o blith y mwyafrif y daw'r twf angenrheidiol mewn caffael y Gymraeg, naill ai wrth iddynt ddewis addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer eu plant, neu wrth iddynt fynychu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion a chyrsiau hyfforddiant ieithyddol eraill.[165]

6.10

Er mwyn mynd i'r afael â'r her o ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad y mwyafrif, does dim rhyfedd ein bod wedi gweld llunwyr polisi yng Nghymru yn ymddiddori'n gynyddol mewn gwyddor economeg ymddygiadol – gwyddor dylanwadu ar ymddygiad a oedd yn prysur ennill poblogrwydd ymhlith llunwyr polisi ledled y Deyrnas Unedig yn dilyn adroddiad dylanwadol MINDSPACE ac ymdrechion cysylltiedig.[166]

6.11

Gwelwyd y pwyslais hwn ar ddylanwadu yn gadarnhaol ar ymddygiad unigolion yn eglur yn y strategaeth oedd yn weithredol ar ddechrau'r cyfnod adrodd, *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*. Mae 'newid ymddygiad ieithyddol' yn un o gonglfeini'r datganiad polisi hwnnw lle honnir bod angen 'newid y ffordd rydym yn siarad ac yn teimlo am yr iaith' er mwyn newid patrymau ymddygiad ieithyddol. Ceir addewid y byddai'r Llywodraeth yn mabwysiadu dulliau a naratif 'fwy positif' gan ddysgu o 'dechnegau marchnata cymdeithasol a newid ymddygiad priodol eraill, a'u defnyddio er lles y Gymraeg.'[167] Dyma'r ymagwedd sydd wrth wraidd gweithredu'r cyfnod adrodd hwn.

164 Colin H. Williams, 'Iaith Pawb: The Doctrine of Plenary Inclusion', *Contemporary Wales*, 17 (2004), tt. 1–27.
165 ***Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru***, t. 99.
166 Institute for Government, ***Mindspace: Influencing behaviour through public policy*** (Ionawr 2010).
167 ***Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen***, t. 21.

Sefydlu bwrdd rhaglen

6.12

Dyma droi felly at y cyntaf o'r gweithgareddau a amlinellwyd yn *Rhaglen waith 2017–21* y strategaeth. Ymrwymwyd yn y fan honno i 'sefydlu bwrdd rhaglen i sefydlu egwyddorion cynllunio ieithyddol a'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar draws gwaith y Llywodraeth'.[168]

6.13

Un o'r rhwystrau pennaf wrth graffu ar ddatblygiadau yn y maes hwn, fodd bynnag, yw nad oes adrodd cyson ar ddatblygiadau ynddo. Mae adroddiad blynyddol 2018–19 yn cadarnhau i Fwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050* gael ei sefydlu yn ystod y flwyddyn honno ac y bydd y bwrdd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd a chynnig cyngor wrth weithredu *Cymraeg 2050*.[169] Erbyn adroddiad blynyddol 2019–20 eglurir mai uwch swyddogion o bob cwr o'r Llywodraeth yw'r aelodau a chadarnheir iddynt gwrdd bob tymor ond ni chynigir un enghraifft o lwyddiant neu ddeilliant o'r gwaith.

6.14

Amhosibl felly yw gwerthuso gwerth na llwyddiannau uniongyrchol y bwrdd a hawdd fyddai ei ddiystyru fel rhan o fecanwaith neu fiwrocratiaeth fewnol y Llywodraeth. Ond, os yw'n llwyddo yn ei amcanion i brif ffrydio gweledigaeth *Cymraeg 2050* ar draws holl waith Llywodraeth Cymru, mae ganddo'r potensial i fod yn fwy dylanwadol yn y pen draw na phob ymdrech a gyllidir ac a gynllunnir yn uniongyrchol o dan faner *Cymraeg 2050*.

168 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21***, t. 39.
169 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2018–19***, t. 44.

Deall dwyieithrwydd

6.15

Mae datblygu rhaglen genedlaethol i gynyddu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd yn cael ei adnabod yn y strategaeth fel un o'r 'newidiadau trawsnewidiol' angenrheidiol er mwyn galluogi'r Llywodraeth i gyrraedd ei thargedau.[170] Cafwyd addewid yn *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen* y byddai'r Llywodraeth yn 'cynnal gwaith ymchwil pellach er mwyn cael gwybod pryd ym mywyd person y mae'r technegau hyn yn briodol a rhoi canllawiau i sefydliadau er mwyn iddynt newid eu harferion o ran y Gymraeg'.[171] Mae'r awydd hwn i 'ddeall' a sefydlu dealltwriaeth yn gytgan drwy *Cymraeg 2050* hefyd.

6.16

Mae *Rhaglen waith 2017-2021* y strategaeth yn egluro mai 'rhaglen hyfforddi genedlaethol' yw 'Deall Dwyieithrwydd'.[172] Ym mis Mawrth 2020, cyn i argyfwng COVID-19 daro, cynhaliwyd sesiynau peilot o'r rhaglen ymwybyddiaeth iaith gritigol 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru ac Academi Cymru. O ganlyniad i'r argyfwng bu'n rhaid ail-ddylunio'r rhaglen i'w chynnal ar lein. Cwrs ymwybyddiaeth iaith i arweinwyr y sector cyhoeddus ydyw sy'n gydnaws â phrofiad arloeswyr yn y maes y dylid dechrau dylanwadu 'ar y brig'.[173]

6.17

Er cydnabod bod darparu rhaglen ymwybyddiaeth iaith gritigol gan dargedu arweinwyr strategol yn ymyriad cynllunio ieithyddol o bwys, yn ystod oes y strategaeth gwelwyd cydnabyddiaeth gynyddol fod 'Deall Dwyieithrwydd' yn fwy na chwrs hyfforddi. Wrth adrodd ar weithgareddau 2018–19, er enghraifft, daw'n amlycach bod y Llywodraeth yn ystyried mai un o blith nifer o brosiectau sy'n ffitio o dan faner rhaglen Deall Dwyieithrwydd yw'r cwrs 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'.[174] Eglurir mai prif nod y rhaglen 'yw hwyluso a normaleiddio'r Gymraeg, cynyddu ymwybyddiaeth gritigol berthnasol ohoni, herio rhagfarn ac, o ganlyniad, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.'[175]

6.18

Ymddengys bod y Llywodraeth yn ystyried bod llawer o agweddau eraill ar ei gwaith hefyd yn rhan o'r rhaglen hon: agweddau ar y rhaglen Cymraeg i Blant, y Siarter Iaith a'r Polisi Trosglwyddo Iaith, er enghraifft.[176] Yn wir, cynhwysir unrhyw weithgareddau sydd â'r nod o newid ymddygiad ieithyddol o dan y faner hon, gan gynnwys gweithgareddau marchnata. Ceir addewid yn rhan o'r rhaglen i edrych eto ar 'frand' a naratif y Gymraeg. Comisiynwyd gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r cwestiwn hwn yn ystod y cyfnod adrodd a bydd canfyddiadau'r adroddiad hwnnw yn rhwym o ddylanwadu'n drwm ar ymdrechion marchnata'r 5-mlynedd nesaf. Bydd yr ymdrechion marchnata hyn yn rhan allweddol o'r ymdrech i ennill cefnogaeth y cyhoedd di-Gymraeg a throi rhethreg gynhwysol *Cymraeg 2050* yn realiti.

170 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 12.
171 ***Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen***, t. 22.
172 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21***, t. 21.
173 ***Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio Ieithyddol Cynhwysol yng Nghymru***, t. 48.
174 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2018–19***, tt. 33–5.
175 **Ibid**., t. 33.
176 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2019–20*** (2019), t. 28.

Cydweithio ag awdurdodau lleol

6.19

Mae *Rhaglen waith 2017–21* y strategaeth yn cydnabod potensial awdurdodau lleol i weithredu fel asiantaethau cynllunio ieithyddol lleol rhanbarthol ac yn ymrwymo i gydweithio â nhw i gefnogi 'eu hymdrechion i adeiladu capasiti i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, gan eu cefnogi yn y gwaith o weithredu a chyd-gordio y strategaethau sirol ar gyfer hybu'r Gymraeg, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.[177]

6.20

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi adnabod yr angen i Gynlluniau Llesiant Lleol a lunnir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant, roi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg.[178] Ymddengys bod prif ymwneud y Llywodraeth ag awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn ar hyn o bryd yn ymwneud â chreu siaradwyr drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a cheir trosolwg o'r ymdrechion hyn yn Rhan 2. Ceir cydnabyddiaeth, fodd bynnag, fod 'cynllunio addysg Gymraeg a hybu defnydd o'r iaith yn mynd law yn llaw' ac adroddir yn 2019–20 fod y Llywodraeth yn gweld enghreifftiau cynyddol o awdurdodau yn sefydlu is-grwpiau hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth am addysg Gymraeg.[179]

6.21

Mae Fforwm Iaith Sirol yn bodoli yn bron i bob sir yng Nghymru. Fe'i ffurfiwyd yn wreiddiol fel cyfrwng i ddod â phartneriaid sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir at ei gilydd i rannu gwybodaeth ac arfer da ac i gynllunio cydweithio strategol. Teg dweud bod eu dylanwad a'u heffeithiolrwydd wedi amrywio yn y gorffennol.[180] Mae Cyngor Sir Gâr yn enghraifft o awdurdod lleol fu'n cynllunio'n strategol cyn i'r safonau hybu statudol gael eu gosod arnynt. Amlygodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod y Gymraeg wedi 'cyrraedd croesffordd' yn y sir a'i sbarduno i weithredu ar fyrder.[181]

6.22

Mae'r gofynion statudol o dan Fesur y Gymraeg ar awdurdodau lleol i baratoi a gweithredu strategaethau hybu 5-mlynedd wedi bod yn gyfle i adolygu ac adfywio cylch gorchwyl nifer o'r fforymau hyn. Ceir trafodaeth fanylach am y strategaethau hybu yn Rhan 3 ac mae'r Comisiynydd hefyd wedi cyhoeddi nodyn cyngor sy'n rhoi ystyriaeth fanylach i gyfraniad y strategaethau hyn i gyflawni gweledigaeth *Cymraeg 2050*.[182] Yr hyn a ddatgela nifer o'r strategaethau hybu – ar bapur beth bynnag – yw perchenogaeth leol o strategaeth genedlaethol y Llywodraeth ac ymdrech i gytgordio targedau lleol â thargedau *Cymraeg 2050*.

177 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21***, t. 39.
178 Comisiynydd y Gymraeg, *Dogfen gyngor: Ystyried y Gymraeg mewn Cynlluniau Llesiant Lleol* (2018).
179 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2019–20***, t. 57.
180 Cynhaliodd Mentrau Iaith Cymru arolwg i grynhoi sefyllfa bresennol y Fforymau Sirol ledled y wlad a chrynhoi enghreifftiau o arfer da yn 2019 a bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth ym mis Mawrth 2021.
181 Gweithgor y Cyfrifiad yng Nghyngor Sir Gâr, ***Y Gymraeg yn Sir Gâr*** (Mawrth 2014), t. 3.
182 Comisiynydd y Gymraeg, *Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg* (2018).

6.23

Bydd y strategaethau hybu cyntaf yn dod i ben yn ystod 2021–22. Mae'n rhy fuan i dafoli eu llwyddiant na'u dylanwad felly. Fodd bynnag, mae gan y Comisiynydd bryderon ynghylch y graddau y bydd modd mesur llwyddiant y strategaethau hybu presennol mewn modd ystyrlon. Wedi'r cyfan, mae mesur traweffaith uniongyrchol a hirdymor ymdrechion penodol yn dipyn o her ac mae olrhain cynnydd yn hyder unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg neu newid agweddau yn anodd iawn i'w feintioli.

6.24

Gall fod yn demtasiwn i fesur targedau meintiol sy'n hawdd i'w monitro er mwyn creu ystadegau twt ond rhaid gochel rhag creu dangosyddion diystyr: nid yw cynnal rhagor o weithgareddau cyfrwng Cymraeg o reidrwydd yn gyfystyr â chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae pennu dangosyddion cyson, ystyrlon a dibynadwy yn hanfodol er mwyn i'r strategaethau hyn wireddu eu potensial llawn. I gefnogi'r ymdrechion hyn, cyhoeddodd y Comisiynydd dendr ar gyfer llunio dogfen gyngor ar asesu cyflawniad y strategaethau hybu ddiwedd y cyfnod adrodd.

Prosiect 2050

6.25

Nodweddwyd y cyfnod adrodd â thrafodaethau am bwy ddylai ddwyn y cyfrifoldeb am ymdrechion i hybu'r Gymraeg. Pendraw'r trafodaethau hyn oedd cyhoeddiad Eluned Morgan AC yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 am y bwriad i sefydlu 'uned amlddisgyblaethol newydd' Prosiect 2050, a fyddai'n cydlynu'r gwaith o gynllunio'r llwybr tuag at y miliwn o siaradwyr; yn dyblu'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu mentrau newydd a gwerthuso mentrau presennol, ac yn cefnogi ymdrechion polisi eraill ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

6.26

Serch y teitl newydd, mae cylch gorchwyl Prosiect 2050 yn ymddangos yn debyg iawn i'r tri phrif weithgaredd a ddisgrifiwyd uchod mewn gwirionedd.[183] Y prif wahaniaeth, o bosibl, yw'r bwriad i ddarparu cyllid ychwanegol i gyflogi arbenigwyr i arwain a chynghori Prosiect 2050 – cyhoeddiad sydd ynddo'i hun yn awgrymu nad yw'r atebion i gyd i'w cael oddi mewn i'r Llywodraeth a rhaid wrth arbenigedd allanol. Penodwyd Pennaeth Prosiect 2050 yn ystod haf 2020 ond ni chafwyd cyhoeddiad hyd yma am gyflogi cynghorwyr allanol. Amser a ddengys felly pa newidiadau fydd i raglenni gwaith gweithredu'r strategaeth a gyflwynir i Lywodraeth newydd yn dilyn y penodiad hwn, ac mewn oes wedi COVID-19.

183 Gweinidog yn datgelu mesurau newydd i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | LLYW.CYMRU.

Casgliadau'r Comisiynydd

Wrth i'r patrymau sy'n diffinio ein bywydau beunyddiol barhau i newid ac esblygu – a chael eu chwyldroi yn sgil COVID-19 – mae datblygu gwyddor cynllunio ieithyddol yng Nghymru a sicrhau arbenigedd priodol yn y maes yn ymddangos yn bwysicach nag erioed. Rhaid cael y sylfaeni theoretig yn gadarn gan mai ar y sylfeini hyn y saif y strategaeth gyfan yn y pen draw. Mae *Cymraeg 2050* ei hun yn cydnabod bod holl lwyddiant y strategaeth yn dibynnu ar y maes hwn ac os yw am lwyddo rhaid rhannu'r cyfrifoldeb am gynllunio ieithyddol ar draws ystod ehangach o sefydliadau, a thrwy hynny ddatblygu'r capasiti a'r arbenigedd yn y maes a gwella'r ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd. **I'r perwyl hwn mae angen meithrin cenhedlaeth newydd o gynllunwyr ieithyddol yng Nghymru fydd â dealltwriaeth drylwyr o'r cyd-destun Cymreig yn ogystal â throsolwg o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes yn rhyngwladol.**

Ond gan mai Llywodraeth Cymru piau *Cymraeg 2050* yn y pendraw, hawdd deall y symbyliad i ddatblygu pwerdy cynllunio ieithyddol o fewn i'r Llywodraeth ei hun. Teg pwysleisio, fodd bynnag, nad ystyrir y trefniant hwn yn ddelfrydol gan bawb. Bu trafodaethau gydol y cyfnod adrodd a galw cyson gan Blaid Cymru a Dyfodol i'r Iaith, ymhlith eraill, am greu asiantaeth hyd braich i'r Llywodraeth i arwain ar y gwaith o hybu'r Gymraeg a diwallu'r angen a wêl Dyfodol am 'lais annibynnol a radical' i fod yn gyfrifol am gynllunio ieithyddol yng Nghymru. Nod statudol y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a cheir enghreifftiau o'r gwaith sy'n digwydd i gwrdd â'r nod drwy gydol yr adroddiad hwn. Ond, fel y saif pethau, dim ond y Llywodraeth, drwy Prosiect 2050, sydd â'r adnoddau angenrheidiol i gynllunio ymyraethau cwbl holistaidd. A does dim amheuaeth nad cynllunio holistaidd sydd ei angen arnom: wedi'r cyfan, mae'r amodau sy'n dylanwadu ar ddefnydd o'r Gymraeg yn gydblethiad cymhleth o ffactorau.

Mae *Cymraeg 2050* yn rhoi pwys ar fodel Olwyn Gatrin Miquel Strubell sy'n effeithiol i ddangos y gydberthynas hanfodol sydd rhwng dysgu iaith; y galw am gynnyrch a gwasanaethau yn yr iaith; y defnydd o'r cynnyrch a'r gwasanaethau hynny; a chanfyddiad pobl o ddefnyddioldeb yr iaith a'r cymhelliant dilynol i ddysgu neu ddefnyddio iaith. Yr egwyddor sylfaenol a ddarlunnir gan yr Olwyn Gatrin yw bod hyfywedd iaith yn gwbl ddibynnol ar y berthynas hon rhwng nifer o elfennau cyd-ddibynnol. Rhaid i'r cylch fod yn gyflawn, a phob braich yn ei lle, er mwyn i'r olwyn droi.

7 Gwerthuso ac ymchwil

Fframwaith gwerthuso

7.1

Mae'r drafodaeth uchod am gynllunio ieithyddol yn datguddio'r awydd a'r angen gwirioneddol sydd yng Nghymru i sicrhau bod pob ymdrech ac ymyrraeth mewn perthynas â'r Gymraeg wedi'i selio ar ymchwil gadarn. Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod yr angen i ddatblygu rhaglen ymchwil a gwerthuso ar gyfer y Gymraeg er mwyn sicrhau tystiolaeth ddigonol i fesur effeithiolrwydd ymyriadau polisi ac i gefnogi datblygu polisi i'r dyfodol.[184]

7.2

Cyhoeddodd y Llywodraeth *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg* yn 2013 yn sail i raglen ymchwil er mwyn asesu effaith *Iaith fyw: iaith byw* a chynllunio ymyraethau pellach.[185] Mae'r fframwaith manwl hwn yn parhau i osod y sail ddeallusol ar gyfer rhaglen ymchwil y Llywodraeth yng nghyd-destun *Cymraeg 2050*.[186] Cafwyd ymrwymiad yn *Cynllun Gweithredu 2018–19* y byddai'r Llywodraeth yn datblygu fframwaith gwerthuso newydd i gefnogi ei gwaith cynllunio angenrheidiol,[187] ond nid oedd y fframwaith hwn wedi ei gyhoeddi ddiwedd y cyfnod adrodd.

7.3

Yn y cyfamser, mae'r *Fframwaith Gwerthuso* cyfredol yn rhagweld y bydd angen tri phrif ddull o ymchwilio er mwyn mesur effaith ymyraethau presennol a chynllunio rhai'r dyfodol, sef cyfuno data eilaidd (hynny yw, data sydd eisoes ar gael; arolygon yn bennaf), gwerthuso prosiectau penodol, ac astudiaethau thematig.[188] Bydd y bennod hon yn cynnig trosolwg o'r prif ymdrechion mewn perthynas â'r dulliau hyn yn ystod y cyfnod adrodd gan ganolbwyntio ar ymdrechion Llywodraeth Cymru yn y maes.

184 ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, t. 59.
185 Llywodraeth Cymru, ***Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 2013).
186 Amlinellir sail gysyniadol ac egwyddorion y strategaeth ymhellach yn ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr***, tt. 14–9.
187 Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2018–19*** (2018), t. 30.
188 ***Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg***, t. 14.

Data arolygon

7.4

Mae mesur defnydd pobl o iaith yn dasg ddigon heriol a'r prif ddull a ddefnyddir i wneud hyn yng Nghymru yw arolygon defnydd iaith. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ganlyniadau Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 ddiwedd y cyfnod adrodd diwethaf.[189] Mae'r Llywodraeth wedi nodi'n glir mai arolygon defnydd iaith fydd ei dull o fonitro cynnydd yn erbyn ail darged *Cymraeg 2050*, ac yn ystod y cyfnod adrodd hwn gwelwyd cryn waith cynllunio ar gyfer cynnal yr arolwg nesaf.

7.5

Dechreuodd Arolwg Defnydd Iaith 2019–21 ym mis Gorffennaf 2019 gan ddilyn yr un fethodoleg â'r arolygon blaenorol. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r arolwg yn rhedeg tan ddiwedd Mawrth 2021 ond bu'n rhaid atal yr arolwg yn gynnar o ganlyniad i COVID-19. Canlyniad hyn, mae'n debyg, yw na fydd modd dadansoddi'r data ar lefel awdurdod lleol fel y dymunwyd.

7.6

Yn absenoldeb canlyniadau arolwg defnydd iaith neu gyfrifiad yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r arolygon eraill sy'n cynnig ystadegau am y Gymraeg a'i defnydd – yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru – wedi derbyn cryn sylw.[190] Mae'r sylw hwn yn deillio'n bennaf o'r ffaith bod canlyniadau'r arolygon hyn wedi ymddangos yn ffafriol. Trafodir y gwaith dadansoddi a wnaed gan ystadegwyr y Llywodraeth yn ystod y cyfnod adrodd am y berthynas rhwng yr arolygon hyn a'r cyfrifiad yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn. Mae gwerth nodi hefyd bod cyfres o fwletinau ystadegol gwerthfawr wedi eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod adrodd yn dadansoddi canlyniadau'r arolygon, fel y bwletin am ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.[191]

189 Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, ***Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2013–15*** (2015).
190 Gweler, er enghraifft: **Cynnydd yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru - BBC Cymru Fyw**.
191 Llywodraeth Cymru, ***Bwletin Ystadegol: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018–19 Cymraeg yn y Gweithle*** (5 Rhagfyr 2019).

Gwerthuso prosiectau

7.7

Comisiynodd y Llywodraeth sawl gwerthusiad gan ddarparwyr allanol o'i phrif raglenni i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Cyhoeddwyd *Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant* ym mis Chwefror 2019,[192] *Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig* ym mis Gorffennaf 2020,[193] ac roedd gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol wedi ei gwblhau ond heb ei gyhoeddi ddiwedd y cyfnod adrodd. Cwblhawyd manyleb ar gyfer adolygiad o'r cynllun grantiau i hybu defnydd o'r Gymraeg, ond canslwyd y broses dendro ddiwedd Mawrth 2020 oherwydd COVID-19.

7.8

Comisiynwyd gwerthusiad o *Mwy na Geiriau* hefyd er mwyn asesu sut, ac i ba raddau, y cyrhaeddodd y fframwaith hwn ei nod arfaethedig i hyrwyddo a chefnogi defnydd yr iaith Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cyhoeddwyd theori newid y gwerthusiad ym mis Ebrill 2020 ac mae'r fframwaith gwerthuso a'r gwerthusiad terfynol eto i'w cyhoeddi.[194] Nod y gwerthusiadau hyn i gyd oedd mireinio rhaglenni oedd eisoes ar waith a nododd y Llywodraeth ei bwriad i fwydo canfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r gwerthusiadau hyn i gynlluniau'r dyfodol.

7.9

Yn ogystal â gwerthuso rhaglenni penodol, adnabu'r Llywodraeth yr angen i ymgymryd ag ymchwil fyddai'n gwella cynllunio addysg Gymraeg yng nghyd-destun datblygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru. Er enghraifft, cyhoeddwyd *Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol* ym mis Chwefror 2018,[195] a chyhoeddwyd asesiad cyflym o'r dystiolaeth ynghylch dulliau addysgu ail iaith effeithiol ym mis Mehefin 2018.[196] Gwahoddwyd Meirion Prys Jones yn 2019 i arwain prosiect ymchwil i adolygu'r dull o gategoreiddio ysgolion yng Nghymru yn ôl eu natur a'u darpariaeth ieithyddol er mwyn cefnogi ymgynghoriad ffurfiol ynghylch dynodi ysgolion.

7.10

Pwysleisiwyd droeon yn ystod y cyfnod adrodd ymdrechion Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi'r Llywodraeth i gydweithio â swyddogion ymchwil ar draws pob maes polisi i brif ffrydio'r Gymraeg yng ngweithgareddau ymchwil y Llywodraeth.[197] Gwelwyd enghraifft galonogol o hyn yng nghyd-destun gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn 2019–20 i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni i beidio â manteisio ar ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth. Rhoddodd yr ymchwil hwn sylw penodol i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau pobl ynghylch darpariaeth gofal plant Cymraeg a dwyieithog, a'r rhwystrau posibl iddynt fanteisio ar ddarpariaeth o'r fath.

192 Llywodraeth Cymru, ***Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Chwefror 2019).
193 Llywodraeth Cymru, ***Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Gorffennaf 2020).
194 Llywodraeth Cymru, ***Gwerthusiad o mwy na geiriau, y fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016–19: Theori Newid*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Ebrill 2020).
195 Llywodraeth Cymru, ***Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Chwefror 2018).
196 Llywodraeth Cymru, ***Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Ymagweddau a Dulliau Addysgu Ail Iaith Effeithiol*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Mehefin 2018).
197 Rhoddodd Prif Swyddog Ymchwil Iaith Gymraeg Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi'r Llywodraeth gyflwyniad am brif ffrydio'r Gymraeg mewn ymchwil yng nghynhadledd WISERD yn 2019, er enghraifft.

7.11

Wrth gwrs mae comisiynu gwerthusiadau fel hyn er mwyn mireinio cynlluniau yn arfer gyffredin yn y sector cyhoeddus. Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad o'i weithgareddau hybu, er enghraifft, a chomisiynodd y Cyngor Celfyddydau waith ymchwil i fapio gweithgarwch diwylliannol Cymraeg er mwyn adnabod cyfleodd i gydweithio ymhellach â chyrff eraill yn y dyfodol. Mae'r Cyngor Llyfrau hefyd wedi cynnal ymchwil benodol i'r farchnad ddarllen Gymraeg er mwyn adnabod cynulleidfaoedd posibl i'r diwydiant yng Nghymru.

Astudiaethau thematig

7.12

Yn ogystal â'r gwerthusiadau uchod, comisiynodd y Llywodraeth ddwy astudiaeth thematig o bwys yn ystod y cyfnod adrodd. Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd*[198] oedd yn archwilio'r amodau sy'n hwyluso trosglwyddo'r Gymraeg a'r rheini sy'n dylanwadu ar batrymau defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd. Dylanwadodd yr ymchwil hwn yn uniongyrchol ar gynnwys y polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd yr ymgynghorwyd arno yn hydref 2020.

7.13

Ym mis Chwefror 2020 cyhoeddwyd astudiaeth ymchwil ar y Gymraeg a'r Economi[199] oedd yn adolygu'r dystiolaeth sy'n bodoli hyd yma am y berthynas rhwng yr iaith a'r economi ac yn adnabod meysydd y gellid eu harchwilio ymhellach.

Hyrwyddo ymchwil gan eraill

7.14

Un o'r prosiectau amlycaf a gyllidwyd gan gorff ar wahân i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd oedd Adfywio,[200] rhwydwaith ymchwil a noddwyd gan yr AHRC â'r nod o astudio goblygiadau newidiadau cymdeithasol i'r modd y cynllunnir ymdrechion adfywio iaith. Cafwyd sawl astudiaeth neu draethawd PhD o ddiddordeb hefyd gan brifysgolion Cymru, ac mae nifer o astudiaethau doethurol a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r ESRC yn mynd rhagddynt. Mae'r rhain yn hollbwysig er mwyn meithrin capasiti ymchwil ac arbenigedd at y dyfodol.

198 Prifysgol Caerdydd ac Ymchwil Arad, ***Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd: Ymchwil i'r amodau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*** (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 12 Mehefin 2017).

199 ***Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau***.

200 **Adfywio Iaith a Thrawsnewid Cymdeithasol - Prosiect Adfywio - Prosiect Adfywio (aber.ac.uk)**.

Casgliadau'r Comisiynydd

Er mor werthfawr y gwerthusiadau a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ac eraill yn ystod y cyfnod adrodd, a chlodwiw'r ymdrechion i sicrhau bod ymchwil yn gyrru ac yn mireinio datblygiad rhaglenni a phenderfyniadau polisi at y dyfodol, rhaid cydnabod bod terfynau i'w gwerth hefyd. Maent yn werthusiadau o gynlluniau penodol, wedi'u comisiynu gan gleient penodol, sy'n dewis o blith pwll gweddol gyfyngedig o ddarparwyr i gyflawni'r gwaith. Y cleient, wrth reswm, sy'n pennu'r pwnc yn ogystal â pharamedrau'r ymchwil. Maent yn werthfawr felly i werthuso ymdrechion presennol a mireinio trefniadau at y dyfodol ond nid ydynt yn diwallu'r angen sydd yng Nghymru am waith ymchwil annibynnol ac uchelgeisiol ym maes cynllunio ieithyddol lle mae gan yr ymchwilydd ryddid i bennu ei gŵys ei hun a chraffu'n feirniadol ar ymdrechion ac angen. **Rhaid sicrhau ffrydiau ariannu pwrpasol er mwyn caniatáu ymchwil o'r math hwn.**

O ganlyniad i heriau cyllido, prin yw'r gwaith ymchwil pur a gomisiynwyd gennym ni yn ystod y cyfnod adrodd. Comisiynwyd darnau penodol o ymchwil er mwyn cefnogi'r gwaith dylanwadu ar bolisi, ac er mwyn cefnogi ein gwaith rheoleiddio, ond prin y gellir ystyried yr adroddiadau hyn yn astudiaethau thematig o bwys.

Prin hefyd yw'r gwaith cydlynu sy'n digwydd ar ymdrechion ymchwil neu gynlluniau comisiynu sefydliadau cyhoeddus Cymru. Awgrymwyd adeg lansio'r adroddiad 5-mlynedd diwethaf bod angen sefydlu mecanwaith i gydlynu ymchwil am y Gymraeg ond buan y gwelwyd y byddai angen neilltuo adnodd penodol i wireddu'r weledigaeth honno.

Mae mawr angen cyllido rhagor o waith ymchwil annibynnol am y Gymraeg. Fel y mae Fframwaith Gwerthuso'r Llywodraeth ei hun yn ei gydnabod:

> Ni ddylai'r gwaith o werthuso'r Strategaeth fod yn fater i Lywodraeth Cymru'n unig ond dylid ei rannu gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr iaith.[201]

Mae diffyg ffrydiau cyllido digonol yn ystod y cyfnod adrodd wedi profi'n her sylweddol i wireddu'r weledigaeth hon. Ein gobaith, fodd bynnag, yw bod yr adroddiad 5-mlynedd hwn yn cyfrannu at yr ymdrechion i werthuso gweithrediad *Cymraeg 2050* hyd yma a bod yr ymchwil a'r sylwebaeth a gynigir ynddo yn gyfraniad at ddeialog fydd yn wir yn 'sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr iaith'.

201 ***Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg***, t. 2.



Enw: **Geraint Owen Roberts**

Oed: **37**

Ardal: **Llangadfan, Powys**

55.6%

yn siarad Cymraeg yng nghymuned Banwy



Daw Geraint o'r ardal hon yn wreiddiol, ac wedi cyfnod yng Nghaerdydd mae bellach yn ôl yn byw yn Llangadfan, pentref bychan yng nghymuned Banwy, gyda'i wraig a'i blant. Cymraeg yw iaith yr aelwyd, a Chymraeg mae Geraint yn ei siarad â'i rieni a'i chwaer.

"Byddai fy mywyd i'n wahanol iawn heb y Gymraeg. Dwi'n credu y byse fy meddwl yn llawer mwy cul a llai agored i ddiwylliannau gwahanol."

Y Gymraeg drwy lygaid Geraint

Cymraeg roeddwn i'n siarad â phawb yn Ysgol Gynradd Banw. Yn Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion, Cymraeg roeddwn i'n siarad yn bennaf, er bod ambell ffrind yn siarad Saesneg.

Mi fues i a'm gwraig yn byw yng Nghaerdydd am sbel, gan ddychwelyd adref i fagu plant. Mae hi'n dod o'r ardal hefyd, er ei bod wedi mynd i ysgol uwchradd wahanol (Ysgol Uwchradd Llanfyllin). Mae'n rhyfedd sut y gwnaeth llawer o'm ffrindiau adael yr ardal i fynd i'r coleg ond mae pawb heblaw am un wedi dychwelyd erbyn hyn.

Dwi'n gweithio yn y maes cynllunio ac yn cael cyfle i siarad Cymraeg pan dwi'n delio efo aelodau o'r cyhoedd. Ond dwi ddim yn cael llawer o gyfle yn y gwaith efo Tai Canolbarth Cymru oherwydd fi ydy'r unig siaradwr Cymraeg yn ein swyddfa ni ar hyn o bryd.

Dwi'n cysylltu â Chyngor Sir Powys yn eitha' aml efo fy ngwaith cynllunio. Mae'n bosib cael siarad Cymraeg ond mae'n rhaid holi oherwydd dydy o ddim wastad yn amlwg. Mae hi'n haws siarad Saesneg yn aml iawn.

Yn y Trallwng, sef y dref agosaf i ni, mae yna rai siopau annibynnol lle mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio (tair alla' i feddwl amdanyn nhw), ac ambell fusnes (cyfreithwyr, cyfrifydd) lle mae siaradwyr Cymraeg yn cynnig gwasanaeth. Ond alla' i ddim meddwl am dafarn na lle bwyta ble gallech chi siarad Cymraeg yno.

Ysgol Cwm Banwy fydd y plant yn mynd iddi pan fyddan nhw'n cychwyn yn yr ysgol, sef dwy ysgol gynradd gyfagos sydd wedi uno'n ddiweddar. Cymraeg ydy iaith naturiol plant yn yr ardal yma, ac mi ydym ni'n ffodus fod yr ardal wledig rydyn ni'n byw ynddi yn dal yn Gymreigaidd iawn.



Enw: **Steffan John Phillips**

Oed: **55**

Ardal: **Treforys, Abertawe**

11.8%
yn siarad Cymraeg yn Nhreforys



Mae Steffan yn siarad Cymraeg â'i wraig a'i ddau o blant. Daw teulu ei fam o Ddyfnaint yn wreiddiol a Saesneg mae'n ei siarad â'i fam. Er bod ei dad yn gallu siarad Cymraeg, Saesneg maent hwythau yn ei siarad â'i gilydd.

Roedd yn arfer hyfforddi rygbi yn ei amser hamdden gyda Chlwb Bôn-y-maen lle byddai'n aml yn sylwi fod cenhedlaeth o rieni wedi colli'r Gymraeg, er bod y neiniau a'r teidiau yn medru'r iaith.

"Fydde bywyd yn od iawn gyda'r teulu os na fydden i'n siarad Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd. Mae e fel gweud, fel byddech chi'n ymdopi heb fraich? Bydden i'n gallu, ond bydde fe'n od. Bydde bywyd yn llai cyfoethog heb y Gymraeg."

Y Gymraeg drwy lygaid Steffan

'Oedd mam-gu yn siarad Cymraeg, ond 'oedd hi ffili siarad Cymraeg 'da fi. 'Oedd hi'n siarad Cymraeg 'da nghefnder. Ond dwi'n credu achos bod Mam yn ddi-Gymraeg roedd hi'n siarad Saesneg 'da fi.

Cymraeg i gyd oedden ni'n siarad yn Ysgol Cwmbwrla. Cwmbwrla oedd yr unig ysgol Gymraeg yn nwyrain Abertawe ar y pryd, ac o'n i'n trafeilu dros awr i fynd i'r ysgol ar y bws – er mai 10 munud oedd e o'r tŷ.

Ond yn Ystalyfera, 'oedd y mwyafrif yn siarad Saesneg. Fi'n cofio cael sioc siarad Saesneg 'da ffrindiau gyntaf. O'n i'n 11 oed a fi'n cofio'r mwyafrif ar y bws yn siarad Saesneg, felly wnaethon ni gyd droi.

Fi erioed wedi gadael Abertawe. Fi'n cofio cerdded i Three Cliffs 'da'r wraig, a phenderfynu ni byth yn mynd i adael. Wnaethon ni briodi'n ifanc, yn 22 oed. Gyda'r gwaith, ro'n i yn y car, ac mewn awyren drwy'r amser yn teithio drwy Ewrop, yn gweithio gyda chwmni iechyd. Ond do'n i ddim moyn gadael. 'Oedd y plant yn ifanc, ac 'o'n i moyn i'r plant fynd i ysgol Gymraeg.

Saesneg yw e i gyd lawr y stryd fawr ond fi'n siŵr fod pobl yn y siopau yn siarad Cymraeg, a neb yn gwybod. Nagyw'r acenion fel o'n nhw, ti ffili gweud gwahaniaeth nawr rhwng rhywun sy'n siarad Cymraeg, a rhywun sy'n siarad Saesneg.

Yn y pum mlynedd diwethaf fi'n credu bod bach fwy o Gymraeg yn Nhreforys. Fi'n aml yn gweld rhywun gyda plentyn yn siarad Cymraeg. Ond er bod 'na newidiadau wedi digwydd, mae siarad Cymraeg... mae e dal yn stigma yn Abertawe. Nagych chi moyn bod bach yn *rude* a siarad Cymraeg 'da rhywun os oes rhywun Saesneg yn y sgwrs 'fyd.

Y plant yw'r ateb i'r Gymraeg. Fi'n esiampl o beth a'th yn rong. Hoffen i weld ysgolion lle mae plant yn siarad Cymraeg 'da'i gilydd. 'Na be sy'n gorfod digwydd.



Enw: **Tim Hartley**

Oed: **60**

Ardal: **Llandaf, Caerdydd**

15.3%
yn siarad Cymraeg yn Llandaf



Mae Tim yn siarad Cymraeg â'i wraig a'i fab, ond Saesneg â'i rieni a'i chwiorydd. Roedd ei fam-gu a'i dad-cu yn dod o'r gogledd ac yn rhugl yn y Gymraeg. Roedd yn arfer bod yn Bennaeth Newyddion yn Llywodraeth Cymru a chyn hynny'n Gyfarwyddwr Corfforaethol S4C.

"Fel y bu erioed, bygythiad mwyaf y Gymraeg yw'r Cymry eu hunain. Mae nifer sylweddol yn dal i wrthod trosglwyddo'r iaith i'w plant ac yn dal yn gyndyn i'w defnyddio'n gyhoeddus."

Y Gymraeg drwy lygaid Tim

Roeddwn yn siarad ychydig o Gymraeg gyda mam-gu oedd yn dod o Flaenau Ffestiniog ond roedd hi'n meddwl amdani fel iaith werinol, ddiwerth. Mi wnes i a fy chwiorydd a 'mrawd fynychu ysgol Gymraeg yn y Barri ac yna Ysgol Gyfun Rhydfelen. Roedd rhai o'n cymdogion yn amheus iawn am yr hyn roedden nhw yn ei ystyried yn y 1960au yn arbrawf ieithyddol. Prin oedd y Gymraeg ar iard yr ysgol. Plant dosbarth canol Caerdydd oedd yr unig rai i siarad hi yn naturiol yn yr ysgol uwchradd. Roedd y Gymraeg yn gyfystyr ag ysgol ac yn *boring* o'r herwydd.

Ro'n i'n gweithio fel newyddiadurwr a darlledwr am flynyddoedd lawer. Roeddwn yn defnyddio'r Gymraeg fel bod angen yn y gwaith, ond wrth reswm pan ro'n i'n gweithio yn Llundain a rhanbarthau Lloegr doedd dim angen. Yn sicr roedd y Gymraeg o gymorth i gael rhai swyddi ac yn hanfodol gydag eraill.

Cymraeg yw iaith yr aelwyd, er bod fy ngwraig yn dod o Bort Talbot. Mi wnaeth hi ddysgu yn yr ysgol cyn gwneud gradd yn y Gymraeg. Mae'r mab yn byw yn Serbia ac mae Radio Cymru, S4C ar-lein a Cymru Fyw yn bwysig iddo gadw cyswllt gyda'r iaith.

Mae agweddau at y Gymraeg wedi newid yng Nghaerdydd ers fy ieuenctid i. *"Why you speaking that?"* oedd yr ymateb ar Queen Street yr ychydig droeon ro'n ni'n siarad Cymraeg yn y 1970au. Nawr, ar deras yn gwylio Cardiff City fe gewch chi, *"Oh that's lovely that is. Wish I'd learned it at school."*

Mae yna fwrlwm Cymraeg i bobol iau yn Nhrelluest a Threganna. Ond, erbyn i chi gyrraedd fy oedran i mae'r sin yn arafu. Roedd Clwb y Diwc yn Nhreganna yn gaffaeliad mawr i ni, Tafwyl yn uchafbwynt y flwyddyn ac mae yna ambell i noson gomedi a darllen barddoniaeth.

Mae criw da gyda ni wedi cydleoli yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn gwylio gemau pêl-droed, felly mae'r rhan fwyaf o gymdeithasu Cymraeg rwy'n ei wneud oherwydd fy ymdrechion fy hun.

Crynodeb gweithredol



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Crynodeb gweithredol **301**

Crynodeb gweithredol **303**

Safonau a strategaeth 303

Cyrchu at y miliwn 305

Cwmpasu pob cymuned 306

Sicrhau statws 308

Crynodeb gweithredol

Safonau a strategaeth

Bu'r pum mlynedd diwethaf yn ferw o ddatblygiadau a thrafodaethau gwleidyddol arwyddocaol yn ymwneud â'r Gymraeg. Ond does dim amheuaeth mai'r datblygiad a gipiodd y penawdau oedd cyhoeddi strategaeth iaith uchelgeisiol a hirdymor Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Datblygiad arall o bwys oedd gweld y sefydliadau cyntaf yn dechrau gweithredu safonau'r Gymraeg. Gyda'i gilydd – ac o'u gweithredu i'r eithaf – mae gan y ddau ddatblygiad hyn botensial i weddnewid sefyllfa'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf ac am genedlaethau i ddod. Craffu ar eu gweithrediad yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol yw prif nod ail adroddiad 5-mlynedd y Comisiynydd ar sefyllfa'r Gymraeg rhwng 2016 a 2020.

Nid oes canlyniadau cyfrifiad i'w dadansoddi yn yr adroddiad y tro hwn, ond mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 wedi parhau i ddylanwadu'n drwm ar ddatblygiadau polisi'r cyfnod adrodd. Yr enghraifft amlycaf, wrth gwrs, yw targed meintiol strategaeth y Llywodraeth wedi i'r cyfrifiad diwethaf ddangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Er i'r uchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr gael ei chroesawu'n fawr adeg ei chyhoeddi yn 2017, mae peth amheuaeth ynghylch a yw'r ymdrechion hyd yma'n ddigonol i'w gwireddu. Mae'n debygol hefyd y bydd angen gwaith adfer a buddsoddi sylweddol yn sgil effeithiau COVID-19 – rhywbeth na chynlluniwyd ar ei gyfer wrth lunio'r strategaeth, wrth gwrs.

Gall fod perygl weithiau o feddwl bod y strategaeth ar ei phen ei hun yn ddigon i gyflawni ei hamcanion. Y gwir amdani yw bod angen i'w hamcanion a'i hysbryd fod yn greiddiol i bob datganiad, polisi a deddf os yw'r Llywodraeth o ddifri am gyrraedd y miliwn o siaradwyr a chynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Y datblygiad sydd wedi cael yr effaith fwyaf pellgyrhaeddol ar sefyllfa'r Gymraeg yn y pau cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw cyflwyno safonau'r Gymraeg. Bellach, mae gan 123 o sefydliadau cyhoeddus ddyletswyddau cyfreithiol penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. Gall y rheini ymwneud â chyfathrebu neu gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd, llunio polisïau neu ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn y gweithle.

Y canfyddiad cyffredinol ymhlith siaradwyr Cymraeg yw bod gwasanaethau Cymraeg yn gwella o'r herwydd a'u bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg â sefydliadau cyhoeddus os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ond er bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn gynyddol a bod trefniadau'n bod er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg, nid oes data dibynadwy ar gael er mwyn dangos faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus. Nid yw'n ofynnol chwaith i'r sefydliadau hynny sydd o dan safonau fonitro'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

Dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith yw ail darged *Cymraeg 2050* ac felly mae angen ystyried yn ofalus, ond ar fyrder, sut i fesur y cynnydd hwnnw mewn modd ystyrlon. Er mwyn gweld cynnydd gwirioneddol, un o'n canfyddiadau cyson yw bod angen gwneud rhagor i hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Hyd yn oed yn absenoldeb data cadarn, gellir dweud â sicrwydd nad yw'r nifer o bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd yn cyfateb i'r nifer sy'n medru'r iaith.

Mae hynny'r un mor wir yn achos faint o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â busnesau ac elusennau. Heb fod y Gymraeg ar gael yn amlwg ac yn hwylus a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu marchnata a'u hyrwyddo, prin yw'r siaradwyr Cymraeg sy'n debygol o ofyn neu gymryd amser i chwilio am y dewis Cymraeg bob tro. Ac felly os nad ydynt yn ymwybodol fod y Gymraeg ar gael, ni fyddant yn defnyddio'r gwasanaeth ac ni fydd cynnydd yn y defnydd a wneir o'r iaith. Gall hynny yn ei dro gael effaith negyddol ar agweddau at yr iaith drwy wneud i sefydliadau a busnesau gwestiynu gwerth buddsoddi yn y Gymraeg o gwbl. Mae sicrhau bod y Gymraeg ar gael yn rhagweithiol ac yn amlwg yn hanfodol felly er mwyn gweld cynnydd yn y nifer sy'n ei defnyddio. Ceir trosolwg o ymdrechion Tîm Hybu'r Comisiynydd, ac eraill, yn y maes hwn yn Rhan 3.

Er canmol y newid sydd wedi dod yn sgil y safonau, mae rhai sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau iaith yn llawn o hyd. Ar y cyfan mae'n haws derbyn gwasanaethau Cymraeg ysgrifenedig na derbyn gwasanaethau llafar, personol ac ar y pryd. Awgryma hyn fod angen i sefydliadau recriwtio rhagor o siaradwyr Cymraeg, a chefnogi siaradwyr Cymraeg llai hyderus, er mwyn gallu cydymffurfio'n llawn â'r safonau a chynnig gwasanaethau Cymraeg cyson a dibynadwy.

Nid pob sefydliad cyhoeddus sydd dan safonau chwaith, ac mae rhai yn parhau i ddilyn cynlluniau iaith dan drefn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daeth i'r amlwg, fodd bynnag, nad yw gwasanaethau sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith ar gael yn Gymraeg i'r un graddau â gwasanaethau sefydliadau sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg. Yn hynny o beth, mae'n arwyddocaol bod lwerddon bellach, wrth sylwi ar lwyddiant y safonau, yn dilyn esiampl Cymru drwy symud oddi wrth drefn cynlluniau iaith i ddilyn trefn debyg i'r safonau a geir yma.

Er y diffyg data meintiol o ran cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, mae Rhan 3 yr adroddiad yn mynd i'r afael â'r graddau y mae gwasanaethau Cymraeg ar gael ynghyd â phrofiadau siaradwyr Cymraeg o'u defnyddio. Cynigir dwy astudiaeth achos yno hefyd sy'n rhoi sylw penodol i'r gwendidau yn y gwasanaethau Cymraeg sy'n bodoli yn y carchardai ac o fewn gofal dementia, gan bwysleisio nad cyfleustra neu ddewis i'w ffafrio yw'r Gymraeg bob tro – gall fod yn anghenraid.

Cyrchu at y miliwn

Haws yw mesur nod amlycaf *Cymraeg 2050*, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac er bod ffigyrau calonogol yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol yn sgil yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru, y cyfrifiad yw'r ffynhonnell swyddogol er mwyn mesur y cynnydd tuag at y miliwn. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hollbwysig felly i fesur a ydym ar y llwybr cywir i gyrraedd targedau taflwybr y Llywodraeth o weld 600,000 o siaradwyr erbyn 2021.

Mae'r sector addysg wedi bod yn ganolbwynt i'r ymdrech i greu siaradwyr newydd ers rhai blynyddoedd ac mae'r taflwybr i'r miliwn o siaradwyr a osodwyd gan y Llywodraeth yn pwyso'n drwm ar y sector hwn. Teg cydnabod bod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o gynllunio sylweddol yn y maes, ac efallai mai dyna sy'n gyfrifol am y ffaith mai ychydig o gynnydd gwirioneddol sydd i'w weld o hyd yn sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg statudol. Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol yn ystod y cyfnod adrodd oedd yr ymrwymiad i ddiddymu'r cymhwyster a'r rhaglen addysgu Cymraeg ail iaith a datblygu un continwwm ieithyddol ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar draws ysgolion Cymru. Fodd bynnag, nid yw bob tro'n amlwg fod gweledigaeth *Cymraeg 2050* ac ymrwymiadau fel yr uchod yn cael eu prif ffrydio'n llwyr i ddatblygiadau allweddol yn y maes fel yn achos y cwricwlwm newydd. Ni fydd modd asesu llwyddiant y datblygiadau hyn oll yn erbyn targedau *Cymraeg 2050* nes iddynt gael eu gweithredu, wrth gwrs.

Er pwysiced y system addysg i'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr, mae pwys cynyddol bellach yn cael ei roi ar drosglwyddo iaith yn y cartref er mwyn creu siaradwyr Cymraeg a chynnal defnydd cymunedol a chymdeithasol o'r Gymraeg. Tra bo'r rhai a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol yn debygol o ddewis addysg Gymraeg i'w plant hwythau, nid ydynt yn dueddol o drosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd. A phan nad yw'r iaith wedi ei throsglwyddo yn y cartref, clywir yn aml nad yw pobl yn defnyddio'r Gymraeg wedi gadael yr ysgol a bod diffyg hyder ganddynt yn eu sgiliau Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu polisi cenedlaethol yn sgil y canfyddiadau hyn ar drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu a fydd yn cael ei weithredu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Lle nad yw trosglwyddo'r iaith yn digwydd yn y cartref, trochi plant yn y Gymraeg o oedran ifanc yw'r ffordd orau o feithrin siaradwyr rhugl a hyderus. Ag ymrwymiad y Llywodraeth i gynnig 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 oed, mae buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud mewn gofal plant yn ystod y cyfnod adrodd. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae 77% o'r gwasanaethau gofal plant yng Nghymru yn gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant o 30 awr am ddim, roedd 25% o'r holl blant oedd yn manteisio ar y cynllun yn derbyn gofal yn Gymraeg, ond mae'r ganran honno'n amrywio'n fawr yn ôl awdurdod lleol. Roedd 75% o'r plant oedd yn elwa o'r cynllun yn derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yng Ngwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gâr, tra bo cyn lleied â 5% yn derbyn gofal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn nifer o ardaloedd y de ddwyrain.

Cwmpasu pob cymuned

Nid yw'r canrannau uchod yn ddim ond un enghraifft o'r amrywio sydd yn sefyllfa'r Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd a chymunedau ar draws y wlad, wrth gwrs. Mae hefyd yn brawf o'r angen i gyflwyno rhagor o ymyraethau yn yr ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith yn ogystal â gwarchod y cymunedau hynny sy'n cael eu hystyried yn gadarnleoedd y Gymraeg.

Yn hynny o beth, mae'r cysylltiad rhwng tai, gwaith ac iaith yn un sy'n parhau i ddenu sylw wrth i bobl ifanc adael ardaloedd gwledig, sy'n aml yn gadarnleoedd i'r Gymraeg, i geisio gwaith. Mae anallu pobl ifanc i fforddio prynu tai mewn ardaloedd gwledig a'r cynnydd mewn pryniant ail gartrefi hefyd yn batrwm cynyddol sy'n newid gwead cymunedau, ac yn un a fydd yn dwysáu eto o bosibl yn sgil pandemig COVID-19 a'r chwyldro sydd wedi bod yn y patrymau gweithio o bell. Yn 2019–20, amcangyfrifwyd bod 38% o'r tai a werthwyd yng Ngwynedd wedi eu prynu fel ail gartrefi neu gartrefi gwyliau, ac roedd y ffigyrau yn debyg ym Môn ac yng Ngheredigion hefyd.

Gwelwyd diffyg cysondeb yn yr ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i'r Gymraeg ym mholisïau cynllunio awdurdodau lleol ac nid yw'n glir sut y trosir ystyriaethau yn gweithredu ar lawr gwlad na sut y cânt eu monitro a'u gwerthuso. Nid oes gofyn i awdurdod lleol wneud asesiad o effaith ar y Gymraeg wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio unigol, er enghraifft, dim ond fel rhan o baratoi eu cynlluniau datblygu lleol sy'n ymdrin ag ardaloedd ehangach na chymunedau penodol.

Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod pwysigrwydd datblygu economaidd sy'n caniatáu i siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Anodd yw canfod tystiolaeth o'r cysylltiad rhwng hyfywedd iaith a chyfleoedd gwaith fodd bynnag heb arbrofi a buddsoddi'n sylweddol yn yr economi yn yr ardaloedd a ystyrir yn gadarnleoedd. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa £2m arbrofol Arfor rhwng 2016–20 ar gyfer creu rhagor a gwell swyddi i gefnogi twf yr iaith ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr. Ond prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd o lwyddiant y prosiect, ac mae'n bosibl nad yw chwistrelliad untro o arian heb fod iddo ddiben penodol iawn yn ddigon i greu sail dystiolaeth ynghylch y cysylltiad rhwng gwaith ac iaith.

Ynghlwm â'r cymunedau hyn mae diwylliant a gweithgarwch cymdeithasol Cymraeg. Mae'r Urdd a'r mentrau iaith yn parhau i wneud gwaith hanfodol yn cynnal ac yn annog gweithgareddau hamdden a chyfleoedd cymdeithasol yn Gymraeg, a thrafodir eu cyfraniad ymhellach yn Rhan 3. Mae S4C hefyd yn cefnogi ymdrech y Llywodraeth i gyrraedd y miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ac wedi datblygu arlwy arbennig i wasanaethu siaradwyr newydd drwy gydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion a'r Mudiad Meithrin, er enghraifft.

Mae ein defnydd o gyfryngau a thechnolegau digidol yn cynyddu o hyd a gwelwyd chwyldro yn ein defnydd ohonynt yn ystod 2020 ag argyfwng COVID-19 yn gorfodi pob agwedd o'n bywydau, fwy neu lai, i symud ar-lein. Mae'n her barhaus i'r Gymraeg geisio dal i fyny â'r datblygiadau yn y maes hwn, ac felly croesawyd cynllun gweithredu technoleg Cymraeg y Llywodraeth yn 2018. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dechnoleg lleferydd Cymraeg, technoleg cyfieithu a deallusrwydd artiffisial sgyrsiol a bellach mae 19 o'r 27 pecyn gwaith wedi eu cwblhau neu ar waith.

Yn ystod y cyfnod adrodd hefyd, yn 2016, y gwelwyd y prototeip cyntaf o system cynorthwyydd personol Cymraeg gan Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr. Ar y cyfan, araf yw'r datblygiadau mawr ym maes technoleg Cymraeg ac anodd yw dwyn perswâd ar y cwmnïau mawrion i gynnig y Gymraeg yn rhan o'u cynnyrch. Wedi dweud hynny, nid oes angen cefnogaeth y cwmnïau mawrion bob tro er mwyn cael llwyddiant. Mae Ap Geiriaduron yr Uned Technolegau Iaith yn brawf o hynny a chafodd ei lawrlwytho dros 200,180 o weithiau rhwng 2015 a 2020. Enghraifft arall o lwyddiant yn y maes technoleg yw'r Wicipedia Cymraeg sydd bellach yn cynnwys dros 131,000 o erthyglau – trothwy sy'n cael ei ystyried yn arwyddocaol yn rhyngwladol o ran presenoldeb iaith ar lein.

Mae cynnwys y Gymraeg mewn datblygiadau technoleg yn hollbwysig er mwyn iddi barhau i fod yn berthnasol i'n ffordd o fyw heddiw. Ac mae gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan siopau'r stryd fawr neu ar y llwyfan rhyngwladol yn effeithio ar ganfyddiad pobl o'r iaith a'i pherthnasedd i fywyd a gweithgareddau pob dydd siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd.

Sicrhau statws

Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ers 2011, a gwyntyllir yn Rhan 1 sut mae hynny wedi cael ei adlewyrchu mewn amryw ffyrdd dros y cyfnod adrodd. Cafodd y Gymraeg ei defnyddio am y tro cyntaf yn y Goruchaf Lys; daeth yn rhan greiddiol o'r system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru wrth i unigolion allu cwyno wrth y Comisiynydd am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg; ac ategwyd statws cydradd testun Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Ond er rhoi statws swyddogol i'r iaith ym Mesur y Gymraeg, efallai mai cam gwag yw peidio â chrybwyll cynllunio statws a bri'r Gymraeg yn y strategaeth iaith, yn enwedig â hithau wedi colli ei statws 'cyd-swyddogol' yn Ewrop yn sgil Brexit.

Mae'r safonau llunio polisi yn gosod cyfrifoldeb clir ar Weinidogion Cymru a sefydliadau eraill i ystyried sut y gall eu bwriadau effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg yn gyffredinol. Dyma sicrhau, drwy statud, fod lle i'r Gymraeg wrth galon llunio polisi yng Nghymru ac mae gweld cyfeiriadau at yr iaith mewn polisïau a deddfwriaeth yn cyfrannu, nid yn unig yn ymarferol ond hefyd yn syniadol at statws a bri'r Gymraeg. Nid mecanwaith i adnabod a lliniaru risgiau o gamwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg mo'r safonau polisi. Yn hytrach, maent yno i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan sefydliad yn cyfrannu at yr amcanion o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae dyletswydd felly i chwilio am effeithiau positif yn ogystal â lliniaru rhai andwyol.

Mae sawl datblygiad polisi arwyddocaol wedi bod o ran y Gymraeg dros y pum mlynedd diwethaf, ac megis dechrau mae'r daith o weithredu'r polisïau hynny'n ymarferol. Gwelwyd wrth i'r safonau ddod i rym bod cyflwyno newid sylweddol i drefn yn gallu arwain at newidiadau cadarnhaol yn sefyllfa'r Gymraeg. Bydd yn sicr angen rhagor o bolisïau radical mewn sawl maes er mwyn gweld newid sylweddol dros y blynyddoedd nesaf ac er mwyn gweld Cymru lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd a wneir o'r iaith ar gynnydd.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

0345 6033 221

post@cyg-wlc.cymru

@ComyGymraeg

ComisiynyddyGymraeg

comisiynydd-y-gymraeg-welsh-language-commissioner

www.comisiynyddygymraeg.cymru